3 1761 07129754 3

BS
1304
W455
1896
c. 1

ROBA

*From the Library*

*of*

PÁDRAIG Ó BROIN

LLAWLYFRAU
UNDEB YSGOLION SABBOTHOL
Y
METHODISTIAID CALFINAIDD.


# LLYFR Y BARNWYR

*GAN Y*
*PARCH. W. R. JONES*
(GOLEUFRYN)
CAERNARFON

0039053140341

1/3
*Cyhoeddedig gan*
Y GYMANFA GYFFREDINOL.

W. T. Powell.




W. & A.K. Johnston Edinburgh and London.

# LLAWLYFRAU

## UNDEB YSGOLION SABBOTHOL

Y

## METHODISTIAID CALFINAIDD,

DAN OLYGIAETH

PWYLLGOR Y GYMANFA GYFFREDINOL.

---

# LLYFR Y BARNWYR.

[ENTERED AT STATIONERS' HALL.]

*CYHOEDDEDIG GAN Y GYMANFA CYFFREDINOL*

YN SWYDDFA Y CYFUNDEB,

CAERNARFON.

---

1896.

Pob Archebion i'w hanfon i'r

Parch. D. O'BRIEN OWEN,

Book Agency,

CARNARVON.

# LLYFR Y BARNWYR,

GYDA

RHAGARWEINIAD A NODIADAU EGLURHAOL,

GAN Y

PARCH. W. R. JONES (GOLEUFRYN),

CAERNARFON.

CYHOEDDEDIG GAN Y GYMANFA GYFFREDINOL.

1896.

LIBRARY
15
JUL
1976
UNIVERSITY OF TORONTO

# NODIAD.

Yn mharotoad y nodiadau hyn ymgynghorwyd â'r gweithiau canlynol. Yn yr ymdriniaeth ar *ffurf lenyddol* Llyfr y Barnwyr, a'i le yn mysg llyfrau ereill yr Hen Destament, dilynwyd yr erthyglau rhagorol a geir yn Dr. Smith's *Dictionary of the Bible*, a Dr. Fairbairn's *Imperial Bible Dictionary*, y *Bible Educator*, dan olygiaeth Dr. Plumptre, yn nghyda'r rhagdraethodau dysgedig mewn amrywiol esboniadau cyhoeddedig ar y llyfr.

O berthynas i wahanol *ddarlleniadau* a *chyfieithiadau*, canlynwyd yn benaf, ond nid yn hollol, *The Holy Bible with various renderings and readings from the best authorities*, yr Hen Destament dan olygiaeth T. K. Cheyne, M.A., a S. R. Driver, M.A. Hefyd, y Cyfieithiad Diwygiedig o'r Hen Destament a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Cyfeirir ato yn y nodiadau eglurhaol gyda'r ffurf dalfyredig, C.D.

Am *ddeongliadaeth* y llyfr, ymgynghorwyd yn helaeth â'r *Speaker's Commentary:* Prof. Keil's *Commentary on the Book of Judges;* Dr. Jamieson's *Critical, Experimental, and Practical Commentary;* Deon Farrar, D.D., yn *The Old Testament Commentary, Edited by Bishop Ellicott;* ac yn neillduol y ddau Law-lyfr a gyhoeddwyd yn ddiweddar, un yn y *Cambridge Bible for Schools*, gan J. J. Lias, M.A., a'r llall yw un o'r *Hand-books for Bible Classes*, gan y Prif Athraw Douglas; y ddau yn anghydmarol i'r amcan y bwriadwyd hwynt, y cyntaf, o ran ei *ffurf* a'i *nodwedd lenyddol*, a'r llall o ran ei *fater*.

Am *hanesiaeth* cyfnod y "Barnwyr," dilynwyd yn lled fanwl Ewald's *History of Israel;* Stanley's *History of the Jewish Church*, Cyf. I. tudal. 242; Dr. Geikie's *Hours with the Bible*, Cyf. II. tudal. 456; ac *Israel under Joshua and the Judges, by Dr. Alfred Edersheim*, Cyf. IV.

Gyda golwg ar gyfeiriadau at *leoedd* a chwestiynau o *ddaearyddiaeth*, gwnaed defnydd o Ritter's *Palestine;* Robinson's *Biblical Researches;* Dr. Thomson's *Land and the Book* (y gyfrol ar *Southern Palestine* yn yr argraphiad newydd, 1881); Stanley's *Sinai and Palestine;* Canon

Tristram's *Bible Places;* Prof. George Adam Smith's *Historical Geography of The Holy Land: Third Edition;* a Cad. Conder's *Tentwork in Palestine* a'i *Hand-book to the Bible;* yn nghyda llyfrau a *mapiau* gwerthfawr y *Palestine Exploration Fund*—cymdeithas sydd wedi archwilio a pharthlenu yr oll o ddaear gysegredig Canaan, o'r tu gorllewinol i'r Iorddonen, a thrwy hyny wedi creu cyfnod newydd mewn Daearyddiaeth Ysgrythyrol.

Am y goleuni a deflir ar ranau o Lyfr y Barnwyr gan arferion a hanes trigolion presenol Palestina, ymgynghorwyd â hanes yr amrywiol deithwyr a fuont drwy y wlad, yn nghyda'r gwahanol law-lyfrau i'r wlad, megis yr eiddo *Bäedeker*, *Murray*, a *Manning;* a gwnaed defnydd hefyd, yn ddiarwybod o bosibl, o'r argraphiadau a gafodd yr ysgrifenydd ei hunan, pan yn nghwmni tri chyfaill, y bu drwy y wlad yn ngwanwyn y flwyddyn 1882.

Wrth roddi enwau *lleoedd* rhoddwyd, hyd y gellir penderfynu, eu henwau presenol rhwng cromfachau; ac wrth roddi enwau *personau* rhoddwyd ystyron eu henwau.

*LXX.*—Y cyfieithiad henaf sydd wedi dod i lawr i'n dyddiau ni o'r Ysgrythyrau o'r Hebraeg i'r iaith Roeg, ac a wnaed yn Alexandria yn niwedd y drydedd ganrif cyn Crist.

*Vulgate.*—Cyfieithiad Jerome o'r Ysgrythyrau i'r iaith Lladin.

*Targum* sydd air Caldaeg yn golygu *cyfieithiad* neu *ddeongliad.* Saif y gair yn awr am yr Aralleiriad Arameaidd a wnaed o'r Ysgrythyrau o'r Hebraeg i'r Aramaeg.

Drwg genym na ddaeth Esboniad Dr. G. F. Moore, Andover, ar y Barnwyr yn yr *International Critical Commentary,* i'n llaw hyd nes yr oeddym yn barod i fyned i'r wasg. Gwelwn mai ychydig o oleuni y mae yntau yn allu ei roddi ar gwestiynau dyrus amseryddiaeth ac awduriaeth. &c., y llyfr.

# RHAGARWEINIAD.

1. *Enw y Llyfr.*—Fel amryw o lyfrau hanesyddol y Beibl, cymer y llyfr hwn ei enw oddiwrth ei gynwysiad—cynwys hanes y Barnwyr (Heb. *Shophetim)* a lywodraethent ar Israel, o farwolaeth Josua hyd amser Eli, a chyfodiad Samuel. Gwir na chynwys hanes yr holl farnwyr a fu ar Israel; oblegid fe fu Moses a Josua yn barnu Israel cyn hyn, ac Eli a Samuel ar ol hyn; eto, dyry y llyfr hanes y barnwyr penodol hyny, y rhoddid y teitl hwnw mewn modd pendant arnynt, gan ddechreu yn Othniel a dybenu yn Samson. Mae cyfnod y Barnwyr (Barn. ii. 16—19; Ruth i. 1; 2 Sam. vii. 11), yn yr ystyr gyfyng hon, i'w wahaniaethu oddiwrth y cyfnod o'i flaen —tymhor arweinyddiaeth Moses a choncwest Josua, ac oddiwrth y cyfnodau ar ei ol—cyfnod uwchafiaeth Eli yr archoffeiriad, a'r cyfnod prophwydol a ddechreuodd yn nyddiau Samuel. Yn llyfr Josua ceir hanes gorchfygiad y Canaaneaid, ac yn llyfrau Samuel dechreuir y gyfres hono o lyfrau sydd yn rhoddi hanes y genedl o dan y brenhinoedd a'r prophwydi; ond cymer y llyfr hwn ei le, yn nghwrs hanesiaeth y Datguddiad Dwyfol, fel hanes Israel yn ystod "y Barnwyr."

2. *Awduriaeth ac Amseriad.*—Mater o ddyfaliad, i fesur mawr, ydyw adeg ysgrifeniad, a phwy ydoedd awdwr Llyfr y Barnwyr. Priodolir ef gan rai i Ezrah, gan gymeryd y cyfeiriad yn pen. xviii. 30, i olygu y caethgludiad i Babilon; ac felly, nad ydoedd wedi ei gyfansoddi cyn yr amgylchiad hwnw. Mwy tebyg o lawer fod y cyfeiriad hwnw at y trychineb yn nyddiau Eli, pan chwalwyd tŷ Dduw yn Siloh. Priodolir ef gan ysgrifenwyr Iuddewig yn lled gyffredinol i Samuel, ac yn hyn dilynir hwynt gan luaws o ysgrifenwyr Cristionogol; ac ar sail rhai profion mewnol, a'r ffaith fod Samuel yn hanesydd (1 Cron. xxix. 29), y mae y dybiaeth yn bur naturiol. Nis gall ei amseriad fod yn foreuach na diwedd y gorthrymder ar Israel yn amser y Philistiaid, yr hwn a derfynodd yn marwolaeth Samson, nac yn ddiweddarach na'r adeg y bwriodd Dafydd ymaith y Jebusiaid o Jerusalem (pen. i. 21). Gellir yn naturiol gasglu ei gyfansoddi yn mlynyddoedd cyntaf y frenhiniaeth, a chan un oedd yn mwynhau ei nodded, gan ei fod yn mynychu y dywediad am gyfnod y Barnwyr:—"Nid oedd brenin yn Israel" (pen. xviii. 1; xix. 1). Digon ydyw dywedyd, fodd bynag, yn mysg y lluaws a ddygid i fyny yn "ysgolion y prophwydi," oeddynt mor aml a blodeuog yn nyddiau Samuel, y ceid digon yn gymhwys i gyfansoddi y fath hanes, naill ai yn ystod bywyd a

than gyfarwyddyd uniongyrchol Samuel ei hunan, neu yn fuan ar ol ei farwolaeth.

*3. Awdurdod a Dilysrwydd.*—Profir ei ddilysrwydd (1) gan ei arddull, canys ceir ynddo luaws o eiriau na cheir mohonynt yn y llyfrau blaenorol iddo, ac eto *ni* cheir ynddo yr ymadroddion Arameaidd sydd yn britho Hebraeg diweddarach y llyfrau dilynol. (2) Gan rediad bywiog yr hanes, yr hyn a rydd argraph o wirionedd arno. (3) Gan gywirdeb y cyfeiriadau daearyddol a hanesyddol, megis cerbydau Jabin, tynged Sisera, dyfais filwraidd Gedeon, llofruddiad brodyr Abimelech, y rhai a gadarnheir gan arferion Dwyreiniol y cyfnod hwnw, a chan ddarganfyddiadau daearyddol diweddar yn Palestina. (4) Gan y ffaith ei fod yn ffurfio rhan bwysig o hanesiaeth awdurdodedig y genedl Iuddewig; ac fel Lefiticus, Numeri, a'r llyfrau hanesyddol ereill, yn dechreu gyda'r cysylltair "ac," yr hyn a ddengys ei fod yn ddolen yn y gadwen o lyfrau sydd yn adrodd yn ddidor hanes y genedl o'r oesoedd boreuaf.

Profir ei *awdurdod* (1) gan y ffaith ei fod wedi ei drosglwyddo i lawr drwy yr oesoedd fel rhan o'r Ysgrythyrau Hebreaidd, ac fel rhan hefyd o gyfieithiad y Deg a Thriugain. (2) Gan dystiolaeth gyffredinol ysgrifenwyr Iuddewig a Christionogol ei fod yn rhan o'r Canon. (3) Gan y cyfeiriadau ato mewn Ysgrythyrau ereill, megis—2 Sam. xi. 21; Nehem. ix. 25—31; Salm lxxviii. 56—64; lxxxiii. 7—11; cvi. 34—45; Esaiah ix. 4; x. 26; Hos. x. 9; Act. xiii. 20; Heb. xi. 32.

*4. Amcan.*—Nid ysgrifenwyd y llyfr hwn gyda'r amcan i fod yn ddim mwy na phenod yn hanes cenedlaethol Israel yn unig; ond ei amcan penaf ydyw, rhoddi hanes y Ddwyf-lywiaeth *(Theocracy)* Iuddewig, ac felly hanes eglwys Dduw yn nghyfnod neillduol y Barnwyr. Hanes y genedl o gyfeiriad Duw ydyw. Yr oedd cadw Israel yn ystod y tymhor cynhyrfus hwn, nid yn fater o ddamwain, eithr yn rhan o gynllun tragywyddol Duw er iachawdwriaeth y byd; felly y mae y llyfr yn hanes cyfiawnder, ffyddlondeb, a thrugaredd Duw. Saif y llyfr hwn yn ei berthynas â'r Pum' Llyfr, yn yr un berthynas ag y saif Llyfr yr Actau yn ei berthynas â'r Pedair Efengyl; yn unig rhoddir yno hanes *cynydd* yr Eglwys Gristionogol, tra y rhoddir yma hanes *dadfeiliad* yr Eglwys Iuddewig. Hanes *dirywiad* ydyw Llyfr y Barnwyr. Yn y cyfnod hwn yr oedd y tair elfen yn llywodraethiad ac addysgiad y wlad—y wladol, y ddefosiynol, a'r brophwydol—wedi myned yn dra dirywiedig. Y barnwyr yn brinion, yr offeiriaid yn llygredig, a'r prophwydi yn anaml. Yr oedd y llywodraeth *wladol* yn wanaidd, rhanedig, a didrefn; a phan y byddai y gorthrymder wedi myned yn annyoddefol braidd, cyfodid offerynau neillduol gan Dduw i waredu y genedl, a dyma y barnwyr. Arweinwyr milwraidd oeddynt, yn fwy na deddfwyr rheolaidd. Ystyr y gair Hebraeg—*Shophetim*—Barnwyr, ydyw *rhyddhawyr* neu *waredwyr*. Dyma y teitl a wisgai blaenoriaid y genedl o

ddyddiau Josua hyd amser Saul; ond y mae yn anhawdd penderfynu pa beth oedd yn gynwysedig yn y swydd, gan nad ydyw ei gwaith wedi ei ddarnodi yn fanwl yn y Beibl. Nid ydoedd "y barnwr" yn frenin; ac eto yr ydoedd yn rhywbeth heblaw penaeth y llwyth neu ynad cyffredin. Yn ochr ddynol y swydd yr oedd y barnwyr yn enghreifftiau nodedig o'r dynion cryfaf—gan olygu nerth yn ei ystyr oreu, nerth moesol ac ysprydol —yn gweithio i'r golwg. Arwyr eu hoes oeddynt, a dynion Duw oeddynt hefyd oherwydd eu gwisgo "â nerth o'r uchelder."

Yr oedd yr elfen *offeiriadol* yn y wladwriaeth wedi myned hefyd yn neillduol o adfeiliedig—yr offeiriadaeth yn llygredig, a'r addoliad cenedlaethol wedi ei golli o Siloh. Unig rwymyn eu hundeb cenedlaethol ydoedd eu haddoliad cenedlaethol; ac yr oedd hwnw wedi ei golli. Y mae hanes Micah a'i ddelwau, a'r Daniaid, yn mhenodau diweddaf y llyfr (y rhai sydd yn gyfamserol â rhanau boreuaf yr hanes) yn profi sefyllfa o ddirywiad mawr. Ac yr oedd yr elfen *brophwydol*, er yn ymddangos weithiau gyda nerth, ac yn hanes Deborah, wedi ei chyfuno â'r farnol, eto, ar y cyfan, yn eiddil, a'r prophwydi yn anaml.

5. *Dosbarthiad ac Amseryddiaeth.*—Ymrana y llyfr i dair rhan—

I. Yr Adran Arweiniol, yn cynwys pen. i. 1—iii. 7.

II. Y Prif Adroddiad, yn cynwys hanes rhyfeloedd ac anturiaethau y gwahanol farnwyr, pen. iii. 8—xvi. 31.

III. Yr Attodiad, pen. xvii.—xxi.

Cynwys *yr Adran Arweiniol* ddwy ran wahaniaethol, sef—

(1.) Pen. i. 1—ii. 9, yn cynwys math o adgrynhöad o amgylchiadau a sefyllfa y genedl o flaen ac i fyny hyd farwolaeth Josua. Mae yn amlwg fod casglydd y llyfr, yn yr adran hon, wedi gwneyd defnydd o'r un ffeithiau a chasglydd Llyfr Josua, a naturiol ydyw meddwl iddo eu cael o'r un ffynonell, *h.y.*, mewn rhyw hanes credadwy o ryfeloedd Israel (Jos. xiv.; xv.; xvi. 10; xvii. 12, &c.).

(2.) Pen. ii. 10—iii. 6, yn cynwys ardrem ar yr hanes y bwriedir ei adrodd yn nghorph y llyfr.

*Y Prif Adroddiad* ydyw cnewyllyn y llyfr, ac o berthynas i ddosraniad ac amseryddiaeth y rhan hon y ceir mwyaf o anhawsderau. Y *dosraniad* a ymddengys yn gweddu oreu â chymeriad y llyfr, fel rhan o hanes dadblygiad iachawdwriaeth Duw i'r byd, drwy hanes ei waredigaethau i'r genedl Iuddewig, ydyw eiddo y *Proffeswr Douglas; a hwnw, gydag ychydig o gyfnewidiadau, a fabwysiedir yn y llyfr hwn. Dodwn ef yn y daflen ganlynol, modd y gallo yr efrydydd ei weled âg un drem :—

* Gwel ei erthygl yn yr *Imperial Bible Dictionary* dan y gair "Barnwyr."

## Y CYFNOD CYNTAF, PEN. III. 7—V. 31.

| | BLWYDD. |
|---|---|
| I. *Gorthrwm.*—Cusan-risathaim o Mesopotamia ... | 8......iii. 8 |
| 1. Barnwr Othniel *(Llew Duw)* o lwyth Judah (mab Cenaz) ... ... ... ... ... ... ... | 40......iii. 11 |
| II. *Gorthrwm.*—Eglon; y Moabiaid, yr Ammoniaid, a'r Amaleciaid ... ... ... ... ... ... | 18......iii. 14 |
| 2. Barnwr Ehwd *(asio yn nghyd)*, mab Gera o lwyth Benjamin ... ... ... ... ... ... | 80......iii. 30 |
| 3. Barnwr Samgar *(rhyfelwr)* mab Anath o lwyth Naphtali (?), (Dan, yn ol Ewald) ... ... ... | — |
| III. *Gorthrwm.*—Jabin, brenin Canaan ... ... ... | 20......iv. 3 |
| | ——166 |

| | BLWYDD. |
|---|---|
| | ——166 |
| 4. Barnwr Deborah (y *wenynen)*, y brophwydes, gwraig Lapidoth, o lwyth Ephraim (?) ... ... 5. Barnwr Barac (y *daranfollt)*, mab Abinoam o lwyth Naphtali (?) ... ... ... ... ... | 40......v. 31 |
| | ——206 |

## YR AIL GYFNOD, PEN. VI.—X. 5.

| | |
|---|---|
| IV. *Gorthrwm.*—Midian, Amalec, a meibion y Dwyrain ... | 7......vi. 1 |
| 6. Barnwr Gedeon (y *cymynydd)*, mab Joas o lwyth Manasseh ... ... ... ... ... ... | 40....viii. 28 |
| Gormesdeyrn Abimelech *(y brenin)* mab Gedeon o lwyth Manasseh ... ... .. ... ... | 3......ix. 22 |
| 7. Barnwr Tola *(y pryf)*, mab Puah o lwyth Issachar | 23...... x. 2 |
| 8. Barnwr Jair *(Duw rydd oleuni)*, Gileadiad o lwyth Manasseh (?) ... ... ... ... ... ... | 22...... x. 3 |
| | —— 95 |

## Y TRYDYDD CYFNOD PEN. X. 6—XII. 31.

| | |
|---|---|
| V. *Gorthrwm.*—Yr Ammoniaid a'r Philistiaid ... ... | 18...... x. 8 |
| 9. Barnwr Jephthah *(yr hwn a ryddhaodd Duw)* mab Gilead o lwyth Manasseh ... ... ... ... | 6......xii. 7 |
| 10. Barnwr Ibsan *(alcan)* o Bethlehem, o lwyth Judah (?) | 7......xii. 9 |
| 11. Barnwr Elon *(derwen)* o lwyth Zabulon ... ... | 10......xii. 11 |
| 12. Barnwr Abdon *(gwasaidd)* mab Hilel y Pirathoniad, o lwyth Ephraim ... ... ... ... ... | 8......xii. 14 |
| | —— 49 |

Y PEDWERYDD CYFNOD, PEN. XIII.—XVI. 31.

VI. *Gorthrwm.*—Y Philistiaid... ... ... ... ... 40.....xiii. 1
13. Barnwr Samson *(cryf, fel yr haul, gwasanaethgar)*
mab Manoah o lwyth Dan ... ... ... ... 20......xv. 20
—— 60

Cyfanrif yr holl gyfnodau ... ... ... ... ... 410

Wrth gymeryd blynyddoedd yr holl gyfnodau gyda'u gilydd, a chymeryd i fewn hefyd y deugain mlynedd yn amser Eli (1 Sam. iv. 18), gwnant 410 × 40 = 450, sef, "yspaid yn nghylch pedwar cant a deng mlynedd a deugain," yr hyn a ddywed Paul yn Actau xiii. 20. Yr anhawsder ydyw, cael rhyw bwyntiau sylfaenol, un ai yn nghyfnod y barnwyr, neu o'r tu-allan iddo, i adeiladu i fyny ddamcaniaeth am amseryddiaeth y cyfnod. Heblaw y crybwylliad uchod o bregeth Paul ceir datganiad yn 1 Bren. vi. 1, fod y cyfnod rhwng y mynediad allan o'r Aipht a chysegriad y deml yn bedwar cant a phedwar ugain. Ond y mae amheuaeth mawr o berthynas i'r darlleniad cywir ar yr adnod yno. Tybia ereill y ceir sylfaen weddol yn yr âch-restrau yn Llyfr y Cronicl (1 Cron. ii. 10—15; vi. 4—8, 50—53, &c.). Ond y mae cynifer o fylchau gweigion a dolenau cûdd yn y rhestrau hyny, fel nas gellir adeiladu dim gyda mesur o sicrwydd arnynt. Hefyd, yn Barn. xi. 26, dywed Jephthah fod tri chan' mlynedd yn ei ddyddiau ef er pan ydoedd Israel yn trigo yn Hesbon. Wrth gyfrif yr amser, yn ol y blynyddoedd a geir yn syml yn Llyfr y Barnwyr, fe geir fod tua thri chan' mlynedd o amser gorthrymder Cusanrisathaim hyd orthrymder Israel gan feibion Ammon yn nyddiau Jephthah. Wrth gwrs, fe deimla yr efrydydd yn fuan mai un o'r cwestiynau anhawddaf a berthyn i'r llyfr ydyw ei amseryddiaeth; ac y mae yn amheus genym nad ei dywyllu a wneir gan esbonwyr wrth drafod llawer arno. O'r cyfan yr ydym ni yn tybied mai y pwyntiau mwyaf syml a naturiol, megis yr awgrym uchod o'r Actau, a'r llall o eiriau Jephthah, ydyw y mwyaf cywir, heblaw eu bod yn llawer rhwyddach na'r un arall. Gyda golwg ar amseryddiaeth y cyfnod hwn, yr ydym yn y sefyllfa hono yn disgwyl am oleuni. Hyd hyny, o bosibl nad y drefn symlaf ydyw'r debycaf o fod yn agos i'r gwirionedd. Yr anhawsder ydyw fod yma gynifer o fylchau o barhad anhysbys, megis o farwolaeth Josua hyd y gorthrymder yn amser Cusan-risathaim, y cyfnod y bu Samgar yn barnu, yn nghyda'r cyfnod o farwolaeth Samson hyd dymhor offeiriadaeth Eli. Y mae y cyfeiriadau amseryddol yn neillduol o anmhenodol ar ol dyddiau Gedeon. Dichon fod rhai o'r adegau a nodir yn y llyfr yn cyd-redeg â'u gilydd, *h.y.*, fod un barnwr yn barnu mewn un cŵr o'r wlad am dymhor penodol, pan oedd un arall yn barnu mewn cŵr arall. Y mae y nifer o flynyddoedd a nodir hefyd yn debycach i rifedi crynion nag i ddyddiadau manwl. Mewn gair, y mae yn anmhosibl

gwneyd dim gwell na dyfalu o berthynas i olyniad amseryddol yr amgylchiadau; ac felly y mae amseryddiaeth y llyfr yn annhenodol. Ceir haner cant, mwy neu lai, o wahanol ffyrdd gan esbonwyr i'w gysoni; ond y mae y rhan fwyaf ohonynt yn neillduol o blentynaidd.

Gan adael y pwnc o *amseryddiaeth*, fe wêl y darllenydd fod y *dosraniad* a roddasom uchod wedi ei ffurfio gan ymddangosiadau yr Angel a rhoddiad yr Ysbryd Glân. Yn ol y rhaniad hwn, fe gymerir yn ganiataol mai Mab Duw fel Angel y Cyfamod, yr hwn oedd yn hysbys i'r Patrieirch (Gen. xiv. 7—13), yr hwn a ymddangosodd i Moses yn y berth (Exod. iii. 2—14), a'r hwn a ymddangosodd i Josua "fel tywysog llu yr Arglwydd" (Jos. v. 13—15), a olygir. Deuai y person hwn i'r golwg, ar adegau neillduol yn hanes y genedl, i'w gwahodd yn ol ato ei hunan, ac i roddi ei ysbryd mewn modd arbenig i gymhwyso rhai i fod yn waredwyr iddynt. Cymharer y lleoedd canlynol:—Pen. ii. 1, a iii. 10; pen. vi. 13 a'r 34; pen. x. 11, a'r x. 29; pen. xiii. 3—21 a'r 25. Rhana yr ymddangosiadau hyn yr hanes i bedwar o enciliadau ac adferiadau; pob cyfnod yn meddu ei neillduolion ei hunan, a phob cyfnod o wrthgiliad yn dybenu mewn gadael y genedl yn ddyfnach mewn dadfeiliad, hyd oni ddelai y genad rasol, yn nghyda rhoddiad adnewyddol ei Ysbryd i'w hadferyd. Fe wêl y darllenydd y cynwys y *cyfnod cyntaf* dri thymor o orthrymder i'r genedl; pob un ohonynt yn feithach, ac efallai yn drymach a mwy diraddiol, y naill ar ol y llall, yn gymaint a bod y gelynion, y naill ar ol y llall, yn dyfod i berthynas agosach âg Israel. Cyfodwyd iddynt bump o farnwyr yn y cyfnod hwn. Ni chynwys yr *ail gyfnod* ond un tymor o orthrymder, a hwnw yn fyr—saith mlynedd; ond ei fod, dybygid, yn neillduol o ddiraddiol, ac ar gyfer hyny cyfodwyd iddynt bedwar o farnwyr. Nid oes yn y *trydydd cyfnod* drachefn ond un tymor o orthrymder, eithr y mae yn faith—deunaw mlynedd, a chyfodwyd iddynt, fel yn y cyfnod blaenorol, bedwar o farnwyr. Yn y *pedwerydd cyfnod*, yr un modd, nid oes ond un tymor o gaethiwed, ond fod hwnw yn un hir iawn—deugain mlynedd, a dim ond un barnwr, Samson, eithr fod hwnw yn un tra anghyffredin; a'r hyn a ddywedir am dano ydyw, y byddai iddo "ddechreu gwaredu Israel o law y Philistiaid" (pen. xiii. 5). Am fanylion pellach ar y gwahanol gyfnodau, gwêl y sylwadau o flaen pob cyfnod yn nghorph y llyfr.

Gwneir i fyny yr *atodiad* gydag adroddiad am ddau o amgylchiadau cyfamserol, efallai, â ffeithiau boreuaf y llyfr, sef—(1) Sefydliad addoliad delw Micah yn Dan. pen. xvii.—xviii. (2) Y rhyfel cartrefol gyda llwyth Benjamin, pen. xix.—xxi.

# LLYFR Y BARNWYR.

## PENOD I.

1 AC wedi marw Josua, meibion Israel a ymofynasant â'r
ARGLWYDD, gan ddywedyd, Pwy a ä i fyny drosom ni

### RHAN I.—YR ADRAN ARWEINIOL (PEN. I.—III. 7).

Y mae trefn yr amgylchiadau a gofnodir yn y rhan hon yn neillduol o ddyrus, ac arweinia yr ymadrodd (pen. i. 1), "ac wedi marw Josua," ni at un o brif anhawsderau amseryddol y llyfr, sef trefn y ffeithiau a gofnodir yn y penodau hyn. (1) Tybia rhai esbonwyr eu bod yn cynwys adroddiad olynol o amgylchiadau wedi cymeryd lle *ar ol* marwolaeth Josua, a bod y paragraph, pen. ii. 6—10, lle y cofnodir ei farwolaeth, wedi ei roddi i fewn, nid yn ei gysylltiad hanesyddol, eithr er mwyn *(a)* cysylltu yr hanes dilynol â Llyfr Josua, ac *(b)* i ddynodi y cyferbyniad rhwng Israel yn ystod bywyd Josua ac wedi ei farwolaeth. (2) Tybia ereill y dichon fod y testyn yn anghywir yma, a bod y gair "Josua" wedi llithro i mewn, drwy esgeulusdra yr adysgrifwyr, yn lle y gair "Moses," neu, os ydyw y gair "Josua" yn gywir, fod yr ymadrodd, "ac wedi marw Josua," yn edrych yn mlaen at pen. iii. 7, a bod y rhan hon o pen. i. 1 hyd iii, 7, wedi llithro i mewn yn ddamweiniol. Ymresyma y dosbarth hwn yn gryf, ac eithrio yr ymadrodd cyntaf hwn, fod y benod gyntaf yn rhoddi hanes sefyllfa y llwythau *yn ystod bywyd* Josua; a chan gydmaru cynwys y benod â rhanau o Lyfr Josua, dangosant y cynwys gadwen olynol o amgylchiadau, y naill yn cyfodi yn naturiol o'r llall, ac yn dybenu yn hanes marwolaeth Josua (pen. ii. 8). (3) Eglura esbonwyr ereill yr anhawsderau hyn mewn ffordd sydd, hwyrach, yn fwy cydweddol â nodwedd Llyfr y Barnwyr, drwy ddyweyd nad ydyw gosod y ffeithiau yn eu holyniad amseryddol yn amcan gan yr awdwr, ond ei fod, yn y benod gyntaf, yn rhoddi hanes, yn *ddaearyddol* yn benaf, yr hyn y llwyddodd neu y methodd y llwythau ei wneyd ; ac yn yr ail benod a dechreu y drydedd yn rhoddi eu hanes *moesol*. Mewn gair, y gyntaf yn rhoddi hanes cysylltiadau gwleidyddol Israel a'r Canaaneaid, a'r ail a'r drydedd benod hanes ei chysylltiad crefyddol â Duw. Desgrifia y benod gyntaf sefyllfa y wlad ar drothwy y cyfnod sydd i gael ei bortreiadu yn y llyfr, ac y mae y desgrifiad yn hollol gyson â'r datganiadau yn Llyfr Josua, lle y gosodir allan fod y wlad wedi ei rhoddi i'r genedl ; eto, rhanau ehelaeth ohoni heb ei meddianu ganddynt, a'r hên breswylwyr yn aros am amser maith yn ddrain yn eu hystlysau. Yn yr ail ceir hanes cyndynrwydd a gwrthnysigrwydd y genedl yn ystod holl dymor y Barnwyr. Yn nechreu y drydedd benod ceir rhestr o'r cenedloedd oeddynt yn aros-

yn erbyn y Canaaneaid yn flaenaf, i ymladd â hwynt?
2 A dywedodd yr ARGLWYDD, Judah a ä i fyny: wele,

---

heb eu darostwng. Amcan penaf yr Adran Arweiniol o'r llyfr ydyw parotoi y ffordd i'r Adroddiad dilynol; egluro paham yr oedd Israel mor egwan, a'r cenedloedd amgylchynol mor gryfion i'w gorthrymu, a thynu allan y gwersi mawrion o gyfiawnder a thrugaredd y Goruchaf, fel y maent yn dyfod i'r golwg yn hanes y genedl.

(1) ADGRYNHOAD O HANES Y GENEDL CYN A HYD FARWOLAETH JOSUA (pen. i.—ii. 9).

Y mae y rhan hon o'r *Adran Arweiniol* yn dwyn cyffelybrwydd mawr i ranau o *Atodiad* y llyfr, gymaint felly ag i brofi yn amlwg fod y ddwy ran —rhan gyntaf a rhan ddiweddaf Llyfr y Barnwyr, yn desgrifio amgylchiadau cyfamserol â'u gilydd. (1) Rhoddir arbenigrwydd, yn y naill ran a'r llall, i lwyth Judah a lleoedd o fewn rhandir Judah (cymharer pen. i. 1—21 a pen. xx. 18). Ni sonir am Bethlehem na Jebus yn nghorph y llyfr, ond y mae pen. xix. yn adrodd amgylchiadau wedi cymeryd lle yn Bethlehem Judah. (2) Gorphenir hanes ymfudiad llwyth Dan, a ddechreuwyd yn pen. i. 34, yn pen. xviii. 1—31. (3) Mae nodwedd werinol y llywodraeth, heb na barnwr, na blaenor, na brenin, dim ond "plant Israel" yn syml, yr un yn y pum' penod ddiweddaf ag yn pen. i. a'r ii. (4) Ceir yr un cyfeiriadau henafiaethol a daearyddol yn y ddwy ran. Cymharer pen. i. 36, gyda pen. xviii. 28, xxi. 19; pen. i. 23, gyda pen. xx. 31; pen. i. 11, 17, 23, 26, gyda pen. xviii. 29. (5) Defnyddir ymadroddion cyffelyb yn y naill ran a'r llall, y rhai sydd yn absenol o gorph y llyfr.

PEN. i. *1—8.—Rhyfeloedd Judah a Simeon; gorchfygu Adonibezec; cymeryd Jerusalem. 9, 10.—Juda a Chaleb yn gyru yr Anaciaid allan o Hebron. 11—13.—Ynill Debir gan Othniel. 14, 15.—Cais Achsah. 16.—Meibion Ceni. 17—21.—Llwyddiant pellach Judah, a llwyddiant rhanol Benjamin yn Jerusalem. 22—26.—Ty Joseph yn ynill Bethel drwy ddichell. 27—36.—Llwyddiant rhanol llwythau Mannasseh, Ephraim, Zabulon, Aser, Naphtali a Dan.*

(a) *Myned allan yn erbyn y Canaaneaid: Anturiaethau Judah a Simeon* (pen. i. 1—20.)

1. **Ac wedi marw Josua.**—Gwel y nodiad ar ddechreu yr adran arweiniol, tudal. 11. **Ymofynasant.**—Drwy Urim a Thumim yn ddiameu (Num. xvii. 21). Hawlfraint y llywodraethwr gwladol yn unig ydoedd apelio at yr archoffeiriad am ymgynghori drosto yn y ffordd hon â Duw.

2. **Juda a a i fyny.**—Dichon fod y lle hwn o anrhydedd yn cael ei roddi i Judah, (1) oherwydd iddo fod y cyntaf i dderbyn ei randir; (2) am ei fod y lluosocaf; (3) am fod gobeithion Mesianaidd y genedl wedi eu cysylltu mewn modd neillduol â thynged y llwyth hwn. **Y wlad,** *h.y.*, y rhandir a ddisgynasai drwy goelbren i'r llwyth, ac nid yr oll o wlad Canaan. Lleferir yn y penodau hyn am y llwythau fel pe byddent bersonau.

rhoddais y wlad yn ei law ef. A Judah a ddywedodd 3
wrth Simeon ei frawd, Tyred i fyny gyd â mi i'm rhandir,
fel yr ymladdom yn erbyn y Canaaneaid; a minau a äf
gyd â thi i'th randir dithau. Felly Simeon a aeth gyd âg
ef. A Judah a aeth i fyny; a'r ARGLWYDD a roddodd y 4
Canaaneaid a'r Phereziaid yn eu llaw hwynt: a lladdasant
o honynt, yn Bezec, ddengmil o wŷr. A hwy a gawsant 5
Adoni-bezec yn Bezec: ac a ymladdasant yn ei erbyn; ac

---

3. Simeon ei frawd.—Rhedai eu rhandiroedd i'w gilydd, ac yr oedd llwyth Simeon mor neillduol mewn gwendid, ag ydoedd llwyth Judah mewn nerth. I'm rhandir.—Cynwysai rhandir Judah gyfran helaethach o'r wlad na rhandir yr un o'r llwythau a drigent o'r tu gorllewinol i'r Iorddonen (Jos. xv. 1—12). Yr oedd ei hyd tua 45 o filldiroedd, a'i led tua 50; a rhenid ef yn foreu i bedair rhan:—(1) *Y Dehau (Negeb)*. Gwel adn. 9. (2) *Yr Iseldir (Shephelah)*. Y llain ffrwythlawn a ymestynai ar hyd arfor-dir Môr y Canoldir, o Gazah hyd Sidon, ac a ymledai o fin y tywottir ar lan y môr hyd at draed bryniau Judea. (3) *Y Mynydd-dir*. Dyma y rhan helaethaf o'r rhandir a'r bwysicaf, er nad y ffrwythlonaf. Dechreuai ychydig i'r deheu o Hebron, lle y cyrhaedda ei uwchder mwyaf (3000 o droedfeddi), ac ymestyn i'r dwyrain hyd y Môr Marw, ac i'r gorllewin hyd yr iseldir ar làn Môr y Canoldir. (4) *Yr Anialwch* (*Midbar*). Y mae y rhan hon, a'r rhan a nodwyd ddiweddaf, yn y desgrifiad ohonynt, yn rhedeg i'w gilydd yn fynych; ond cyfyngir y rhan hon at y diriogaeth suddedig ar gyffiniau y Môr Marw; er, fel y ceir gweled eto, ei fod yn myned weithiau am ranau helaeth o'r mynydd-dir hefyd (adn. 16). I'th randir dithau.—Rhoddasid y rhan fwyaf ddeheuol (*Negeb*) o'r wlad ar y cyntaf i Judah; ond wedi hyny i Simeon (Jos. xix. 9).

4. Y Canaaneaid.—Fel yr arwydda ystyr eu henw (isel), preswylient yr iseldiroedd. Cyfrifir hwynt yn gyffredin fel trigolion y gwastattir, rhwng Gazah a Sidon; ond llwyddasant i'r fath raddau nes dyfod yn brif elfen yn mhoblogaeth y wlad, a chafodd y wlad ei henw oddiwrthynt. Trigent hefyd yn nyffryn yr Iorddonen, rhwng Sodom a Lesah (Gen. x. 19). Eglura hyn yr ymadrodd yn Josua xi. 3, "Y Canaaneaid o'r dwyrain a'r gorllewin." Y Phereziaid.—Gellir casglu fod gwahanol genhedloedd y wlad yn cael eu henwi oddiwrth eu safleoedd daearyddol a'u harferion. Felly, golyga Phereziaid rai yn byw mewn gwlad agored—gwladwyr; a thrigent yn nghanolbarth Palestina (Gen. xxxiv. 30), ac yn Galilea Isaf.

5. Adoni-bezec.—Ystyr yr enw ydyw *arglwydd Bezec*. Feallai ei fod yn fab i Adoni-sedec (Jos. x. 1), ac fe ddichon yn cyd-deyrnasu â'i dad yn Jerusalem. Cadarnheir hyn gan y ffaith na ddywedir fod Jerusalem yn mysg y dinasoedd a gymerwyd gan Josua, er gorchfygu ohono ei brenin yn mrwydr Beth-horon. Bezec.—Ni chrybwyllir am y lle yn unman arall oddieithr yn 1 Sam. xi. 8. Nid oes sicrwydd pa le yr ydoedd, eithr tybia Conder mai yr adfeilion a adnabyddir yn awr dan yr enw *Bezkah*, ychydig i'r deheu o Lydda, ydyw.

6 a laddasant y Canaaneaid a'r Phereziaid. Ond Adoni-
bezec a ffodd; a hwy a erlidiasant ar ei ol ef, ac a'i dal-
iasant ef, ac a dorasant fodiau ei ddwylaw ef a'i draed.
7 Ac Adoni-bezec a ddywedodd, Deg a thri ugain o fren-
hinoedd, wedi tori bodiau eu dwylaw a'u traed, a fu yn
casglu *eu bwyd* dan fy mwrdd i: fel y gwneuthum, felly y
talodd Duw i mi. A hwy a'i dygasant ef i Jerusalem; ac
8 efe a fu farw yno. A meibion Judah a ymladdasant yn
erbyn Jerusalem; ac a'i henillasant hi, ac a'i tarawsant â
min y cleddyf; a llosgasant y ddinas â thân.
9 Wedi hyny meibion Judah a aethant i waered i ymladd
yn erbyn y Canaaneaid oedd yn trigo yn y Mynydd, ac yn
10 y Deheu, ac yn y Gwastadedd. A Judah a aeth yn erbyn
y Canaaneaid oedd yn trigo yn Hebron: (ac enw Hebron

---

6. Ac a dorasant fodiau ei ddwylaw a'i draed.—Wedi tori bodiau ei ddwylaw, analluogid ef i drin cleddyf a bwa; wedi tori bodiau ei draed, analluogid ef i redeg, y pethau oeddynt anhebgorion milwr. Diau fod ei greulondeb ef at y mân-frenhinoedd yn hysbys i Israel, a'u bod hwythau yn ad-dalu iddo yntau.

7. Yn casglu . . . dan fy mwrdd i.—Casglu o un i un—lloffa. Ymadrodd yn dangos y diraddiad mawr i ba un y darostyngasid y creaduriaid truenus hyn.

8. Mae anhawsder mawr yn nglŷn â'r hyn a ddywedir yma am gymeryd Jerusalem. Yn Jos. xv. 63, ceir fod y Jebusiaid heb eu llwyr ymlid ohoni, ac yn 2 Sam. v. 6—9, ceir na wnaed hyny hyd ddyddiau Dafydd. Dau eglurhad sydd yn bosibl—(1) Mai *rhanol* oedd y goresgyniad hwn, ac er llosgi y ddinas â thân, eto fod y Jebusiaid yn trigo yn yr amddiffynfa, ac iddynt, wedi hyny, ddyfod yn ol i'r ddinas. (2) Iddi gael ei llwyr-gymeryd y tro hwn, a bod hyny yn ystod bywyd Josua (Jos. xii. 10), ond na ddarfu i blant Judah ei meddianu a'i chadw â digon o filwyr; felly, darfu i'r Jebusiaid yn raddol ei hail feddianu.

9. Wedi hyny.—Ar ol llosgi Jerusalem. Y mynydd. C. D., "**Yn y Mynydd, ac yn y Deheu, ac yn yr Iseldir.**"—Mynydd-dir Judea. Gwêl nodiad ar adnod 3. Y deheu.—Y mae dau air yn yr Hebraeg a gyfieithir "deheu," un yn golygu y cyfeiriad, a'r llall (*Negeb*) yn golygu nodweddau daearyddol y wlad—gair cyfystyr â "sychder." Y diweddaf a ddefnyddir yma. Y gwastadedd.—Yr iseldir. Gwêl adn. 3. Mae y frawddeg hon yn grynhöad o'r hyn sydd yn canlyn—canys yr oedd Hebron a Debir (adn. 10, 11) yn y "mynydd-dir;" Arad a Sephath, adn. 16, 17, yn y "deheu;" Gazah, Ascalon, ac Ecron, adn. 18, yn yr "iseldir."

10—15. Ceir yr adnodau hyn, gydag ychydig iawn o wahaniaeth, yn Jos. xv. 14—19. Hebron.—Caer Arba. Dinas sydd, er yn ngwaelod dyffryn—dyffryn Escol, yn sefyll ar safle o tua 2,700 o droedfeddi uwchlaw Môr y Canoldir. Adeiladwyd hi "saith mlynedd o flaen Soan yn yr Aipht" (Num. xiii. 22), a phreswylir hi yn awr gan tuag wyth mil o drigolion, gan

o'r blaen *oedd* Caer-Arba :) a hwy a laddasant Sesai, ac
Ahiman, a Thalmai. Ac efe a aeth oddi yno at drigolion 11
Debir : (ac enw Debir o'r blaen *oedd* Ciriath-sepher :) A 12
dywedodd Caleb, Yr hwn a darawo Ciriath-sepher, ac a'i
henillo hi, mi a roddaf Achsah fy merch yn wraig iddo.
Ac Othniel mab Cenaz, brawd Caleb, ieuangach nag ef, 13

---

mwyaf yn Fahometaniaid rhagfarnllyd. Ei henw presenol ydyw *El-Khalil* —y cyfaill, neu ddinas cyfaill Duw. Yno y mae un o'r manau mwyaf cysegredig—ogof Maes Machpelah, yr hwn a wylir gydag eiddigedd gan ganlynwyr y gau-broffwyd. Am gysylltiad y ddau enw arni yn yr adnod hon y mae yn anhawdd penderfynu. (1) Tybia rhai mai Hebron oedd yr enw gwreiddiol arni (Gen. xxiii. 2), ond iddi gael ei galw yn Gaer Arba pan y goresgynwyd hi gan yr Anaciaid ; felly, yn ol yr eglurhad hwn, ni wnaeth Caleb ond adfer iddi ei henw gwreiddiol. (2) Tybia ereill iddi gael ei galw yn Hebron gan Abraham, ar gyfrif y cyfeillgarwch (yr hyn yw ystyr y gair Hebron) a fu rhyngddo â'r tri brawd, Aner, Escol, a Mamre (Gen. xiv. 13). Os felly, ei henw gwreiddiol oedd Caer Arba. Am Arba, gwêl Jos. xiv. 15; xv. 13. Sesai ac Ahiman a Thalmai.—Cewri Meibion Anac. Enwir hwynt yn Num. xiii. 22, a thrachefn, ar ol yspaid o bum' mlynedd a deugain, yn Jos. xv. 14, ac yn y fan hon hefyd, yr hyn a awgryma y saif yr enwau hyn, nid dros bersonau unigol, yn gymaint a thros lwythau wedi hanu ohonynt.

11. Debir (oracl).—Ceir fod tri lle yn dwyn yr enw. (1) Debir rhwng Jerusalem a Jericho (Jos. xv. 7). (2) Debir yn llwyth Gad (Jos. xiii. 26). (3) Y mae y Debir yn yr adnod hon, yn ol Conder, yr un â lle o henafiaeth mawr, ac a elwir yn awr *Dhâheriyeh*, rhyw ddeuddeng milldir i'r de-orllewin o Hebron. Enw arall ar yr un man ydoedd Ciriath-sepher (*Dinas-y-llyfr*), ac yn Jos. xv. 49, gelwir hi hefyd yn Ciriath-sanath (*Dinas-y-gyfraith*). Oddiwrth ystyron yr enwau hyn, naturiol ydyw casglu ei bod yn hên eisteddle dysgeidiaeth Ganaaneaidd, yn neillduol felly wrth feddwl fel y mae darganfyddiadau diweddar wedi taflu goleuni ar yr hen Hethiaid, y rhai a drigent yn y parthau hyny, a dangos y rhaid eu bod, yn y cyfnod boreu hwnw, yn genedl fawr a galluog, ac er yn baganiaid, yn meddu rhyw fath o wareiddiad.

12, 13. Othniel mab Cenaz, brawd Caleb.—Nid ydyw ffurf yr ymadrodd yn ein galluogi i benderfynu pa un ai Cenaz ydoedd frawd i Caleb ai Othniel. Anhawdd olrhain haniad Caleb. Myn rhai beirniaid mai cenedl-ddyn ydoedd, a gelwir ef yn Jos. xiv. 6—14 yn un o'r Ceneziaid ; a dywedir yn Ex. xii. 38, fyned " o bobl gymysg lawer " allan o'r Aipht gyda'r Israeliaid. Gwir y nodir ef yn yr âchrestrau yn 1 Cron. ii. 18, fel "Caleb mab Hesron o lwyth Judah," ond dylid cofio nad ydyw y rhestrau hyny ond gweithredoedd cyfreithiol, megis i ddangos gradd a pherthynas gyda golwg ar eiddo neu lwyth, ac nid perthynas naturiol. Y mae gwaith " meibion Judah " yn dyfod i bleidio ei achos gerbron Josua (Jos. xiv. 6) yn awgrymu nad oedd yn ddisgynydd naturiol o'r llwyth ; eto, o'r ochr arall, y mae yn annaturiol i feddwl fod llwyth pwysig fel Judah yn danfon estron i'w cynrychioli fel un o'r deuddeg ysbïwyr. Gall yr ymadrodd, " mab Cenaz," yma fod yn gyfystyr âg un o'r Ceneziaid, neu

B

a'i henillodd hi. Yntau a roddes Achsah ei ferch yn wraig
14 iddo. A phan ddaeth i mewn *ato ef*, hi a'i hanogodd ef i
geisio gan ei thad *ryw* faes: a hi a ddisgynodd oddi ar yr
15 asyn. A dywedodd Caleb wrthi, Beth a fyni di? A hi a
ddywedodd wrtho, Dyro i mi fendith: canys gwlad y
deheu a roddaist i mi; dyro i mi hefyd ffynhonau dyfroedd.
A Caleb a roddodd iddi y ffynhonau uchaf, a'r ffynhonau
isaf.
16 A meibion Ceni, chwegrwn Moses, a aethant i fyny o
ddinas y palmwydd gyd â meibion Judah, i anialwch

---

gellir ei gymeryd i olygu mai Cenaz ydoedd brawd Caleb. Dywedir fod y naill neu y llall o'r ystyron uchod yn oddefol yn ol yr Hebraeg.

14. Ryw faes.—Yn llythyrenol, **y maes**—y maes ydoedd, erbyn hyn, yn adnabyddus fel y maes a gawsai Achsah gan ei thad.

15. Dyro i mi fendith.—Cymharer Gen. xxxiii. 11; 1 Sam. xxv. 27; xxx. 26; 2 Bren. v. 15. Gwlad y deheu.—Nid gwlad yn y cyfeiriad hwnw, ond y Negeb—y tir sych.

16. Meibion Ceni, chwegrwn Moses.—C. D., **brawd-ynghyfraith Moses.** Gall y gair Heb. olygu "chwegrwn," ond gan fod yr Hobab, a olygir yma (pen. iv. 11), yn fab i Reuel (Num. x. 22), a hwnw yn chwegrwn i Moses, rhaid deall y gair am frawd-y'nghyfraith yn y fan hon. Crybwyllir am y Ceneaid gyntaf yn Gen. xv. 19, fel un o'r cenhedloedd a ddifeddienid gan hiliogaeth Abraham. Yn mhrophwydoliaeth Balaam, yn Num. xxiv. 21, yn gystal ag yn y fan hon, ac yn pen. iv. 11, o'r llyfr hwn, cysylltir hwynt â Moses fel ei deulu-y'nghyfraith. Y casgliad ydyw, gan fod Hobab, chwegrwn Moses, yn offeiriad a thywysog yn Midian, y rhaid fod y Ceneaid hyn o haniad Midianaidd, ac yn disgyn o Abraham drwy Ceturah. Ond pwy oedd y Ceneaid yn Gen. xv. 19? Yr eglurhad goreu ydyw mai llwyth Canaaneaidd oedd y rhai hyny, yn preswylio dinas Cain a'i chyffiniau (Jos. xv. 57); ond fod teulu Hobab, ar ol iddynt fwrw eu coelbren gydag Israel (Num. x. 29—32), wedi myned drosodd o flaen Israel, a'u bod, erbyn dyddiau prophwydoliaeth Balaam, wedi meddianu dinas Cain a'r enw, Ceneaid, ac mai am danynt hwy, neu yn hytrach eu dinas—Cain, fel y prawf ymyl y ddalen (Num. xxiv. 21), y prophwydai Balaam. Dinas y palmwydd.—Jericho. Deut. xxxiv. 3; 2 Cron. xxviii. 15; Barn. iii. 13. Gan fod y ddinas wedi ei llwyr ddinystrio gan Josua, ac nad ail-adeiladwyd hi hyd ddyddiau Ahab (Jos. vi. 24, 26; 1 Bren. xvi. 34), rhaid nad ydoedd yn bod yn awr ond fel carn o adfeilion. Awgrymiadol iawn ydyw ei galw yn "ddinas y palmwydd," ac nid Jericho, fel pe buasai melldith Josua wedi gwneuthur ei henw yn ffieidd-beth. A siarad yn gyffredinol, y mae o fewn cylch hanesiaeth, *dair* Jericho—(1) yr hên ddinas gyntefig a ddinystriwyd ac a felldithiwyd gan Josua, ac a ail-adeiladwyd yn mhen pum' canrif, yn nyddiau Ahab, pryd y cyflawnwyd y felldith (1 Bren. xvi. 34). Safai, fel y tybir, yn agos i'r fan y mae y ffynon a elwir yn awr, "Ffynon y Sultan,"—*Ain-es-Sultan*—yr hon yn ddiau yw ffynon Eliseus. (2) Y ddinas a adeiladodd Herod Fawr rhyw filldir a haner

Judah, yr hwn *sydd* yn neheu Arad: a hwy a aethant ac a
drigasant gyd â'r bobl. A Judah a aeth gyda Simeon ei 17
frawd: a hwy a darawsant y Canaaneaid oedd yn pre-
swylio yn Sephath, ac a'i difrodasant hi. Ac efe a alwodd
enw y ddinas Hormah. Judah hefyd a enillodd Gazah a'i 18
therfynau, ac Ascalon a'i therfynau, ac Ecron a'i therfynau.
A'r Arglwydd oedd gyd â Judah: ac efe a oresgynodd y 19
mynydd: ond ni *allai efe* yru allan *drigolion* y dyffryn;
canys cerbydau heiyrn *oedd* ganddynt. Ac i Caleb y 20
rhoisant Hebron; fel y llefarasai Moses: ac efe a yrodd
oddi yno dri mab Anac. Ond meibion Benjamin ni yrasant 21

---

i'r deheu o safle yr hên ddinas, ar làn y *Kelt* (Cerith?), ac yn y fan y mae "dyffryn Achor" yn ymagor i ddyffryn yr Iorddonen. Hon ydoedd Jericho y Testament Newydd yr ymwelodd ein Hiachawdwr â hi, a'r lle yr adferodd efe ei olwg i'r dall, ac yr aeth efe i dŷ Zaccheus. (3) Y pentref distadl o fythod clai sydd yno yn awr, ac a elwir *Er-Riha*, gair sydd, er anhebyced yr edrych, yn yr Arabaeg yn gyfystyr, meddir, â'r gair Jericho yn Hebraeg. Saif rhyw haner milldir yn nês i'r deheu; ac felly yn nes i'r Iorddonen a'r Môr Marw, na safle Jericho y Testament Newydd. Y mae y llwyni palmwydd wedi hên ddiflanu. **Anialwch Judah.**—Gwêl adn. 3. Ymestyna rhwng trum bryniau Hebron ac i'r Môr Marw, a ffurfia derfyn dwyreiniol rhandir Judah. Dernyn o ddaear annesgrifiadwy o noethlwm ydyw, byrdd-dir o galchfaen meddal, yn cael ei hollti yn fynych, ac yn ddwfn gan agenau, a'r rhai hyny yn rhedeg i lawr i'r Môr Marw, ac yntau ei hunan yn disgyn yn syth i lawr i'r môr hwnw gyda disgyniad o tua dwy fil o droedfeddi o ddyfnder. **Arad.**—Bryn llawn o adfeilion, tuag ugain milldir i'r deheu o Hebron, ac a elwir yn bresenol, *Tell Arad.*

17. **Sephath.**—Yn ol Tristram, *Sebaita*, yn nghanol y *Negeb*. Dyry Robinson y lle yn agos i *Es-Sufah*, i'r de-orllewin i'r Môr Marw, lle y gorchfygwyd yr Israeliaid gan y Canaaneaid (Num. xiv. 44, 45), a'r lle, wedi hyny, y gorchfygwyd y Canaaneaid gan yr Israeliaid (Num. xxi. 1—3). Ystyrir y lle gan Conder heb ei ddarganfod. Fe'i galwyd hi yn *Hormah*, oblegid ystyr y gair ydyw *neillduo i ddinystr*.

18. **Gazah, Ascalon, ac Ecron.**—Tair dinas allan o bump a wnelai i fyny diriogaeth pum arglwydd y Philistiaid. Enwir hwynt yma yn y drefn hon oherwydd fod Simeon a Judah yn eu gorchfygu, dybygid, wrth ddyfod i fyny o'r deheu.

19. Yn yr adnod hon nodir holl ganlyniadau yr ymgyrch, felly fe feddianodd Judah y mynydd-dir, a dim ond y mynydd-dir, canys ni allai, oblegid ei ddiffyg ffydd, oresgyn y gwastattir. **Cerbydau heiyrn.**—Cerbydau cyffelyb i gerbydau yr Aipht—coed wedi eu cryfhau â haiarn (Jos. xi. 6; Barn. iv. 3).

20. **Fel y llefarasai Moses.**—Gwêl Num. xiv, 24; Jos. xiv. 9.

(b) *Cyflwr y Llwythau ereill yn eu perthynas â'r Canaaneaid,*—i. 21—36.

21. Methodd *Benjamin* a gyru y Jebusiaid allan o Jerusalem. Yr oedd

allan y Jebusiaid y rhai oedd yn preswylio yn Jerusalem:
ond y mae y Jebusiaid yn trigo yn Jerusalem gyd â meibion
Benjamin hyd y dydd hwn.
22 A thŷ Joseph, hwythau hefyd a aethant i fyny yn erbyn
23 Bethel: a'r ARGLWYDD *oedd* gyd â hwynt. A thylwyth
Joseph a barasant chwilio Bethel: (ac enw y ddinas o'r
24 blaen *oedd* Luz.) A'r ysbïwyr a welsant wr yn dyfod allan
o'r ddinas; ac a ddywedasant wrtho, Dangos i ni, atolwg,
y ffordd yr eir i'r ddinas, a ni a wnawn drugaredd â thi.
25 A phan ddangosodd efe iddynt hwy y ffordd i fyned i'r
ddinas, hwy a darawsant y ddinas â min y cleddyf; ac a
26 ollyngasant ymaith y gwr a'i holl deulu. A'r gwr a aeth
i wlad yr Hethiaid; ac a adeiladodd ddinas, ac a alwodd
ei henw Luz: dyma ei henw hi hyd y dydd hwn.
27 Ond ni oresgynodd Manasseh Beth-sean na'i threfydd,
na Thaanach na'i threfydd, na thrigolion Dor na'i thref-
ydd, na thrigolion Ibleam na'i threfydd, na thrigolion

---

Jerusalem yn briodol o fewn rhandir Benjamin (Jos. xviii. 28), ac eto mor agos i'r eiddo Judah (Jos. xv. 8), fel ag yr oedd yn ddyledswydd arnynt, ac yn fantais iddynt ymuno â'u gilydd i'w goresgyn. Yr unig ffordd i gysoni yr adnod hon â'r wythfed ydyw, fod Judah a Simeon wedi cymeryd y *ddinas* a'i llosgi â thân, ond wedi gadael yr *amddiffynfa* i lwyth Benjamin i'w chymeryd, a'u bod hwythau wedi methu. Y mae *Ty Joseph* (adn. 22) yn golygu llwyth Ephraim a llwyth Manasseh yn nghyd, yna yn adn. 27, 28, nodir haner llwyth Manasseh ar wahân; ac yn adn. 29 nodir Ephraim ar wahân.

22. Bethel (Beitin).—Dinas yn sefyll ar safle uchel, ar gyffiniau rhandir Ephraim a Benjamin, ar ben y glyn dwfn sydd yn rhedeg i fyny o Jericho rhwng y mynyddoedd i Ai.

23, 24. Yr ysbiwyr.—Yn llythyrenol, **y gwylwyr.**

25, 26. Hethiaid.—Cenedl fawr ydoedd yr Hethiaid, yn disgyn, fel y tybir, o Heth, ail fab Canaan (Gen. xxiii. 19; xxv. 9), ac yn preswylio yn ngogledd Canaan, a'i phrif-ddinas, Carchemish—prif eisteddle ei chrefydd a'i gwareiddiad,—a ddarganfyddwyd yn ddiweddar (1881) gan Conder, ar lan llyn, gerllaw yr afon Orontes, yn Syria. Ond y mae y gair "Hethiaid" yn myned weithiau am yr oll o breswylwyr Canaan (Jos. i. 4). Luz.—Yn ol barn Conder yr un a *Luweizah*, yn agos i Dan (*Banias*). Peth cyffredin, yn yr hen oesoedd, ydoedd i ffoedigion o un ddinas, adeiladu dinas arall o'r un enw a'r hon y ffoisant ohoni.

27, 28. Ond ni oresgynodd Manasseh.—Noda yr adnodau hyn wregys o ddinasoedd yn cyrhaedd am ganol y wlad megis, o lan Môr y Canoldir hyd ddyffryn yr Iorddonen, y rhai ni oresgynwyd, a'r rhai a fuont, oherwydd hyny, yn ddrain yn ystlysau Israel am amser maith. Bethsean a'i threfydd.—Yn llythyrenol, **a'i merched,** sef nifer o

Megide na'i threfydd: eithr mynodd y Canaaneaid bre-
swylio yn y wlad hono. Ond pan gryfhaodd Israel, yna 28
efe a osododd y Canaaneaid dan dreth; ond nis gyrodd
hwynt ymaith yn llwyr.
Ephraim hefyd ni yrodd allan y Canaaneaid oedd yn 29
gwladychu yn Gezer; eithr y Canaaneaid a breswyliasant
yn eu mysg hwynt yn Gezer.
A Zabulon ni yrodd ymaith drigolion Citron, na phre- 30

---

fân-drefi o fewn cylch rhyw bum' milldir (Jos. ix. 17) i'r prif-ddinasoedd. Bethsean.—Scythopolis, ar ol hyny, ac a elwir yn awr *Beisan*, ydoedd ddinas yn perthyn yn briodol i randir Issachar, ond a roddwyd i Manasseh (Jos. xvii. 11). Saif uwchben yr Iorddonen, ar drwyn craig uchel, yn cael ei chwmpasu gan geunentydd serth—"math o Gibraltar ar raddeg fechan"—yn agos i'r fan y mae dyffryn Jezreel yn terfynu yn nyffryn yr Iorddonen. Thaanach.—Adwaenir y lle hwn yn awr fel *Taanuk*, pentref bychan yn nghŵr dyffryn Esdraelon. Hên amddiffynfa Ganaaneaidd ydoedd, a lladdwyd ei brenin gan Josua (Jos. xii. 21). Rhoddasid hi i lwyth Manasseh, ond daeth, wedi hyny, yn un o'r dinasoedd Lefiaidd (Jos. xxi. 25). Dor (Tantura).—Pentref salw, ond llawn o adfeilion, ar lan Môr y Canoldir, wrth droed mynydd Carmel, rhyw chwe' milldir i'r gogledd o Cesarea. Rhoddasid y lle, ar y cyntaf, i Manasseh; ond crybwylla Josephus y perthynai i Dan yn ei ddyddiau ef. Ibleam.—Yr un, fel y tybir, a Bileam (1 Cron. vi. 70), a'r hon a adwaenir yn awr dan yr enw *Belamah*, pentref yn ngwaelod dyffryn Esdraelon, tua thair milldir i'r gogledd o Enganim (*Jenin*), 2 Bren. ix. 27. Megido.—Un o'r trefydd pwysicaf yn hanesiaeth y Beibl (Jos. xii. 21; 2 Bren. ix. 27; xxiii. 29; Zech. xii. 11; Dat. xvi. 14—16). Enwir Thaanach a hithau bob amser gyda'u gilydd. Y mae dwy dybiaeth o berthynas i'w lleoliad. (1) Tybia y rhan amlaf o'r esbonwyr mai y lle a adnabyddir yn bresenol fel *Lejjun*, llygriad Arabaidd o *Legio*, yr hên enw Rhufeinaidd ar Megido y Beibl, ydyw. Saif ar gŵr dyffryn Esdraelon, tua phedair milldir a haner i'r gogledd-orllewin o Thaanach. (2) Tybia Conder yn gryf mai carnedd o adfeilion, rhyw dair milldir a haner i'r de-orllewin o Bethsean, ydyw. Adnabyddir y lle yn bresenol wrth yr enw *Mujeddá*.

28. Dan dreth.—Math o doll a delid gan y Canaaneaid am gael cario yn mlaen eu cysylltiadau masnachol, neu arall, rhwng Môr y Canoldir a dyffryn yr Iorddonen, ar hyd dyffryn Jezreel. Ond yr oedd hyn yn hollol groes i orchymyn yr Arglwydd i Israel (Exod. xxiii. 31—33; Deut. vii. 1—6); a bu, ar ol hyn, yn un o brif achosion eu hanffodion.

29. Gezer (Tell-el-Jezer).—Dinas ar bwynt eithaf terfyn deheuol rhandir Ephraim, tua phedair milldir o Emaus (*Amwas*), (?) ac yn amlwg weladwy o'r ffordd o Jerusalem i lawr i Joppa. Darganfyddwyd ei lleoliad yn ddiweddar, a chafwyd ar graig yn y lle argraph Hebraeg cyfystyr â'r enw Gezer (Jos. xvi. 10; 2 Sam. v. 25; 1 Bren. ix. 16).

30. A Zabulon ni yrodd.—Yr oedd Zabulon i fyny yn y gogledd, yr un modd a Manasseh yn y canolbarth, wedi ymfoddloni ar "drethu" y Canaaneaid. Rhoddasid i Zabulon y mynydd-dir a ffiniai, ar

swylwyr Nahalol; eithr y Canaaneaid a wladychasant yn
eu mysg hwynt, ac a aethant dan dreth.
31 Ac Aser ni yrodd ymaith drigolion Acco, na thrigolion
Sidon, nac Alab, nac Achzib, na Helbah, nac Aphic, na
32 Rehob: Ond Aser a drigodd yn mysg y Canaaneaid,
trigolion y wlad; canys ni yrasant hwynt allan.
33 A Naphtali ni yrodd allan breswylwyr Beth-semes, na
thrigolion Beth-anath; eithr efe a wladychodd yn mysg y
Canaaneaid, trigolion y wlad: er hyny preswylwyr Beth-
semes a Beth-anath oedd dan dreth iddynt.
34 A'r Amoriaid a yrasant feibion Dan i'r mynydd: canys

---

du y gogledd, ar ddyffryn Jezreel; o lechweddau dwyreiniol Carmel, ar y gorllewin, hyd i dueddau de-orllewinol Môr Galilea ar y dwyrain. **Citron a Nahalol.**—Efallai Cattath a Nahalol yn Jos. xix. 15. Ni wyddys i ddim sicrwydd am eu lleoliad, heblaw fod Nahalol yn un o'r dinasoedd Lefiaidd (Jos. xxi. 35). Darllena un o'r Talmudiau Zippori am Citron: os cywir hyny, gellir tybied mai yr un ydyw a'r hên Sephoris (*Seffurieh*), tair milldir i'r gogledd-orllewin o Nazareth.

**31, 32. Ac Aser ni yrodd.**—Yr unig lwyth o'r llwythau a drigent y tu gorllewinol i'r Iorddonen a adewir allan o'r desgrifiadau hyn ydyw Issachar. Ond o'r un o'r llwythau a ddesgrifiwyd hyd yn hyn, cyflwr Aser ydyw yr isaf. Nid y Canaaneaid a oddefir i fyw gydag ef, eithr efe a oddefir i fyw gyda'r Canaaneaid. Am y saith dinas a nodir yn yr adnodau hyn, y mae rhai ohonynt yn anhysbys, ac ereill yn dra hysbys yn hanesiaeth y Beibl. **Acco.**—Dyma yr unig dref yn Palestina sydd lawn mor enwog, os nad yn fwy felly, mewn hanesiaeth diweddar ag mewn hên hanesiaeth. Gelwid hi Ptolemais yn amser y Rhufeiniaid, a gelwir hi *Acre* yn awr. Gorwedd ar làn y môr tua deng milldir i'r gogledd o fynydd Carmel. Yn *Haiffa*, rhyngddi hi a throed mynydd Carmel, y mae yr unig borthladd *naturiol* ar arfordir Palestina. **Sidon (Saida),** "Sidon Fawr" (Jos. xi. 8). Prif-ddinas Phœnicia, a thref borthladdol bwysig gynt ar arfordir Syria. **Alab (El-Jish).**—Lle, fel y tybir, bellder mawr o làn y môr, a chryn bellder hefyd, mewn cyfeiriad gogledd-orllewinol, o Fôr Galilea. **Achzib (Ez-Zib).**—Tref fechan, borthladdol, tua naw milldir i'r gogledd i Acra. Gelwid hi yn yr ysgrifeniadau clasurol, Eedippa. **Helbah.**—Yn anhysbys. **Aphic.**—Yr un, efallai, ag Aphec (Jos. xiii. 4: xix. 30. Tybir, ond gyda chryn betrusder, mai yr un ydyw a lle a elwir *Afka*, ar un o lechweddau gogledd-orllewinol Libanus. **Rehob.**—Gwêl Jos. xix. 28; Barn. xviii. 28. Safle yn anhysbys.

**33.** Nid ydyw *Naphtali* wedi suddo lawn mor isel ag Aser, oblegid y mae yn dwyn trigolion Beth-semes *(Ty yr haul)* a Beth-anath dan dreth. Eu safleoedd yn anhysbys; ond nid yw y gyntaf yr un a Beth-semes yn rhandir Judah (Jos. xv. 10; 1 Sam. vi. 13—20).

**34, 35. A'r Amoriaid a yrasant Dan i'r mynydd.**—Rhandir Dan ydoedd y lleiaf, ond y cyfoethocaf o'r holl randiroedd. Gorwedda i'r gorllewin i'r eiddo Benjamin ac Ephraim, ac i'r gogledd-orllewinol

ni adawsant iddynt ddyfod i waered i'r dyffryn. A'r Amor- 35
iaid a fynai breswylio yn mynydd Heres yn Ajalon, ac yn
Saalbim: eto llaw tŷ Joseph a orthrechodd, a'r *Amoriaid*
fuant dan dreth *iddynt.* A therfyn yr Amoriaid *oedd* o riw 36
Acrabbim, o'r graig, ac uchod.

---

i'r eiddo Judah. Mewn gwirionedd, nid ydoedd ond tafell fechan wedi ei thori allan megis o gŵr gogledd-orllewinol rhandir Judah, ac nid ydoedd yn ddigonol i'r llwyth (Jos. xix. 47). Ond gwasgai yr Amoriaid arnynt yn y "dyffryn" a'r "mynydd." Dynoda y gair *Amoriaid* breswylwyr yr ucheldir; ac fel y gwelir oddiwrth hanes Sehon, eu brenin (Num. xxi. 24), mewn mynydd-dir yr oedd eu trigfod priodol; eto, yma y maent wedi meddianu y gwastadedd hefyd (adn. 35). **Mynydd Heres (Mynydd yr haul).**—Y mae rhai yn gryf o'r farn mai yr un ydyw y lle hwn a Beth-semes *(Ty yr haul)*, yn llwyth Judah, ac mai yr un yw y lle hwnw ag Ir-semes *(Dinas yr haul)* y crybwyllir am dani yn Jos. xix. 41, a lleolant hi yn y fan a adwaenir yn awr dan yr enw *Ain-shems (Ffynon yr haul)*—adfeilion pwysig i'r gorllewin o Jerusalem, braidd yn nghŵr gwastadedd y Philistiaid *(Shephelah)*. Yr anhawsder ydyw cysoni hyn â'r ffaith fod y Beth-semes hono yn rhandir Judah, ac yn un o'r dinasoedd Lefiaidd (Jos. xv. 10; xxi. 16; 1 Sam. vi. 13—20). Cynygir cysoni yr anhawsder mewn dwy ffordd: (1) Fod terfyn rhandir Judah a rhandir Dan yn rhedeg mor agos i'r fan fel y gallai Beth-semes fod yn gorwedd un ochr i'r llinell, yn llwyth Judah, a Mynydd Heres yn gorwedd yr ochr arall yn llwyth Dan. (2) Fod Beth-semes yn un o'r dinasoedd hyny a wnaed drosodd i Dan, ar ol eu rhoddi unwaith i Judah. Cyfeirir ati yn Jos. xxi. 16; 1 Sam. vi. 10; 1 Bren. iv. 9; 2 Bren. xiv. 11.

36. Y mae safleoedd daearyddol y cyfeirir atynt yn yr adnod hon yn neillduol o amheus, a hyd nes y penderfynir yn sicrach arnynt nis gellir dyweyd dim yn bendant. **Rhiw Acrabbim.**—Yn llythyrenol, **rhiw yr ysgorpionau.** Cyfeirir ato, dybygid, yn Num. xxxiv. 4; Jos. xv. 3, dan yr enw Maale-acrabbim. Dyfala rhai mai y lle a adnabyddir fel *Wady-es-Sumeirch* ydyw; ereill (Tristram, &c.) a'i rhoddant yn nes i'r gorllewin, tua Hormah neu Sephath *(Sufah)*; ond dyry Robinson ef tua deng milldir i'r deheu o'r Môr Marw, lle y mae clogwyni uchel a serth. Modd bynag, rhaid ei fod yn un o'r trumau serth sydd yn gorwedd i'r deheu-orllewin o'r Môr Marw. **O'r graig.**—Cyfeiriad, fel y tybir, at Petra, prif-ddinas Edom, ystyr enw yr hon ydyw "y graig." Ceir yr un cyfeiriad yn 2 Bren. xiv. 7. Gelwir hi felly, o bosibl, oherwydd yr amgylchynir hi gan greigiau, a bod lluaws o'i hadeiladau wedi eu naddu allan ohonynt. Y mae dau air Hebraeg am graig—*Tzur* a *Selah*, a thra tharawiadol ydyw sylwi, wrth fyned heibio, mai y gair diweddaf hwn, yr hwn a ddefnyddir yma, ydyw yr un a ddefnyddir bob amser am y graig a darawyd yn Cades-barnea, ac yr oedd Cades yn nghymydogaeth Petra. **Ac uchod.**—Anmhosibl esbonio yr ymadrodd hwn yn foddhaol hyd nes y penderfynir yn fwy diamheuol y cyfeiriadau daearyddol ereill yn yr adnod. Golyga rhai esbonwyr ei fod yn gyfystyr âg "i'r gogledd," gan ddeall fod y cyfeiriadau uchod yn nodi terfynau deheuol eithaf yr Amoriaid. Deallir ef gan ereill yn llythyrenol, "i fyny," gan olygu fod terfyn yr

## PENOD II.

1 AC angel yr ARGLWYDD a ddaeth i fyny o Gilgal i Bochim,
ac a ddywedodd, Dygais chwi i fyny o'r Aipht, ac

---

Amoriaid, ar ol rhedeg ar draws y pantle suddedig, a rêd o'r Môr Marw i'r Môr Coch, ac a elwir gan yr Arabiaid, *Wady 'Arabah*, yn rhedeg "i fyny" i'r mynydd-dir.

PEN. ii. *1—5.—Yr angel yn ceryddu y bobl yn Bochim. 6—10.—Ffyddlondeb Israel yn ystod oes Josua a'r henuriaid. 11—13.—Anffyddlondeb yr oes ddilynol. 14, 15.—Digllonedd yr Arglwydd wrthynt oherwydd hyny. 16—19.—Cyfodi barnwyr iddynt; ond methu, er hyny, eu diddyfnu oddiwrth eilunaddoliaeth. 20—23.—Canlyniadau eu gwrthgiliad.*

(c) *Cenadwri Ddwyfol at Israel* (pen. ii. 1—5).

1. **Ac angel yr Arglwydd.**—Dyry y C. D. y fanod o flaen y gair angel—**yr angel.** Felly hefyd yn pen. v. 23; vi. 11; xiii. 3. Dengys y gair y golygir yma genad neillduol y Jehofa. Y cwestiwn sydd wedi rhanu esbonwyr yn ddau ddosbarth ydyw, Pa un ai prophwyd, cenad ddynol, neu angel crëedig, ynte Person dwyfol sydd i'w olygu wrth Angel y Cyfamod, ac i'w olygu wrth "yr angel" yn y fan hon? Yr oedd yr esbonwyr Iuddewig, er yn credu mai y Messiah ei hunan ydoedd Angel y Cyfamod, eto yn golygu mai cenad ddynol—prophwyd—rai ohonynt mai Phineas sydd i'w ddeall yn y fan hon. Ond yr ydym yn tybied y gellir cymeryd yn ganiataol mai yr un genad ag Angel y Cyfamod sydd i'w ddeall yma. Pwy oedd hwnw? Yr oedd tadau boreuaf yr eglwys Gristionogol yn benderfynol o'r farn mai Mab Duw ydoedd; ond dechreuwyd amheu y syniad ar gyfodiad yr heresi Ariaidd yn yr eglwys, gan yr ofnid i hyn gymylu dim ar Dduwdod Crist; ac y mae rhai esbonwyr Cristionogol wedi glynu wrth y syniad hyd y dydd heddyw. Eithr y mae y rhan fwyaf o'r duwinyddion diweddar wedi dyfod yn ol at syniad y tadau boreuaf, ac y mae yr esbonwyr sydd yn cymeryd safle digon dyrchafedig i edrych oddiarni ar Lyfr y Barnwyr—yn edrych arno, nid fel hanes cenedlaethol yr Hebreaid yn unig, eithr fel dolen yn nghadwen dadblygiad iachawdwriaeth Duw i'r byd, yn gryf o'r farn mai Mab Duw, yn y ffurf o Angel y Cyfamod, sydd i'w olygu wrth yr "angel" yn yr adnod hon. Dibyna llawer ar y lle a roddir i Lyfr y Barnwyr yn Natguddiad yr Hen Destament. Pan y byddai rhyw waith yn nglŷn â'r cyfamod i'w wneyd, ceir y Person hwn yn ymddangos, a phob amser yn cymeryd ei le fel Un uwchlaw unrhyw fodau crëedig. Hawlia arglwyddiaeth ar amgylchiadau dynion, a phriodolir iddo holl-wybodaeth a holl-bresenoldeb. Llefara fel Duw, a dengys ei hunan yn Waredwr ac amddiffynydd ei bobl, ac yn awdwr ei holl fendithion. Defnyddir yr ymadrodd, "Angel yr Arglwydd," neu "Angel Jehofa," tua thriugain o weithiau yn y Beibl; ac am y rhan fwyaf o'r lleoedd hyny, nid oes le i amheuaeth pwy a feddylir. Gwêl Gen. xv. 7, 9, 11; xxii. 11—15; Ex. iii. 3; xxiii. 20; xxxii. 34; Num. xx. 16; Jos. v. 13—15. Ac y mae y lle a roddir yn y llyfr hwn hefyd i angel cynrychioldeb y Goruchaf, yn ein cadarnhau mai y golygiad uchod sydd yn gywir.

arweiniais chwi i'r wlad *am* yr hon y tyngais wrth eich tadau; ac a ddywedais, Ni thoraf fy nghyfamod â chwi

---

Efe sydd yn dyfod yn mlaen ar bob adeg arbenig drwy gorph y llyfr. Gwêl pen. v. 23; vi. 11; xiii. 3. Tybir fod y geiriau yn Jos. xxiv. 27, yn cyfeirio at yr ymddangosiad yn yr adnod hon. Cymharer adn. 6 o'r benod hon â Jos. xxiv. 28. Gelwir ef weithiau, ond nid mor fynych, yn "Angel Duw," Gen. xxi. 17; Ex. xiv. 19; Barn. vi. 20; xiii. 6, 9. A ddaeth i fyny o Gilgal.—Dyma y rheswm gan rai esbonwyr yn erbyn mai Cenad dwyfol sydd i'w olygu yma, y buasai yn anghyson i ddyweyd am un felly ei fod yn dyfod "i fyny." Yr oedd hyn yn gyflawniad llythyrenol o Ex. xxiii. 20—23; xxxiii. 1—4. Dywedir ei fod "yn dyfod i fyny o Gilgal," oherwydd mai yno yr ymddangosasai ddiweddaf (Jos. v. 13—15). Darllenwn am symudiadau o'r fath yn ei hanes yn Ex. xiv. 19, pan yn symud o fod o flaen gwersyll Israel i fod y tu ol iddynt. Yn 1 Cron. xxi. 12—20; 2 Cron. iii. 1, darllenwn am symudiadau cyffelyb yn ei ymddangosiadau i Dafydd ac Ornan y Jebusiaid, a henuriaid Israel. Gilgal.—Mae o leiaf dri lle o'r enw yma yn hanes Israel—(1) Gilgal *(Jiljulia)*, ychydig i'r dwyrain o Jericho, tua phum' milldir oddiwrth yr Iorddonen, a dwy filldir o Jericho. Dyma y lle y gwersyllodd Israel ar eu dyfodiad drwy yr Iorddonen, ac yma y "symudwyd gwaradwydd yr Aipht" (Jos. iv. 19). (2) Gilgal *(Jiljilia)*, lle, saith milldir i'r gogledd o Bethel, a thair milldir ar ddeg i'r deheu o Sichem. Hwn yw y lle a grybwyllir mor fynych yn hanes Eliseus (Jos. ix. 6; 2 Bren. ii. 1). (3) Gilgal *(Jiljulieh)* y sonir am dani yn Jos. xii. 23, yn nyffryn Saron i'r gogledd o Antripatris. Yn ol yr esboniad a fabwysiedir yn y nodiadau hyn, yr ydys yn golygu wrth y "Gilgal," yn yr adnod hon, y cyntaf o'r lleoedd hyn. Gwrthyd yr esbonwyr sydd yn tybied mai cenad ddynol ydoedd hon yr eglurhad hwn, oherwydd, yn ol eu tyb hwynt, y lleferir yma am adeg pan yr oedd y tabernacl wedi ei symud o Gilgal i Siloh. Ond y mae hyn ar y dybiaeth fod yr amgylchiadau a gofnodir yma wedi cymeryd lle ar ol marwolaeth Josua. Yr ydym ninau, o'r tu arall, yn maentumio mai amgylchiadau yn *ystod bywyd* Josua a gofnodir yma, a bod yma bwynt pwysig o amseryddiaeth i brofi i'r genadwri hon gael ei danfon yn fuan ar ol symud y gwersyll o Gilgal; ac yn ystod yr amser, neu yn fuan ar ol i'r amgylchiadau a gofnodir yn Barn. i. 36, gymeryd lle, a bod yr angel a fu gyda hwynt o'r blaen (Ex. xxiii. 20—23; xxxiii. 1—4; Jos. v. 10—13) yn symud i'w canlyn. Ac wrth gymharu adn. 6, o'r benod hon, â Jos. xxiv. 27, 28, yr ydym braidd yn tybied mai at y genadwri hon y cyfeirir yno. Bochim.—Ystyr y gair ydyw *galarwyr;* enw a roddwyd ar gyfrif yr hyn a ddynodir yn adn. 4. Ni chlybuwyd son am yr enw mwyach. Gan y tybir fod y tabernacl ar y pryd yn Siloh, efallai newydd gael ei symud yno, nid anghyson ydyw meddwl mai yno y bu hyn, ar adeg un o'r prif ŵyliau, pryd y byddai y bobl wedi ymgynull gerbron yr Arglwydd. Rhoddwyd amlygiadau felly ar adegau o ddirywiad mawr (Ex. xiv. 10; xxxiii. 9; Num. xii. 5; xiv. 10, 19; xx. 6. Dygais chwi i fyny.—Mae y ferf hon, *dwyn*, yn yr Hebraeg yn yr amser anorphenol yma, er dangos fod y gwaith hyd yma yn anorphenol, a bod eu hanufudd-dod hwy yn ei gadw felly. Dywedir fod yr holl ymadroddion hyn yn yr Hebraeg mewn ffurf anghyffredin, ac yn cyfeirio, o bosibl, at y geiriau a lefarodd yr angel wrth Moses yn y

2 byth. Na wnewch chwithau gyfamod â thrigolion y wlad
hon; *ond* bwriwch i lawr eu hallorau: eto ni wrandaw-
3 soch ar fy llef: paham y gwnaethoch hyn? Am hyny y
dywedais, Ni yraf hwynt allan o'ch blaen chwi: eithr
byddant i chwi *yn ddrain* yn eich ystlysau, a'u duwiau
4 fydd yn fagl i chwi. A phan lefarodd angel yr ARGLWYDD
y geiriau hyn wrth holl feibion Israel, yna y bobl a ddyrch-
5 afasant eu llef, ac a wylasant. Ac a alwasant enw y lle
hwnw Bochim: ac yna yr aberthasant i'r ARGLWYDD.
6 A Josua a ollyngodd y bobl ymaith; a meibion Israel a
7 aethant bob un i'w etifeddiaeth, i feddianu y wlad. A'r
bobl a wasanaethasant yr ARGLWYDD holl ddyddiau Josua,
a holl ddyddiau yr henuriaid y rhai a fu fyw ar ol Josua, y
rhai a welsent holl fawr-waith yr ARGLWYDD, yr hwn a
8 wnaethai efe er Israel. A bu farw Josua mab Nun, gwas

---

berth (Ex. iii. 6—8). Gellir meddwl fod cyfeiriad gan amryw o ymadroddion y benod hon at y gyfraith ysgrifenedig, ac yn pen. iii. 4, ceir cyfeiriad pendant ati.

2. Noda yr angel yma y ddwy ran o'r cyfamod a dorasid ganddynt, sef, ymgyfamodi â'r Canaaneaid, a pheidio a bwrw i lawr eu hallorau (Deut. vii. 2, 5).

3, 4, 5. **Am hyny.**—Y pethau gofnodir yn yr adnod flaenorol. Prin y mae y darlleniad presenol yn cyfleu yr ystyr yma. Y meddwl ydyw, "Am hyny yr ydwyf finau yn dywedyd yn awr—yr ydwyf yn datgan, Ni yraf hwynt allan." Y datganiad hwn o'i benderfyniad gan yr angel a barodd i'r bobl wylo.

(d) *Marwolaeth Josua* (pen. ii. 6—10).

6. Gydag ychydig iawn o wahaniaeth, y mae yr adran yr un â Jos. xxiv. 28—31. Cymharer Jos. xxii. 6.

7. **Holl ddyddiau Josua, a holl ddyddiau yr henuriaid.**—Nis gellir penderfynu i sicrwydd pa faint o amser a olygir yma, gan nas gellir penderfynu dyddiau yr henuriaid, na hyd tymhor llywodraethol Josua. A chaniatau fod Josua yn gyfoed â'i gyd-ysbïwr, Caleb, yr ydoedd tua pedwar ugain oed pan y daeth i Ganaan, a bu farw pan yn 110 oed; felly, bu yn blaenori am tua deg-ar-hugain o flynyddoedd. Yr henuriaid hyn oeddynt y rhai oedd yn ddigon hên i gofio, ac i gymeryd rhan yn rhyfeloedd Canaan. Gallem dybio iddynt oll feirw yn mhen tuag ugain mlynedd ar ol Josua. **Mawr-waith.**—Edrychir ar yr holl weithredoedd a wnaethai Duw i Israel yn un cyfanwaith, yn rhanau o un drefn oruchel.

8. **Gwas yr Arglwydd.**—Teitl a roddid yn arbenig i Moses; ond na roddwyd erioed i Josua hyd nes y bu farw (Jos. xxiv. 29).

yr ARGLWYDD, yn fab dengmlwydd a chant. A hwy a'i
claddasant ef yn nherfyn ei etifeddiaeth, o fewn Timnath- 9
heres, yn mynydd Ephraim, o du y gogledd i fynydd
Gaas. A'r holl oes hono hefyd a gasglwyd at eu tadau:
a chyfododd oes arall ar eu hol hwynt, y rhai nid adwaen- 10
ent yr ARGLWYDD, na'i weithredoedd a wnaethai efe er
Israel.

---

9. **Timnath-heres (Rhan yr haul).**—Dyma, fe ddichon, ydoedd ei henw gwreiddiol, yr hwn, efallai, a newidiwyd gan Josua i fod yn *Timnath-serah (Rhan ehelaeth)* Jos. xix. 50. Darllena y LXX. Timnath-serah yn y fan hon hefyd. Ceir dwy dybiaeth am leoliad Timnath-serah. (1) Tybia amryw mai lle o'r enw *Tibneh*, yn nghŵr de-orllewinol rhandir Ephraim, tua chwe' milldir i'r gogledd o Gophna *(Djufna)*, a thua phum' milldir i'r gogledd-orllewin o *Lydda*, ydyw. Ymddengys mai hon oedd tyb Jerome, a dadleua Tristram yn gryf iawn drosti. Cymer Ffrancwr, o'r enw Victor Guerin, iddo ei hun yr anrhydedd o fod wedi ei darganfod; ac yn 1870, wrth gloddio o fewn un o'r bedd-ogofäu, a dybid y fwyaf anrhydeddus (y mae y lle yn llawn ohonynt), daeth darganfyddwr arall o hyd i nifer o geryg llymion, yn ateb i "gyllyll llymion" (Jos. v. 2), y rhai, yn ol darlleniad y LXX., o Jos. xxiv. 30, a gladdesid gyda Josua yn ei fedd. (2) Conder, gan ddilyn y traddodiad Iuddewig a Samaritanaidd, y rhai, ar bynciau o'r fath, ydynt yn gyfuniad pwysig, a ddyry Timnath-serah mewn pentref o'r enw *Kefr Haris (Heres)*, tua saith milldir i'r gogledd o Tibneh, a thua deng milldir i'r de-orllewin o Sichem. Mae safle *Mynydd Gaas* yn hollol anhysbys; yn unig cyfeirir ato yn 2 Sam. xxiii. 30; 1 Cron. xi. 32.

10. **A'r holl oes hono . . . oes arall.**—Wrth yr "oes hono" y golygir y lluaws oeddynt mewn oedran gwŷr yn adeg goresgyniad Canaan. Nodwedd yr oes hono, yn neillduol ar ol marwolaeth Josua, ydoedd *gwendid*—rhy wan i lwyr-orchfygu y Canaaneaid (pen. i.). Wrth eu traed fe dyfodd i fyny "oes arall," a nodweddid gan lygredigaeth hŷf a beiddgar—syrthiasant i bob rhysedd mewn eilun-addoliaeth. Fe droes *gwendid* un oes i fyned yn erbyn pechodau cyhoeddus, yn *hyfdra rhyfygus* yn yr oes ddilynol i'w cofleidio. Cynyrch yr "oes hono" ydyw yr "oes arall." Canlyniad gwendid i fwrw i lawr allorau Baal ydoedd nerth yn y meibion i offrymu i Baal.

### (2.) ARDREM AR YR HANES SYDD I GAEL EI DDADBLYGU YN Y LLYFR (pen. ii. 11; iii. 7).

Yma, mewn gwirionedd, y dechreua yr adroddiad am yr hyn a gymerodd le *ar ol marwolaeth Josua*, am yr hyn ni ddywedwyd dim yn y benod gyntaf. Amgylchiadau, yn ein bryd ni, wedi cymeryd lle yn ystod *diwedd oes* Josua a gofnodwyd o'r blaen; ond yma mynegir pa fodd y bu pethau ar ol ei farw. Darfu i'r genedl, er yn wan ac anmherffaith, wasanaethu yr Arglwydd yn weddol holl ddyddiau Josua; eithr wedi ei farw, ac yn neillduol wedi i'r holl gydoeswyr eiddil oedd ganddo gael eu casglu at eu tadau, ymollyngodd Israel i wneuthur yr hyn oedd ddrwg yn ngolwg yr

11 A meibion Israel a wnaethant ddrygioni yn ngolwg yr
12 ARGLWYDD, ac a wasanaethasant Baalim: Ac a wrthod-
asant ARGLWYDD DDUW eu tadau, yr hwn a'u dygasai
hwynt o wlad yr Aipht, ac a aethant ar ol duwiau dïeithr,
*sef rhai* o dduwiau y bobloedd *oedd* o'u hamgylch, ac a
13 ymgrymasant iddynt, ac a ddigiasant yr ARGLWYDD. A
hwy a wrthodasant yr ARGLWYDD, ac a wasanaethasant
Baal ac Astaroth.
14 A llidiodd digllonedd yr ARGLWYDD yn erbyn Israel; ac

---

Arglwydd. O adnod 14 i ddiwedd yr adran hon (pen. iii. 7), crynhoir i fyny holl gynwys y llyfr, yn nghyda sylwadau yr ysgrifenydd ysprydoledig ei hunan ar y ffeithiau.

(a) *Dirywiad y Genedl ar ol marwolaeth Josua* (adn. 11—23).

11, 12.—A wnaethant ddrygioni.—Mae y gwreiddiol yn rymusach, **A wnaethant y drygioni,** gan olygu arbenigrwydd neillduol, fel y drwg a ddygasai arnynt yr holl drychinebau a goffeir yn y llyfr hwn. Dyma yr ymadrodd a ddefnyddir bob amser yn yr Hen Destament i osod allan gwymp y genedl i eilunaddoliaeth. Defnyddir ef amryw weithiau yn y llyfr hwn, i osod allan yr enciliadau hyny oddiwrth Dduw yn hanes y genedl, a ddygent arnynt y gelynion i'w gormesu, sef pen. iii. 7, 12; iv. 1; x. 6; xiii. 1. Defnyddir gair arall yn pen. viii. 33, i ddesgrifio eu gwrthgiliad yn amser Abimelech. Yr ymadrodd cyferbyniol ydyw, "a wnaethant yr hyn oedd uniawn yn ngolwg yr Arglwydd" (1 Bren. xv. 5, 11). Baalim.—Y lluosog o *Baal.* Ystyr llythyrenol y gair yw **Arglwyddi.** Hwn oedd prif eilun-dduw y Canaaneaid, megis ag yr oedd Ashtoreth (y lluosog, Ashtaroth), eu prif eilun-dduwies. Defnyddid y rhif luosog, fel hyn, i'w osod allan, efallai, (1) oherwydd y gwneid gwahanol ddelwau ohono, (2) neu yr addolid ef mewn gwahanol ffurfiau a gwahanol leoedd. Mae lluosogrwydd yr enwau, personau a lleoedd, y cysylltir Baal â hwynt, megis Baal-gad, Baal-hermon, &c., yn profi cyffredinolrwydd yr addoliad a delid iddo cyn dyddiau Josua. Megis y cysylltir Ashtoreth â'r lloer, felly tybia rhai y cysylltid Baal â'r haul, fel yr haul-dduw, a ffynonell pob bywyd naturiol. Ereill a dybiant y cysylltid âg ef, nid yn unig briodoliaethau yr haul, eithr eiddo rhai o'r ser hefyd, yn neillduol Mawrth a Sadwrn; felly ei fod yn cynrychioli, nid yn unig darddiad a chynhaliaeth bywyd, ond hefyd briodoliaethau dinystr. Y mae yn amlwg, modd bynag, fod addoliad Baal yn aflan a dinystriol i bob rhinwedd, ac am hyny yn ffieidd-dra yn ngolwg yr Arglwydd.

13. Ashtaroth.—Y lluosog o *Ashtoreth.* Defnyddir y gair yn ei ffurf unigol yn 1 Bren. xi. 5—33; 2 Bren. xxiii. 13. Addolid hi, fel yr ymddengys, fel y lloer-dduwies, ac hefyd fel Gwener (*Venus*). Y mae yr hyn a ddywedwyd uchod am Baal yn briodol am Ashtoreth, gyda'r gwahaniaeth o'r nodwedd fenywaidd a briodolid iddi.

14, Anrheithwyr.—Gair na cheir mohono ond yma, ac yn 2 Bren. xvii. 20. Ac efe a'u gwerthodd.—Gair yn golygu gweithred farnol o eiddo Duw yn eu rhoddi hwynt i fyny yn hollol i ddwylaw eu

efe a'u rhoddodd hwynt yn llaw yr anrheithwyr, y rhai a'u
hanrheithiasant hwy; ac efe a'u gwerthodd hwy i law eu
gelynion o amgylch, fel na allent sefyll mwyach yn erbyn
eu gelynion. I ba le bynag yr aethant, llaw yr ARGLWYDD 15
oedd er drwg yn eu herbyn hwynt; fel y llefarasai yr
ARGLWYDD, ac fel y tyngasai yr ARGLWYDD wrthynt hwy:
a bu gyfyng iawn arnynt.
Eto yr ARGLWYDD a gododd farnwyr, y rhai a'u hachub- 16
odd hwynt o law eu hanrheithwyr. Ond ni wrandawent 17

---

gelynion. Y drychfeddwl yn ddiau ydyw gwerthu i gaeth-wasanaeth, a'r cyferbyniol ydyw prynedigaeth. Gwêl nodiad adn. 16.

15. Fel y llefarasai.—Gwêl Lef. xxvi. 17; Deut. xxviii. 25.

16. A gododd farnwyr.—Dyma y lle cyntaf y defnyddir y gair "barnwyr." Dangosir yma fod y cyfamod toredig yn cynwys darpariaethau y cyfamod gras, ac mai yr Hwn a'u gwerthodd ydoedd hefyd eu Gwaredwr. Am swydd y barnwyr, gwêl nodiadau yn y Rhagarweiniad. Yr un modd ag y darfu i genedl Israel, ar ol hyn, fabwysiadu y teitl o frenin oddiwrth y cenedloedd amgylchynol, felly cawsant yr enw, beth bynag am y swydd, o farnwr oddiwrth y Phœniciaid. Mae y gair Hebraeg, *Shophet*, *Shophetim*, a gyfieithir "barnwyr" genym ni, yr un a gair a geir yn fynych mewn hên gerf-ysgrifau Phœniciaidd i ddynodi teitl y barnwyr cenedlig; felly, y mae y gair yn dangos dylanwad arferion y cenedloedd cylchynol ar bobl etholedig yr Arglwydd. Ymddengys fod y swydd ar y cyntaf yn Israel yn achlysurol, afreolaidd, ac ansicr, ond yn tueddu yn raddol at sefydlogrwydd a pharhad. Am Othniel, Ehwd, a Samgar, nis gwyddom a oeddynt yn barnu ond yn ystod y cyfwng neillduol y galwyd hwynt allan ganddo. Yn hanes Deborah a Gedëon, gwelwn arwyddion eu bod yn barnu dros eu hoes. Yn yr olyniaeth ddilynol o farnwyr distadl, gwelwn fod y swydd megis yn etifeddol yn eu teuluoedd. Ceir meibion ac ŵyrion yn etifeddu, os nad gallu, o leiaf, pomp ac urddas eu tad neu eu teidiau (pen. x. 3, 4; xii. 8—14). Ac o'r diwedd ceir y ddwy swydd, a fuont ar wahân yn nechreu y cyfnod—y swydd offeiriadol a'r farnol—yn cael eu huno yn Eli a Samuel; a gwelir y priodolir i feibion y diweddaf o'r ddau hyn y gwaith a berthyn i farnwr fel y deallir y gair yn yr oesoedd hyn (1 Sam. viii. 3). Y rhai a'u hachubodd.—Ceir dau air—un yn golygu *gwaredu*, ac a gyfieithir felly yn pen. vi. 9; viii. 34—ac un arall, y gair mawr yn y llyfr hwn, yn golygu *achub*, ac a gyfieithir felly, neu a ddylai gael ei gyfieithu, yn mhob un o'r lleoedd canlynol yn y llyfr: pen. iii. 9, 15, 31; viii. 22; x. 1, 12, 13, 14; xii. 2, 3; xiii. 5. Y fath ydyw safle ddyrchafedig awdwr y llyfr hwn, fel y mae cysgod gwirioneddau mawrion ysprydol yr iachawdwriaeth yn dyfod i'r golwg yn y "gwerthu," yn adn. 14, ac yn y "prynu," neu yr "achub," yn yr adnod hon. Achubai y barnwyr hyn Israel drwy ddwyn y bobl yn ol yn heddychlawn i gadw cyfraith Moses, a gweinyddu barn ac uniondeb; ond yn benaf drwy weinyddu barnedigaethau ar elynion yr Arglwydd, ac felly ryddhau ei bobl o law eu gelynion.

17. Puteiniasant.—Dylid deall y gair hwn, yn ffigyrol yn benaf,

chwaith ar eu barnwyr; eithr puteiniasant ar ol duwiau
dïeithr, ac ymgrymasant iddynt: ciliasant yn ebrwydd o'r
ffordd y rhodiasai eu tadau hwynt ynddi, gan wrandaw ar
orchymynion yr ARGLWYDD; *ond* ni wnaethant hwy felly.
18 A phan godai yr ARGLWYDD farnwyr arnynt hwy, yna yr
ARGLWYDD fyddai gyd â'r barnwr, ac a'u gwaredai hwynt
o law eu gelynion holl ddyddiau y barnwr: canys yr
ARGLWYDD a dosturiai wrth eu gruddfan hwynt, rhag eu
19 gorthrymwyr a'u cystuddwyr. A phan fyddai farw y
barnwr, hwy a ddychwelent, ac a ymlygrent yn fwy na'u
tadau, gan fyned ar ol duwiau dïeithr, i'w gwasanaethu
hwynt, ac i ymgrymu iddynt: ni pheidiasant â'u gweith-
redoedd eu hunain, nac â'u ffordd wrthnysig.
20 A digllonedd yr ARGLWYDD a lidiai yn erbyn Israel: ac
efe a ddywedai, Oblegid i'r genedl hon droseddu fy nghyf-
amod a orchymynais i'w tadau hwynt, ac na wrandawsant
21 ar fy llais; Ni chwanegaf finau yru ymaith o'u blaen hwynt
22 neb o'r cenhedloedd a adawodd Josua pan fu farw: I
brofi Israel trwyddynt hwy, a gadwent hwy ffordd yr
ARGLWYDD, gan rodio ynddi, fel y cadwodd eu tadau

---

am eu gwaith yn gadael, drwy eilun-addoliaeth, y Duw yr oeddynt wedi eu dyweddïo iddo (Jer. ii. 2; Ezec. xvi.); a hefyd yn llythyrenol am y rhai oedd yn myned ar ol Baal ac Astharoth (Exod. xxxiv. 15, 16; Num. xxv.). **Ymgrymasant iddynt.**—Cyfeiriad, fe ddichon, at y Dwyreinwyr yn eu defosiynau yn ymgrymu nes cyffwrdd eu talcenau yn y llwch.

**18, 19. Yr Arglwydd fyddai gyda'r barnwr.**—Fel y bu gyda Moses a Josua (Jos. i. 5), y feddyginiaeth i Israel ydoedd cyfodi barnwr—cyfodi offeryn neillduol; ond yr elfen hanfodol yn y waredigaeth ydoedd fod Duw gydag ef. Cymharer yr holl baragraph hwn â Salm cvi. 34, 36, lle y ceir lluaws o ymadroddion cyffelyb. Y mae yr adnodau hyn yn dalfyriad o hanes y cyfnodau o enciliadau oddiwrth yr Arglwydd, a phob gwrthgiliad yn gadael y genedl yn ddyfnach mewn dirywiad. **Gwrthnysig.**—Yr un gair ag a gyfieithir "gwargaled" (Ex. xxxii. 9; xxxiii. 3; Deut. ix. 6, 13).

**20. I'r genedl hon.**—Y mae i'r Arglwydd son am ei bobl ei hun fel "y bobl hyn," yn swnio gyda diystyrwch, fel pe llefarai am rai o'r cenedloedd cylchynol. Cymharer Es. vi. 9, 10; viii. 16.

**21, 22, 23. Ni chwanegaf finau yru ymaith.**—Ail-adroddiad yw y bygythiad hwn o'r hyn a geir yn adn. 3; yn unig mynegir hyn yma mewn geiriau cryfach. Nis gellir gwybod pa fodd yr hysbyswyd hwynt, ai drwy angel, neu brophwyd, neu Urim a Thumim. Dichon eu bod yn gosod allan yr hyn a basiai drwy y meddwl Dwyfol, ac yn esbonio ymddygiad Duw tuagatynt. Y mae adn. 22 a 23 yn eglurhad yr hanesydd ar eiriau diweddaf Duw yn adn. 21. Mor belled ag y gellir casglu y mae

hwynt, neu beidio. Am hyny yr ARGLWYDD a adawodd y 23
cenhedloedd hyny, heb eu gyru ymaith yn ebrwydd; ac ni
roddodd hwynt yn llaw Josua.

---

olyniad hanesyddol yr adnodau hyn fel y canlyn :—pen. ii. 13 ; yna adn. 20 ; yna pen. iii. 8. Ymddengys nad ydyw y paragraphau rhyngddynt ond sylwadau casglydd yr hanes, ac yn cyfeirio, dybygid, at amgylchiadau diweddarach. Fe welir fod y paragraph sydd yn diweddu pen. iii. 7, yn dybenu bron yn yr un geiriau a pen. ii. 13 ; yna y mae yr adroddiad o pen. iii. 8, yn mlaen yn wir olyniad hanesyddol o pen. ii. 13.

---

## PENOD III.

DYMA y cenhedloedd a adawodd yr ARGLWYDD i brofi 1
Israel trwyddynt, (*sef* y rhai oll ni wyddent gwbl o

---

PEN. iii. *1—7.—Y cenedloedd a adawyd i brofi Israel, ac effeithiau drygionus ymgyfeillach â hwynt. 8—11.—Gorthrwm Cusanrisathaim, gwaredigaeth drwy Othniel, a'r wlad yn cael gorphwys ddeugain mlynedd. 12—14.—Gorthrwm gan y Moabiaid, a chenedloedd ereill, dan Eglon am ddeunaw mlynedd. 15—30.—Ehwd yn lladd Eglon, ac yn gwaredu Israel gan roddi llonyddwch i'r wlad am ddengain mlynedd. 31.—Y waredigaeth drwy Samgar.*

(b) *Desgrifiad o'r cenedloedd a adawyd i brofi Israel* (pen. iii. 1—7).

1. Dyma y cenedloedd.—Yr un rhai a'r "cenedloedd hyny" yn pen. ii. 23, ond yn unig fod yma ddesgrifiad manwl ohonynt. Yma, ac yn yr adnod hono, defnyddir yr un gair, a hwnw yn air tra neillduol—"a adawodd" neu a oddefodd yr Arglwydd. Nid dyma y lle, o bosibl, i brofi moesoldeb ac uniondeb goresgyniad y Canaaneaid. Mor wir ag y gosodir y meddiant o Ganaan allan fel rhâd rôdd Duw i'r Israeliaid, felly gosodir allan, bob amser, fod concwest y wlad yn weithred o farnedigaeth gyfiawn yn erbyn ei phreswylwyr yn herwydd eu pechodau ffiaidd. Desgrifir hwynt a'u gwlad fel yn eu chwydu allan ohoni (Lef. xviii. 25—30 ; Deut. xii. 29—31), a'r Arglwydd, oherwydd hyny, yn ymweled â'u hanwiredd arnynt hwy. Ond ni ddisgynodd y farn arnynt yn sydyn. Disgwyliodd yr Arglwydd 500 mlynedd am iddynt edifarhau ; pan oedd y farn ar ddechreu, cawsant ddigon o rybuddion. Cymerodd yr Arglwydd y rhyfelgyrch i'w law ei hunan ; nid oedd yr Israeliaid ond offerynau, ac, fel y cyfryw, yr oeddynt i ymgadw rhag halogi eu hunain drwy yspeilio y cenedloedd hyny, nac i ymgaledu drwy greulondeb tuagatynt, ac yr oeddynt hwythau i feddianu y wlad ar yr amod o gadw eu hunain yn bur a sanctaidd, yr hyn ni wnaethai y Canaaneaid. Mewn gwirionedd bu cleddyf yr Israeliaid yn fendith i'r byd hyd ddiwedd amser. I brofi Israel.—Y rheswm gwreiddiol nad oeddynt i gael eu gyru ymaith ar unwaith oedd,

2 ryfeloedd Canaan; Yn unig i beri i genhedlaethau meib-
ion Israel wybod, i'w dysgu hwynt i ryfel; y rhai yn ddïau
3 ni wyddent hyny o'r blaen;) Pum' tywysog y Philistiaid,
a'r holl Ganaaneaid, a'r Sidoniaid, a'r Hefiaid y rhai oedd

---

nad ydoedd Israel mewn mantais i gymeryd meddiant o'r wlad ar unwaith (Ex. xxiii. 29, 30); ond yma wele reswm ychwanegol, sef i brofi ffyddlondeb Israel. Y rhai ni wyddent gwbl o ryfeloedd Canaan, oedd y rhai a ddaethant i oedran gwŷr ar derfyn, neu yn fuan ar ol terfyn, y rhyfel â'r Canaaneaid.

2. I'w dysgu hwynt i ryfel.—At y ddau reswm a nodwyd eisoes dros adael y cenedloedd heb eu gyru ymaith, y mae un arall yn cael ei ychwanegu yma, sef fod eisieu dysgu yr oes oedd yn cyfodi i ymladd rhyfeloedd yr Arglwydd, ac yr oedd eisieu ffydd a sancteiddrwydd i hyny (Salm xliv. 1—5). Yr oedd marwolaeth Josua wedi eu gadael heb ddysgawdwr na blaenor.

3. Pum' tywysog y Philistiaid.—Ynllythyrenol, **arglwyddi**. Dichon fod y teitl hwn o darddiad Phœniciaidd, a defnyddir ef yn unig at y Philistiaid (Jos. xiii. 3; Barn. xvi. 5, 8; 1 Sam. vi. 4, 12, 16). Arglwyddiaethau y Philistiaid oeddynt: Gath, Asdod, Gaza, Ascalon, ac Ecron. Y Philistiaid *(Dyeithriaid* neu *ymfudwyr)*.—Tybir fod y bobl hyn o darddiad Aiphtaidd (Gen. x. 14; Deut. ii. 23; 1 Cron. i. 12). Yn Gen. x. 14, dywedir, "Mizraim hefyd a genedlodd . . . Chasluhim, o'r rhai y daeth y Philistim a Chaphtorim." Ond mewn manau ereill (Deut. ii. 23; Jer. xlvii. 4; Amos ix. 7) dywedir eu bod yn disgyn, nid o'r Chasluhim, eithr o'r Chaphtorim. Dywedir, fodd bynag, y gellir, yn ol yr iaith yn Gen. x. 14, a'r un modd yn 1 Cron. i. 12, gyfnewid trefn yr enwau, a darllen "y Chaphtorim, o'r rhai y daeth y Philistim a'r Chasluhim." Mae pob un o'r dulliau uchod yn gosod allan eu tarddiad Aiphtaidd—eu bod yn hanu o Mizraim. Mae yr ymadrodd "ynys Caphtor" (Jer. xlvii. 4), wedi arwain amryw ysgoleigion i feddwl fod y cyfeiriad at ynys Creta, ac felly fod y Caphtorim yn Gretiaid. Ond gall y gair a gyfieithir "ynys" yn yr adnod uchod olygu hefyd "wlad" neu "lanau." Felly gellir cymeryd Caphtor yn gyfystyr â Coptos, un o'r hen enwau ar yr Aipht. Ceir hanes am y Philistiaid yn nyddiau Abraham yn llwyth o fugeiliaid, yn nghyffiniau Gerar (Gen. xxi. 32, 34; xxvi. 1, 8); a phan y daeth Israel o'r Aipht yr oeddynt yn yr un parthau, ond wedi tyfu i fod mor gryfion fel ag i fod yn ddychryn i Israel (Ex. xiii. 17; xv. 14). Erbyn i Israel gyrhaedd Canaan, yr oeddynt mewn llawn feddiant o'r gwastattir brâs—y *Shephelah*, ar yr arfordir, o afon yr Aipht yn y deheu, hyd Ecron yn y gogledd (Jos. xv. 4, 47), ac wedi ymffurfio yn gynghrair gwladwriaethol pwysig o bum' dinas; ac y mae eu hanes dilynol yn dangos eu bod wedi cynyddu mewn gwareidd-iad a chelfyddyd, a buont yn elynion parhaus i Israel. Ffaith hynod ydyw fod y Philistiaid, gelynion marwol Israel, wedi rhoddi eu henw i wlad Israel; oblegid nid ydyw y gair *Palestina* ond ffurf ar y gair *Philistia*. Am y *Canaaneaid*, gwêl nodiad pen. i. 4. Y mae yr holl genedloedd a grybwyllir yma, oddigerth yr Hefiaid, wedi eu nodi yn y benod gyntaf o'r llyfr hwn. Y *Philistiaid* yn adn. 18; y *Canaaneaid* yn adn. 27, 29, 30, 32, 33; a'r *Sidoniaid* yn adn. 31. Yr Hefiaid.—Golyga ystyr eu henw

yn aros yn mynydd Libanus, o fynydd Baal-hermon, hyd
y ffordd y deuir i Hamath. A hwy a fuant i brofi Israel 4
trwyddynt, i wybod a wrandawent hwy ar orchymynion
yr ARGLWYDD, y rhai a orchymynasai efe i'w tadau hwynt
trwy law Moses.
A meibion Israel a drigasant yn mysg y Canaaneaid, yr 5

---

*rai yn trigo mewn pentrefi.* Yn nyddiau Jacob trigent yn Sichem (Gen. xxxiv. 2), wedi hyny yn Gibeon (Jos. xi. 19), ac yn eithaf y gogledd (Jos. xi. 3). Mynydd Libanus.—Y mae yr ymadrodd hwn yn gysylltiedig â'r Hefiaid yn unig, fel eu cartrefle, ac nid â'r holl genedloedd a nodir. Mynydd Baal-hermon.—Golyga y gair "Mynydd Libanus" yr holl gadwen o fynyddoedd, enwog drwy yr oesau, am eu llwyni cedrwydd, sydd yn ngogledd Palestina; ond nid ydyw y gair "Baal-hermon" yn golygu ond rhan neillduol ohonynt. Rhed y mynyddoedd hyn yn ddwy gadwen gyfochrog—y nesaf i'r gogledd a elwir Libanus, a'r gyferbyniol, Anti-Libanus, a dyffryn mawr Coele-Syria *(El-Bukeia)* yn rhedeg rhyngddynt; ac ar drwyn deheuol Anti-Libanus y mae mynydd Hermon *(yr uchel)*, y trum uchaf yn yr holl wlad i gyd, yn ymddyrchafu tua 9000 o droedfeddi uwchlaw wyneb y môr. Gelwid ef gan y Sidoniaid, Sirion *(y ddwy-froneg)*, ac weithiau gelwid ef Sion *(y dyrchafedig)*; ond gelwir ef yn awr *Jebel-es-Sheikh—penaeth y mynyddoedd.* Edrycher o'r lle a fyner yn ngwlad Canaan—o'r arfordir, o fynydd-dir Samaria, o waelod dyffryn yr Iorddonen, i fyny tua'r gogledd—fe welir Hermon yn terfynu yr olygfa, ac eira oesol ar ei gopa. Tybir iddo gael ei alw yn Baal-hermon oherwydd i Baal gael ei addoli arno. Feallai mai yr un lle ydyw "Baal-hermon" a "Baal-gad." Cymharer Jos. xi. 17; xii. 7; xiii. 5; 1 Cron. v. 23. Tebyg mai Banias—Cesarea Philippi y Testament Newydd, yw y lle y cyfeirir ato yma. Hamath.—Dyma derfyn eithaf gogledd gwlad Canaan yn nhymor ei llwyddiant mwyaf (Num. xiii. 21; xxxiv. 8; 1 Bren. viii. 65; 2 Bren. xiv. 25), megis ag yr oedd Cades-barnea yn derfyn deheuol. Tref ydyw a elwir yn bresenol *Hama*, i'r gogledd o Damascus, ac ar ben gogleddol y dyffryn—dyffryn Coele-Syria—sydd yn rhedeg rhwng Libanus ac Anti-Libanus. Y mae y *ffordd y deuir i Hamath* yn ddesgrifiad cywir o enau y dyffryn mawr fel yr ymegyr ar Hamath.

4. Eglurhad llawnach yw yr adnod hon o'r hyn y cyfeirir ato yn adn. 1, 2.

5. Y Canaaneaid.—Ymddengys fod trigolion Canaan yn gymysgedd o amrywiol genedloedd eithr wedi mabwysiadu yr un iaith Semitaidd, ac wedi dyfod i'r wlad oherwydd (1) cyfleusterau masnachol ei harfordir; (2) ffrwythlonder ei dyffryndir; (3) a chadernid ac amddiffyniad ei mynydd-dir. Tybia rhai fod y Canaaneaid yn enw cyffredinol ar holl breswylwyr y wlad, y rhai a enwir, wedi hyny, ar y rhestr yn ol eu henwau cenedlaethol. Y mae absenoldeb y cysylltair "a'r" rhwng y gair "Canaaneaid" a'r "Hethiaid" yn ffafrio y golygiad hwn; ond yn ol fel y ceir yr enwau hyn mewn lleoedd ereill (Ex. iii. 8), ymddengys fod y "Canaaneaid" yn dynodi cenedl wahaniaethol. Yn Ex. iii. 8, 17; xxiii. 23; xxxiii. 2; rhoddir enwau y chwe' chenedl hyn megis yma; yn Deut. vii. 1; Jos. iii. 10; xxiv. 11; ychwanegir y "Girgasiaid" atynt i'w gwneyd yn saith. Fel y crybwyllwyd yn pen. ii. 4, gall yr enwau hyn gyfeirio, nid yn gymaint

Hethiaid, a'r Amoriaid, a'r Phereziaid, yr Hefiaid *hefyd*,
6 a'r Jebusiaid : Ac a gymerasant eu merched hwynt iddynt
yn wragedd, ac a roddasant eu merched i'w meibion
7 hwythau, ac a wasanaethasant eu duwiau hwynt. Felly
meibion Israel a wnaethant ddrygioni yn ngolwg yr ARGLWYDD, ac a anghofiasant yr ARGLWYDD eu DUW, ac a
wasanaethasant Baalim, a'r llwyni.

---

at wahaniaethau cenedlaethol, eithr at arferion a safleoedd daearyddol. Dynoda y Canaaneaid bobl yr iseldiroedd, yr Amoriaid drigolion y mynydd-dir, y Phereziaid rai yn byw yn haner-crwydraidd mewn gwlad agored, yr Hefiaid bobl heddychlawn yn byw mewn pentrefi, y Jebusiaid a drigent yn ac oddiamgylch Jerusalem. Yn ol y darganfyddiadau diweddaraf, tebyg fod yr Hethiaid yn genedl ar wahan, ac wedi bod, cyn hyn, yn un o'r cenedloedd mwyaf dylanwadol yn y Dwyrain. (Gwêl *Heth and Moab*, gan Cad. Conder : *The Empire of the Hittites*, gan Dr. W. Wright).

6. Desgrifir yma ddwy râdd yn ei gwrthgiliad, sef (1) ymbriodi â'r Canaaneaid, (2) ac addoli eu duwiau. Gwelir hefyd fod yma ddirywiad mwy na'r hyn a ddesgrifir yn pen. ii. 1—3, yr hyn a brawf fod yr adnod hon yn llefaru am adeg diweddarach.

7. Y llwyni.—Dyma ddarlleniad y LXX. a'r *Vulgate ;* ond darllena yr Hebraeg *Asheroth*, ffurf luosog y gair *Asherah* yma. Ceir amrywiaeth mawr o berthynas i'r ystyr :—(1) Tybia rhai mai ffurf ychydig yn wahanol i'r gair Astaroth (gwêl pen. ii. 11) ; (2) ereill ei fod yn enw ar ddelw gerfiedig o bren i gynrychioli y dduwies Astaroth ; (3) a rhai ei fod yn air hollol wahanol, ac yn dynodi duwies wahanol—duwies tynged. Cadarnheir y golygiad diweddaf gan 1 Bren. xviii. 19 ; 2 Bren. xxiii. 4. Mae yr hanes (pen. vi. 25—30) yn profi yn amlwg mai nid llwyn o goed a feddylir ; buasai yn anmhosibl i Gëdeon dori llwyn felly mewn noswaith, a cheisio cuddio y peth drachefn.

## RHAN II.—Y PRIF ADRODDIAD. HANES NEILLDUOL Y GWAHANOL FARNWYR (PEN. III. 8—XVI. 31).

Yma, mewn gwirionedd, y mae hanesiaeth olynol cyfnod y barnwyr yn dechreu. Fel yr awgrymasom yn flaenorol, yr ydym yn edrych ar y llyfr hwn a'i amcan i ddangos ymddygiadau Duw at ei bobl gyfamodol, yn eu henciliadau a'u hadferiadau ; ac felly yn rhan o hanes uwch—rhan, pa mor ddibwys bynag, o hanes dadblygiad iachawdwriaeth Duw i'r byd. Yn unol â hyn, wrth chwilio am ryw ddosraniad o'r llyfr, naturiol ydoedd disgwyl cael ynddo ryw un egwyddor ysprydol—rhyw unoliaeth ysprydol yn nghanol amrywiaeth yr hanes. A cheir hyny, dybygid, yn ngwahanol ymddangosiadau yr angel—Angel ei gynrychiolddeb Ef, ac yn ei waith yn danfon ei Yspryd i gymhwyso dynion i fod yn waredwyr cymhwys i'r bobl. Mae hyn yn rhanu yr adroddiad canlynol (pen. iii. 7—xvi. 31) i bedwar cyfnod, pob cyfnod yn meddu ei neillduolion ei hunan ; eto, pob cyfnod yn cael ei flaenori gan ymlygriad y genedl, yna cyfryngiad yr angel, a rhoddiad yr Yspryd i gyfodi barnwyr iddynt.

Am hyny digllonedd yr ARGLWYDD a lidiodd yn erbyn 8
Israel; ac efe a'u gwerthodd hwynt i law Cusan-risathaim,
brenin Mesopotamia; a meibion Israel a wasanaethasant
Cusan-risathaim wyth mlynedd. A meibion Israel a 9
waeddasant ar yr ARGLWYDD: a'r ARGLWYDD a gododd
achubwr i feibion Israel, yr hwn a'u hachubodd hwynt;
*sef* Othniel mab Cenaz, brawd Caleb, ieuangach nag ef.
Ac yspryd yr ARGLWYDD a ddaeth arno ef, ac efe a farnodd 10
Israel, ac a aeth allan i ryfel: a'r ARGLWYDD a roddodd

---

(1.) Y CYFNOD CYNTAF O WRTHGILIAD AC ADFERIAD (pen. iii. 8—v. 31).

Cynwys y cyfnod hwn dri thymor o *orthrymder* i'r genedl, a chyfodwyd iddynt bump o farnwyr. Mae y tymhorau hyn yn myned yn *galetach*, y naill ar ol y llall, ac yn *feithach* o un i un. Yr un dan Cusan-risathaim yn wyth mlynedd; Eglon yn ddeunaw; a Jabin, brenin Canaan, yn ugain. Yr oedd Cusan-risathaim, brenin Mesopotamia, er yn alluog, eto yn mhell oddiwrth Israel; yr oedd Eglon, brenin Moab, yn eu hymyl, ac eisteddle ei lywodraeth, ar adegau, mae'n ymddangos, yn ninas y palmwydd—Jericho; ond yr oedd Jabin yn byw yn eu mysg, a dylasent fod wedi ei ddiwreiddio ef a'i bobl o'r tir. Ond yn y cyfnod hwn y cafodd Israel rai o'r barnwyr hynotaf, a rhai o'r gwaredigaethau rhyfeddaf. Nis gellir casglu fod barnwyr y cyfnod hwn yn dal eu swydd dros eu hoes; yn hytrach dywedir, mewn modd cyffredinol, i'r wlad gael llonydd ddeugain neu bedwar ugain mlynedd, ac yn y tymor tawel hwnw dechreuai hadau gwrthgiliad dyfu, ac ymlygrai y bobl nes dwyn arnynt eu hunain dymor o orthrymder, yna cyfodid barnwr ar ol barnwr iddynt.

(a) *Gorthrymder dan Cusan-risathaim a gwaredigaeth drwy Othniel* (pen. iii. 8—11).

8. Mesopotamia.—Yn Hebraeg, Aram-naharaim *(Syria-rhwng-y-ddwy-afon)*; gwlad yn gorwedd rhwng yr afon Euphrates a'r Tigris. Yno yr oedd eisteddle brenhiniaeth Nimrod, ac yr oedd Nimrod yn fab Cush (Gen. x. 8), yr hyn, efallai, a rydd gyfrif am yr enw Cusan. Nis gellir yn hawdd egluro y rhan ddiweddaf o'r enw, *Risathaim*. Dywed rhai mai gair Hebraeg ydyw yn golygu *Cusan-y-drygioni-deublyg*, neu y *fuddugoliaeth ddeublyg*. Y mae y brenin hwn yn anhysbys mewn hanesiaeth; ac nid oes unrhyw oleuni i'w gael ar ei hanes yn yr hen gerfiadau a cherf-ysgrifau.

9. Othniel (Llew Duw).—Gwêl pen. i. 13. Yr oedd Othniel eisoes yn enwog (Jos. xv. 16—19; Barn. i. 13). Efe ydyw yr unig farnwr hyd nes y delom at Ibsan, o Bethlehem, a gyfododd o lwyth Judah.

10. Dyma y lle cyntaf yn y llyfr hwn y defnyddir yr ymadrodd Yspryd yr Arglwydd; ond fel yr awgrymasom, arferir ef ar ol hyn, pen. vi. 34; xi. 29; xiii. 25; xiv. 6, 19. Gwir fod yr Yspryd yn bresenol yn mhob gras a daioni ydoedd yn aros yn yr eglwys ar y pryd; ond golygir rhyw amlygiad neillduol yma. Neillduolrwydd y barnwyr oedd eu bod wedi eu cynysgaethu gan yr Yspryd Glân â doethineb, gwroldeb, a nerth at gyflawni eu gwaith; ac yn hyn yr oeddynt yn gysgodau o Grist—" Barnwr

yn ei law ef Cusan-risathaim, brenin Mesopotamia; a'i
11 law ef oedd drech na Cusan-risathaim. A'r wlad a gafodd
lonydd ddeugain mlynedd. A bu farw Othniel mab
Cenaz.
12 A meibion Israel a chwanegasant wneuthur yr hyn oedd
ddrwg yn ngolwg yr ARGLWYDD: a'r ARGLWYDD a nerth-
odd Eglon brenin Moab yn erbyn Israel, am iddynt
13 wneuthur drygioni yn ngolwg yr ARGLWYDD. Ac efe a
gasglodd ato feibion Ammon, ac Amalec, ac a aeth ac a
darawodd Israel; a hwy a feddianasant ddinas y palm-
14 wydd. Felly meibion Israel a wasanaethasant Eglon,

---

Israel" (Micah v. 1), canys nid wrth fesur y mae Duw yn rhoddi iddo ef yr Yspryd. **Efe a farnodd Israel.**—Ni ddywedir pa fodd y llwyddodd i waredu Israel; ond awgrymir mai drwy fyned allan i ryfel.

**11.** Y mae rhai esbonwyr yn tybied y gallai Othniel fod wedi byw i ddiwedd y tymhor yma o ddeugain mlynedd. Tybiant y gallai ei fod tua phump-ar-hugain oed pan yn cymeryd Ciriath-sepher (pen. i. 8), a bod rhyw ugain mlynedd o hyny hyd adeg gorthrwm Cusan-risathaim, yr hyn, ag ychwanegu yr wyth mlynedd, yn adn. 8, ni byddai ond tair-ar-ddeg a deugain o flynyddoedd. A thybied iddo fyw i ddiwedd y cyfnod o ddeugain mlynedd, yr oedd ei oedran yn marw felly yn dair-ar-ddeg a phedwar ugain. Ond nid yw y geiriau yn cynwys iddo farnu Israel am ddeugain mlynedd, nac, yn wir, iddo fyw hyd ddiwedd y tymhor hwnw. Gellir casglu, yn ol arferiad y llyfr hwn (pen. ii. 19; iv. 1; viii. 33), fod mwy o gysylltiad rhwng marwolaeth Othniel ag ymlygriad y genedl, sydd yn dilyn adn. 12, nac â'r deugain mlynedd sydd yn adn. 11.

(b) *Gorthrymder dan Eglon brenin Moab, a meibion Ammon, ac Amalec, a rhyddhad drwy Ehwd* (pen. iii. 12—30).

**12. Eglon (Bustach).**—Y mae y gelyn yn nes atynt, a'u tymor o orthrwm yn hŵy na'r un blaenorol, yr hyn a ddengys y gwneid y prawf yn dostach iddynt.

**13, 14. Meibion Ammon ac Amalec.**—Yr oedd y rhai hyn yn gymydogion i'w gilydd, ac yn elynion marwol i Israel; ond yn yr ymosodiad hwn, ymddengys mai yr arweinydd ydoedd brenin Moab. Gorweddai tiriogaeth Amalec yn mhenrhyn Sinai (Ex. xvii. 8), ac uwchlaw Cades (Num. xiv. 45). Parhasant i fod yn elynion neillduol i Israel hyd ddyddiau Hezeciah (1 Cron. iv. 43), er iddynt gael agos eu llwyr-ddifrodi yn nyddiau Saul a Dafydd (1 Sam. xv. 7). Yr oedd gwlad Moab i'r gogledd i'r Amaleciaid, ar du dwyreiniol y Môr Marw, a thiriogaeth meibion Ammon i'r gogledd i hyny drachefn. Y tu hwnt i'r Iorddonen, ar y tu dwyreiniol, y gorweddai tiriogaethau yr oll o'r cenedloedd hyn; ac yn amser mynediad plant Israel o'r Aipht, darfu i'r Amoriaid o Basan wasgu ar diriogaethau dwy ohonynt. Gyrwyd y Moabiaid i'r deheu nes dyfod o'r afon Arnon yn derfyn gogleddol iddynt (Num. xxi. 13—26), a daeth Hesbon yn brifddinas Sehon, brenin yr Amoriaid; a gyrwyd yr Ammoniaid i'r

brenin Moab, ddeunaw mlynedd. Yna meibion Israel a 15
lefasant ar yr ARGLWYDD: a'r ARGLWYDD a gododd
achubwr iddynt; *sef* Ehwd mab Gera, fab Jemini, gwr
llaw-chwith: a meibion Israel a anfonasant anrheg gydag
ef i Eglon, brenin Moab. Ac Ehwd a wnaeth iddo ddager 16
ddau-finiog o gufydd ei hŷd, ac a'i gwregysodd dan ei
ddillad, ar ei glun ddeheu. Ac efe a ddug yr anrheg 17
i Eglon, brenin Moab. Ac Eglon *oedd* wr tew iawn.
A phan ddarfu iddo ef gyflwyno yr anrheg, efe a ollyngodd 18
ymaith y bobl a ddygasai yr anrheg. Ond efe ei hun a 19
drodd oddiwrth y chwarelau *oedd* yn Gilgal, ac a ddy-
wedodd, Y *mae* i mi air o gyfrinach â thi, O, frenin.
Dywedodd yntau, Gosteg. A'r holl rai oedd yn sefyll yn

---

dwyrain i'r mynydd-dir (Deut. ii. 37), lle yr arhosasant mewn lleoedd na feddianwyd gan Israel, a'r lle y ceir eu henwau hyd y dydd hwn yn *Amman*—hen Rabbah meibion Ammoń (Num. xxi. 24). **Dinas y palmwydd.**—Gwêl pen. i. 16. Yr oedd ffrwythlonder dyffryn yr Iorddonen yn peri ei fod yn fanteisiol i Eglon feddianu Jericho; ond nid ydyw y gair a gyfieithir "meddianu" yn golygu fod y ddinas wedi ei hail-adeiladu.

15. **Ehwd (Asio yn nghyd).**—O deulu Gera, mab Bela, cyntafanedig Benjamin, a anwyd iddo cyn ei fyned i'r Aipht (Gen. xlvi. 21; 2 Sam. xvi. 5). **Mab Jemini.**—Yn fwy cywir, **Y Benjaminiad,** am ei fod, feallai, yn enwog yn ei lwyth, a'i deulu; ac am hyny dewiswyd ef i gyflwyno yr anrheg i Eglon. **Gwr llaw-chwith.**—Tybia rhai fod hyn yn golygu diffyg naturiol, gan fod y gair yn llythyrenol i'w ddarllen, **wedi ei gau o ran ei law ddeheu.** Ond y mae darlleniad y LXX. yn gosod allan ei fod yr un mor hylaw gyda phob llaw; ac yn awgrymu, nid anaf, eithr celfyddgarwch (Barn. xx. 16; 1 Cron. xii. 2). **Anrheg.**—Teyrnged o ryw fath yn gydnabyddiaeth o ddarostyngiad a phrawf o ewyllys da (2 Sam. viii. 2—6).

16, 17. **Dager.**—Hebraeg, *cleddyf.* **Cufudd ei hyd.**—Tua 18 modfedd; ond yn ol Conder (*Tent work in Palestine, pp.* 187) 16 o fodfeddi. Yn lle "cufydd" darllena y LXX. "rhychwant," a'r *Vulgate* "dyrnfedd." Fe'i gwregysai hi dan ei ddillad fel na welid mohoni, ac ar ei glun ddeheu, fel y lle priodol i wr llaw-chwith. Cymharer 2 Sam. xx. 9, 10.

18. Pobl o lwyth Benjamin yn ddiameu a olygir yma, yr hyn a brawf i hyn gymeryd lle cyn dinystr llwyth Benjamin yn pen. xx.

19. **Y Chwarelau.**—Tardd y gair a gyfieithir yma "chwarelau," o air sydd yn golygu *meini naddedig.* Darllenir yr un gair yn *ddelwau cerfiedig* yn Deut. vii. 25; Es. xxi. 9; Jer. viii. 19; ac felly y darllena y LXX. a'r *Vulgate* yn y fan hon hefyd. Yr ystyr ddiweddaf, dybygid, ydyw y gywiraf yma hefyd, gan nad oes yr un ymadrodd arall yn y Beibl i ffafrio yr ystyr o chwarelau ceryg. **Gilgal.**—Gwel pen. ii. 1. Tybia Keil mai Gilgal gerllaw Bethel a olygir, am y buasai hono ar y ffordd i Ehwd i fynydd Ephraim; ond hawdd cysoni hyn, ar y

20 ei ymyl ef a aethant allan oddiwrtho ef. Ac Ehwd a
ddaeth i mewn ato ef: ac yntau oedd yn eistedd mewn
ystafell haf, yr hon *oedd* iddo ef ei hunan. A dywedodd
Ehwd, Gair oddiwrth DDUW *sydd* genyf atat ti. Ac efe a
21 gyfododd oddiar *ei* orseddfa. Ac Ehwd a estynodd ei law
aswy, ac a gymerth y ddager oddiar ei glun ddeheu, ac
22 a'i brathodd hi yn ei boten ef: A'r carn a aeth i mewn ar
ol y llafn, a'r brasder a ymgauodd am y llafn, fel na allai
dynu y ddager allan o'i boten; a'r dom a ddaeth allan.
23 Yna Ehwd a aeth allan trwy y cyntedd, ac a gauodd
24 ddrysau yr ystafell arno, ac a'u clodd. Pan aeth efe
ymaith, ei weision a ddaethant: a phan welsant, wele,
*fod* drysau yr ystafell yn gloïedig, hwy a ddywedasant,
Dïau esmwythau ei gorph y mae efe yn yr ystafell haf.
25 A hwy a ddisgwyliasant, nes cywilyddio *ohonynt:* ac wele,
nid oedd efe yn agori drysau yr ystafell. Yna hwy a
gymerasant agoriad, ac a agorasant: ac wele eu har-
26 glwydd hwy wedi cwympo i lawr yn farw. Ac Ehwd a
ddïangodd, tra fuant hwy yn aros; ac efe a aeth y tuhwnt

---

dybiaeth y gallasai Ehwd gymeryd llwybr cwmpasog, er mwyn dyrysu ei erlidwyr. Gosteg.—Awgrym i'w weision yr hoffai Eglon fod ei hunan.

20, 21. Ystafell haf.—Yn llythyrenol, **Goruwchystafell ymoeri.** Ystafell fechan a adeiliedid yn gyffredin ar nenau y tai, gyda lluaws o ffenestri er mwyn derbyn y chwaon adfywiol. Gair oddiwrth Dduw.—Nid yr Arglwydd, Duw Cyfamodol Israel, a ddywedir yma: bychan ofalai Eglon am y "Duw byw;" ond pan y clywai son am genadwri oddiwrth ryw dduw, cyfodai i fyny oddiar ei orseddfa. Awgryma hyn fod ganddo gred mewn Bod Dwyfol, er yn bagan eilunaddolgar.

22-24. Ni cheir y gair a gyfieithir yma "tom"—*parsedon*, yn un man arall; ac y mae amrywiaeth mawr o berthynas i'r darlleniad cywir yn y fan hon. **Efe** (y cleddyf) **a ddaeth allan yn y gwaelod**; neu, **Efe** (Ehwd) **a aeth allan o'r cyntedd.** Yr anhawsder ydyw penderfynu pa beth ydyw testyn y ferf "dyfod allan." Golyga rhai mai llafn y cleddyf neu y ddager, gan wneuthur felly y gair *parsedon*—"tom"—yn ddesgrifiad o'r fan y daeth allan. Ereill a gymerant Ehwd, gan olygu iddo, wedi canfod nas gallai dynu y ddager allan, a gweled ei hunan yn anarfog, fyned allan i'r ystafell allanol; ond wedi gweled nad oedd yno neb, a bod yr allwedd oddifewn yn gyfleus iddo, efe a glôdd ddrws yr ystafell ar Eglon (adn. 23), ac a aeth ymaith yn ngholwg, ac, efallai, drwy ganol ei weision.

25. Nes cywilyddio.—Yr unig fanau ereill y ceir yr un ymadrodd ydynt 2 Bren. ii. 17; viii. 11.

26. Seirath.—Ystyr y gair ydyw *lle coedlog.* Tybia Birch mai yr un ydyw a lle o'r enw *Umm Sirah*, tua thair milldir i'r gogledd-orllewin o ffynon Eliseus, gerllaw Jericho. Mwy naturiol, fodd bynag, ydyw y

i'r chwarelau, ac a ddïangodd i Seirath. A phan ddaeth, 27
efe a udganodd mewn udgorn yn mynydd Ephraim: a
meibion Israel a ddisgynasant gydag ef o'r mynydd, ac
yntau o'u blaen hwynt. Ac efe a ddywedodd wrthynt, 28
Canlynwch fi; canys yr ARGLWYDD a roddodd eich gelyn-
ion chwi, *sef* Moab, yn eich llaw chwi. A hwy a aethant
i waered ar ei ol ef, ac a enillasant rydau yr Iorddonen
tua Moab, ac ni adawsant i neb fyned drwodd.
A hwy a darawsant o'r Moabiaid y pryd hwnw yn 29
nghylch deng mil o wŷr, pawb yn rymus, a phawb yn wŷr
nerthol; ac ni ddïangodd neb. Felly y darostyngwyd 30

---

dybiaeth arall, ei fod yn lle anhysbys, ond yn rhywle yn mynydd Ephraim. Y Chwarelau.—Gwêl adn. 19.

27. Mynydd Ephraim.—Ymadrodd yn myned am yr oll o'r rhan fynyddig, o fewn rhandir Ephraim, yn dechreu yn agos i Bethel, ychydig filldiroedd i'r gogledd o Jerusalem, ac yn cyrhaedd hyd ddyffryn Esdraelon; ac yn ymestyn, ar draws y wlad, bron o'r Iorddonen hyd Fôr y Canoldir. Yr oedd mynydd Ephraim, i ogledd-barth y wlad, yr hyn ydoedd mynydd-dir Judah i'r deheubarth, yn fath o asgwrn cefn, canolbwynt, ac amddiffynfa i'r llwythau. Ystyrid Sichem yn mynydd Ephraim (Jos. xxiv. 7; xxi. 21), a Timnath-serah lle y claddwyd Josua (Barn. ii. 9), a bedd Eleazar (Jos. xxiv. 33). Mor ddiweddar ag amser Saul, ystyrid ef yn fath o dŵr amddiffyn yn amser gorthrymder y Philistiaid (1 Sam. xiii. 6; xiv. 22). Yr hyn ydoedd mynyddoedd Switzerland i'r Swissiaid, yn y Canol-oesoedd, ac ucheldiroedd Ysgotland i'r Ysgotiaid, a mynyddoedd Eryri i'r Cymry, dyna oedd mynydd Ephraim i Israel yn adegau eu cyfyngder. Rhwng Ramah a Bethel, yn mynydd Ephraim, y trigai Deborah (Barn. iv. 5). Yn Samir, yn mynydd Ephraim, y bu Tola yn barnu Israel (pen. x. 1). Hanai Samuel o Ramath-Sophim yn yr un rhanbarth (1 Sam. i. 1). Felly, fe aeth Ehwd i udganu mewn udgorn i un o brif amddiffynfeydd y genedl.

28. Y mae pobpeth yn dangos cyflymder ysgogiadau Ehwd; fe aeth heibio Jericho, gan gymeryd meddiant o "rydau yr Iorddonen;" efallai yr *holl* rydau posibl i'r Moabiaid ddianc drwyddynt, neu yn fwy tebygol, y rhydau neillduol, gyferbyn â Jericho, tua gwaith awr o deithio, i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain o ben gogleddol y Môr Marw.

29, 30. Pawb yn rymus.—Yn llythyrenol, **yn fras.** Ond nid yr un gair sydd yma ag yn adn. 17 am Eglon, ei fod yn "ŵr tew." Golyga y gair yno *un pasgedig*; ond yma golyga ddynion nerthol, golygus; ac felly glewion y Moabiaid.

Cyfiawnheir gwaith Ehwd yn lladd Eglon, ac yn dinystrio y Moabiaid, gan rai esbonwyr, ar y syniad ei fod yn cario allan orchymyn y Goruchaf, yr un modd ag y mae awdurdod wladol yn cyfreithloni gweinyddiad dedfryd farnol. Prin y gellir gwneyd hyny. Mewn amgylchiadau o'r fath yma, rhaid gwahaniaethu rhwng llywodraeth ragluniaethol Duw ar y byd â'i ddeddf foesol. Dwg Duw ei amcanion rhagluniaethol i ben drwy bob

Moab y dwthwn hwnw dan law Israel. A'r wlad a
gafodd lonydd bedwar ugain mlynedd.
31 Ac ar ei ol ef y bu Samgar, mab Anath; ac efe a
darawodd o'r Philistiaid chwe' chanwr âg irai ychain:
yntau hefyd a waredodd Israel.

---

math o actau—daionus, drygionus, a chymysgryw—ond nid yw hyn yn cyffwrdd o gwbl âg ansawdd y gweithredoedd hyny; penderfynir hyny yn hollol yn ol deddf ddigyfnewid Duw. Wrth farnu ansawdd gweithred, fodd bynag, yn ei pherthynas â'r gweithredydd, dylid rhoddi lle i lawer o ystyriaethau, yn cyfodi o'r oes a'r amgylchiadau dan ba rai y cyflawnwyd hi, sydd a thuedd ynddynt i gymedroli ein barn am natur y fath weithred. Gallwn edmygu ffydd a gwladgarwch Ehwd, heb fod yn ddall i'r golygiadau diffygiol hyny am ddrwg a da, a barai iddo ef a'i gydwladwyr ymogoneddu mewn gweithred yr edrychid arni, yn ngoleuni eglurach Cristionogaeth, yn drosedd. Y mae yn deilwng o sylw, nad ydyw Ehwd na Jael, gwraig Heber, yn y rhestr o enwogion ffydd yn Heb. xi., ac ni ddywedir ychwaith, yn y llyfr hwn, fod eu gwaith dan gyfarwyddyd uniongyrchol yspryd yr Arglwydd.

(c) *Samgar yn taraw y Philistiaid* (pen. iii. 31).

31. Yr oedd y rhyfeloedd o'r blaen gyda gelynion o'r tu allan i Israel; ond yn awr wele y gelynion o fewn y wlad—y Philistiaid a Jabin, brenin Canaan. Nid oes yr un o'r barnwyr y dywedir cyn lleied am dano a *Samgar;* dim ond yr hyn a ddywedir yma ac yn pen. v. 6. Oddiwrth y crybwyllion hyn, yr unig beth ellir gasglu gyda mesur o sicrwydd am dano ydyw, ei fod yn gyd-oesydd â Jael. Oddiwrth ei fod yn fab Anath, a bod Bethanath yn rhandir Naphtali, cesglir mai o'r llwyth hwnw yr ydoedd. Tybia ereill, am ei fod yn ymosod ar y Philistiaid, mai o lwyth Judah yn neheubarth y wlad yr ydoedd; ac aiff rhai esbonwyr mor bell a thybied y gallai fod Heber, gŵr Jael, cyn ei ymfudiad o wastadedd Arad, yn y deheu (pen. i. 16), wedi cynorthwyo Samgar yn ei ymosodiadau ar y Philistiaid, a bod hyny yn rhoddi cyfrif am (1) fod Jael a Samgar yn cael eu crybwyll gyda'u gilydd yn pen. v. 6; (2) ac yn rheswm hefyd am ymfudiaeth Heber i ranau gogleddol y wlad oddiar ffordd y Philistiaid. Irai ychain.—Ni cheir y gair a gyfieithir "irai," yn y fan hon, yn un man arall yn y Beibl. Math o ffon goed gref ydyw, o wyth i ddeg troedfedd o hyd, gyda swmbwl haiarn ar un pen iddi i symbylu yr ychain, a rhaw fechan haiarn ar y pen arall i ryddhau y pridd oddiwrth yr aradr. Gyda deheurwydd a nerth, y mae yn offeryn dinystriol iawn.

## PENOD IV.

A MEIBION Israel a chwanegasant wneuthur drygioni 1
yn ngolwg yr ARGLWYDD, wedi marw Ehwd. A'r 2
ARGLWYDD a'u gwerthodd hwynt i law Jabin brenin
Canaan, yr hwn oedd yn teyrnasu yn Hazor: a thywysog
ei lu ef *oedd* Sisera; ac efe oedd yn trigo yn Haroseth y

---

PEN. iv. *1—3.—Gwrthgiliad Israel a gormes Jabin. 4—9.—Deborah y brophwydes yn galw Barac i waredu Israel, ac yn ei ganlyn. 10.—Byddin Barac. 11.—Heber y Cenead. 12—16.—Gorchfygu byddin Sisera. 17—22.—Sisera yn ffoi a chael ei ladd gan Jael. 23, 24.—Llwyr fuddugoliaeth Israel.*

(d) *Gormes Jabin, brenin Canaan, a dyfodiad Deborah a Barac i waredu Israel* (pen. iv. 1—14).

1, 2. Yr hyn sydd darawiadol yn nglŷn â hyn ydyw yr hanes yn Jos. xi. 1, ddarfod i Josua ddinystrio brenin arall o'r enw Jabin, yr hwn yntau oedd yn trigo yn Hazor, a llosgi ei gerbydau â thân. Tybia rhai mai yr un amgylchiad ydyw hwnw a hwn. Ar y dybiaeth hon adroddiad rhanol geir yma o'r frwydr y ceir adroddiad mwy cyffredinol ohoni yn Josua xi. Effeithia hyn hefyd ar amseryddiaeth y llyfr hwn, gan y byddai raid deall fod rhai o gyfnodau y barnwyr, nid yn olynol, eithr yn gydfynedol â'u gilydd. Ond y mae yn dra thebyg fod cant a haner o flynyddoedd rhwng amser Josua a Barac—digon o amser i Hazor gael ei hail-adeiladu, fel prif ddinas y Canaaneaid, yn ngogledd y wlad; a bod ei brenin o'r un enw a'i flaenorydd, (1) am ei fod yn berthynas iddo, (2) neu am fod ei enw yn un tref-tadol, (3) neu yn enw swyddol ar holl frenhinoedd Hazor, yn gyffelyb i'r teitl Pharaoh ar frenhinoedd yr Aipht. Hazor.—Gair yn arwyddo lle o amddiffyniad, megis y gair Cymraeg *Caer*. Mae lleoliad Hazor yn ansicr. Yr unig beth ellir ddyweyd gyda sicrwydd o'r Beibl am dani ydyw ei bod yn rhandir Naphtali (Jos. xix. 36), yn rhywle rhwng Ramah a Cedes, a'i bod yn agos i ddyfroedd Merom *(Huleh)*. (1) Tybia Robinson mai lle tua thair milldir a haner i'r gorllewin o ddyfroedd Merom, a thua dwy filldir a haner i'r deheu o Cedes *(Kades)*, o'r enw *Tell-Khureibah* ydyw y fan. (2) Y mae Tristram yn cefnogi lleoliad Cadben Wilson, mai lle uchel, tua dwy filldir i'r de-ddwyrain i Cedes, ac uwchben y dyffryn lle y gorwedd dyfroedd Merom, o'r enw *Tell-Hara*, ydyw y safle. (3) Tystia Conder, drachefn, fod lle, tua milldir a haner i'r gorllewin o'r lle a noda Robinson, a'i enw, yn yr Arabaeg—*Jebel Hadireh*—yn cyfateb yn hollol i'r gair Hazor. Haroseth y Cenedloedd.—Dyma le eto sydd a'i safle yn anhysbys; ond y mae y gair "cenedloedd" yn awgrymu ei fod yn Galilea y Cenedloedd. Cyfeiria y gair *Haroseth* at gelfyddgarwch mewn cerfiadaeth ar bren neu faen; ac awgrymir, yn gymaint a bod y rhanbarth hwnw yn gyfoethog mewn pob math o goed gwerthfawr, y gallai Jabin fod yn cadw yr Israeliaid yn gaeth-weision iddo i gerfio y coed yn Haroseth, a danfon y cerfwaith i Sidon i gael ei werthu. Dyry Dr. Thomson a Conder—dau awdurdod uchel—leoliad tebygol Haroseth yn *El-Harathiyeh*, y tu gogleddol i afon Cison, ac wrth droed mynydd Carmel.

3 cenedloedd. A meibion Israel a lefasant ar yr ARGLWYDD:
canys naw càn cerbyd haiarn *oedd* ganddo ef; ac efe a
orthrymodd feibion Israel yn dost ugain mlynedd.
4 A Deborah y brophwydes, gwraig Lapidoth, y hi oedd
5 yn barnu Israel yr amser hwnw. Ac yr oedd hi yn trigo
dan balmwydden Deborah, rhwng Ramah a Bethel, yn
mynydd Ephraim: a meibion Israel a ddeuent i fyny ati
6 hi am farn. A hi a anfonodd, ac a alwodd am Barac mab
Abinoam, o Cedes-Naphtali; ac a ddywedodd wrtho, Oni

---

3. Cerbyd haiarn.—Gwêl pen. i. 19. A orthrymodd.—Yr un gair yn hollol ag a ddefnyddir am gaethiwed yr Israeliaid yn yr Aipht.

4. A Deborah y brophwydes.—Yr unig fenyw, ac eithrio traws-feddiant Athaliah, a fu yn llywodraethu ar Israel, a'r unig un a dderbyniodd ddawn brophwydol yn y cyfnod hir o ddau can' mlynedd, o farwolaeth Moses hyd yr adeg hon. Yn y benod hon (adn. 6, 9, 14) ceir engreiphtiau o'i dawn brophwydol, ac yn pen. v. ceir càn brophwydol o'i heiddo. Yn ol adnod 5, ymddengys fod Deborah y brophwydes, cyn cynhyrfu y bobl i ymladd yn erbyn eu gorthrymwyr, yn gwneyd y y rhan hono o waith y barnwyr, sef, cynal i fyny urddas y gyfraith, a dwyn y bobl yn ol i lwybrau cyfiawnder. Am brophwydesau gwêl Ex. xv. 20; 2 Bren. xxii. 14; Neh. vi. 14; Luc ii. 36. Lapidoth.—Ystyr y gair ydyw *lampau*, neu *fflamdyrch*; a deallir y gair, gan rai esbonwyr, nid yn enw ar ei phriod, eithr yn ddesgrifiad o'i chymeriad hi, gan awgrymu y darlleniad canlynol:—**Deborah, gwraig o yspryd tanllyd.**

5. Gorwedd Ramah *(Er-Ram)* ar fryn bychan, tua phum' milldir i'r dwyrain o Gibeah, a thua yr un pellder i'r deheu o Bethel. Am Bethel, gwêl pen. i. 22. Tybia Tristram fod *palmwydden Deborah* mewn dyffryn bychan ychydig i'r gogledd o Ramah, a'i farn ef ydyw mai dan hono y claddwyd mamaeth Rebecah (Gen. xxxv. 8). Os felly, tebyg mai dyna yr achos i'r Deborah hon ddewis y llecyn i farnu Israel ynddo. Gesyd Stanley "balmwydden Deborah" yn Baal-Tamar, heb fod yn mhell o Ramah, a "derwen Deborah" (Gen. xxxv. 8) ar y brif-ffordd yn agos i Bethel.

6. Cedes Naphtali (Kedes).—Gelwir hi felly i'w gwahaniaethu oddiwrth Cedes yn neheudir Judah. Gorwedd ar ben yr ucheldir uwchben dyfroedd Merom, tua phedair milldir i'r gogledd-orllewin i'r llyn, ac uwchben y pantle lle y ffynonella yr Iorddonen. Hi oedd y fwyaf gogleddol o'r tair dinas noddfa, ar du gorllewinol yr Iorddonen. Geilw y brophwydes am arweinydd milwraidd o'r gogledd, y lle yr oedd eisteddle y gormeswr, a byddin o wŷr Naphtali a Zabulon, y llwythau a ormesid fwyaf ganddo, i ddyfod i lawr ati i gyfeiriad y deheu. Dos a thyn tua mynydd Tabor.—Darllener, yn hytrach, **Tyn allan ar fynydd Tabor.** Ymadrodd anghyffredin iawn, ond ceir ef yn pen. xx. 37, a chyfieithir ef yno, yn y testyn *yn udganu yn hirllaes*, ac ar ymyl y ddalen, *a aethant rhagddynt.* (1) Y mae ystyr llythyrenol y geiriau yn ffafrio y darlleniad arferol, ond fod yr arddodiad yn anghywir; nid *tua*, eithr **yn,** sydd yn yr Hebraeg.

orchymynodd ARGLWYDD DDUW Israel, *gan ddywedyd*,
Dos, a thyn tua mynydd Tabor, a chymer gyd â thi ddeng
mil o wŷr, o feibion Naphtali, ac o feibion Zabulon? A 7
mi a dynaf atat, i afon Cison, Sisera tywysog llu Jabin, a'i
gerbydau, a'i luaws; ac a'i rhoddaf ef yn dy law di. A 8
Barac a ddywedodd wrthi, Od âi di gyd â mi, minau a âf;
ac onid âi gyd â mi, nid âf. A hi a ddywedodd, Gan fyned 9
yr âf gyd â thi: eto ni bydd gogoniant i ti yn y daith yr
wyt yn myned iddi; canys yn llaw gwraig y gwerth yr
ARGLWYDD Sisera. A Deborah a gyfododd, ac a aeth gyd
â Barac i Cedes.
A Barac a gynhullodd Zabulon a Naphtali i Cedes; ac a 10
aeth i fyny â deng mil o wŷr wrth ei draed: a Deborah a

---

(2) Tybia rhai ei fod i'w ddeall fel Ex. xix. 13; Jos. vi. 5, am wneuthur sŵn hirllaes âg udgorn; ond ni sonir am udgorn yma. (3) Golyga ereill ei fod yn meddwl tynu ato filwyr i fynydd Tabor; ond yr atebiad i hyn ydoedd fod ganddo ddeng mil o filwyr yn myned yno. (4) Mwy tebygol mai math o ymadrodd milwraidd ydyw, yn golygu tynu allan ei filwyr yn raddol, yn nghymydogaeth mynydd Tabor, nes y gallai llwythau Ephraim a Benjamin, oeddynt yr ochr arall i ddyffryn Esdraelon, ymuno â hwynt. Yr oedd Barac i gadw ei filwyr yn mynydd Tabor hyd nes deuai y foment iddo ruthro ar fyddin Sisera, yr hon ydoedd wedi ei thynu allan (adn. 7, yr un gair sydd yma) i afon Cison. Mynydd Tabor (Jebel et Tur).—Ffurf a safle, yn fwy nag uchder, sydd yn gwneyd y mynydd hwn yn hynod. Ymgyfyd megis yn nghanol dyffryn Esdraelon, neu, efallai, yn nês i'w gŵr dwyreiniol na'i ganol, am oddeutu 1850 o droedfeddi uwchlaw wyneb y môr. Saif ei hunan, a'i ben yn grwn megis talcen ŵy, a'i ochrau yn serth, mor serth fel nas gellir myned i fyny i'w ben o'r tu gogleddol iddo. Tyn ein sylw y foment ei gwelir, ac nid hawdd peidio cadw golwg arno tra y byddis mewn cyfleusdra. Cyfrifir ei fod tuag un filldir ar ddeg i'r gorllewin o Fôr Galilea, a ffurfiai amddiffynfa i'r Israeliaid, hyd nes yr oeddynt mewn cyfleusdra i ymosod ar Sisera yn y dyffryn islaw.

7, 8, Cison (Ffrwd).—Afon sydd a'i tharddellau yn mynyddoedd Tabor a Gilboa, ac yn ymdroelli drwy ddyffryn Jezreel, ac a elwir yn awr *Nahr-Mukatta*, enw sydd yn dynodi ffrwd droellog. Rhêd mewn cyfeiriad gogledd-orllewinol, drwy ddyffryn Esdraelon, nes ymarllwys i Fôr y Canoldir, wrth droed mynydd Carmel. Hyd nes y cryfheir hi gan ffynonau Carmel, nid ydyw ei gwely, y rhan amlaf, ond cafn sych, gwâg; ond ar ol gwlawogydd, neu doddiad yr eira ar y mynyddoedd, llenwir hi â rhyferthwy mawr o ddwfr, yr hyn a wnaed, dybygid, yn adeg y frwydr hon.

9, 10. Mae hanes Barac yn egluro yr ymadrodd yn Heb. xi. 34, "a nerthwyd o wendid." Yr oedd ei waith yn rhoddi amodau i lawr, ac nid yn myned ar unwaith ar gais yr Arglwydd, yn cymeryd ymaith berarogl y fuddugoliaeth oddiarno ef. Oherwydd iddo ef nacâu myned allan i'r maes heb bresenoldeb gwraig, er i hono fod yn brophwydes enwog, y dywedwyd wrtho, "yn llaw gwraig y gwerth yr Arglwydd Sisera." Deallai Barac y

11 aeth i fyny gyd âg ef. A Heber y Cenead, o feibion
Hobab, chwegrwn Moses, a ymneillduasai oddiwrth y
Ceneaid, ac a ledasai ei babell hyd wastadedd Zaanaim,
12 yr hwn *sydd* yn ymyl Cedes. A mynegasant i Sisera, fyned
13 o Barac mab Abinoam i fyny i fynydd Tabor. A Sisera a
gynhullodd ei holl gerbydau, *sef* naw càn cerbyd haiarn,
a'r holl bobl y rhai *oedd* gyd âg ef, o Haroseth y cenedl-
14 oedd hyd afon Cison. A Deborah a ddywedodd wrth
Barac, Cyfod; canys hwn *yw* y dydd y rhoddodd yr
ARGLWYDD Sisera yn dy law di: onid aeth yr ARGLWYDD
allan o'th flaen di? Felly Barac a ddisgynodd o fynydd
15 Tabor, a deng mil o wŷr ar ei ol. A'r ARGLWYDD a ddryll-
iodd Sisera, a'i holl gerbydau, a'i holl fyddin, â min y

---

dywediad yn ddiau am Deborah, ond y mae yn amlwg y golygai Deborah, Jael. Esboniwyd y brophwydoliaeth, fel llawer un ar ei hol, gan y cyflawniad.

11, 12. Fel yr awgrymwyd (pen. iii. 31), gallai hyn fod wedi cymeryd lle yn nyddiau Ehwd, ac mewn canlyniad i ormes y Philistiaid. Am y Ceneaid, gwêl pen. i. 16. Gwastadedd Zaanaim.—Yn ol y LXX. a'r C. D., **Derwen Zaanaim.** Arferid cymeryd lleoedd yn agos i goed yn wersyllfaoedd, ac edrychir ar y manau hyny fel nodau dacaryddol wrth ddesgrifio y wlad. Felly dylid darllen, nid "gwastadedd," eithr "derwen," yn y lleoedd canlynol:—Gen. xiii. 18; xiv. 13; xviii. 1; Deut. xi. 30; Barn. ix. 6, 37; 1 Sam. x. 3. Gall y gair olygu un pren unigol, neu lwyn o goed. Zaanaim.—Ystyr y gair ydyw *lle y crwydriadau.*

13, 14. Y mae yr ymadrodd, *o Haroseth y Cenedloedd hyd afon Cison*, yn golygu holl ddyffryn Esdraelon, o'i bwynt eithaf yn y gorllewin, hyd ei bwynt eithaf yn y dwyrain. Y gair Esdraelon sydd ffurf Roegaidd i'r gair Hebraeg, Jezreel, a'i ystyr lythyrenol ydyw, **y lle a hauodd Duw.** Dyma y fan sydd wedi bod erioed yn faes brwydrau mawrion Canaan, yr unig fan y gall byddin o wŷr meirch a cherbydau ymgasglu yn nghyd; ac felly yr unig bwynt o gyfarfyddiad rhwng milwyr yr iseldiroedd, a hyderent yn eu cerbydau a'u marchogion, a byddinoedd y mynyddwyr o amgylch a ymddiriedent, yn benaf, yn eu rhuthrgyrchoedd sydyn o fylchau y mynyddoedd. Dernyn tri onglog o wastad-dir ydyw yn nghanolbarth Palestina, yn tori ar draws y wlad, gan ymestyn o'r Iorddonen i Fôr y Canoldir; ac yn ysgar felly, fynydd-dir Samaria a Charmel oddiwrth fynydd-dir Galilea. Mae yn un o'r llenyrch enwocaf yn hanesiaeth y wlad. Yma y bu brenhinoedd yr Aipht ac Assyria yn cyfarfod â'u gilydd i ryfel; ac heblaw Deborah a Barac, yma y bu Gedeon, Saul a Jonathan, Ahab a Jezebel, Jehu a Josiah, Holofernes a Judith, Vespasian a Josephus, Saladin a Bonaparte, &c.

(e) *Brwydr fawr afon Cison; Gorchfygu Jabin a Lladd Sisera*
(pen. iv. 15—24).

15. Dengys y gair "a ddrylliodd," y rhan oedd gan yr Arglwydd yn y frwydr. Gwel yr un gair yn Exod. xiv. 24; xxiii. 27; Josh. x. 10. Y

cleddyf, o flaen Barac: a Sisera a ddisgynodd oddiar *ei*
gerbyd, ac a ffodd ar ei draed. Ond Barac a erlidiodd ar 16
ol y cerbydau, ac ar ol y fyddin, hyd Haroseth y cenedl-
oedd: a holl lu Sisera a syrthiodd ar fin y cleddyf: ni
adawyd un ohonynt. Ond Sisera a ffodd ar ei draed i 17
babell Jäel, gwraig Heber y Cenead: canys *yr oedd*
heddwch rhwng Jabin brenin Hazor a thŷ Heber y Cenead.
A Jäel a aeth i gyfarfod â Sisera; ac a ddywedodd 18
wrtho, Tro i mewn, fy arglwydd, tro i mewn ataf fi; nac
ofna. Yna efe a drodd ati i'r babell, a hi a'i gorchuddiodd
ef â gwrthban. Ac efe a ddywedodd wrthi, Dïoda fi, 19
atolwg, âg ychydig ddwfr; canys sychedig wyf. Yna hi

---

mae yr ymadroddion o "flaen Barac," ac â "min y cleddyf," yn dangos, er fod gallu Duw yn amlwg, eto fod eisieu offerynoliaeth ddynol. Pan yr ystyrir y nerth dwyfol oedd gydag Israel, a lle ac amser y fuddugoliaeth, gellir cael esboniad syml arni. Tua thair milldir i'r gorllewin i fynydd Tabor, y tardd y Cison, a rhêd ei chwrs drwy gadwen o gors-lynoedd a amgylchynir gan hesg a brwyn. Ar hyd llinell yr afon hon, dybygid, wrth droed y bryniau sydd yn ffinio ar gŵr gogleddol y dyffryn, y fföai byddin Sisera. Chwyddasai yr afon—"yr hên afon" (v. 2)—hên afon y brwydrau, a hi a'u hysgubodd hwynt ymaith. Tebygol fod yr adeg yn ystod ystormydd yr Hydref, y rhai a gymerent le yn gynar yn niwedd y flwyddyn, a dyna yr adeg y bydd y cawodydd o oruchion (*meteors*) yn disgyn, y rhai, pan ffoai y fyddin yn y nos, a roddent ystyr neillduol i'r ymadrodd (pen. v. 20), "y sêr yn eu graddau a ymladdodd yn erbyn Sisera."

16. 17. Ymddengys fod yr erledigaeth yn ddiarbed, a'r dinystr ar y gelynion yn llwyr, oddiwrth yr ymadrodd *hyd Haroseth*, yr hon ydoedd yn mhwynt eithaf gogledd-orllewinol y dyffryn, yn y fan lle yr arllwys y Cison i'r môr. Yn ol y desgrifiad rhaid fod Sisera yn ffoi i gyfeiriad gwrth-gyferbyniol i'w fyddin. Ar y dybiaeth mai Cedes-Naphtali, y naill du i ddyfroedd Merom, a olygir yma, fel y fan yr oedd Heber yn byw, yr oedd ganddo tua deugain milldir o ffordd i gerdded ar ei draed. Y mae Conder yn gryf mai nid hono a olygir yma ac yn adn. 11; yn ei dyb ef, buasai yn annaturiol i feddwl ddarfod i Sisera ffoi bellder mor fawr i Cedes yn Galilea Uchaf, a dadleua yn gryf mai yr un yw Zaanaim a Bitzaanaim (*Bessum*), tref yn llwyth Issachar, o'r tu dwyrain i fynydd Tabor, ar y byrdd-dir uchel uwchben Môr Galilea. Ar sail hyn crêd Conder mai y Cedes y sonir am dano yma ydyw lle a elwir yn bresenol *Kedish*, ar lan Môr Galilea, tua deuddeng milldir i'r dwyrain o Tabor, ac ychydig i'r deheu, ar lan y llyn, i dref Tiberias. Os derbynir yr eglurhad hwn, rhaid deall, cofier, fod yma ddwy dref o'r enw Cedes yn cael son am danynt yn y benod hon; un yn adn. 6, 9, Cedes Naphtali, cartref Barac; a'r llall yn adn. 11, 17, lle y cartrefai Heber, ac felly lle yr oedd pabell Jael.

18. 19. Nid aeth Sisera i babell Heber am nad ydoedd gartref, fe ddichon; neu yn fwy tebygol, am fod pabell Jael—yr *harem*—rhan y wraig o babell y gŵr, yn lle o ddyogelwch perffaith, gan nad oes neb estron o ddyn,

a agorodd gynnog o laeth, ac a'i dïododd ef, ac a'i
20 gorchuddiodd. Dywedodd hefyd wrthi, Saf *wrth* ddrws y
babell; ac os daw neb i mewn, a gofyn i ti, a dywedyd,
21 A oes yma neb? yna dywed dithau, Nac *oes*. Yna Jäel
gwraig Heber a gymerth hoel o'r babell, ac a gymerodd
forthwyl yn ei llaw, ac a aeth i mewn ato ef yn ddistaw,
ac a bwyodd yr hoel yn ei arlais ef, ac a'i gwthiodd i'r
ddaear; canys yr oedd efe yn cysgu, ac yn lluddedig: ac
22 *felly* y bu efe farw. Ac wele, a Barac yn erlid Sisera, Jäel
a aeth i'w gyfarfod ef; ac a ddywedodd wrtho, Tyred, a
mi a ddangosaf i ti y gwr yr wyt ti yn ei geisio. Ac efe
a ddaeth i mewn ati; ac wele Sisera yn gorwedd yn farw,

---

dan boen marwolaeth, yn ol defodau y Dwyrain, i fyned i babell y wraig. **Gwrthban.**—Math o orchudd, wedi ei wneyd o flew geifr, a berthynai i babell ddwyreiniol. Daw y gair Cymraeg o *gwrth* a *pannu*. **Cynnog o laeth.**—Yn fwy cywir, **costrel o laeth**. Llaeth ceuledig a elwir gan yr Arabiaid *Lebben*, yr hwn a ystyrir yn ddiod ddanteithiol, ac yn gwsg-bair o'r fath ragoraf. Yn 1 Cron. ii. 55, cysylltir y Ceneaid a'r Rechabiaid â'u gilydd; efallai eu bod yn yfwyr llaeth a dwfr, ac yn ymwrthodwyr â gwirf.

**20, 21.** Daw nodweddau twyllodrus y cymeriad Dwyreiniol i'r golwg yma yn Jael a Sisera. Wrth *hoel o'r babell* y meddylir math o hoelen o bren caled, neu weithiau o haiarn, tua throedfedd a haner o hyd, a ddefnyddir i sicrhau rhaffau y babell. Y *morthwyl* ydoedd yr ordd a gedwir wrth law yn wastadol i guro hoelion y babell. Gwel pen. v. 24. **Arlais.**—Y rhan hono o ochr y pen, o'r naill du i'r llygaid, ac uwchlaw y glust, lle y dechreu y pen ymgolli tua'r coryn (pen. v. 26; Can. Sol. iv. 3; vi. 7).

**22.** Prin y tybiai Barac y fuddugoliaeth yn gyflawn, tra y byddai Sisera yn fyw, ac felly erlidiai ef; ond yr oedd yn rhy ddiweddar, gwerthodd yr Arglwydd ef i law gwraig. Dygir yma i'r golwg yn darawiadol ddywediad Deborah (adn. 9). Amgylchynir yr hanes hwn gan anhawsderau. A oedd y weithred yn fradwriaeth benderfynol o du Jael, neu yn llofruddiaeth anfwriadol, wrth weled ei hunan wedi cael ei gosod mewn sefyllfa nas gallasai fod yn annhleidgar rhwng Israel a'i gelynion? Awgryma rhai y gallai fod yn ymgais i osgoi llid Barac, oherwydd llochesu ei elyn, neu ei bod yn anghymeradwyo claearineb ei phriod, ac yn teimlo fod rhwymedigaeth ar y Ceneaid i gydweithredu gydag Israel, ac iddi, wrth weled gelyn ei chyfeillion yn cysgu yn ddigymorth yn ei phabell, deimlo fod yr Arglwydd wedi ei roddi yn ei llaw yn ol prophwydoliaeth Deborah—prophwydoliaeth, digon tebyg, ag oedd yn wybyddus i ferched y wlad hono. Amddiffyna Awstin y weithred drwy ddyweyd iddi gael ei chyflawni dan ddylanwad datguddiad. Tybia ereill—yr hên Rabiniaid Iuddewig, a rhai esbonwyr diweddarach—fod yr eglurhad yn nghymeriad ac amcanion Sisera. Yn ol yr eglurhad hwn yr oedd Sisera gydag amcanion anniwair, wedi unioni, er yn ffoedig, eto yn arfog, am babell Jael, a hithau, wrth weled hyny, wedi rhoddi y wyneb oreu ar bethau, a'i wahodd i mewn, a'i fod yntau, wrth fyned i babell gwraig, wedi troseddu un o reolau mwyaf cysegredig bywyd

a'r hoel yn ei arlais. Felly y darostyngodd Duw y dwthwn 23
hwnw Jabin brenin Canaan o flaen meibion Israel. A llaw 24
meibion Israel a lwyddodd, ac a orchfygodd Jabin brenin
Canaan, nes iddynt ddistrywio Jabin brenin Canaan.

---

Dwyreiniol; a'r gospedigaeth am hyny oedd y buasai raid i'w phriod neu ei brawd ei ladd; felly, nad ydoedd hi, wrth bwyo yr hoel i'w arlais ef, ond yn cario allan y ddedfryd angenrheidiol er amddiffyn ei chymeriad, a dial y dianrhydedd a daflwyd arni gan Sisera. Er cadarnhau y golygiad hwn, awgrymir fod cymeriad Sisera, yn y mater hwn, yn dyfod i'r golwg yn ngair ei fam, pen. v. 30, "llances neu ddwy i bob gŵr;" a bod cyfeiriad at waith Jael, yn amddiffyn ei chymeriad, yn awgrym Deborah (pen. v. 24), "bendithier hi goruwch gwragedd *yn y babell.*" Prin, wedi'r cwbl, y gorwedd yr eglurhad hwn yn naturiol ar yr hanes. Gyda golwg ar *foesoldeb* y weithred, y mae y sylwadau a wnaed yn pen. iii. 30, yn wir yma. Nid ydym i ddeall fod Deborah (pen. v. 24) yn cymeradwyo y weithred fel un uniawn, ond fel gweithred oedd yn cario allan amcanion y Nefoedd yn hanes Israel. Yn Salm cxxxviii. 9, cyhoeddir gwynfydedigrwydd uwchben y neb a darawai rai bychain Babilon wrth y meini; ond fe ŵyr pawb sydd yn deall barddoniaeth Hebreig mai nid y meddwl ydyw fod llofruddion plant yn cael eu bendithio, ond fod yr offerynau hyny oeddynt yn adfesur yn ol i Babilon y creulonderau a wnaeth hi i Israel, yn cyflawni amcanion y Nefoedd yn annibynol ar ansawdd eu gweithredoedd a'u hamcanion hwy eu hunain.

**23, 24.** Bu y frwydr hon yn benderfyniad ar dynged Jabin, brenin Canaan. Awgrymir hyny yn nghoffâd ei enw dair gwaith yn ymyl eu gilydd. Dechreuodd buddugoliaeth fawr Barac gyfnod llwyddianus o adferiad i Israel, yr hwn a ddybenodd yn llwyr-oresgyniad y gallu Canaaneaidd, ac ni chlywir mwyach son am orthrwm y Canaaneaid yn y llyfr hwn.

---

## PENOD V.

(f) *Cân Buddugoliaeth Deborah* (pen. v. 1—31).

**Pen.** v. *1—3.—Ymgynulliad y bobl yn nghyd. 4—5.—Gogoneddus weithredoedd yr Arglwydd o'r blaen. 6—8.—Sefyllfa isel y wlad cyn hyn. 9—11.—Gwladgarwch y bobl yn cael ei enyn. 12—15.—Yr ymfyddino i'r frwydr. 16—18.—Y glewion a'r llwfriaid. 19—22.—Y fuddugoliaeth. 23.—Melldithio Meroz, y ddinas anffyddlon. 24—27.—Bendithio Jael. 28—30.—Disgwyliadau uchel mam Sisera yn cael eu siomi. 31.—Diweddglo gorfoleddus.*

Dyma yr unig ddernyn o'r fath er dyddiau Moses. Rhyfedd na buasai brwydrau mawrion concwest Canaan wedi tynu allan rai o'r beirdd! Y mae caneuon er dathlu buddugoliaethau yn britho llenyddiaeth pob cenedl, felly yr oedd gan genedl Israel: ond ni roddir uwch lle i'r un ohonynt nag a roddir i hon. Rhyfelgan odidog ydyw. Yr amcan goruchel sydd iddi, yr

1 YNA y canodd Deborah a Barac mab Abinoam, y diwrnod
2 hwnw, gan ddywedyd, Am ddïal dïaleddau Israel, *ac*
3 ymgymell o'r bobl, bendithiwch yr ARGLWYDD. Clywch,
O frenhinoedd; gwrandewch, O dywysogion: myfi, myfi

---

urddas, y tân, a'r teimlad sydd yn treiddio trwyddi, yn nghyda pherffeithrwydd ei ffurf lenyddol; y mae y pethau hyn, ar wahan oddiwrth ei hysbrydoliaeth, yn peri ei bod yn gynllun o gân conewest; ac ychwanegir ein syndod pan y cofiom ei chyfansoddi wyth gan' mlynedd cyn dyddiau Pindar! Mae detholiad y materion, a'r drem a roddir i ni ynddi ar sefyllfa fewnol y genedl, cyn, ac yn amser y frwydr, molawd y llwythau a ddaethant allan, ac edliwiad i'r rhai na ddaethant allan, yn rhoddi gwerth hanesyddol mawr arni. Mae ei rhaniadau hefyd yn hollol naturiol. Gosodir allan, yn y rhan gyntaf, sefyllfa isel y wlad cyn y waredigaeth, yna desgrifir gwaith y llwythau yn cyfodi yn erbyn gormes Jabin; canlynir hyny, yn y rhan ddiweddaf, gan ddarluniad o'r fuddugoliaeth a'i heffeithiau. Nid gweddus i gân mor lawn o naturioldeb a thân awenyddol fuasai llawer o raniadau celfyddydol.

1, 2. Yna y canodd Deborah.—Y mae y ferf "canodd," yn yr ymadrodd hwn, yn y rhif unigol, a'r genedl fenywaidd yn cyfeirio, yn ddiamheu, at y gân fel yr eiddo Deborah yn unig; ac wrth gymharu adn. 3, 7, 12, 13, â'r ffaith ei bod hi yn brophwydes, yr ydys yn casglu gyda sicrwydd mai hi gyfansoddodd ac a ganodd y gân odidog hon. Feallai ei bod yn cael ei datganu, yn ol dull y benywaid Hebreaidd o ddathlu buddugoliaethau (Ex. xv. 20; 1 Sam. xviii. 6), Deborah yn arwain, yna côr o ferched yn ei hateb mewn sain cân yn mhresenoldeb Barac a'i filwyr, ar eu dychweliad o faes y frwydr. Neu dichon fod Barac, fel Miriam gyda rhan o gân Moses (Ex. xv. 11, 21), yn cynorthwyo i'w datganu o flaen yr arch mewn gwyl goffadwriaethol. Awgryma rhai y gallai ei fod yn cymeryd i fyny adn. 2 fel cydgan atebiadol *(antiphone)*, oblegid y mae yr adnod grybwylledig yn symio i fyny holl gynwys y gân. Mae y gair "dialeddau" wedi peri cryn betrusder i'r esbonwyr. (1) Ceir ef yn ei ffurf unigol yn Num. vi. 5; Ezec. xliv. 20, a phob amser y ceir ef felly, cyfeiria at wallt; felly, tybia rhai fod yma gyfeiriad at y Nazareaid, a darllenant—*am fod y cryf* (yn llythyrenol, *y gwalltog*), yn Israel wedi ymddangos yn gryfion. (2) Ceir y gair yn ei ffurf luosog, fel yn y fan hon, yn unig yn Deut. xxxii. 42, ac yno fel yma, cyfieithir ef i ddangos y syniad o ddial. Y mae y LXX. a'r C. D. yn ei gyfieithu gyda chyfeiriad at arwain neu flaenori, yr hyn yn ddiamheu ydyw ystyr lythyrenol y gair. Yn hollol lythyrenol darllena y geiriau fel y canlyn:—*Am doriad allan y torwyr yn Israel.* Oddiwrth y syniad o *dori allan* tardd y syniad o *ddechreu*, yna daw y drychfeddwl o *flaenori* yn naturiol. Felly, o bosibl, mai darlleniad y LXX. yw y cywiraf a'r mwyaf naturiol: **Am arweiniad arweinwyr Israel** (y tywysogion), **ac am ewyllysgarwch y bobl** (i'w canlyn), **bendithiwch yr Arglwydd.** Y mae cyflead yr ymadrodd diweddaf yn dangos yn y gwreiddiol ei fod yn bwysig.

3—5. Clywch, frenhinoedd.—Yn adn. 3, cyflwynir gwers i frenhinoedd y ddaear, a chan fod y wers yn un urddasol rhaid i'r gynulleidfa hefyd fod felly. Ceir yr un syniadau yn nghân Hannah (1 Sam. ii.

a ganaf i'r ARGLWYDD; canaf *fawl* i ARGLWYDD DDUW
Israel. O ARGLWYDD, pan aethost allan o Seir, pan 4
gerddaist o faes Edom, y ddaear a grynodd, a'r nefoedd a
ddiferasant, a'r cymylau a ddefnynasant ddwfr. Y 5
mynyddoedd a doddasant o flaen yr ARGLWYDD, *sef* y
Sinai hwnw, o flaen ARGLWYDD DDUW Israel. Yn nyddiau 6
Samgar mab Anath, yn nyddiau Jäel, y llwybrau a aeth
yn anhygyrch, a'r fforddolion a gerddasant lwybrau
ceimion. Y maes-drefi a ddarfuant yn Israel, darfuant, 7
nes i mi, Deborah, gyfodi; nes i mi gyfodi yn fam yn
Israel. Dewisasant dduwiau newyddion; yna rhyfel *oedd* 8
yn y pyrth: a welwyd tarian na gwaywffon yn mysg

---

1—10), ac yn yr ail Salm. **Myfi, myfi a ganaf.**—Ar yr ail "myfi" y mae y pwyslais i fod. Cyfeiria y gair "canaf" at ganu âg offeryn. **Pan gerddaist.**—Y mae yr ymadrodd "cerddaist" yn golygu ymdaith urddasol. Ffurfiwyd y paragraph hwn ar gynllun cân Moses, a chorphorir ef yn Salm lxviii. 7—9, a mabwysiedir ef gan Habacuc iii. 3—12. Yn yr holl fanau hyn cyfeirir at yr un peth, sef mynediad buddugoliaethus plant Israel, a'r Arglwydd o'u blaen, i feddianu Canaan ac i oresgyn Sehon, Og, a'r Midianiaid. Yn Cades, gerllaw Seir, y dechreuodd y mynediad allan. Cyfeiria "Seir" a "Maes Edom" at y gadwen o fynydd-dir a gwastadedd sydd yn ymestyn o ŵr deheuol y Môr Marw hyd y Culfor Elamitaidd ar gŵr y Môr Coch. Yr anhawsder ydyw y cyfeiriad at Sinai yn adn. 5. Ond darllena y LXX. a lluaws o'r cyfieithwyr diweddar, "a grynasant" yn lle "a doddasant;" gan fabwysiadu y darlleniad canlynol ar yr holl frawddeg:—**Y mynyddoedd a grynasant fel y Sinai hwnw.** Yn ol y darlleniad hwn, cymhariaeth sydd yma i ddangos fod mynyddoedd Edom wedi crynu fel y Sinai hwnw pan y disgynodd Duw arno.

6—8. **Yn nyddiau Samgar.**—Desgrifiad grymus yw yr adnodau hyn o gyflwr truenus y genedl, gorthrymder y bobl, sefyllfa ddiamddiffyn y preswylwyr, a ffynonell eu holl anffodion—eu henciliad oddiwrth yr Arglwydd at eilun-addoliaeth. Cymharer Lef. xxvi. 22; 2 Cron. xv. 5; Es. xxxiii. 8; Galar. i. 4; iv. 18; Zech. vii. 14. **Dyddiau Samgar.**—Gwêl pen. iii. 31. **Dyddiau Jael.**—Tybia rhai mai enw yw hwn ar ryw farnwr anhysbys, yr hwn, efallai, oedd olynydd i Samgar. Dywedant fod y geiriau "yn nyddiau" yn gysylltiedig yn wastad â gwasanaeth dynion cyhoeddus (Barn. viii. 28; 1 Sam. xvii. 12). Golyga ereill, gyda mwy o briodoldeb, yn ddiamheu, mai Jael, gwraig Heber, a feddylir yma, a'i bod hi, yn herwydd ei gweithred, yn cael ei rhestru yn mysg gwaredwyr Israel. **Y maes-drefi a ddarfuant yn Israel.**—Gwahaniaethir o berthynas i ystyr y gair "maes-drefi." (1) Deallir ef gan rai yn ol y darlleniad arferol yn golygu preswylfeydd mewn gwlad agored, megis yn Ezec. xxxviii. 11; Esther ix. 19; Zech. ii. 4. (2) Gan rai o'r hên gyfieithiadau, y C. D., a rhai o'r beirniaid diweddar, darllenir ef i olygu **llywodraethwyr**, a dyma yn ddiau y darlleniad cywiraf. Yr ystyr felly ydyw fod barn wedi diflanu o'r tir am nad oedd barnwyr yn y wlad. **Fel**

9 deugain mil yn Israel? Fy nghalon *sydd* tuagat ddeddf-
wyr Israel, y rhai fu ewyllysgar yn mhlith y bobl.
10 Bendithiwch yr ARGLWYDD. Y rhai sydd yn marchogaeth
ar asynod gwỳnion, y rhai sydd yn eistedd mewn barn, ac
11 yn rhodio ar hyd y ffordd, lleferwch. *Y rhai a waredwyd*
rhag trwst y saethyddion yn y lleoedd y tynir dwfr; yno
yr adroddant gyfiawnderau yr ARGLWYDD, cyfiawnderau
*tuagat* y trefydd yn Israel: yna pobl yr ARGLWYDD a ânt i
12 waered i'r pyrth. Deffro, deffro, Deborah; deffro, deffro,
traetha gân: cyfod, Barac, a chaeth-gluda dy gaeth-glud,

---

**mam yn Israel.**—Cymharer Gen. xlv. 8; 2 Sam. xx. 19; Job xxix. 16; Es. xxii. 21; xlix. 23. **Dewisasant dduwiau newyddion.**—Cymer rhai esbonwyr y gair "duwiau" yn y rhif unigol, ac yn ei ddeall fel yn cyfeirio at Dduw, ac yn ei roddi yn destyn yr holl frawddeg, gan ei ddarllen: *Duw a ddewisodd bethau newyddion*—offerynau newyddion—megis gweinyddiad barn gan fenyw, &c. Ond mwy naturiol ei ddeall am ddewisiad y bobl o eilunod y cenhedloedd (pen. ii. 11, 13). **Rhyfel oedd yn y pyrth.**—Gellir deall y gair "pyrth" (1) am ddrysau tai neu demlau; (2) am fynedfeydd i wersyll neu ddinas; (3) am fylchau yn mynydd-dir gwlad, drwy y rhai y gall gelyn ei goresgyn. Gall mai y diweddaf yw y mwyaf priodol yma, er mwyn desgrifio ymosodiadau y Canaaneaid. Canlyniad rhyfel yn y pyrth ydoedd darostyngiad diraddiol y bobl i fath o gaethwasiaeth diamddiffyn, fel nad oedd "na tharian, na gwaywffon, yn mysg deugain mil yn Israel." Engraifft o hyn oedd gwaith Samgar yn lladd y Philistiaid âg irai ychain (pen. iii. 31; 1 Sam. xiii. 19—22).

**9—11. Deddfwyr Israel.**—Dangosai Deborah (adn. 7 a'r 8) ddau o effeithiau gorthrwm y Canaaneaid, sef nad oedd deddfwyr i weinyddu barn, ac nad ydoedd diogelwch i'r fforddolion i fynychu y ffyrdd; ond yn awr, y mae pethau yn hollol wahanol, cyflawnder o farnwyr—rhai yn marchogaeth yn anrhydeddus ar asynod gwynion, a diogelwch i'r rhai sydd yn rhodio ar y ffordd. **Rhag trwst y saethyddion.**—O'r blaen nid oedd yn ddiogel iddynt dynu dwfr gan berygl oddiwrth y saethyddion; eithr yn awr gallant sefyll yn ddiberygl oddiamgylch eu ffynonau dwfr, i adrodd "cyfiawnderau yr Arglwydd" yn eu gwaredigaethau. **I waered i'r pyrth.**—Un ai (1) i ymosod ar byrth y dinasoedd Canaaneaidd; (2) neu cyfeiria at yr Israeliaid yn dychwelyd yn ol o'u noddfäu i byrth eu dinasoedd i weinyddu barn, i fasnachu, neu i fyw yno mewn diogelwch, am fod y Canaaneaid wedi eu darostwng.

**12. Deffro, deffro.**—Yma cynhyrfa Deborah ei hunan i fwy o fywiogrwydd, er mwyn desgrifio yn briodol yr ymfyddiniad, y frwydr, a'r goncwest. Daw angerddoldeb awenyddol y gân i'r golwg yn ei gwaith yn ail adrodd yn fynych yr un gair, ond gyda nerth ychwanegol bob tro. Ffurfia yr adnod hon arweiniad i mewn grymus i'r adran nesaf o'r gân—Deborah yn galw allan holl oludoedd ei natur i draethu cân, ac yn gwahodd Barac i gaethgludo caethglud.

O fab Abinoam. Yna y gwnaeth i'r hwn a adewir lywodr- 13
aethu ar bendefigion y bobl: yr ARGLWYDD a roddes i mi
lywodraeth ar gedyrn. O Ephraim *yr oedd* eu gwreiddyn 14
hwynt yn erbyn Amalec; ar dy ol di, Benjamin, yn mysg
dy bobl: y deddfwyr a ddaeth i waered o Machir, yr
ysgrifenyddion o Zabulon. A thywysogion Issachar *oedd* 15
gyd â Deborah; ïe, Issachar, a Barac: efe a anfonwyd ar
ei draed i'r dyffryn. Am neillduaeth Reuben *yr oedd*
mawr ofal calon. Paham yr arhosaist rhwng y corlanau, 16

---

13—15. Yna y gwnaeth i'r hwn a adewir.—Yn ol y C. D., **Yna y daeth gweddill.** Gellir eu galw yn "weddill" oherwydd fod chwech, o leiaf, o'r llwythau, sef Judah, Simeon, Dan, Aser, Reuben, a Gad, yn sefyll draw. Yn y tair adnod ceir desgrifiad o ganlynwyr Barac, yn nghyda'r Arglwydd ei hunan yn eu blaenori. Mae y ferf a gyfieithir "llywodraethu" (yn adnod 13) yn tarddu o wreiddyn sydd yn golygu *myned i lawr.* Gellir darllen yr adnod yn llythyrenol, **yna gweddill** (neu rhan) **o'r tywysogion a'r bobl a ruthrasant i lawr; yr Arglwydd ei hunan a ddaeth i lawr i'm cymhorth gyda** (neu yn erbyn) **y cedyrn.** Yn adn. 14, 15, desgrifir brwdfrydedd y llwythau, yn neillduol llwyth Deborah ei hunan, a rhoddir y llwythau, o bosibl, yn ol eu safleoedd daearyddol. Y mae ei wreiddyn o Amalec.—Ephraim oedd wedi gwreiddio yn y tir a fuasai unwaith yn eiddo yr Amaleciaid (pen. xii. 15). Machir.—Mab Manasseh. Golygir yma, yn ddiamheu, yr haner hwnw o lwyth Manasseh a drigai o'r tu gorllewinol i'r Iorddonen, gan fod y gair "Gilead" (adn. 17) yn cyfeirio at y rhan a drigai ar y tu dwyrain i'r afon. Cymharer Gen l. 23; Num. xxvii. 1; Jos. xvii. 5. Yr ysgrifenyddion o Zabulon.—Golyga y gair a gyfieithir yma "ysgrifenyddion," mewn ystyr filwraidd, y swyddogion milwraidd oedd yn byddino pobl y wlad (2 Bren. xxv. 19), dyledswydd y rhai, dybygid, ydoedd eu gwysio i'r gâd, ac yna, gyda'u ffon swyddol yn eu llaw, eu harwain o flaen y cadlywydd. Gellir cyfieithu yr holl adnod—**O Ephraim y daeth i lawr y rhai yr oedd eu gwraidd yn mynydd Amalec; ar dy ol di (O Ephraim) y daeth Benjamin yn mysg dy bobl; y penaethiaid a ddaethant i waered o Machir, a'r rhai a ddalient wialen y swyddog o Zabulon.** Ar ei draed i'r dyffryn.—Cyfeiriad at ruthrgyrch Barac a'i ddewrion i lawr o fynydd Tabor ar eu traed i ddyffryn Jezreel i ymosod ar Sisera. Am neillduaeth Reuben yr oedd mawr ofal calon.—Yn lle "am" darllener *yn* neu *wrth.* Mae y gair "neillduaeth" hefyd yn anghywir yma. Cyfieithir ef weithiau yn *ffrydiau,* bryd arall yn *teuluoedd,* ac yn fynych yn *rhaniadau;* ond nis gellir penderfynu pa un ai rhaniadau yn y meddwl ai rhaniadau daearyddol. Y mae mwyafrif yr awdurdodau, a'r rhai pwysicaf, dros y darlleniad cyntaf yn y fan hon:—**Wrth ffrydiau Reuben yr oedd ymgynghoriadau mawrion.** Cyfeiria yr ymadrodd *ffrydiau Reuben* at yr afonydd a holltent ei randir, ac a'i rhanent, wrth ddisgyn i lawr dyffryn yr Iorddonen i'r Môr Marw.

16—18. Paham yr arhosaist rhwng y corlanau.—Am gymeriad bugeiliol llwyth Reuben, gwêl Num. xxxii. 1. Brefiadau.

i wrandaw brefiadau y defaid? Am neillduaeth Reuben
17 *yr oedd* mawr ofal calon. Gilead a drigodd o'r tu hwnt i'r
Iorddonen: a phaham yr erys Dan mewn llongau? Aser
a drigodd wrth borthladd y môr, ac a arhosodd ar ei
18 adwyau. Pobl Zabulon a roddes eu heinioes i farw;
19 felly Naphtali ar uchel-fanau y maes. Y brenhinoedd a
ddaethant, *ac* a ymladdasant; yna brenhinoedd Canaan a
ymladdasant yn Taanach, wrth ddyfroedd Megido; ni
20 chymerasant elw o arian. O'r nefoedd yr ymladdasant; y
21 sêr yn eu graddau a ymladdodd yn erbyn Sisera. Afon
Cison a'u hysgubodd hwynt; yr hen afon, yr afon Cison.
22 Fy enaid, ti a sethraist gadernid. Yna y drylliodd carnau

—Yn llythyrenol, **chwibaniadau,** gyda chyfeiriad at y chwibanogl a ddefnyddir gan y bugeiliaid wrth wylio eu diadelloedd. Dengys Deborah ddarfod i Reuben, er gwneuthur ymgynghoriadau mawrion a chynlluniau da, eto, yn hytrach na gweithio y rhai hyny allan, aros gartref i wrando y bugeiliaid yn canu, tra yr oedd pobl Zabulon a Naphtali yn rhoddi eu heinioes i farw ar uchel-fanau y maes. Cyfeiria y gair *Gilead* (adn. 17) at y wlad a berthynai i Gad a haner llwyth Manasseh, o'r tu dwyrain i'r Iorddonen. (Gwêl nodiad, adn. 14.) Dan mewn llongau.—Gwlad neillduol o ddiborthladdoedd yw Palestina ar ei harfordir gorllewinol; ond perthynai Joppa *(Jaffa)*, yr unig borthladd o ddim enwogrwydd a feddai, i lwyth Dan (Josh. xix. 46; 2 Cron. ii. 16; Jonah i. 3.) Er fod ymfudiad y Daniaid eisoes wedi cymeryd lle, lleferir yma, o bosibl, am y rhandir a roddasid iddynt ar y cyntaf. Aser . . . . ar ei adwyau.—Yn fwy cywir, **mor-gilfachau.** Rhoddasid y rhandir brasaf yn Nghanaan i Aser (Gen. xlix. 20; Deut. xxxiii. 24), yn ymestyn gyda glàn y môr, o gŵr uchaf dyffryn Saron, hyd Sidon. Symir i fyny yma holl hanes y llwyth; ni wnaeth ddim mawr dros Dduw, ni chynyrchodd yr un barnwr, rhyfelwr, na phrophwyd, ond yn unig Anna y brophwydes (Luc ii. 36). Hynod fod yr unig borthladd neu fôr-gilfach naturiol a fedd yr arfordir—porthladd a bau Acra, yn nghesail mynydd Carmel, wedi ei roddi i'r llwyth hwn. Dengys Deborah (adn. 18) y cyferbyniad rhwng brwdfrydedd Zabulon a Naphtali â chlaerineb a chariad at esmwythid y llwythau ereill. Diystyrodd pobl Zabulon eu heinioes hyd farw, ac felly Naphtali, ar "uchel-fanau y maes," gyda chyfeiriad at fynydd Tabor, lle eu hymgynulliad o flaen y frwydr (pen. iv. 6), neu eu mynydd-dir eu hunain.

19—22. Y brenhinoedd a ddaethant.—Yn adn. 19, dygir o'n blaen frenhinoedd Canaan yn dyfod i'r frwydr; yn adn. 20, y galluoedd nefol yn ymladd yn eu herbyn; yn adn. 21, elfenau natur ar y ddaear yn cydweithredu â'r galluoedd nefol yn eu herbyn; ac yn adn. 22, y fuddugoliaeth lwyr ar y gelynion. Taanach . . . Megido.—Gwêl pen. i. 27. Ni chymerasant elw o arian.—Yn llythyrenol, **ysbail o arian.** Ymddengys fod yr ymadrodd i'w ddeall am y Canaaneaid; ond y mae cryn amrywiaeth barn am yr ystyr—(1) Deallir ef gan rai i osod allan aflwyddiant hollol y gelynion, nas gallasant gymeryd

y meirch gan garlamau, carlamau ei gryfion ef. Mell- 23
digwch Meroz, eb angel yr ARGLWYDD, gan felldigo
melldigwch ei thrigolion : am na ddaethant yn gynorthwy
i'r ARGLWYDD, yn gynorthwy i'r ARGLWYDD yn erbyn y
cedyrn. Bendithier Jäel, gwraig Heber y Cenead, goruwch 24
gwragedd ; bendithier *hi* goruwch gwragedd yn y babell.
Dwfr a geisiodd efe, llaeth a roddes hithau : mewn phïol 25

---

ysbail rhyfel. (2) Gan ereill i ddangos nad oedd y gelynion yn ymladd am elw, eithr er mwyn buddugoliaeth, er boddloni eu casineb a'u gelyniaeth at Israel. (3) I ddangos fod y frwydr wedi cyrhaedd y fath bwynt fel yr oedd raid ymladd neu farw, nad ellid prynu heddwch y gelynion drwy arian. Y cyntaf ydyw y mwyaf naturiol. Y ser yn eu graddau.—Gall mai goruchion *(meteors)*, neu gawod o gerig cenllysg (Josh. x. 11), fel y dywed Josephus, neu gyfuniad o'r cyfan a olygir yma. Gwêl nodiad, pen. iv. 15. Y mae yn amlwg fod nefoedd a daear, ar arch yr Iôr, wedi dyfod allan o blaid Israel (Salm xviii. 7—16, 32 ; lxviii. 1, 34, 35). Yr hen afon.—Ni cheir y gair a gyfieithir yma "hên" yn un man arall. Golyga un ai *henafiaeth* yr afon neu ei *henwogrwydd*, oherwydd y brwydrau a ymladdwyd ar ei glàn. Darllena rhai **afon y brwydrau.** Gwêl pen. iv. 7. Fy enaid, ti a sethraist gadernid.—Darllen y C. D., **O ! fy enaid, ymdaith yn mlaen mewn nerth.** Wrth weled o flaen ei meddwl lu Sisera, wedi ei fathru a'i gladdu o'r golwg yn nghors-lynoedd y Cison, y mae enaid Deborah yn tori allan mewn cyfarchiad angerddol iddi ei hunan fel prif arwres y fyddin fuddugoliaethus. Carlamau ei gryfion ef.—Cymhwysir y gair a gyfieithir yma "cryfion" at deirw yn Salm xxii. 12, ac at geffylau yn Jer. viii. 16 ; xlvii. 3. Mae yn deilwng o sylw mai nid yr un gair ydyw a'r gair a gyfieithir "cedyrn" yn adn. 13, 23. Cyfeiria yr holl adnod, fe ddichon, at ymdrechion meirch a cherbydau Sisera, i ymryddhau o siglenydd y Cison.

23. Melldigwch Meroz.—Y mae y rhan hon o'r gân y tuhwnt i'r rhanau blaenorol mewn gallu desgrifiadol. Adnabyddir y lle hwn, yn hanesiaeth yr Hen Destament, fel Chorazin yn hanesiaeth y Testament Newydd, yn unig oddiwrth y felldith a gyhoeddwyd arno. Dyru Jerome ef ddeuddeg milldir i'r gogledd o Samaria *(Sebastieh)* ; ond y mae Tyrwhitt Drake, a Tristram yn ei roddi tua phedair milldir i'r gogledd-orllewin i Bethsean, ar un o lechweddau deheuol *Little Hermon.* Os felly, saif uwchben y fynedfa o ddyffryn Jezreel i'r Iorddonen, a gallasai ei breswylwyr wneyd hafoc ar y gelynion, pe y daethent allan. Gelwir ef yn awr *Murusseh* ; ac os mai dyma y lle, y mae y felldith wedi ei adael heb ddim ond enw yn unig. Dyru Conder, pa fodd bynag, Meroz fel un o'r lleoedd anhysbys. Eb Angel yr Arglwydd.—Yr angel a ddaethai "yn dywysog llu yr Arglwydd" (Josh. v. 14). Dichon iddo gyhoeddi y felldith ar y pryd ; neu, mwy tebyg mai cymhwysiad neillduol gan Deborah ydyw y geiriau o'r felldith arhosol a gyhoeddodd yr Angel ar y diofal a'r esgeulus yn pen. ii. 1, 2.

24, 25. Bendithier Jael.—Dygir sêl Jael, gwraig Heber, yn achos Israel i mewn yn gyferbyniol i glaerineb preswylwyr Meroz. (Gwêl

26 ardderchog y dug hi ymenyn. Ei llaw a estynodd hi at
yr hoel, a'i llaw ddehau at forthwyl y gweithwyr: a hi a
bwyodd Sisera, ac a dorodd ei ben ef; gwanodd hefyd, a
27 thrywanodd ei arlais ef. Wrth ei thraed yr ymgrymodd
efe; syrthiodd, gorweddodd: wrth ei thraed yr ymgrymodd
efe, y syrthiodd: lle yr ymgrymodd, yno y syrthiodd yn
28 farw. Mam Sisera a edrychodd trwy ffenestr, ac a
waeddodd trwy y dellt, Paham yr oeda ei gerbyd ddyfod?
29 paham yr arafodd olwynion ei gerbydau? Ei harglwydd-
esau doethion a'i hatebasant; hithau hefyd a atebodd iddi
30 ei hun, Oni chawsant hwy? oni ranasant yr anrhaith,
llances *neu* ddwy i bob gwr? anrhaith o *wisgoedd* symud-
liw i Sisera, anrhaith o wnïadwaith symudliw, symudliw o
wnïadwaith o'r ddeutu, *cymwys* i yddfau yr anrheithwyr?

---

nodiad, pen. iii. 30; iv. 22.) Canai Deborah gan edrych ar y weithred o safle genedlaethol; felly nid yw ei chân, er yn ysprydoledig, yn penderfynu cymeriad moesol y weithred. Awgrymir yma y cyferbyniad mawr rhwng gwaith y genad ddwyfol yn melldithio Meroz â gwaith y rhai a fyddant wrth y lleoedd y "tynir dwfr," adn. 11, yn bendithio Jael. Yn y babell.—*H.y.*, yn mysg y rhai sydd yn dilyn y cyffelyb fywyd, gan drigo mewn pebyll. Phiol ardderchog.—Llestr anrhydeddus, a gedwid at achlysuron neillduol, i'w roddi yn unig o flaen ymwelwyr o urddas.

26, 27. Ei llaw a estynodd.—Cyfieitha y LXX. **ei llaw chwith**, felly yr oedd y morthwyl yn ei llaw ddehau. A hi a bwyodd.—Yr un gair a gyfieithir "drylliodd" yn adn. 22. A dorodd ei ben.—Nid ei dori oddiar ei gorph; byddai hyny yn gwrthddyweyd pen. iv. 21. Dylai y darlleniad fod—**Hi a darawodd drwy ei ben, a hi a wanodd, ac a drywanodd drwy ei arlais ef.** Cyfeiria y gair arlais at le teneu yn y penglog; ond nis gellir penderfynu ai at le teneu yn asgwrn y pen, ai at le teneu o gig ar y pen. (Gwêl nodiad pen. iv. 21.)

28—30. Mam Sisera.—Trawsfudir ni yn sydyn o babell Jael—o ymyl celain Sisera, i'w balas gartref, lle yr oedd ei fam yn hir-ddisgwyl (golyga y gair a gyfieithir "edrych," adn. 28, *ymestyn yn mlaen*) am dano. Portreiadir y foneddiges Ganaaneaidd, a'i "harglwyddesau doethion," yn esgyn i nen y ty, ac yn edrych drwy y dellt a roddid o amgylch nenau y tai, neu yn esgyn i dŵr uchel a berthynai i'r palas, lle y gwelid yr holl ffordd y deuai Sisera, ac yn estyn yn mlaen i edrych er cael yr olwg gyntaf ar y cadryfelwr yn dychwelyd. Wrth weled yr oriau yn treiglo, ac yntau heb ddyfod, cilia amynedd i roddi lle i bryder, a daw ofn ar ol hyny, a thyr allan i ofyn, "Paham yr oeda ei gerbyd ddyfod?" Ceisia ei harglwyddesau ei thawelu (adn. 29); ac y mae y rhan ddiweddaf o'r adnod yn cael ei deall gan rai fel pe na fynai ei chysuro; ond ei bod hi yn parhau i ofyn y cwestiwn iddi ei hunan. Ffurfia y rhestr ddychmygol (adn. 30) o'r ysbail rhyfel, yn nghyda rhan neillduol Sisera, gyferbyniad grymus i'r desgrifiad blaenorol o farwolaeth Sisera. Braidd na thybiem fod yr

Felly y darfyddo am dy holl elynion, O ARGLWYDD: a 31
*bydded* y rhai a'i hoffant ef fel yr haul yn myned rhagddo
yn ei rym. A'r wlad a gafodd lonydd ddeugain mlynedd.

---

adnodau hyn yn cynwys lled-ddynwarediad, mewn gwatwareg finiog, o ymddiddan y merched â'u gilydd—mam Sisera a'i harglwyddesau. **Cymwys i yddfau yr anrheithwyr.**—Cyfieithir ef gan rai **I'w wddf** (Sisera) **fel anrhaith**; gan ereill, **I'm gwddf** (mam Sisera) **fel anrhaith.** Yn y Dwyrain, arferai swyddogion milwraidd wisgo clogau symudliw, addurnedig, yn neillduol o amgylch y gwddf, â gwniadwaith cyfrodeddig; ac os byddai rhai felly yn mysg yr anrhaith rhyfel, syrthient yn naturiol i ran y cadlywydd. Neu, feallai, mai yr ystyr ydyw, y byddai i'r gwisgoedd hyn gael eu defnyddio yn ol ewyllys Sisera, i addurno gyddfau y rhai hyny ("llances neu ddwy") a ddeuent yn anrhaith fyw, barhaus iddo ef.

**31.** Diweddglöir y gân gyda chydmariaeth odidog, lle y mae gwirionedd ysprydol yr holl hanes yn disgleirio allan fel yr haul o'r tu ol i gwmwl. Felly y derfydd am elynion yr Arglwydd, fel am lu Sisera, a'u holl obeithion a ddiflanant mewn gwarth, fel gobeithion ei fam ef; eithr yr holl rai a garant yr Arglwydd, a gânt ddisgleirio fel yr haul yn nheyrnas eu tad (1 Sam. ii. 10; Salm lxviii. 1—3).

---

## PENOD VI.

(2) YR AIL GYFNOD O WRTHGILIAD AC ADFERIAD (pen. vi.—x. 5).

Neillduolrwydd y cyfnod hwn ydyw, nad yw ond tua haner hyd y cyfnod blaenorol—tua phymtheng mlynedd a phedwar ugain—ac nad oes ynddo namyn un tymor o orthrymder gan elynion tramor, a hwnw am saith mlynedd, ond yn un neillduol o galed, sef gan y Midianiaid, yr Amaleciaid, a meibion y dwyrain. Amgylchynid Israel gan diriogaethau y cenedloedd hyn yn ymestyn, i'r dwyrain, o'r tuhwnt i'r Iorddonen, ac, i'r de-orllewin, hyd Gazah. Ond er nad oedd yr ymosodiadau mor lluosog oddiwrth elynion allanol, yr oedd gelynion Israel, yn y tymor hwn, oddifewn iddi hi ei hunan. Cyfododd gormesdeyrn oddifewn i derfynau y genedl ei hunan, yn mherson Abimelech, yr hwn, er ei fod yn fab Gedeon, ni elwir yn "farnwr" gymaint ag unwaith, ond ydoedd fel Jabin, brenin Hazor, yn fflangell drom ar y genedl. Fel mai prin haner hyd y cyfnod blaenorol ydoedd, felly prin haner cymaint oedd nerth ysprydol y genedl yn y cyfnod tywyll hwn.

(a) *Galw Gedeon a'i barotoi i'w waith* (vi. 1—40).

PEN. vi. *1—6.—Y Midianiaid yn gorthrymu Israel oherwydd eu pechod. 7—10.—Danfon prophwyd i'w ceryddu. 11—18.—Yr angel yn danfon Gedeon i'w gwaredu, ac yn symud ei ofnau. 19—23.—Ei anrheg i'r angel, ac yntau yn diflanu. 24—27.—Gedeon yn adeiladu allor i Dduw, ac yn bwrw i lawr allor Baal. 28—32.—Joas yn amddiffyn ei fab, Gedeon. 33—35.—Yntau yn cynhyrfu y llwythau gogleddol yn erbyn Midian. 36—40.—Arwydd deu-blyg y cnu gwlan.*

1 A MEIBION Israel a wnaethant ddrwg yn ngolwg yr
ARGLWYDD: a'r ARGLWYDD a'u rhoddodd hwynt
2 yn llaw Midian saith mlynedd. A llaw Midian a or-
threchodd Israel: *a* rhag y Midianiaid meibion Israel a
wnaethant iddynt y llochesau *sydd* yn y mynyddoedd, a'r
3 ogofeydd, a'r amddiffynfaoedd. A phan hauasai Israel,
yna Midian a ddaeth i fyny, ac Amalec, a meibion y
4 dwyrain; hwy a ddaethant i fyny yn eu herbyn hwy: Ac
a wersyllasant yn eu herbyn hwynt, ac a ddinystriasant
gnwd y ddaear, hyd oni ddelych i Gazah; ac ni adawsant

---

1. Midian.—Cenedl o lwythau crwydrol, yn hanu o Midian, mab Abraham o Ceturah (Gen. xxv. 2). Trigent yn gyffredin yn yr anialwch, i'r dwyrain a'r deheu o Palestina hyd i gyffiniau y Môr Coch, ac yn anialwch Sinai. Cysylltir hwynt yma (pen. viii. 24), ac mewn lleoedd ereill (Gen. xxxvii. 28), â'r Ismaeliaid, meibion Ismael, mab Abraham o Agar. Yma ceir hwynt wedi ymuno â'r Amaleciaid, hên elynion Israel, a llwythau ereill o Arabiaid a elwir yn "feibion y dwyrain," y rhai a elwid felly oherwydd eu bod yn trigo i'r dwyrain i'r Môr Coch. Ymddengys oddiwrth pen. viii. 10, fod "meibion y dwyrain" yn enw ar yr holl lwythau crwydraidd a drigent yn yr anialwch i'r de-ddwyrain i wlad Canaan. Gallai mai yr Ismaeliaid a olygir yn neillduol wrth "feibion y dwyrain;" neu, oherwydd fod yr Ismaeliaid yn gymydogion i'r Midianiaid, ac yn lluosocach na hwynt, fod yr enw Ismaeliaid, weithiau, yn myned am yr holl lwythau crwydraidd i gyd. Eu holynwyr ydyw y *Bedawin*—yr enw presenol ar yr Arabiaid crwydrol sydd yn byw mewn pebyll mewn cyferbyniad i'r *Fellahin*—yr enw ar y rhai sydd yn byw mewn pentrefi. Y maent, hyd y dydd hwn, yn dyfod yn dônau mawrion dros yr holl wlad, nes difa pobpeth o'u blaen. A rhyfedd, y maent yn dyfod fyth o'r un cyfeiriad—o fyrdd-dir uchel Moab, o fynyddoedd Gilead, o anialwch Sinai yn y deheu; ac yn dyfod ar hyd yr un llwybr, drwy ddyffryn Jezreel, gan ymestyn i lawr ar hyd dyffryn Saron, a difa yr holl wlad hyd yn Gazah yn y de-orllewin.

2, 3. Y llochesau.—Y mae Palestina, am fod ei chreigiau, gan mwyaf, o galchfaen, yn llawn o ogofäu naturiol a chelfyddydol. Gellir casglu, oddiwrth yr adnod hon, fod y cuddfeydd hyn yn adnabyddus, fel y cyfryw, yn amser yr ysgrifenydd. Gall y gair olygu un ai ogofäu neu holltau, mewn rhan yn naturiol, ac mewn rhan yn gelfyddydol, wedi eu gwneyd gan yr afonydd, a'u troi yn llochesau gan yr Israeliaid. Ogofeydd.—Yr ogofäu sydd braidd yn ddirif drwy y wlad i gyd. Amddiffynfeydd.—Nid ydyw y gair yn golygu dinasoedd caerog, eithr lle i lechu yn y graig—lle i gilio iddo am noddfa, megis Craig Rimmon (pen. xx. 45). Pan hauasai Israel.—Dengys hyn ymgyrchoedd blynyddol, ychydig o flaen adeg y cynhauaf gan ysu pobpeth i fyny.

4—6. Hyd oni ddelych i Gazah.—Ymddengys mai eu llwybr arferol ydoedd croesi yr Iorddonen gerllaw Bethsean, a dyfod drwy ddyffryn Jezreel (adn. 33), a difa, fel locustiaid, y dyffryndir i lawr hyd Gazah, terfyn eithaf Israel ar y de-orllewin (1 Bren. iv. 24). Fel locustiaid o amldra.—Golygir yma y drychfeddwl o *ddifrod* yn gystal ag

ddim ymborth yn Israel, na dafad, nac eidion, nac asyn.
Canys hwy a ddaethant i fyny â'u hanifeiliaid, ac â'u 5
pebyll, a daethant fel locustiaid o amldra; *ac* nid *oedd*
rifedi arnynt hwy, nac ar eu camelod: a hwy a ddaethant
i'r wlad i'w distrywio hi. Ac Israel a aeth yn dlawd iawn 6
o achos y Midianiaid: a meibion Israel a lefasant ar yr
ARGLWYDD.

A phan lefodd meibion Israel ar yr ARGLWYDD oblegid 7
y Midianiaid, Yr ARGLWYDD a anfonodd brophwydwr at 8
feibion Israel, yr hwn a ddywedodd wrthynt, Fel hyn y
dywedodd ARGLWYDD DDUW Israel; Myfi a'ch dygais
chwi i fyny o'r Aipht, ac a'ch arweiniais chwi o dŷ y
caethiwed; Ac a'ch gwaredais chwi o law yr Aiphtiaid, ac 9
o law eich holl orthrymwyr; gyrais hwynt allan o'ch
blaen chwi, a rhoddais eu tir hwynt i chwi: A dywedais 10
wrthych, Myfi *yw* yr ARGLWYDD eich DUW chwi; nac
ofnwch dduwiau yr Amoriaid, y rhai yr ydych yn trigo yn
eu gwlad: ond ni wrandawsoch ar fy llais i.

Ac angel yr ARGLWYDD a ddaeth, ac a eisteddodd dan 11
dderwen *oedd* yn Ophrah, yr hon *oedd eiddo* Joas yr
Abïezriad: a Gedeon ei fab ef oedd yn dyrnu gwenith
wrth y gwin-wrŷf, i'*w* guddio rhag y Midianiaid. Ac 12

---

*amldra.* Gwêl Num. xxxi. 32, 39. **Yn dlawd iawn.**—Gair cryf iawn, yn golygu, i ddechreu, *crogi i lawr yn ddigymorth*, yna, *tlodi* y genedl yn ei ystyr eithaf.

7, 8. **A phan lefodd meibion Israel.**—Gwêl pen. iii. 9, 15; iv. 3; Salm cvi. 44, 45; cvii. 6, 19, 28. **Brophwydwr.**—Yn llythyrenol **Dyn-brophwyd**, mewn cyferbyniad, o bosibl, i "angel yr Arglwydd," yr hwn oedd uwchlaw dyn (adn. 11). Crybwyllir am brophwydi ereill dienw yn 1 Sam. ii. 27, 29; 1 Bren. xiii. 8; xx. 13, 35; 2 Bren. ix. 1, 4. Gellir casglu oddiwrth adn. 8, fod y Deg Gorchymyn yn hysbys i'r genedl (Ex. xx. 2).

9, 10. **Duwiau yr Amoriaid.**—Mae y gair "Amoriaid" yma yn myned am yr oll o'r Canaaneaid. Defnyddir yr ymadrodd anghyffredin hwn, o bosibl, (1) am fod y prophwyd yn anerch y rhai oeddynt yn trigo yn y mynydd-dir, lle y trigai yr Amoriaid; (2) neu am fod eilun-addoliaeth yr Amoriaid yn ffieidd-dra neillduol; (3) neu am fod y prophwyd yn defnyddio geiriau Jos. xxiv. 15, 18, yr hyn a brawf, os felly, fod llyfr Josua wedi ei ysgrifenu y pryd hwn, a'i fod yn cael ei ystyried yn un o lyfrau cysegredig y genedl, ac, fel y cyfryw, a'i gynwys yn hysbys i brophwydi yr Arglwydd.

11, 12. **Ac angel yr Arglwydd.**—Y mae angel yr Arglwydd yn cymeryd lle y dyn-brophwyd (adn. 7), ac yn gwneuthur ei ail ymddang-

angel yr ARGLWYDD a ymddangosodd iddo ef, ac a ddywedodd wrtho, Yr ARGLWYDD *sydd* gyd â thi, *wr* cadarn
13 nerthol. A Gedeon a ddywedodd wrtho, O fy arglwydd, od yw yr ARGLWYDD gyd â ni, paham y digwyddodd hyn oll i ni? a pha le *y mae* ei holl ryfeddodau ef, y rhai a fynegodd ein tadau i ni, gan ddywedyd, Oni ddug yr ARGLWYDD ni i fyny o'r Aipht? Ond yn awr yr ARGLWYDD a'n gwrthododd ni, ac a'n rhoddodd i law y Midianiaid.
14 A'r ARGLWYDD a edrychodd arno ef, ac a ddywedodd, Dos

---

osiad, yr hyn sydd i greu cyfnod newydd yn hanes y genedl fel y gwnaeth yn pen. ii. 1—5. Dangosir ei ddwyfoldeb yma gan ei eiriau a'i weithredoedd; ac hefyd, gan y ffaith y gelwir ef yn 14, 16, 23, yn "Jehofah," neu "Arglwydd." Dan dderwen.—Darllener, **y dderwen.** Yr oedd y fan yn hysbys pan ysgrifenwyd yr hanes. Pren a adnabyddir dan yr enw *terebinth (Pistacia Terebinthus)*—y twrpant; a chan yr Arabiaid dan yr enw *Butm*, ydyw. Mae yn un o brenau mwyaf adnabyddus y wlad, a thŷf i fyny, yn frigog ac ymledol, i faintioli derwen ganolig, a chynysgaetha y teithydd â chysgod dymunol i eistedd dano. Ophrah.—Nid yr Ophrah yn Benjamin (Jos. xviii. 23; 1 Sam. xiii. 17); ond yr oedd hon yn Manasseh. Tybia Conder mai pentref *Feráta* yn agos i Sichem ydyw; ond gesyd Tristram y lle yn *Arrabeh*, ychydig i'r de-orllewin o Dothan. Yr Abiezriad.—Abiezer ydoedd fab chwaer Gilead, fab Machir, mab Manasseh (1 Cron. vii. 18). Yn Num. xxvi. 30, gelwir ef yn Jeser; ond yn Jos. xvii. 2, gelwir ef yn Abiezer. Gedeon (Cymynydd).—Fel yr awgryma ei enw, ymddengys fod Gedeon eisoes yn enwog am ei nerth (adn. 12, 14) ac yn hysbys am ei ddewrder (pen. vii. 14); ond cyfodai ei gyndynrwydd i arwain o'r ffaith fod ei deulu yn ddinod mewn llwyth nad ydoedd, fel llwyth Ephraim, wedi arfer blaenori. Dyrnu gwenith.—Dyrnid yn gyffredin gan ychain, ar loriau; ond yma nid oedd amgylchiadau y wlad yn caniatau. Fel y mae y gair yn golygu, gorfodid Gedeon i ddyrnu, nid â ffûst, eithr â gwialen, fel curo ffrwyth oddiar bren (Deut. xxiv. 20; Es. xxvii. 12). I'w guddio.—Nis gellir penderfynu pa un ai i guddio y dyrnu, y dyrnwr, ai ynte i guddio y grawn wedi ei ddyrnu; gallasai y gwinwryf fod yn fanteisiol i'r naill neu y llall.

13, 14. A Gedeon a ddywedodd.—Dengys cyfarchiad Gedeon nad ydoedd eto yn hysbys o gymeriad y genad. Yr oedd yr ymadrodd (adn. 12), "yr Arglwydd sydd gyda thi," i'w ddeall fel addewid am y dyfodol yn fwy nag fel gwirionedd ar y pryd; oblegid, er fod y geiriau yn briodol ar adeg o lwyddiant, teimlai Gedeon hwy fel gwawdiaith yn awr, gan fod yn amlwg nad oedd yr Arglwydd gyda hwynt. Ceir yma gyfeiriad pendant at ddyfodiad y genedl o'r Aipht. Dylasai Gedeon, er hyny, feddu cymaint a hyny o ddirnadaeth am yspryd y gyfraith, fel ag i gysylltu trueni Israel wrth eu pechodau. A edrychodd arno ef.—Yn llythyrenol, **A droes tuag ato.** Gweithred yn golygu ffafr neillduol, a darfu i'r edrychiad grasol roddi grymusdra iddo i wneyd y gwaith o waredu Israel. Oni ddanfonais.—Yr ystyr ydyw *awdurdod* a *nerth* i

yn dy rymusdra yma: a thi a waredi Israel o law y
Midianiaid; oni anfonais i dydi? Dywedodd yntau wrtho, 15
O fy arglwydd, pa fodd y gwaredaf fi Israel? Wele
fy nheulu yn dlawd yn Manasseh, a minnau yn lleiaf yn
nhŷ fy nhad. A dywedodd yr ARGLWYDD wrtho ef, Diau 16
y byddaf fi gyd â thi; a thi a darewi y Midianiaid fel un
gwr. Ac efe a ddywedodd wrtho, O chefais yn awr ffafr 17
yn dy olwg, gwna erof fi arwydd mai ti sydd yn llefaru
wrthyf. Na chilia, atolwg, oddi yma, hyd oni ddelwyf 18
atat, ac oni ddygwyf fy anrheg, a'i gosod ger dy fron.
Dywedodd yntau, Myfi a arhosaf nes i ti ddychwelyd. A 19
Gedeon a aeth i mewn, ac a barotôdd fŷn gafr, ac ephah o
beilliaid yn fara croyw: y cig a osododd efe mewn basged,
a'r isgell a osododd efe mewn crochan: ac a'*i* dug ato ef

---

gyflawni y gwaith (Ex. iii. 10, 14; Es. xliv. 26; Ezec. ii. 3, &c.). Mae y llithriad esmwyth o'r ymadrodd "angel yr Arglwydd" (adn. 11, 12) i'r ymadrodd "Arglwydd" yn nechreu adn. 14, yn dra awgrymiadol, ac yn profi fod cenadwri yr angel i gael ei deall fel cenadwri Duw ei hunan.

15, 16. O fy arglwydd.—Darllener, **O Arglwydd.** Y mae ffurf y gair yn wahanol i'r un a geir yn adn. 13, ac yn golygu fod y syniad yn dechreu tywynu ar feddwl Gedeon fod Duw yn llefaru drwy ei angel. Tebygola galwad Gedeon i'r eiddo Moses yn ei anmharodrwydd i ymgymeryd â'r gwaith, yn ei awydd am arwydd er sicrhau ei feddwl mai yr Arglwydd oedd yn ei ddanfon, yr hyn, yn rasol, a ganiatawyd i'r ddau, oherwydd fod gair yr Arglwydd yn brin yn y dyddiau hyny, ac am nad oedd weledigaethau eglur. Fy nheulu yn dlawd.—Darllener, **y tlottaf.** Fel un gwr.—I ddangos llwyrder a sydynrwydd y fuddugoliaeth, fe ddistrywid y gelynion âg un ergyd. (Gwêl pen. xx. 1, 8; Lef. xxvi. 8; Num. xiv. 15).

17, 18. Mai ti sydd yn llefaru wrthyf.—Yn hytrach, **Pwy ydwyt ti sydd yn llefaru wrthyf.** Cafodd dri arwydd: yr angel yn aros heb symud (adn. 18); y tân (adn. 21); a'r cnu (adn. 36—40). Fy anrheg.—Yn ol y LXX. a'r *Vulgate*, **Fy mwyd-offrwm.** Etyb ystyr ddeublyg y gair—offrwm i Dduw, neu rodd i ddyn—i sefyllfa meddwl Gedeon ar y pryd, heb fod yn gwbl benderfynol ai Duw ai dyn oedd yr hwn a lefarai wrtho. (Gwêl pen. iii. 15.)

19. Epha.—Y swm o flawd a ddefnyddid yn gyffredin ar un pobiad, er ei fod yn llawer mwy nag a allai un dyn ei fwyta ar un pryd. Cynwysai, dybygid, dair phiolaid *(seahs)* yn ol Gen. xviii. 6; 1 Sam. i. 24; Matth. xiii. 33 (pecaid); ac yn ol Ex. xvi. 16, cynwysai ddeg omer. Tybir ei fod tua thri chwarter bwysel *(bushel)*, yn ol y mesuriad Seisnig. Ac a'i cyflwynodd.—Gair amwys eto, yn dangos nad oedd Gedeon wedi ei argyhoeddi pwy oedd yn llefaru wrtho, ond ei fod yn disgwyl i'r canlyniad ddangos pwy ydoedd ei ymwelydd; yr hyn, hefyd, a wnaeth, gan ddangos mai yr Arglwydd, Duw Israel, yr hwn a sefydlasai eu haberthau ydoedd, a'i fod yn barod eto i dderbyn eu hoffrymau edifeiriol.

20 dan y dderwen, ac a'*i* cyflwynodd. Ac angel Duw a
ddywedodd wrtho, Cymer y cig, a'r bara croyw, a gosod
ar y graig hon, a thywallt yr isgell. Ac efe a wnaeth
felly.
21 Yna angel yr ARGLWYDD a estynodd flaen y ffon *oedd* yn
ei law, ac a gyffyrddodd â'r cig, ac â'r bara croyw: a'r
tân a ddyrchafodd o'r graig, ac a ysodd y cig, a'r bara
croyw. Ac angel yr ARGLWYDD a aeth ymaith o'i olwg ef.
22 A phan welodd Gedeon mai angel yr ARGLWYDD *oedd* efe,
y dywedodd Gedeon, Och, O ARGLWYDD DDUW! oherwydd
23 i mi weled angel yr ARGLWYDD wyneb yn wyneb. A
dywedodd yr ARGLWYDD wrtho, Tangnefedd i ti: nac
24 ofna; ni byddi farw. Yna Gedeon a adeiladodd yno
allor i'r ARGLWYDD, ac a'i galwodd Jehofah-shalom: hyd
y dydd hwn *y mae* hi eto yn Ophrah *eiddo* yr Abïezriaid.
25 A'r noson hono y dywedodd yr ARGLWYDD wrtho ef,

---

20, 21. Yna angel yr Arglwydd.—Mae y cyfnewidiad o'r ymadrodd "angel yr Arglwydd" (adn. 11, 12, 21, 22), i "angel Duw" yn darawiadol, a'r defnydd o'r gair "Arglwydd" drwy gorph y benod, gyda'r eithriad o'r adnodau o 36 hyd 40. Ar y graig hon.—Nid yr un gair Hebraeg a ddefnyddir yma ag yn adn. 21; y mae hwnw yn golygu holl gorph y graig, eithr yma y pigyn bychan ohoni ydoedd yn taflu allan. Yr oedd yr isgell yn fath o ddiod-offrwm, ac efallai, fel y dwfr a dywalltwyd ar ben Carmel (1 Bren. xviii. 34), yn gwasanaethu i wneyd gwyrth y tân yn fwy amlwg. Y ffon.—Ystyr y gair ydyw rhywbeth i bwyso arno. Gwisgai yr angel agwedd teithiwr (Gen. xxxii. 10; Ex. xii. 11; Matth. x. 10). Dyrchafodd tan.—Cymharer Lef. ix. 24; 1 Cron. xxi. 26; 2 Cron. vii. 1; 1 Bren. xviii. 24, 38.

22, 23. Oherwydd i mi weled angel yr Arglwydd.—Y syniad mai marwolaeth ydoedd i ddyn pechadurus weled Duw sydd yma (Gen. xvi. 13; xxxii. 30; Ex. xxxiii. 20); ond mae yr ymadrodd, o'i gyfieithu, yn cyfleu syniad pellach, **oherwydd er mwyn hyn y gwelais yr Arglwydd.** Yn fyr, yr oedd raid iddo gael ei ladd, megis gan y presenoldeb dwyfol, i'w gymhwyso i'w waith dros Dduw fel gwaredwr i Israel (Es. vi. 5—8; Luc v. 8—10). Dywedodd yr Arglwydd.—Yr angel, er efallai yn anweledig, neu drwy lais mewnol.

24. Jehofah-shalom.—Ystyr llythyrenol yr ymadrodd ydyw, **Duw a ddwg ddyddiau gwell.** Nid yr un allor yn ddiamheu, ac nid i'r un dyben ydoedd hon a'r allor a nodir (adn. 21); canys yr oedd hono i offrymu arni, ond hon yn fwy fel colofn goffadwriaethol (Jos. xxii. 28, 34). Am Gedeon yn enwi yr allor yn ol y geiriau a lefarwyd gan yr angel, gwêl Gen. xxii. 14; Ex. xvii. 15. Hyd y dydd hwn.—Gwêl nodiad, adn. 11.

25, 26. Y dywedodd yr Arglwydd.—Wrth y "noson hono" (adn. 25) y meddylir noswaith y diwrnod yr ymddangosodd yr angel iddo

Cymer y bustach *sydd* eiddo dy dad, sef yr ail bustach
saith mlwydd oed; a bwrw i lawr allor Baal yr hon *sydd*
eiddo dy dad, a thor i lawr y llwyn *sydd* yn ei hymyl hi:
Ac adeilada allor i'r ARGLWYDD dy DDUW ar ben y graig 26
hon, yn y lle trefnus; a chymer yr ail bustach, ac offryma
boeth-offrwm â choed y llwyn, yr hwn a dori di. Yna 27
Gedeon a gymerodd ddengwr o'i weision, ac a wnaeth fel
y llefarasai yr ARGLWYDD wrtho: ac oherwydd ei fod yn
ofni teulu ei dad, a gwŷr y ddinas, fel nas gallai wneuthur
*hyn* liw dydd, efe a'*i* gwnaeth liw nos.

A phan gyfododd gwŷr y ddinas y boreu, *yna* wele allor 28
Baal wedi ei bwrw i lawr, a'r llwyn yr hwn *oedd* yn ei
hymyl wedi ei dori, a'r ail bustach wedi ei offrymu ar yr
allor a adeiladasid. A dywedodd pawb wrth eu gilydd, 29
Pwy a wnaeth y peth hyn? Ac wedi iddynt ymofyn
a chwilio, y dywedasant, Gedeon mab Joas a wnaeth
y peth hyn. Yna gwŷr y ddinas a ddywedasant wrth 30
Joas, Dwg allan dy fab, fel y byddo marw: am iddo fwrw

---

(Gen. xxxii. 13). Yn nghyfnodau boreuaf datguddiad yr oedd gweledigaethau nos yn gyfryngau neillduol datguddiedigaethau dwyfol (Gen. xv. 1, 5; Num. xii. 6; Job iv. 13). Sef yr ail bustach saith mlwydd oed.—Darllener, **a'r ail**; oblegid y mae dau fustach yn cael eu golygu yma, y rhai a ddefnyddid i dynu i lawr allor Baal. Nodir yr oed—saith mlwydd—gyda chyfeiriad, fe ddichon, at dymor gorthrymder yr Israeliaid gan y Midianiaid. Llinell neillduol yn yr hanes ydyw, y gellir casglu fod amryw bethau a fwriedid i Baal, wedi eu defnyddio at wasanaeth Duw. Oddiwrth y gair, "sydd eiddo dy dad," mewn cysylltiad â'r bustach a'r allor, cesglir yn naturiol fod y bustach wedi ei fwriadu yn aberth i Baal; ac, efallai, fod "y lle trefnus" (adn. 26) yn golygu hên safle allor Baal, a dywedir yn bendant fod coed y llwyn wedi eu defnyddio yn boeth-offrwm i'r Arglwydd. Y llwyn.—Gwêl pen. iii. 7. Yn ei hymyl hi.—Yn fwy cywir, **arni hi.** Y graig hon.—Yn hytrach, **yr amddiffynfa hon.** Nid yr un a'r graig yn adn. 20; eithr lle tebyg i'r hyn y cyfeirir ato mewn dinas arall (pen. ix. 51). Gall olygu, (1) fel ar ymyl y ddalen, *mewn modd trefnus;* (2) neu, ar safle allor Baal; (3) neu, gyda'r defnyddiau oeddynt wedi eu trefnu i offrymu i Baal. Y ddau syniad diweddaf wedi eu cyfuno, o bosibl, ydyw y mwyaf cydweddol â thôn yr hanes. Am adeiladu a defnyddiau wedi eu trefnu i amcan arall, gwêl 1 Bren. xv. 22.

27. Teulu ei dad.—*H.y.*, yr Abiezriaid (adn. 15). Golygai "ty eu tadau" adran o'r llwyth (Num. i. 2; iii. 15). Gwyr y ddinas.—Gweddill o'r hên Ganaaneaid, fe ddichon, a gosodir hwynt allan yn adn. 28 fel noddwyr arbenig i addoliad Baal. Gwelir (oddiwrth pen. ix. 28) fod gweddill felly yn Sichem.

28—30. Y boreu.—Cyfodent yn foreu, efallai i addoli yr eilun. Dengys yr adnod hon fod allor yr Arglwydd wedi ei hadeiladu yn agos, os

i lawr allor Baal, ac am iddo dori y llwyn *oedd* yn ei hymyl
31 hi. A Joas a ddywedodd wrth y rhai oll a oeddynt yn
sefyll yn ei erbyn ef, A ddadleuwch chwi dros Baal? ai
chwi a'i ceidw ef? yr hwn a ddadleuo drosto ef, bydded
farw y boreu hwn: os Duw *yw* efe, dadleued drosto ei
32 hun, am fwrw ei allor ef i lawr. Ac efe a'i galwodd ef y
dwthwn hwnw Jerubaal; gan ddywedyd, Dadleued Baal
drosto ei hun, am fwrw ei allor i lawr.
33 Yna y Midianiaid oll, a'r Amaleciaid, a meibion y dwy-
rain, a gasglwyd yn nghyd, ac a aethant drosodd, ac a
34 wersyllasant yn nyffryn Jezreel. Ond yspryd yr ARGLWYDD
a ddaeth ar Gedeon; ac efe a udganodd mewn udgorn, ac
35 Abïezer a aeth ar ei ol ef. Ac efe a anfonodd genhadau
trwy holl Manasseh, yr hwn hefyd a'i canlynodd ef: anfon-

---

nad ar hen safle allor Baal. Dwg allan dy fab.—Ei ddwyn allan fel troseddwr i ddienyddle (Gen. xxxviii. 24; 1 Bren. xxi. 10, 13).

31. Sefyll yn ei erbyn ef.—Gellir cyfieithu y geiriau i olygu, (1) Sefyll i fyny drosto ef, sef dros Baal (Dan. xii. 1); (2) neu sefyll yn ei ymyl (pen. iii. 19); (3) neu sefyll o flaen Joas fel o flaen barnwr y ddinas, er amddiffyn Baal, ac i hawlio bywyd Gedeon. Ymddengys Joas fel ynad y ddinas. Tebyg (adn. 34) fod yr Abiezriaid yn tueddu gyda Joas, ac yn gogwyddo gyda Gedeon fel eu gwaredwr cenedlaethol o law y gelynion. Mae y gair "chwi" yn ngeiriau Joas yn bwysleisiol, fel pe byddai am awgrymu i wŷr y ddinas mai nid eu gwaith hwy oedd amddiffyn hawliau Baal. Gyda gwatwareg lem dywed fod y neb a dybiai nad oedd Baal yn gallu amddiffyn ei hun yn haeddu marwolaeth. Drygioni eilun-addoliaeth ydoedd darostwng Duw Israel yn gydradd â duwiau y cenedloedd, a thybied felly nas gallai amddiffyn ei hunan.

32. A'i galwodd . . . Jerubbaal.—Goddef y geiriau yr ystyr, *ac efe a alwyd*, nid gan ei dad yn unig, eithr efe a ddaeth yn adnabyddus fel Jerrubbaal (*ymrysonydd yn erbyn Baal*, neu *ymrysonydd dros Dduw*). Defnyddir ef o hyn allan fel cyfenw ar Gedeon (pen. vii. 1; viii. 29; 1 Sam. xii. 11); ond unwaith (2 Sam. xi. 21) defnyddir y gair "Beseth" (*peth gwaradwyddus, ffieidd-beth, eilun*), yn lle "Baal;" felly darllener yno Jerubeseth (*un yr ymryson yr eilun âg ef*). Wrth ofyn am, a chael arwyddion iddo ei hunan, fe ddaeth Gedeon yn arwydd ei hunan. Fe enillodd y fuddugoliaeth foesol o argyhoeddi ei dad, ac enill ei dylwyth, cyn myned allan i'r ymgyrch fawr i waredu Israel.

33—35. Yma y dechreua gorchestion yr *ail* gyfnod yn hanes y barnwyr a ddynodir gan ymddangosiad Angel y Cyfamod (adn. 11), a rhoddiad yr Yspryd Glân. Gosodir allan bwysigrwydd y cyfnod, a chymhwysder Gedeon i'w waith drwy yr ymadrodd grymus, **Ond yspryd yr Arglwydd a wisgodd am Gedeon**—ei wisgo fel âg arf-wisg, nes dyfod ohono yn anorchfygol mewn nerth. Efe a ddechreuodd ei waith gyda'i deulu ei hun (adn. 34); yna drwy holl Manasseh—ei lwyth ei hun o bob tu i'r Iorddonen

odd hefyd genhadau i Aser, ac i Zabulon, ac i Naphtali ; a
hwy a ddaethant i fyny i'w cyfarfod hwynt.
A Gedeon a ddywedodd wrth DDUW, O gwaredi di 36
Israel trwy fy llaw i, megis y lleferaist ; Wele fi yn gosod 37
cnu o wlan yn y llawr-dyrnu : os gwlith a fydd ar y
cnu yn unig, a sychder ar yr holl ddaear ; yna y caf
wybod y gwaredi di Israel trwy fy llaw i, fel y lleferaist.
Ac felly y bu : canys cyfododd yn foreu dranoeth, ac a 38
sypiodd y cnu yn nghyd, ac a wasgodd wlith o'r cnu,
lonaid phïol o ddwfr. A Gedeon a ddywedodd wrth 39
DDUW, Na lidied dy ddigllonedd i'm herbyn, a mi a lefaraf
unwaith eto. Profaf yn awr, y waith hon yn unig, trwy
y cnu : bydded, atolwg, sychder ar y cnu yn unig, ac ar
yr holl ddaear bydded gwlith. A DUW a wnaeth felly y 40
noson hono : canys yr oedd sychder ar y cnu yn unig, ac
ar yr holl ddaear yr oedd gwlith.

---

(adn. 35); yna ymledodd y brwdfrydedd drwy yr holl lwythau gogleddol, Aser, Zabulon, Naphtali, ac Ephraim (pen. vii. 24); a rhaid fod Issachar hefyd i mewn, canys yr oedd dyffryn Jezreel, maes y frwydr, o fewn ei randir. Gellir casglu fod gwladgarwch y genedl wedi ei gynhyrfu yn fwy, yn y cyfnod newydd hwn, nag yn y cyfnod blaenorol, yn amser Deborah, gan fod yma well cynrychioliad o'r llwythau. Eto ymddengys fod y llwythau deheuol, Judah a Simeon, yn eisiau ar yr achlysur hwn, fel yr un blaenorol (pen. v. 12—18), yr hyn a brawf nad oedd yr hên eiddigedd rhwng gogledd a deheu, a ddechreuasai mor foreu a dyddiau Joshua, hyd yn hyn wedi ei lwyr ddifodi; ac yr oedd hyny yn llai esgusodol, yn yr amgylchiad presenol, oherwydd fod difrod y gelynion yn cyrhaedd hyd Gazah yn y de-orllewin.

36. Wele fi yn gosod.—Yn hanes Gedeon ni a welwn yr absenoldeb mwyaf o bob brwdfrydedd hygoelus. Un peth ydoedd credu fod Duw yn ffyddlawn i'w addewid i waredu ei bobl, peth arall ydoedd credu ei fod ef yn anfonedig Duw i hyny, a bod yr addewid hono iddo ef yn neillduol. Mae yn esiampl gref o ffydd yn y peth cyntaf (Heb. xi. 32), ac y mae Duw yn rasol yn ei gadarnhau drwy arwyddion yn y diweddaf.

37—40.—Yn y llawr-dyrnu.—Yr oedd y lloriau dyrnu bob amser yn yr awyr agored ; ac, yn gyffredin, ar leoedd uchel. Mae arwydd y cnu yn dra arwyddocaol o gymeriad Gedeon, yn oer yn nghanol gwres y gorthrymder oedd o'i amgylch, ac yn sych pan oedd ardymheredd ffydd pawb ereill wedi ei lleithio gan fraw ac ofn. Efallai iddo ofyn am y gwlith ar y cnu yn gyntaf, wrth weled fel yr oedd y gras a'r gwroldeb yn disgyn arno ef yn bersonol yn gyntaf, ac yna yn ymdaenu dros yr holl genedl. Gwêl rhai fwy yma nag yr oedd yn bosibl, a mwy nag a fwriedid i Gedeon ei ganfod—dameg o holl hanes dilynol cenedl Israel, fel cnu îraidd dan wlith y Nefoedd am oesoedd cyntaf ei hanes, "gwlith ar y cnu unig, a sychder ar yr holl ddaear;" yna wedi i gyflawnder y cenedloedd ddyfod i mewn, Israel yn myned yn sych—"sychder ar y cnu a gwlith ar yr holl ddaear." (Gwêl *Expositor, 1st series,* Cyf. III., tud. 29.)

## PENOD VII.

1 YNA Jerubbaal, hwnw *yw* Gedeon, a gyfododd yn foreu,
a'r holl bobl y rhai *oedd* gyd âg ef, ac a wersyllasant
wrth ffynon Harod : a gwersyll y Midianiaid oedd o du y
2 gogledd iddynt, wrth fryn Moreh, yn y dyffryn. A dywed-
odd yr Arglwydd wrth Gedeon, Rhy luosog yw y bobl
*sydd* gyd â thi, i mi roddi y Midianiaid yn eu dwylaw ;
rhag i Israel ymogoneddu i'm herbyn, gan ddywedyd, Fy
3 llaw fy hun a'm gwaredodd. Am hyny, yn awr, cyhoedda
lle y clywo y bobl, gan ddywedyd, Yr hwn *sydd* ofnus ac

---

(b) *Buddugoliaeth Gedeon ar y Midianiaid* (pen. vii. 1—25).

Pen vii. *1—8.—Gedeon yn dewis ei filwyr drwy brawf deu-blyg ar ol arwydd deu-blyg. 9—14.—Cadarnhau ei ffydd drwy freuddwyd. 15—23.—Gorchfygu y Midianiaid drwy ddyfais, ac erlyn ar eu holau. 24, 25.—Dal Oreb a Zeeb.*

1, 2. Yna Jerubbaal.—Yma y defnyddir yr enw newydd hwn gyntaf, am hyny rhoddir yr eglurhad "hwnw yw Gedeon." Wrth ffynon Harod.—Yn lle *wrth*, darllener, **uwchben.** Ystyr y gair Harod ydyw *ffynon y cryndod*, gyda chyfeiriad, mae'n ddiau, at waith y bobl, gerllaw iddi, yn dychrynu ymaith. Tua milldir i'r dwyrain o ddinas Jezreel *(Zerain)*, ar lechwedd mynydd Gilboa, ond nid yn uchel i fyny arno, tardd ffynon fawr, a elwir yn bresenol *Ain Jâlûd*, ac weithiau, yn ol Conder, a elwir *Ain-el-Jemain(Ffynon-y-ddau lu)*. Mae Tristram yn bur hyderus mai yr un ydyw a ffynon Jezreel (1 Sam. xxix. 1), lle y gwersyllai Saul o flaen brwydr Gilboa. Tybia yr un awdurdod, hefyd, mai llygriad ydyw ei henw presenol—*Ain Jâlûd*—o Gilead, hen enw, yn ol ei farn ef, ar fynydd Gilboa ; ac felly y mae efe yn egluro yr anhawsder yn nghylch "mynydd Gilead," adn. 3. Bryn Moreh.—Yn anhysbys ; yn unig gwyddis nas gallai fod yn Moreh gerllaw Sichem (Gen. xii. 6) ; yr oedd hwnw bum' milldir ar hugain i'r de-orllewin o'r fan hon. Tebyg mai enw ar y mynydd a elwir gan deithwyr yn awr yn *Little Hermon (Jebul Duhy)* ydoedd. Y dyffryn.—Dyffryn Jezreel yn ddiau. Yr oedd y Midianiaid (gwêl pen. vi. 4, 33) fel y *Bedawin* presenol yn dyfod i'r wlad, yn wastad, drwy yr agorfa oedd yn agor o geunant yr Iorddonen, drwodd i ddyffryn Jezreel yn Bethsean. Ymleda dyffryn Jezreel, neu Esdraelon, o fynydd Carmel i fyny hyd droed mynydd Tabor, yna fforchoga yn ddau ddyffryn ; yr un gogleddol yn rhedeg rhwng Tabor a *Little Hermon*, a'r un deheuol, yr hwn, gan amlaf, a elwir yn ddyffryn Jezreel, oherwydd ei fod yn gyfagos i'r dref hono, yn rhedeg rhwng *Little Hermon* a mynydd Gilboa. Yn y dyffryn diweddaf hwn, ychydig yn ddyfnach, ar y pen gogleddol iddo, ac yn nês i'r Iorddonen na'r Israeliaid, y gwersyllai y Midianiaid (pen. v. 13).

3. Yr hwn sydd ofnus.—Dyma y gorchymyn yn Deut. xx. 8 ; nid oedd ond dynion ffyddiog i fod yn myddin yr Arglwydd. Mae y

arswydus, dychweled ac ymadawed y boreu o fynydd Gilead.
A dychwelodd o'r bobl ddwy fil ar hugain, a deng mil a
arosasant. A dywedodd yr ARGLWYDD wrth Gedeon, Eto 4
*y mae* gormod o bobl. Dwg hwynt i waered at y dyfr-
oedd, a mi a'u profaf hwynt yno i ti: ac am yr hwn y
dywedwyf wrthyt, Hwn a ä gyda thi, eled hwnw gyda
thi; ac am bwy bynag y dywedwyf wrthyt, Hwn nid ä
gyda thi, nac eled hwnw gyda thi. Felly efe a ddygodd 5
y bobl i waered at y dyfroedd. A dywedodd yr ARGLWYDD
wrth Gedeon, Pob un a lepio â'i dafod o'r dwfr fel y llepio
ci, gosod ef o'r neilldu; a phob un a ymgrymo ar ei liniau
i yfed. A rhifedi y rhai a godasant *y dwfr* â'u llaw at eu 6
genau, oedd dri channwr: a'r holl bobl ereill a ymgrym-
asant ar eu gliniau i yfed dwfr. A dywedodd yr ARGLWYDD 7
wrth Gedeon, Trwy y tri channwr a lepiasant *y dwfr*, y

---

prawf cyntaf hwn i symud ymaith y di-ffydd; ond y mae y prawf nesaf (adn. 4) i beri nas gallasai y rhai ffyddiog hyny ymogoneddu yn eu nifer, eithr yn nerth yr Arglwydd eu Duw. Mynydd Gilead.—Dyma ymadrodd sydd wedi peri petrusder mawr yn mysg esbonwyr. Nid oes son ond am un mynydd Gilead, ac yr oedd hwnw dros yr Iorddonen. (1) Tybia rhai fod y gair "Gilead" wedi llithro i mewn i'r testyn yn lle y gair "Gilboa," oherwydd tebygolrwydd y llythyrenau yn yr Hebraeg. (2) Ereill a dybiant y gallai fod lle yn dwyn yr enw "Mynydd Gilead," ar yr ochr orllewinol i'r Iorddonen, gan fod rhai o ddisgynyddion Gilead yn preswylio ar yr ochr hono (Josh. xvii. 3, 5, 6). (3) Golyga ereill mai dyma arwydd-air rhyfel llwyth Manasseh (Deut. xx. 8). (4) Y mae golygiad arall sydd, hwyrach, yn fwy naturiol na'r rhai blaenorol. Seilir yr esboniad hwnw ar ystyr neillduol yr ymadrodd, "ymadawed y bore;" y mae y gair, meddir, yn golygu *myned ar gylch*—ymdroelli fel aderyn ar ei aden. Yn ol hwn yr oeddynt i ymadael, nid yn uniongyrchol i'w cartrefi, eithr i fyned o gwmpas fel pe buasent yn myned i frwydr, rhag llwfrhau ohonynt neb arall. Ac fe oruwchreolwyd eu llwfrdra er daioni; oblegid da eu bod yn "mynydd Gilead," y tuhwnt i'r Iorddonen, erbyn bod Gedeon wedi enill y frwydr, er mwyn erlid y gelynion, pan yn ffoi o faes y gyflafan.

4. A mi a'u profaf.—Canlynir yr arwydd deublyg a gafodd Gedeon gan brawf deublyg ar ei filwyr; yn adn. 3, profir y llwfr a'r ofnog; ac yn adn. 4—7, profir y rhyfygus a'r anochelgar; nid oedd lle i'r naill na'r llall yn ngwersyll yr Arglwydd.

5—7. Am y rhai a *ymgryment i yfed*, a'r rhai a *godent y dwfr â'u llaw*, diau fod y rhai diweddaf yn dangos mwy o hunan-feddiant a gochelgarwch yn mhresenoldeb y gelyn, na'r lleill, gan yfed y dwfr, a bod yn barod i ymosodiad, hefyd, ar yr un pryd; ond y mae yn amlwg na buasai Gedeon yn dychmygu am hyn fel prawf i'w rhanu oni b'ai i'r Arglwydd ei orchymyn.

gwaredaf chwi, ac y rhoddaf y Midianiaid yn dy law di:
8 ac eled yr holl bobl *ereill* bob un i'w fangre ei hun. Felly
y bobl a gymerasant fwyd yn eu dwylaw, a'u hudgyrn; a
*Gedeon* a ollyngodd ymaith holl wŷr Israel, pob un i'w
babell, a'r tri channwr a ataliodd efe: a gwersyll y
Midianiaid oedd oddi tanodd iddo yn y dyffryn.
9 A'r noson hono y dywedodd yr ARGLWYDD wrtho ef,
Cyfod, dos i waered i'r gwersyll; canys mi a'i rhoddais
10 yn dy law di. Ac od wyt yn ofni myned i waered, dos di
11 a Phurah dy langc i waered i'r gwersyll; A chei glywed
beth a ddywedant; fel yr ymnertho wedi hyny dy ddwy-
law, ac yr elych i waered i'r gwersyll. Yna efe a aeth i
waered, a Phurah ei langc, i gwrr y rhai arfogion *oedd* yn
12 y gwersyll. A'r Midianiaid, a'r Amaleciaid, a holl feibion
y dwyrain, oedd yn gorwedd yn y dyffryn fel locustiaid o
amldra; a'u camelod *oedd* heb rif, fel y tywod *sydd* ar fin
13 y môr o amldra. A phan ddaeth Gedeon, wele wr yn
mynegi i'w gyfaill freuddwyd, ac yn dywedyd, Wele,

---

8. Y bobl a gymerasant fwyd.—Mae y LXX. a'r Targumiau, a rhai esbonwyr diweddar, yn ffafrio y golygiad iddynt (y 300) gymeryd bwyd y bobl (sef y 9,700 oedd yn ngweddill o'r 10,000 ar ol tynu allan y tri chan'wr); ond y mae yn afresymol i ddeall fod tri chant wedi cymeryd ymborth deng mil, yn enwedig tra yr oeddynt mewn angen bod yn heinif a difeichiau i ymosod ar y gelynion. Y mae un peth i'w ddyweyd yn ffafr y golygiad diweddaf a nodwyd ar yr ymadrodd, "mynydd Gilead," adn. 3, y mae yn cynorthwyo i esbonio yr adnod hon, sydd hebddo yn ymddangos yn dra dyrus. Yn ol y deongliad hwnw gellir cymeryd y gair "pobl" yma am yr holl fyddin yn ei chrynswth, cyn eu rhanu, eu bod wedi cymeryd bwyd ac udgyrn yn eu dwylaw, fel pe yn myned oll i ryfel, a bod Gedeon wedi eu gollwng ymaith, oddigerth y tri chan'wr, bob un i'w babell, eithr eu bod i fyned o gwmpas, ac felly i amgylchu hyd i "fynydd Gilead."

9—11. Cyfod, dos i waered.—Wedi ei adael gyda'r tri chan'wr cryn gamp i un mor ochelgar a Gedeon ydoedd credu y gwaredid Israel drwyddo, wedi tori ei fyddin i lawr i nifer mor fychan; eithr y mae Duw yn cryfhau ei ffydd âg un arwydd eto, a hyny heb ei ofyn. Mi â'i rhoddais.—Mae y ferf yma, fel yn pen. iv. 14, yn yr amser gorphenol, yn dangos fod Duw wedi gwneyd ei feddwl i fyny, yr unig rwystr oedd o du Gedeon. Cerdd efe, a'i lanc Phurah, i lawr yn nhrymder y nos i gŵr gwersyll y Midianiaid, a chlyw Gedeon yr hyn a symudodd bob gronyn o amheuaeth o'i feddwl am derfyniad y frwydr.

12—14. Y mae adn. 12 yn ddarlun manwl o wersyll Arabaidd—pobpeth blith-draphlith, a chamelod yn ddirif yn gorwedd o'i amgylch. Yn tori ar ddystawrwydd y nos, fe glywai Gedeon a'i lanc acenion geiriau dynol, ac wrth nesâu yn ddystaw, deallai y geiriau. Dyn yn adrodd breuddwyd i'w

breuddwyd a freuddwydiais; ac wele dorth o fara haidd
yn ymdreiglo i wersyll y Midianiaid, a hi a ddaeth hyd at
babell, ac a'i tarawodd fel y syrthiodd, a hi a'i hym-
chwelodd, fel y syrthiodd y babell. A'i gyfaill a atebodd 14
ac a ddywedodd, Nid *yw* hyn ddim ond cleddyf Gedeon
mab Joas, gwr o Israel: DUW a roddodd Midian a'i holl
fyddin yn ei law ef.
A phan glybu Gedeon adroddiad y breuddwyd, a'i ddir- 15
nad, efe a addolodd, ac a ddychwelodd i wersyll Israel: ac
a ddywedodd, Cyfodwch: canys rhoddodd yr ARGLWYDD
fyddin y Midianiaid yn eich llaw chwi. Ac efe a ranodd 16
y tri channwr *yn* dair byddin, ac a roddodd udgyrn yn
llaw pob un ohonynt, a phiserau gwag, a lampau yn
nghanol y piserau. Ac efe a ddywedodd wrthynt hwy, 17
Edrychwch arnaf fi, a gwnewch yr un ffunud: ac wele,
pan ddelwyf i gwrr y gwersyll, yna fel y gwnelwyf fi,
gwnewch chwithau. Pan udganwyf fi mewn udgorn, myfi 18
a'r holl rai *sydd* gyda mi, udgenwch chwithau mewn
udgyrn o amgylch yr holl wersyll, a dywedwch, *Cleddyf*
yr ARGLWYDD, a Gedeon.

---

gyfaill ydoedd. Wele dorth o fara haidd—bara mwyaf distadl y wlad—torth gron, fel a wneid yn y wlad, ac a gresid mewn twll dwfn yn y ddaear, yn treiglo i ganol gwersyll y Midianiaid, ac yn taro y babell oedd yn nghanol y gwersyll, pabell y brenin, nes ei dymchwelyd. Deonglodd ei gyfaill yn uniawn; nid yw hyn namyn cleddyf Gedeon. Yr oedd y dorth haidd yn bortread cywir o'r gwaredwr newydd oedd wedi cyfodi, ac yr oedd y deongliad yn galonogol i Gedeon, drwy ddangos ei fod yn llaw yr Arglwydd, a bod ei ofn hefyd wedi syrthio yn barod ar wersyll Midian.

15, 16. Ac efe a ranodd.—Pan glybu Gedeon y breuddwyd efe a addolodd gan gydnabod a chredu roddi o'r Arglwydd y gelynion yn ei law ef; ond nid ydyw hyny yn peri iddo fod yn ddiofal am gynllun y gwaith—y mae yn addoli ac yn cynllunio. Dichon fod y ddyfais hefyd yn un o'r rhai goreu i oresgyn gwersyll mawr, di-lywodraeth, fel y ceir gwersylloedd yr Arabiaid hyd y dydd hwn. Dyru Neibuhr hanes am yr un ddyfais yn hollol, wedi ei harfer mewn brwydr Arabaidd yn nghanol y ganrif ddiweddaf. Yn yr Aipht defnyddir piserau pridd, fel hyn, hyd heddyw, i guddio fflamdyrch *(torches)*. Dichon fod lampau Gedeon a'i filwyr y fath na oleuent nemawr nes eu chwyfio.

17, 18. Cleddyf yr Arglwydd a Gedeon.—Yn llythyrenol, **I'r Arglwydd ac i Gedeon.** Nid ydyw y gair "cleddyf" yn yr Hebraeg yn yr adnod hon; feallai ei fod wedi llithro o'r testyn. Ceir ef yn y rhyfel-floedd yn adn. 20; felly, dylid darllen yno—**Cleddyf! I'r Arglwydd ac i Gedeon.**

19 Felly Gedeon a ddaeth i mewn, a'r cannwr *oedd* gydag
ef, i gwrr y gwersyll, yn nechreu y wyliadwriaeth ganol,
a'r gwylwyr wedi eu newydd osod, ac a udganasant mewn
udgyrn, ac a ddrylliasant y piserau *oedd* yn eu dwylaw.
20 A'r tair byddin a udganasant mewn udgyrn, ac a ddryll-
iasant y piserau, ac a ddaliasant y lampau yn eu llaw
aswy, a'r udgyrn yn eu llaw ddeheu i udganu: a hwy a
21 lefasant, Cleddyf yr ARGLWYDD, a Gedeon. A safasant
bob un yn ei le, o amgylch y gwersyll: a'r holl wersyll a
22 redodd, ac a waeddodd, ac a ffôdd. A'r tri chant a udgan-
asant âg udgyrn; a'r ARGLWYDD a osododd gleddyf pob
un yn erbyn eu gilydd, trwy yr holl wersyll: felly y
gwersyll a ffôdd hyd Beth-sittah, yn Sererath, hyd fin
23 Abel-meholah, hyd Tabbath. A gwŷr Israel a ymgasglas-
ant, o Naphtali, ac o Aser, ac o holl Manasseh, ac a
erlidiasant ar ol y Midianiaid.

---

19, 20. Y wyliadwriaeth ganol.—Yr hen raniadau yn Israel ydoedd rhanu y nos, o fachlud haul hyd y boreu-ddydd, yn dair rhan, o tua phedair awr bob un. Y wyliadwriaeth gyntaf o fachludiad yr haul hyd ddeg; yr ail o ddeg hyd ddau; a'r drydedd o ddau hyd gyfodiad haul (Exod. xiv. 24; 1 Sam. xi. 11; Salm lxiii. 6; xc. 4; Gal. Jer. ii. 19). Pan y daeth yr Iuddewon dan ddylanwad y Rhufeiniaid, darfu iddynt fabwysiadu eu dull hwy, drwy gyfrif pedair gwyliadwriaeth y nos (Math. xiv. 25; Marc xiii. 35). Yn ol y cyfrifiad uchod yr ydoedd tuag un-ar-ddeg y nos, yr adeg y byddai y gwersyll mewn trwmgwsg, a'r nos yn fwyaf tywell a swrth.

21. A'r tri chant a udganasant.—Tri chant o lampau disglaer yn cael eu cyhwfanu ar unwaith, tri chant o udgyrn, a'r rhyfel-floedd fawr yn diaspedain yn y creigiau cylchynol, yn nhywyllwch a dystawrwydd y nos, a gyfleäi i'r Midianiaid y syniad eu bod wedi eu hamgylchynu gan elynion afrifed. I ddechreu "rhedasant" i weled yr achos, yna "gwaeddasant" mewn dychryn, ac yn y diwedd "ffoisant" am eu heinioes. Gallai iddynt—y Midianiaid, a'r Amaleciaid, a meibion y dwyrain—ddrwg-dybio eu gilydd (1 Sam. xiv. 20; 2 Cron. xx. 23).

22, 23. Y gwersyll a ffodd.—Nid yn unig y milwyr, eithr yr holl wersyll, y gwragedd, y plant, a'r camelod, gyda'r gwaeddiadau sydd mor nodweddiadol o'r Arabiaid. Ffoisant i lawr am rydau yr Iorddonen, er mwyn croesi drosodd i'w hochr eu hunain; ffoisant hyd Dŷ y Sittim *(Bethsittah)*, tua Sererath, hyd fin Gwaen y Ddawns *(Abelmeholah)* sydd yn ffinio ar Tabbath. Tybia Conder fod braidd yr oll o'r lleoedd hyn yn anhysbys yn awr. Pwyntia Robinson allan bentref *Shuttah*, i'r gogledd o fynydd Gilboa, pum' milldir i'r dwyrain o Jezreel, a chymaint a hyny i'r gogledd-orllewin o Bethsean, fel Bethsittah. Os felly, rhaid fod rhai o'r gelynion wedi dianc drwy rydau gogleddol yr Iorddonen. Tybia ereill y gallai Bethsittah fod yn enw arall ar ddinas Bethsean. Ar y dybiaeth, a hono sydd fwyaf naturiol, eu bod yn ffoi am rydau deheuol yr Iorddonen, dodir Abelmeholah gan rai tua deng milldir i'r deheu o Bethsean, mewn lle

A Gedeon a anfonodd genhadau trwy holl fynydd 24
Ephraim, gan ddywedyd, Deuwch i waered yn erbyn y
Midianiaid, ac achubwch o'u blaen hwynt y dyfroedd hyd
Beth-barah a'r Iorddonen: a holl wŷr Ephraim a ym-
gasglasant, ac a enillasant y dyfroedd hyd Beth-barah a'r
Iorddonen. A daliasant ddau o dywysogion Midian, 25
Oreb a Zeeb; a lladdasant Oreb ar graig Oreb, a lladd-
asant Zeeb wrth win-wrŷf Zeeb, ac a erlidiasant Midian,
ac a ddygasant benau Oreb a Zeeb at Gedeon, i'r tu arall
i'r Iorddonen.

---

a elwir yn awr *Ain Helweh.* Adnabyddir y lle fel mangre genedigaeth Eliseus (1 Bren. xix. 16). Mae Tabbath yn hollol anhysbys, a Sererath yn hollol amheus, os nad yr un ydyw a Sereda, lle genedigaeth Jereboam (1 Bren. xi. 26); neu Seredatha (2 Cron. iv. 17). Cymharer yr enwau hyn â'r enwau yn 1 Bren. iv. 12. Ymdaenodd y newydd am ymgyrch lwyddianus Gedeon drwy yr holl lwythau a drigent yn nghanolbarth a gogledd y wlad (pen. vi. 35). Y syndod ydyw nad enwir Issachar o gwbl yn eu mysg, na Zabulon ychwaith, er i genhadau gael eu danfon yno (pen. vi. 35).

24, 25. **Mynydd Ephraim.**—Gwel pen. iii. 27, 28; iv. 5. **Gwyr Ephraim**—Nid oeddynt hwy, hyd yn hyn, wedi cymeryd unrhyw ran yn yr ymgyrch yn erbyn y Midianiaid, ac ni feiddiodd Gedeon, o lwyth distadl Manasseh, wahodd llwyth lluosog, uchelfrydig Ephraim, i gymeryd rhan yn yr ymosodiad (Jos. xviii. 14, 18). **Y dyfroedd hyd Bethabarah.**—Nid dyfroedd yr Iorddonen dybygid, eithr dyfroedd y gwahanol afonydd bychain a redent iddi, y rhai a ffurfient fath o gorslynoedd, y byddai raid i'r Midianiaid redeg drwyddynt cyn cyrhaedd yr Iorddonen ei hunan. Mae lleoliad Bethabara yn un o'r cwestiynau mwyaf dyrus. Darganfyddodd Conder rydau i fyny tua thair milldir a haner i'r gogledd-ddwyrain o Bethsean, o'r enw *Abâra*, y rhai, yn ol ei dyb ef, ydyw y Bethabara y cyfeirir ato yn y fan hon. Golyga ereill mai lle traddodiadol Bethabara y Testament Newydd ydyw y fan, ychydig i'r dwyrain o Jericho ar yr Iorddonen, ac a elwir yn awr *Kusr-el-Jehûd.* Dyru Tristram y desgrifiad canlynol o hynt Gedeon, a'r Ephraimiaid, y boreu hwnw. Ar ol iddo glirio y Midianiaid o ddyffryn Jezreel, o gwmpas Bethsean, y mae Gedeon a'i dri chan'wr yn croesi i'r ochr ddwyreiniol i'r Iorddonen yn Succoth. Ond y mae rhan fawr o'r gelynion, drwy hyn, yn cael eu tori ymaith oddiwrth gorph y fyddin, ac yn cael eu gorfodi i ffoi i lawr yr ochr orllewinol i'r afon. Erbyn hyn, y mae "gwŷr Ephraim" yn eu goddiweddyd, cyn iddynt gyrhaedd yr Iorddonen, ac yn lladd eu dau dywysog; "a laddasant Oreb *(y gigfran)* ar graig Oreb, a lladdasant Zeeb *(y blaidd)* wrth winwryf Zeeb, . . . ac a ddygasant benau Oreb a Zeeb at Gedeon i'r tu arall i'r Iorddonen," adn. 25. Wrth y "tu arall i'r Iorddonen" y meddylir yr ochr ddwyreiniol, gan fod Gedeon a'i dri chan'wr wedi myned i'r ochr hono i erlyn ar ol corph byddin y Midianiaid. Er cadarnhad i'r desgrifiad uchod, darganfu Conder, uwchben dyffryn yr Iorddonen, tua thair milldir i'r gogledd o Jericho, graig serth, o'r enw *Osh-el-Ghoreb*, Craig Oreb, neu Graig y Gigfran; a thua dwy filldir i'r gogledd-orllewin, o'r fan hono, le arall, a elwir *Tuweil-edh-Dhiab*—lloches Zeeb, neu Loches y Blaidd.

## PENOD VIII.

1 A GWYR Ephraim a ddywedasant wrtho ef, Paham y
gwnaethost y peth hyn â ni, heb alw arnom ni pan
aethost i ymladd yn erbyn y Midianiaid? A hwy a'i
2 dwrdiasant ef yn dost. Ac efe a ddywedodd wrthynt,
Beth a wneuthum i yn awr wrth *a wnaethoch* chwi? Onid
gwell *yw* lloffiad grawnwin Ephraim, na chasgliad grawn-
3 win Abïezer? Duw a roddodd yn eich llaw chwi dywys-
ogion Midian, Oreb a Zeeb: a pheth a allwn i ei wneuthur
wrth *a wnaethoch* chwi? Yna yr arafodd eu dig hwynt
tuag ato ef, pan lefarodd efe y gair hwn.
4 A daeth Gedeon i'r Iorddonen; *ac* aeth drosti hi, efe a'r

---

(c) *Erlid y Midianiaid; Gweithredoedd ereill Gedeon a'i Farwolaeth* (pen. viii. 1—35).

PEN. viii. *1—3.—Gedeon yn lliniaru dig yr Ephraimiaid. 4—9.—Anffyddlondeb Succoth a Phenuel. 10—12.—Dala Zebah a Salmunna. 13—17.—Cospi pobl Succoth a Phenuel. 18—21.—Rhoddi Zebah a Salmunna i farwolaeth. 22—23.—Gedeon yn gwrthod y frenhiniaeth. 24—27.—Ei ephod yn dyfod yn fagl i Israel. 28—35.—Ei ddyddiau diweddaf, ac anniolchgarwch Israel.*

1, 3. A gwyr Ephraim.—Er nad ydoedd llwyth Ephraim, ar y cyntaf, y lluosocaf o lwythau Israel (Num. i. a'r xxvi.), eto, oherwydd safle ganolog a diogel ei randir, a'r ffaith fod Siloh, prif-ddinas y wlad mewn ystyr grefyddol, o fewn ei randir, a Sichem, prif-ddinas y wlad mewn ystyr wladol, ar ei derfyn, daeth am amser, hyd nes y pasiodd y llywodraeth drosodd i lwyth Judah, i fod y llwyth llywodraethol. Rhydd hyn gyfrif am dôn uchelfrydig yr Ephraimiaid (pen. xii. 1). Pan newydd gael buddugoliaeth, a phenau Oreb a Zeeb yn eu dwylaw, daethant at Gedeon, i'r tu dwyreiniol i'r Iorddonen, cyn iddo ef, fel yr ymddengys, ddal Zebah a Salmunna, gan gyfymliw âg ef am iddo fyned i'r frwydr heb ymgynghori â hwynt. Gyda dywediâd diarebol, yr hyn, yn y Dwyrain, a saif yn lle ymresymiad, etyb hwynt, ac y mae ei atebiad yn engraipht dda o ateb arafaidd yn datroi llid (Diar. xv. 1). Buasai rhyfel cartrefol yn mysg y llwythau, ac yn enwedig â llwyth Ephraim, ar y fath adeg, yn drychineb mawr. Dengys iddynt hwy wneyd mwy, er iddynt fod yn ddiweddar yn dyfod i'r maes, na'r hyn a wnaethai efe a'i ganlynwyr er y dechreuad. Yr oedd "lloffiad grawnwin Ephraim"—y fuddugoliaeth wrth rydau yr Iorddonen, yn well na "chasgliad grawnwin Abiezer"—y fuddugoliaeth a enillasai efe a'i dri chan'wr. Cyfeiria Gedeon yn hyn, yn ddiamheu, at ddistadledd ei deulu a'i lwyth (pen. vi. 11, 15).

4, 5. A daeth Gedeon.—Mae cyfuniad o wroldeb a ffydd yn ngwaith Gedeon, er yn ddiffygiol, eto yn eu herlid. Yr ystyr ydyw ei fod

tri channwr *oedd* gydag ef, yn ddiffygiol, ac eto yn *eu*
herlid *hwy*. Ac efe a ddywedodd wrth wŷr Succoth, 5
Rhoddwch, atolwg, dorthau o fara i'r bobl sydd i'm canlyn
i: canys lluddedig ydynt hwy; a minau yn erlid ar ol
Zebah a Salmunna, brenhinoedd Midian.
A dywedodd tywysogion Succoth, A *yw* llaw Zebah a 6
Salmunna yn awr yn dy law di, fel y rhoddem ni fara i'th
lu di? A dywedodd Gedeon, Oherwydd hyny, pan roddo 7
yr ARGLWYDD Zebah a Salmunna yn fy llaw i, yna y dryll-
iaf eich cnawd chwi â drain yr anialwch, ac â mïeri. Ac 8
efe a aeth i fyny oddiyno i Penuel, ac a lefarodd wrthynt

---

yn ddiffygiol gan erlid—yr erlid oedd yn ei wneyd yn ddiffygiol. Ac a aeth drosti.—Yn llythyrenol, **I fyned drosti**; felly gadewir ni, o ran y darlleniad, mewn petrusder, ár ba du i'r Iorddonen yr ydoedd Gedeon y pryd hyn. Succoth (bythod).—(1) Dyru Robinson ei safle ar y tu gorllewinol i'r Iorddonen, mewn lle o'r enw *Sakût* tuag wyth milldir i'r deheu o Bethsean. (2) Tybia Tristram ac ereill, y rhaid fod dau le o bob tu i'r Iorddonen, yn dwyn yr un enw, sef *(a)* Succoth lle yr oedd ffwrneisiau prês Solomon i doddi llestri y deml, ar ochr orllewinol yr Iorddonen (1 Bren. vii. 46; 2 Cron. iv. 17), *(b)* a'r Succoth yma, yr hon sydd yr un a'r fan y bu Jacob wrth ddychwelyd o Padanaram, a'r hon sydd felly, ar du dwyrain yr Iorddonen (Gen. xxxii. 30; xxxiii. 18). (3) Hen enw y Talmud ar Succoth oedd Tarala, a darganfyddwyd lle yn ddiweddar, yn nyffryn yr Iorddonen, ar y tu dwyrain iddi, tua milldir i'r gogledd o afon Jabboc o'r enw *Tell Darala*, yr hwn, yn ol pob tebyg, ydyw y Succoth yn y testyn, a chan ei fod yn perthyn i randir Gad (Jos. xiii. 27), gellir casglu i sicrwydd ei fod y tu dwyreiniol i'r Iorddonen, a mwy cydweddol â hanes Jacob a Gedeon ydyw tybied ei fod yr ochr hono.

6, 7. A yw llaw.—Yn llythyrenol, **A ydyw dwrn**: gyda chyfeiriad yn ddiau at afael gref, a gorthrwm y Midianiaid ar Israel. Gweled hyn, a bychander llu Gedeon, a barodd i dywysogion Succoth lefaru mor anmharchus wrtho. Iddynt hwy, oedd a'u ffydd mor wan a'u gwladgarwch mor glauar, fel na fynent gynorthwyo ychydig ar filwyr yr Arglwydd, ymddangosai yn ynfydrwydd i feddwl y gallai mintai mor fechan orchfygu llu mor fawr; a chan eu bod yn trigo yr un ochr i'r Iorddonen a'r Midianiaid, ni fynent beryglu eu hesmwythyd drwy eu digio. Drylliaf.—Yn hytrach darllener, **dyrnaf** (Amos i. 3). Mieri.—Gair nas ceir ond yn y fan hon, yn golygu, meddir, fath o ddrain pigog a dyfent ar leoedd caregog. Gwir fod ateb Gedeon yn ymddangos yn galed; ond gwelai yn ymddygiad gwŷr Succoth fwy nag anmharch personol iddo ef—gwelai fradwriaeth yn erbyn yr Arglwydd. Dyma foment fawr yr ymgyrch, a rhaid oedd difrodi, yn gystal a chwalu y Midianiaid; ac yr oeddynt hwythau wrth wrthod cynorthwyo, yn troi yn fradwyr i deyrnas Israel. Dyma bechod Meroz (pen. v. 23), a gwŷr Jabes Gilead (xxi. 10).

8, 9. I fyny . . . i Penuel.—Yr oedd Succoth yn ngwaelod dyffryn yr Iorddonen, a Penuel ychydig i fyny yn y mynydd-dir. Cafodd

hwythau yn yr un modd. A gwŷr Penuel a'i hatebasant
9 fel yr atebasai gwŷr Succoth. Ac efe a lefarodd hefyd
wrth wŷr Penuel, gan ddywedyd, Pan ddychwelwyf mewn
heddwch, mi a ddistrywiaf y tŵr yma.
10 A Zebah a Salmunna *oedd* yn Carcor, a'u lluoedd gyda
hwynt, yn nghylch pymtheng mil, yr hyn oll a adawsid o
holl fyddin meibion y dwyrain: canys lladdwyd cant ac
11 ugain mil o wŷr yn tynu cleddyf. A Gedeon a aeth i fyny
ar hyd ffordd y rhai oedd yn trigo mewn pebyll, o'r tu
dwyrain i Nobah a Jogbehah: ac efe a darawodd y fyddin:
12 canys y fyddin oedd ysgyfala. A Zebah a Salmunna a
ffoisant: ac efe a erlidiodd ar eu hol hwynt; ac a ddaliodd
ddau frenin Midian, Zebah a Salmunna, ac a darfodd
yr holl lu.

---

Penuel ei enw oddiwrth weledigaeth Jacob (Gen. xxxii. 30); ac yr oedd yn un o'r dinasoedd a wnaed yn amddiffynfa gan Jereboam, pan y gwrthryfelodd yn erbyn Rehoboam (1 Bren. xii. 25). Nis gellir penderfynu dim am ei lleoliad presenol heblaw ei bod y tu deheu i afon Jabboc (*Wady Zerka*). Deuai Jacob, ar ei ffordd i Sichem, o Penuel i Succoth; ond elai Gedeon, wrth ymlid ar ol y Midianiaid, yn wrthwyneb iddo, o Succoth i Penuel. **Y twr yma.**—Efallai "tŵr Penuel," adn. 17.

10—12. **Carcor.**—Mae ei safle yn anhysbys. Gan fod y fanod yn cael ei defnyddio o flaen yr enw, tybir ei fod yn cyfeirio at ryw le adnabyddus, fel lle cauedig; efallai, fath o gorlan caug (Num. xxxi). Gellid tybied, yn ol yr hanes, nad ydoedd nepell o Succoth, yr hyn a filwria yn erbyn syniad Jerome mai castell *Carcaria*, rhyw bymtheg milldir i'r gogledd o Petra, heb fod yn mhell o lenydd y Môr Marw, ydyw, gan y buasai hyny yn ei osod yn rhy ddeheuol. **Yr hyn oll a adawsid.**—Dengys hyn lwyrder dinystr y Midianiaid—dim ond 15,000 allan o fyddin o 135,000. Cyfreithlona hyn y cyfeiriadau a wneir ar ol hyn gan y beirdd ysprydoledig at y lladdfa (1 Sam. xii. 11); Salm lxxxiii. 11; Es. ix. 4, 5; x. 26). Oddiwrth y desgrifiad yn adn. 11, 12, gellid meddwl fod y Midianiaid wedi ffoi i gyfeiriad dwyreiniol, a thybied eu bod yn ddigon pell a diogel yn y Carcor, y lle cauedig; ond fod Gedeon wedi "myned ar hyd ffordd y rhai sydd yn trigo mewn pebyll," sef, y llwythau crwydrol a gyfaneddent yr anialwch, ac felly eu hamgylchu, ac ymosod arnynt, yn sydyn ac annisgwyliadwy, pan oedd y fyddin yn "ysgyfala"—yn ddifraw—gyda galanastra mawr. **Nobah a Jogbehah.**—Cyfeirir at y ddau le yn Num. xxxii. 35, 40—42. Nid oes sicrwydd am eu safleoedd presenol. Os ydyw Nobah yr un â Kenath (*Kunawât*), yr oedd hono yn un o ddinasoedd Argob, ar derfyn dwyreiniol rhandir Manasseh, yn Gilead, tra yr oedd Jogbehah yn llwyth Gad, gryn bellder i'r deheu. Ond yr oedd Gedeon yn un o'r cad-lywyddion hyny ag yr oedd ei lwyddiant mewn neidiadau sydyn, ac mewn disgyn ar warthaf ei elynion o bwyntiau annisgwyliadwy; a nodwedd y cyfryw filwyr, bob amser, ydyw eu bod yn teithio yn gyflym, a'u cynlluniau yn cymeryd i mewn lawer o dir.

A Gedeon mab Joas a ddychwelodd o'r rhyfel cyn *codi* 13
yr haul. Ac efe a ddaliodd langc o wŷr Succoth, ac a 14
ymofynodd âg ef. Ac yntau a ysgrifenodd iddo dywys-
ogion Succoth, a'r henuriaid; *sef* dau wr ar bymtheg a
thri ugain. Ac efe a ddaeth at wŷr Succoth, ac a 15
ddywedodd, Wele Zebah a Salmunna, *trwy* y rhai y dan-
nodasoch i mi, gan ddywedyd, *A ydyw* llaw Zebah a
Salmunna yn awr yn dy law di, fel y rhoddem fara i'th
wŷr lluddedig? Ac efe a gymerth henuriaid y ddinas, a 16
drain yr anialwch, a mïeri, ac a ddysgodd wŷr Succoth â
hwynt. Tŵr Penuel hefyd a ddinystriodd efe, ac a laddodd 17
wŷr y ddinas.
Yna efe a ddywedodd wrth Zebah a Salmunna, Pa fath 18
wŷr *oedd* y rhai a laddasoch chwi yn Tabor? A hwy a
ddywedasant, Tebyg i ti, *pob un* o ddull meibion brenin.

---

Cydwedda hyn â'r desgrifiad (adn. 12), iddo darfu; yn llythyrenol, **frawychu,** yr holl lu. Ddau frenin Midian.—Gelwid Oreb a Zeeb, (yn pen. vii. 25), yn "dywysogion," math o gadbeniaid milwraidd megis Sisera. Nis gellir penderfynu dim am urddas y teitlau hyn, heblaw fod y brenhinoedd yn uwch na'r tywysogion. Yn Salm lxxxiii. 11, gelwir Oreb a Zeeb yn "bendefigion," a Zeba a Salmunna yn "dywysogion," neu, fel y golyga y gair, yn rhai eneiniedig. Tebyg nad ydoedd yr ysgrifenwyr Hebreaidd yn gyfarwydd â graddau urddas yn mysg llwythau oeddynt mor ddyeithr iddynt.

13, 14. Cyn codi yr haul.—Y mae y darlleniad hwn yn dilyn y *Vulgate;* ond darlleniad y Cyf. Caldeaeg, ac eiddo amryw o'r hen Rabbiniaid, ydyw *cyn machlud haul.* Darllena y LXX., yr Arabaeg a'r Syriaeg, a'r C. D., yr ymadrodd i ddynodi, nid pwynt mewn amser, eithr lle, gan ddeall y gair "haul"—*Heres*—yn enw ar fan neillduol, ond anadnabyddus, yn agos i Succoth; felly, yn ol hyn, y darlleniad cywir ydyw, **o'r rhyfel o** (neu, **ar hyd**) **rhiw Heres.** Ffafria y cyd destynau un o'r ddau ddarlleniad cyntaf; eithr y mae ffurf yr ymadrodd Hebraeg yn ffafr y diweddaf. Gwyr Succoth.—Tebyg fod yr ymadrodd hwn yn y fan hon ac yn adn. 16 yn ddesgrifiad cyffredinol o holl "henuriaid" y lle, a'r gair "henuriaid," drachefn, yn ddesgrifiad o holl gynrychiolwyr y ddinas, gan gynwys, efallai, ddeg a thriugain o henuriaid (Num. xi. 16), yn nghyda'r saith gweddill yn "dywysogion" o safle uwchraddol, adn. 6.

15—17. Ni ddaeth yn ol ar hyd yr un ffordd ag yr aethai, dybygid, onidê deuasai i Penuel yn gyntaf. Ac a ddysgodd.—Darllen y LXX. a'r *Vulgate,* **a ddyrnodd** yma fel yn adn. 7. Gwyr y ddinas.—Golygir yr un dosbarth "a gwŷr Succoth"—y llywodraethwyr. Mae y ffaith iddo ddinystrio y tŵr yn awgrymu ei fod wedi gorfod ystormio y lle. Am dyrau mewn dinasoedd, gwel pen. ix. 46, 51; 2 Sam. v. 7—9.

18, 19. A laddasoch chwi yn Tabor.—(1) Efallai fod hyn wedi bod yn gymhelliad i Gedeon fyned yn erbyn y Midianiaid, fod ei

19 Ac efe a ddywedodd, Fy mrodyr, meibion fy mam, *oeddent*
hwy : *fel* mai byw yr Arglwydd, pe gadawsech hwynt yn
20 fyw, ni laddwn chwi. Ac efe a ddywedodd wrth Jether,
ei gyntaf-anedig, Cyfod, lladd hwynt. Ond ni thynai y
llanc ei gleddyf : oherwydd efe a ofnodd, canys bachgen
21 *oedd* efe eto. Yna y dywedodd Zebah a Salmunna, Cyfod
di, a rhuthra i ni : canys fel *y byddo* y gwr, *felly y bydd* ei
rym. A Gedeon a gyfododd, ac a laddodd Zebah a Sal-
munna, ac a gymerth y colerau *oedd* am yddfau eu camelod
hwynt.
22 A gwŷr Israel a ddywedasant wrth Gedeon, Arglwydd-
iaetha arnom ni, tydi, a'th fab, a mab dy fab hefyd : canys
23 gwaredaist ni o law Midian. A Gedeon a ddywedodd
wrthynt, Ni arglwyddiaetha fi arnoch, ac ni arglwydd-
iaetha fy mab arnoch, *eithr* yr Arglwydd a arglwyddiaetha

---

frodyr wedi eu lladd ganddynt, a'i fod yntau yn awyddus am ddïal eu gwaed, eithr yn rhy ofnus hyd nes y cafodd weledigaeth. (2) Neu dichon iddynt gael eu lladd yn nechreu y rhyfelgyrch, mor fuan ag y gwybu y Midianiaid fod Gedeon ar fedr ymosod arnynt. (3) Ond posibl iddynt gael eu cymeryd yn Tabor, a'u lladd ar y ffordd i Carcor. Mae amryw bethau yn yr hanes yn ffafrio y golygiad cyntaf. Cyfeiria Tabor at y mynydd (pen. iv. 6), neu at y ddinas o'r enw (Jos. xix. 12, 22). **Meibion fy mam.**—Yn mysg y cenedloedd lle y bodola amlwreiciaeth, ceir fod perthynas agosach yn cael ei theimlo rhwng brodyr un-dad un-fam, nag a deimlir rhwng rhai o'r un dad yn unig (Gen. xliii. 29 ; Salm lxix. 8 ; Deut. xiii. 6). Tebyg i Zeba a Salmunna gael eu taraw gan y tebygolrwydd teuluaidd, yn enwedig ar y dybiaeth nad oeddynt yn gwybod yn flaenorol eu bod yn frodyr iddo. Efe neu ei fab hynaf oedd y *Goel*—dialydd y gwaed, i fod ; ac wrth roddi y cynyg i'w fab, yr ydym i ddeall ei fod yn gosod anrhydedd arno.

**20, 21.** Daw nodwedd greulawn yr oesoedd hyny i'r golwg yn y dull y lladdwyd y dynion hyn, ac yn neillduol yn ngwaith Gedeon yn ceisio dysgu ei fab i'r gorchwyl. Y mae cyndynrwydd y bachgen i ymaflyd yn y gorchwyl yn beth mor naturiol, ac yn gosod argraph o wirionedd ar yr hanes. **Colerau.**—Yn llythyrenol, **lloer-dlysau.** Tlysau aur bychain ar ffurf haner lloer, a wisgid am yddfau meibion, merched, a chamelod (Num. xxxi. 48—54). Arferir hwynt gan yr Arabiaid hyd y dydd hwn, a gwisgir hwynt yn fynych am y talcenau (Es. iii. 18). Haner lloer *(crescent)* ydyw arwydd-lun y Gallu Ottomanaidd yn bresenol. Yr ydoedd yn arwydd-lun hên ymherodraeth Caercystenyn cyn iddi ddyfod dan lywodraeth y Tyrciaid, a thebyg fod yr arwydd-lun wedi tarddu oddiwrth addoliad Astaroth *(Venus)*.

**22, 23. A gwyr Israel a ddywedasant.**—Wedi iddynt gael y fath waredigaeth drwyddo, naturiol ydoedd iddynt ymdaflu wrth ei draed. Gyda gostyngeiddrwydd ydoedd mor amlwg a'i wrolder, gwrthyd

arnoch. Dywedodd Gedeon hefyd wrthynt, Gofynaf 24
ddymuniad genych, ar roddi o bob un ohonoch i mi glust-
dlysau ei ysglyfaeth: canys clust-dlysau aur *oedd* ganddynt
hwy, oherwydd mai Ismaeliaid oeddynt hwy. A dywed- 25
asant, Gan roddi y rhoddwn *hwynt.* A lledasant *ryw* wisg,
a thaflasant yno bob un glust-dlws ei ysglyfaeth. A phwys 26
y clust-dlysau aur a ofynasai efe, oedd fil a saith gant *o
siclau* aur; heblaw y colerau, a'r arogl-bellenau, a'r gwisg-
oedd porphor, y rhai *oedd* am frenhinoedd Midian; ac
heblaw y tyrch *oedd* am yddfau eu camelod hwynt. A 27
Gedeon a wnaeth ohonynt ephod, ac a'i gosododd yn ei
ddinas ei hun, Ophrah; a holl Israel a buteiniasant ar ei

---

yr anrhydedd brenhinol. Duw ydoedd eu brenin i fod. Cymharer Exod. xv. 18; Num. xxiii. 21, gyda 1 Sam. viii. 5—7; xii. 12, 17. Nid ydys i ddeall fod yr holl lwythau yn ceisio hyn ganddo, namyn y llwythau a drigent yn mharth gogleddol y wlad, y rhai a gawsent y fath waredigaeth oddiwrth y Midianiaid.

24—26. Gofynaf ddymuniad genych.—Wedi ymddyrchafu mor uchel yn yr adnod o'r blaen, mewn teyrngarwch i Dduw, syrth Gedeon, yn yr adnod hon, i'r un tir a dynion cyffredin. At yr eiddo Dafydd, Solomon, a Hezeciah, ychwanega ei hanes un esiampl arall o beryglon llwyddiant. Ismaeliaid oeddynt.—Gwelir oddiwrth Gen. xxxii. 25, 28; xxxix. 1, y gelwid "meibion y Dwyrain" yn Ismaeliaid ac yn Fidianiaid, gan eu bod, y naill a'r llall, yn disgyn o Abraham (Gen. xxv. 2, 4, 6, 12—15). Ryw wisg.—Y wisg uchaf, yr hon yn gyffredin nid ydoedd ond dernyn ysgwâr o frethyn. Siclau aur.—Pwysai pob sicl tua 253 o *grains*, neu tua chymaint ddwywaith a phunt o'n harian ni; felly cafodd Gedeon, ar ei wisg, tua haner can' pwys o aur, swm cyfartal i tua thair mil a phedwar cant o bunau! Ond nid ydyw yn gymaint o syndod pan y cofiom am aur-gloddiau Midian; a hefyd, mor hoff ydyw y Dwyreinwyr o addurniadau. Arogl-bellenau.—Trwyn-dlysau.

27. Er iddo wrthod coron, eto y mae yn ymyryd â'r swydd offeiriadol. Yr ephod ydoedd y rhan neillduol hono o wisg yr archoffeiriad, yr hugan uchaf—yr ysgwydd-wisg a wisgid ganddo pan yn ymofyn â Duw drwy Urim a Thummim (Exod. xxviii. 6—12). Myn rhai ddarfod iddo wneyd delw o aur, neu gynddelw aur o'r wisg; ond nid ydyw yn angenrheidiol tybied hyny o gwbl, namyn fod y dilledyn wedi ei wneyd a'i gyfrodeddu â gwaith aur a'i addurno â meini gwerthfawr. (1) Efallai fod gorchymyn yr Arglwydd iddo adeiladu allor (pen. vi. 26), a gwaith yr Arglwydd yn derbyn ei offrwm, wedi ei arwain i hyn. (2) Neu dichon fod yr offeiriadaeth yn Siloh wedi colli ymddiried y genedl, ac wedi suddo i ddirywiad mawr, canys ni cheir son am danynt, drwy gorph y llyfr hwn, ar ol Phinees, gorwyr Aaron (pen. xx. 28); o ran amser, yn mhell cyn hyn. (3) Neu gallai fod esiampl llwyth Ephraim (pen. xvii. 5; xviii. 30, 31), wedi ei dilyn gan amryw, ac ymlygriad pwysig yn y peth hyn yn y wlad. (4) Neu fel yr awgryma gwaith Gedeon yn gosod yr ephod yn Ophrah, nad ydoedd yn

hol hi yno: a bu *hyny* yn dramgwydd i Gedeon, ac i'w dŷ.
28 Felly y darostyngwyd Midian o flaen meibion Israel, fel
na chwanegasant godi eu penau. A'r wlad a gafodd
lonydd ddeugain mlynedd yn nyddiau Gedeon.
29 A Jerubbaal mab Joas a aeth, ac a drigodd yn ei dŷ ei
30 hun. Ac i Gedeon yr oedd deng mab a thri ugain, a
ddaethai o'i gorph ef: canys gwragedd lawer oedd iddo
31 ef. A'i ordderch-wraig ef, yr hon *oedd* yn Sichem, a ym-
ddûg hefyd iddo fab: ac efe a osododd ei enw ef yn
Abimelech.

---

hoffi i'r llwythau fyned i Siloh i addoli, oblegid cysylltiad y lle â llwyth Ephraim. Mae yn amlwg fod Gedeon yn gyfrifol am ei gosod i fyny, a bu yn fagl i Israel, ac yn dramgwydd i'w dŷ. Cymharer 1 Bren. xiv. 9, 11; xvi. 2—4. Bu hyny yn dramgwydd.—Cyfeiria ystyr lythyrenol yr ymadrodd at yr ephod, nid yn unig fel moddion i ddenu Israel at eilunaddoliaeth, ond yn gryfach at yr ephod fel achos dinystr Israel a thŷ Gedeon. Gwel Exod. x. 7; xxiii. 33; Deut. vii. 16. Nid ydym i ddeall fod y bobl yn addoli yr ephod; mwy tebygol fod Gedeon yn ei gwisgo ei hunan, pan yn ymofyn â'r Arglwydd, gan gymeryd arno ei hunan felly waith archoffeiriad, a myned dan wraidd y sefydliad Iuddewig, a pharotoi y genedl i buteinio ar ol Baal (adn. 33).

28. Er nad ydyw yr adnod hon yn perthyn i'r geiriau sydd yn uniongyrchol o'i blaen, eto y mae yn symio i fyny holl hanes gorthrwm y Midianiaid, a gwaredigaeth Israel oddiwrthynt. Godi eu penau.—Cymharer pen. iv. 23, 24. Y wlad.—Gwel nodiad, pen. i. 2. Gafodd lonydd.—Yr un ymadrodd a pen. v. 31; yr ystyr ydyw cael gorphwysdra. Deugain mlynedd.—Ceir y rhif hwn, yn nghydag *ugain*, a *phedwar ugain*, mor fynych yn hanes y Barnwyr, fel ag i awgrymu eu bod yn fwy fel amcan-gyfrif, nag fel dyddiadau manwl.

29—31. Jerubbaal.—Yma, am y tro cyntaf, ar ol pen. vii. 1, ail ymddengys yr enw newydd, yr hwn hefyd a arferir drwy yr holl benod nesaf. Oherwydd hyny, tybia rhai esbonwyr fod yr adnod hon wedi ei chymeryd o ffynonell wahanol i'r adnodau ereill o'i chwmpas. Ond mwy tebyg yr arferir yn enw "Jerubbaal" yma i ddangos fod Gedeon yn adnabyddus drwy ei holl fywyd fel yr un a fwriodd i lawr allor Baal, a bod yr hanesydd yma yn chwenych dangos y cyferbyniad rhwng tawelwch y rhan ddiweddaf o'i oes, a rhyfeloedd a helyntion y rhan flaenorol; fod Jerubbaal—y Baal-ymladdwr—wedi ymneillduo i unigedd bywyd anghyhoedd. Heblaw yr ephod yr oedd elfen arall o berygl, yn cyfodi oddiar amlwreiciaeth, yn perthyn i ddiwedd oes Gedeon. Er iddo wrthod y goron, eto ymddengys ei fod, i ryw fesur, yn ceisio ymgyrhaedd at sefyllfa brenin dwyreiniol drwy gadw gordderchadon. Cymharer 1 Bren. xi. 1—3 â Deut. xvii. 17. Ordderch-wraig.—Golyga y gair *wraig israddol*, megis Agar (Gen. xvi. 1). Gelwir hi yn "llaw-forwyn" yn pen. ix. 18; a chan na chyfrifir hi gyda gwragedd ereill Gedeon, na'i fab ohoni—Abimelech, gyda'i ddeg mab a thriugain ereill (pen. ix. 24) gellir casglu mai un o'r Canaaneaid a drigai yn Sichem oedd hi (pen. ix. 28). Ac efe a osododd ei enw ef yn Abimelech.—Oddiwrth ffurf yr

Felly Gedeon mab Joas a fu farw mewn oedran teg, ac 32
a gladdwyd yn meddrod Joas ei dad, yn Ophra yr Abï-
ezriaid. A phan fu farw Gedeon, yna meibion Israel a 33
ddychwelasant, ac a buteiniasant ar ol Baalim; ac a
wnaethant Baal-berith yn dduw iddynt. Felly meibion 34
Israel ni chofiasant yr ARGLWYDD eu DUW, yr hwn a'u
gwaredasai hwynt o law eu holl elynion o amgylch; Ac 35
ni wnaethant garedigrwydd â thŷ Jerubbaal, *sef* Gedeon,
yn ol yr holl ddaioni a wnaethai efe i Israel.

---

ymadrodd, gellir casglu mai nid dyma oedd yr enw a roddwyd iddo ar ei enedigaeth, eithr ei ychwanegu iddo fel math o gyfenw. Gwel 2 Bren. xvii. 34; Neh. ix. 7; Dan. v. 12. Os felly, yr ydoedd Abimelech megis Adoniah (1 Bren. i. 6), ac ereill, yn un o'r plant hyny a ddyfethir drwy anwes eu rhieni iddynt, y rhai byth nid ydynt yn dyfod i ddiwedd da. Gall ystyr y gair Abimelech olygu *fy nhad yn frenin*, neu, *tad i frenin*; os y cyntaf, awgryma fod Gedeon, er gwrthod y goron, yn rhyw chwantu yr anrhydedd brenhinol; neu os y diweddaf, dengys ddisgwyliadau ei dad am fawredd dyfodol Abimelech.

32—35. Ffurfia yr adnodau hyn, i ddiwedd y bennod, fath o ragarweiniad i hanes meibion Gedeon. Yn hanes Gedeon yma nodir dau beth, yn y syniad patriarchaidd am ddedwyddwch, sef cael byw i oedran teg (Gen. xv. 15; xxv. 8; 1 Cron. xxix. 28), a chael ei gladdu yn meddrod ei deulu (Gen. xlix. 29—32; Job v. 26; xlii. 16, 17). Dyma y crybwylliad cyntaf am feddrod teuluaidd ar ol sefydliad y genedl yn Nghanaan. Ni syrthiodd y gospedigaeth ar Gedeon ei hunan, eithr ar ei feibion (1 Bren. xi. 34, 35; xxi. 29). Yna meibion Israel a ddychwelasant.—Engraipht o'r hyn a nodir yn pen. ii. 19. A wnaethant Baal-berith yn dduw.—Yn llythyrenol, **Baal y Cyfamod**. Gellir rhoddi amryw ystyron i'r gair. (1) Baal duw y cytundebau. Tybir gan yr esbonwyr sydd yn pleidio y golygiad hwn, fod yr yspail a gafodd y genedl yn ystod y rhyfel â'r Midianiaid, wedi creu awydd ynddynt am fasnachu â'r cenedloedd cylchynol, er mwyn moethau ac addurniadau. Felly, ffurfiasant gynghrair â'r Pheniciaid marsiandgar, ac ereill, a daeth y dinasoedd mwyaf yn Israel, ac yn eu mysg Sichem (pen. ix. 1), yn ganolbwynt trafnidiaeth; ac er mwyn amddiffyn eiddo a phersonau y tramoriaid hyn, gwnaed cytundeb â hwynt o dan nodded eu duw Baal-berith, ac adeiladwyd teml iddo yn Sichem (pen. ix. 4, 46). (2) Baal yr ymgyfamododd Israel âg ef. Dadleua Keil yn gryf dros yr esboniad hwn. Cymeryd Baal yn dduw cyfamodol yn lle Jehofah. Dechreuodd y dirywiad mewn cymeryd ephod Gedeon yn lle yr addoliad rheolaidd yn ol y gyfraith, a dybenodd mewn rhoddi Baal yn lle Duw. (3) Baal yn dduw y cyfamod yr aeth Israel iddo gyda'r Canaaneaid. Y mae y golygiad hwn bron yr un peth a'r cyntaf. (4) Golyga ereill addoli Duw y Cyfamod—Duw Israel, gyda defodau Baal. Un ai y cyntaf neu gyfuniad o'r ail a'r pedwerydd ydyw y mwyaf naturiol yma; ceisio cymysgu addoliad Duw a Baal—addoli Duw a defodau Baal, ac addoli Baal â phethau Duw. Jerubbaal, sef Gedeon.—Yn fwy cywir, **Jerubbaal—Gedeon**; y

diweddaf i olygu y dyn, a'r cyntaf i olygu yr hyn a wnaeth yn haeddu ei gofio. Ar ol anghofio Duw eu gwaredydd, hawdd i'r genedl ollwng dros gof yr offeryn a gyfododd Duw i'w gwaredu. Yn y bennod nesaf arweinir ni o Ophrah i Sichem, oblegid mai yno yr oedd teml Baal-berith, ac felly, yno yr oedd canolbwynt yr ymlygriad newydd hwn o eiddo y genedl.

---

## PENOD IX.

1 AC Abimelech mab Jerubbaal a aeth i Sichem, at frodyr
ei fam, ac a ymddiddanodd â hwynt, ac â holl dylwyth
2 tŷ tad ei fam, gan ddywedyd, Dywedwch, atolwg, lle y

---

(d) *Abimelech y Gormesdeyrn: Ei weithredoedd a'i ddiwedd* (pen. ix. 1—57.)

**Pen** ix. *1.—6.—Abimelech drwy help gwyr Sichem, a thrwy ladd ei frodyr, yn myned yn frenin. 7—20.—Dameg Jotham a'i deongliad. 21.—Yntau yn ffoi. 22—33.—Cynghrair Gaal a'r Sichemiaid yn erbyn Abimelech, a Zebul yn ei hysbysu ohoni. 34—40.—Gorchfygu Gaal. 41—45.—Abimelech yn gorchfygu Sichem. 46—49.—Llosgi teml ac amddiffynfa Baal-berith. 50—55.—Lladd Abimelech wrth warchae ar Thebez. 56—57.—Gwers yr hanes.*

1, 2. Ac Abimelech mab Jerubbaal.—Dyma un o'r bylchau sydd yn gwneyd amseryddiaeth y llyfr hwn mor amheus. Rhaid fod cryn dymhor o amser i sefydlu addoliad Baal, ac i ddadblygu llid meibion Gedeon tuagat eu gilydd. Sichem.—Yn y fan hon yr ydym, am y tro cyntaf, a'r unig dro yn Llyfr y Barnwyr, yn cael ein cyfeirio at Sichem, hen brif-ddinas y genedl—canolbwynt y wlad yn ddaearyddol a hanesyddol. Gorwedd rhyw driugain milltir i'r gogledd o Hebron, a gwaith rhyw bedair awr o deithio i'r gogledd o Jerusalem, yn y fan y mae y mynydd-dir, sydd yn ffurfio math o asgwrn cefn i wlad Canaan, yn cael ei hollti ar ei draws gan ddyffryn dwfn; a gelwir y dibyn agosaf i'r gogledd yn Ebal, a'r agosaf i'r deheu, ar ei gyfer, yn Garizim, a dinas Sichem (*Nablous*) yn gorwedd rhyngddynt, ond fel pe byddai yn ymwasgu yn fwy at Garizim nag at Ebal. Oddigerth Damascus a Hebron, hi ydyw y ddinas henaf yn y wlad. Yma yr ymddangosodd Duw i Abraham gyntaf yn Ngwlad yr Addewid (Gen. xii. 6). Yma y prynodd Jacob yr ail ddernyn o dir a berthynai i'w deulu yn y wlad (Gen. xxxiii. 18, 20); yma y dialodd ei feibion ddarostyngiad eu chwaer, Dinah (Gen. xxxiv.), ac yr adnewyddodd yntau ei gyfamod â Duw (Gen. xxxv. 4). Yma yr ysgrifenodd Josua gopi o'r gyfraith (Jos. viii. 32); ac yma y gwnaeth efe, yn hynafgwr patriarchaidd, ei apêl diweddaf at deyrngarwch y genedl i Dduw (Jos. xxiv.) Disgynodd i randir Ephraim, a daeth yn un o'r dinasoedd noddfa. Y mae Sychar y Testament Newydd yn bentref bychan adfeiliedig tua dwy filltir i'r dwyrain iddi (Ioan iv. 5). Adnabyddir Sichem yn awr dan yr enw Nablous; tref o tua wyth mil o boblogaeth, ac ynddi

clywo holl wŷr Sichem, Pa un oreu i chwi, ai arglwydd-
iaethu arnoch ddengwr a thri ugain, *sef* holl feibion Jerub-
baal, ai arglwyddiaethu o un gwr arnoch? cofiwch hefyd
mai eich asgwrn a'ch cnawd chwi *ydwyf* fi. A brodyr ei 3
fam a ddywedasant am dano ef, lle y clybu holl wŷr
Sichem, yr holl eiriau hyn: a'u calonau hwynt a drodd ar
ol Abimelech; canys dywedasant, Ein brawd ni *yw* efe. A 4
rhoddasant iddo ddeg a thri ugain o arian o dŷ Baal-
berith: ac Abimelech a gyflogodd â hwynt oferwyr
gwamal, y rhai a aethant ar ei ol ef. Ac efe a ddaeth i 5
dŷ ei dad i Ophrah, ac a laddodd ei frodyr, meibion
Jerubbaal, y *rhai oedd* ddengwr a thri ugain, ar un gareg:
ond Jotham, mab ieuangaf Jerubbaal, a adawyd; canys

---

hi y mae eisteddle addoliad y Samaritaniaid, y rhai a gynaliant eu gwyliau ar fynydd Garizim. Gwyr Sichem.—Yn fwy cywir, **Arglwyddi Sichem**. (1) Tybia rhai mai y Canaaneaid, hen breswylwyr Sichem, a feddylir; (2) ereill mai y trefwyr yn gyffredinol, yn yr un ystyr a Jos. xxiv. 11; 1 Sam. xxiii. 11, 12; (3) ereill mai rhai o'r Israeliaid oeddynt yn wŷr o ddylanwad yn Sichem, megis yr oedd y rhan amlaf o farwniaid Lloegr, am amser maith ar ol goresgyn y wlad gan Gwilym y Gorchfygwr, yn Normaniaid. Arglwyddiaethu.—Yn hytrach, **llywodraethu.** Tebyg nad oedd meibion Gedeon yn llywodraethu, ond fel meibion Jair (pen. x. 4) neu feibion Samuel (1 Sam. viii. 1). Yr oedd yn ateb pwrpas Abimelech, fodd bynag, eu cyhuddo o fod, fel ei hunan, yn awyddus am lywodraethu. Geilw hwynt yn "feibion Jerubbaal"—meibion y gŵr a fwriasai allor Baal i lawr er mwyn eu dianrhydeddu yn ngolwg gwŷr Sichem, y rhai, erbyn hyn, oeddynt addolwyr Baal.

3, 4. Ein brawd ni yw efe.—Hawdd credu fod balchder yr Ephraimiaid yn cael ei glwyfo wrth feddwl cael eu llywodraethu gan Abiezriad o Manasseh, a'u bod yn dra pharod i dderbyn un wedi ei eni yn Sichem. Gwel yr un yspryd yn amser Dafydd a Rehoboam (2 Sam. xxi.; 1 Bren. vii. 16). Arian o dy Baal-berith.—Fel yn pen. viii. 26, dylai y gair *siclau* gael ei ddeall yma. Esiamplau ereill o arian temlau yn cael eu defnyddio i ddybenion gwleidyddol ydynt (1 Bren. xv. 18; 2 Bren. xviii. 15, 16). Oferwyr gwamal.—Ystyr llythyrenol y geiriau ydyw dynion *gweigion* a *phoethion*. Dynoda y geiriau ddynion diegwyddor parod i logi eu hunain am arian i gyflawni unrhyw anfadwaith. Cymharer pen. xi. 3; 1 Sam. xxii. 2; 1 Bren. xi. 24; 2 Cron. xiii. 7.

5, 6. A laddodd ei frodyr.—Dyma y cyfeiriad cyntaf yn hanesiaeth y Beibl at yr arferiad, sydd yn ffynu yn y Dwyrain hyd y dydd hwn, o ladd brodyr brenhinoedd; arferiad, yn ddiamheu, sydd yn tarddu o aml-wreiciaeth (1 Bren. xv. 29; xvi. 11; 2 Bren. x. 7; xi. 1). Dull yr iaith Hebraeg ydyw rhoddi y rhif yn gyflawn, er fod Jotham yn cael ei eithrio allan o'r deg a thriugain (1 Sam. xvi. 10). Ar un gareg.—Amlwg yw y cyfeiria yr ymadrodd at ddienyddiad ffurfiol. Efallai mai "y gareg" ydoedd y graig lle y bwriasai ei dad i lawr allor Baal, ac yr

6 efe a ymguddiasai. A holl wŷr Sichem a holl dŷ Milo a
ymgasglasant, ac a aethant, ac a urddasant Abimelech
yn frenin, wrth ddyffryn y golofn, yr hwn *sydd* yn Sichem.
7 A phan fynegasant *hyny* i Jotham, efe a aeth ac a safodd
ar ben mynydd Garizim, ac a ddyrchafodd ei lef, ac a
waeddodd, dywedodd *hefyd* wrthynt, Gwrandewch arnaf
fi, O wŷr Sichem, fel y gwrandawo Duw arnoch chwithau.
8 Y prenau gan fyned a aethant i eneinio brenin arnynt; a

---

adeiladasai allor i Dduw, yr hon, erbyn hyn, ydoedd yn gysegrfa leol. **Ty Milo.**—Golyga y gair Milo fath o amddiffynfa, cynwysedig o ddau fur, ac wedi llanw rhyngddynt â phridd a meini. Yr oedd Solomon wedi adeiladu neu helaethu "Milo" yn Jerusalem (1 Bren. ix. 15, 24; xi. 27; 2 Sam. v. 9), ac yn 2 Bren. xii. 20, gelwir ef yn "dŷ Milo." Cyfeiria yma, yn ddiau, at yr hyn a elwir "tŵr Sichem" (adn. 46, 47), gan olygu math o gaerfa yn, neu gerllaw y dref, a breswylid gan wŷr dylanwadol yn amgylchiadau y ddinas. **Yn frenin.**—Yr oedd y teitl hwn yn ddyeithr hyd yma yn Israel; ond dyma yr enw a roddid, bob amser, ar y penaethiaid Canaaneaidd, yr hyn a ddengys ddylanwad y cenedloedd cylchynol ar Israel. **Dyffryn y golofn.**—Yn llythyrenol, derwen y gof-golofn. Gwel nodiad pen. iv. 11. Yr un lle a'r un y cyfeirir ato (Gen. xii. 6), ac a gamgyfieithir yno "gwastadedd," a Gen. xxxv. 4; Jos. xxiv. 26. Dywed rhai esbonwyr y cyfeiria y gair "colofn" at gaerfa (Es. xxix. 3); ond y peth mwyaf naturiol yma ydyw cyfeiriad at yr hen le cysegredig yn Sichem.

7, 8. **Jotham.**—Ystyr yr enw Jotham ydyw, *Jehofah sydd berffaith.* Pa fodd y diangodd y gyflafan a fu ar ei frodyr sydd anhysbys. **Garizim.**—Dyma y mynydd yr adroddid y bendithion oddiarno (Deut. xi. 29; xxvii. 12; Jos. viii. 33.) Dyrchafa ei gopa, uwchlaw tref Sichem, i fyny i uwchder o 2,848 o droedfeddi uwchlaw y môr. Hawdd oedd i Jotham gael safle ar ei ystlys, uwchben y dref, i draethu ei genadwri; a dangosir lle y dydd hwn gerllaw y ddinas a elwir "pwlpud Jotham," ond yr hwn sydd, fel y rhelyw o'r manau cysegredig, yn bur amheus. Y mae y llais dynol yn glywadwy hyd yn nod o Ebal gyferbyn. **Y prenau.**—Chwedl *(fable)* yn hytrach na dameg ydyw yr eiddo Jotham. Mae y chwedl islaw y ddameg, oblegid tra nad ydyw y gyntaf byth yn ymddyrchafu, yn ei dysgeidiaeth, yn uwch na doethineb y byd hwn, y mae yr olaf, bob amser, yn ymwneyd â gwirioneddau ysprydol. Nid ydyw dameg ychwaith byth yn myned y tuallan i gylch posiblrwydd bod yn ffaith; ond gwna chwedl i brenau lefaru, a gesyd anifeiliaid afresymol i ymresymu. Tiriogaeth y chwedl ydyw tiriogaeth y geiriau hyn—dangos, oddiar safle y byd hwn, ffolineb gwaith pobl Sichem yn coroni Abimelech yn frenin; eto, y mae chwedl, yn ngenau Israeliad didwyll yn ymylu ar fod yn ddameg, drwy ddangos fod Abimelech yn pechu wrth geisio myned a lle Duw. Gan fod dyffryn Sichem yn un o'r llenyrch mwyaf dyfradwy a ffrwythlawn yn Mhalestina, cafodd Jotham holl ddefnydd ei ddameg yn y dyffryn islaw iddo; yno yr oedd yr olewydd, y ffigys, a'r gwinwydd, yn tyfu yn yr helaethrwydd mwyaf. Hon yw y chwedl hynaf sydd ar gael.

dywedasant wrth yr olewydden, Teyrnasa arnom ni. Ond 9
yr olewydden a ddywedodd wrthynt, A ymadawaf fi â'm
brasder, â'r hwn trwof fi yr anrhydeddant DDUW a dyn, a
myned i lywodraethu ar y prenau *ereill?* A'r prenau a 10
ddywedasant wrth y ffigysbren, Tyred di, teyrnasa arnom
ni. Ond y ffigysbren a ddywedodd wrthynt, A ymadawaf 11
fi â'm melysdra, ac â'm ffrwyth da, ac a äf fi i lywodraethu
ar y prenau *ereill?* Yna y prenau a ddywedasant wrth y 12
winwydden, Tyred di, teyrnasa arnom ni. A'r winwydden 13
a ddywedodd wrthynt hwy, A ymadawaf fi â'm melyswin,
yr hwn sydd yn llawenhâu DUW a dyn, a myned i lywodr-
aethu ar y prenau *ereill?* Yna yr holl brenau a ddywed- 14
asant wrth y fieren, Tyred di, teyrnasa arnom ni. A'r 15
fieren a ddywedodd wrth y prenau, Os mewn gwirionedd

---

Ceir un, a dim ond un, gyffelyb iddi yn 2 Bren. xiv. 9. Gellir casglu fod Jotham wedi etifeddu peth o ffraethineb a doethineb ei dad a'i daid (pen. xi. 31; viii. 2).

9, 10. Pan y cofiom nad oedd ar Israel ddim mwy o eisieu brenin nag oedd ar y prenau; ac nad ydyw dynion anrhydeddus, defnyddiol, a dylanwadol, y rhai a osodir allan drwy yr olewydden, y ffigysbren, a'r winwydden, yn ymofyn anrhydedd gwâg, ond yn unig bod yn ddefnyddiol yn eu lleoedd, byddwn wedi cael ystyr syml y chwedl darawiadol hon. Anrhydeddant Dduw a dyn.—Cyfeiriad at ddefnyddiad olew yn y bwyd-offrwm (Lef. ii. 1—16), ac yn yr "eneiniad sanctaidd" (Ex. xxx. 25). I lywodraethu.—Gair tra neillduol yn golygu, yn llythyrenol, *ysgwyd ol a blaen, cyhwfan.* Desgrifiad bywiog o ansefydlogrwydd anrhydedd daearol, ac o deyrnasu, yn enwedig pan na byddo y brenin yn cael ei osod gan Dduw, eithr drwy ddewisiad y bobl a'i uchelgais ei hunan.

11—13. Nid ydys i ddeall fod y prenau yn portreiadu rhyw bersonau neillduol megis Deborah, Othniel, Gedeon, &c., ond yr ydym i olygu yr egwyddor gyffredinol, nad oes ond dynion diwerth a hunan-geisiol yn ymgyrhaedd am anrhydedd gau, a hyny er dinystr iddynt eu hunain ac i ereill.

14, 15. Yr holl brenau.—Y gair o'r blaen (adn. 10 a'r 12), ydoedd "y prenau;" ond yma "yr holl brenau," gyda chyfeiriad yn ddiau at unfrydedd pobl Sichem yn urddo Abimelech yn frenin. Y fieren.—Nid ydyw esbonwyr yn cytuno ar y math o ddrain a feddylir yn y fan hon. Ceir yn yr iaith Hebraeg naw o eiriau i osod allan bob math o ddrain, ac nid oes yr un o'r mathau hyny yn benderfynol adnabyddus. Tybia rhai mai y math a elwir Draenen Crist (Rhamnus Paliurus *Linœus)* a olygir yma. Eithr tybia Tristram fod yma gyfeiriad at fath neillduol o ddrain a dyfent, gyda'r creigiau, yn nghymydogaeth Sichem, tra yr oedd y coedydd ereill yn tyfu ac yn ffrwytho yn ngwaelod y dyffryn, yr hyn, yn ei fryd ef, a rydd fin arbenig i eiriau Jotham. Nid oedd gan y fieren ddim i'w wneyd, ac ymddengys gwawdiaith lem yn ngeiriau Jotham yn golygu i'r prenau i

yr eneiniwch fi yn frenin arnoch, deuwch *ac* ymddiriedwch
yn fy nghysgod i: ac onid ê, eled tân allan o'r fieren, ac
16 ysed gedrwydd Libanus. Yn awr gan hyny, os mewn
gwirionedd a phurdeb y gwnaethoch, yn gosod Abimelech
yn frenin, ac os gwnaethoch yn dda â Jerubbaal, ac â'i dŷ,
ac os yn ol haeddedigaeth ei ddwylaw y gwnaethoch iddo:
17 (Canys fy nhad a ymladdodd drosoch chwi, ac a anturiodd
ei einioes yn mhell, ac a'ch gwaredodd chwi o law Midian:
18 A chwithau a gyfodasoch yn erbyn tŷ fy nhad i heddyw,
ac a laddasoch ei feibion ef, sef dengwr a thri ugain, ar
un gareg, ac a osodasoch Abimelech, mab ei law-forwyn
ef, yn frenin ar wŷr Sichem, oherwydd *ei fod* ef yn frawd
19 i chwi): Gan hyny, os mewn gwirionedd a phurdeb y
gwnaethoch â Jerubbaal, ac â'i dŷ ef, y dydd hwn;
llawenychwch yn Abimelech, a llawenyched yntau ynoch
20 chwithau: Ac onid ê, eled tân allan o Abimelech, ac ysed
wŷr Sichem, a thŷ Milo; *hefyd* eled tân allan o wŷr
21 Sichem, ac o dŷ Milo, ac ysed Abimelech. A Jotham a
giliodd, ac a ffodd, ac a aeth ymaith i Beer, ac a drigodd
yno, rhag ofn Abimelech ei frawd.

---

gyd i ymgysgodi o dani hi. Darlun cywir o ddynion diwerth heb allu gwneyd dim ond niwed. Eled tan allan.—Er mor ddiwerth yw y fieren i ffrwytho ac i gysgodi, eto gall fod yn niweidiol iawn i'r hyn a ddaw i gyffyrddiad â hi, a gall enyn tân a difa pethau gwell na hi ei hunan. Awgryma Jotham y byddai i Abimelech a gwŷr Sichem ddinystrio eu gilydd. Yn adn. 20 ceir cymhwysiad o'r geiriau hyn. Buan y cymer drain dân (Exod. xxii. 6); felly y dynion gwaethaf sydd sicraf o achosi dinystr. Cedrwydd Libanus.—Y coed ardderchocaf yn Palestina. Gwel Salm xxix. 5; lxxx. 10; civ. 16; Ezec. xxxi. 3—9. Maent yn graddol ddifanu, ac ni cheir yn awr ond ychydig ohonynt yn y rhanau mwyaf anhygyrch o fynydd-dir Libanus.

16—18. Yn yr adnodau hyn, hyd adn. 20, y ceir cymhwysiad Jotham o'r ddameg. Dengys anniolchgarwch gwŷr Sichem yn dyrchafu Abimelech ar adfeilion tŷ Gedeon, a rhag-ddyweda eu dinystr o'r herwydd. Ail ddechreuir, yn adn. 19, yr hyn a gymerwyd i fyny yn adn. 16, gan fod yr eglurhad rhyngddynt, adn. 17, 18, mor faith. Anturiodd ei einioes yn mhell.—Yn ol yr Hebraeg, **a fwriodd ymaith yn mhell, a daflodd ei einioes, a'i dibrisiodd.** Ac a laddasoch.—Gesyd Jotham y trosedd o ladd ei frodyr wrth ddrws y Sichemiaid, yn gymaint ag iddynt roddi arian o dŷ Baal—eu duw—er cario allan yr anfadwaith.

19—21. Cyhoedda, yn yr adnodau hyn, ddedfryd eu gwaith, ac yn adn. 20, aiff yn mhellach na geiriau y ddameg; nid yn unig fe lysg tân oddiwrth Abimelech, "wŷr Sichem, a thŷ Milo," ond fe aiff tân allan hefyd oddiwrthynt hwythau i ddifa Abimelech. Beer.—Gan mai ystyr y gair

Ac Abimelech a deyrnasodd ar Israel dair blynedd. 22
A Duw a ddanfonodd yspryd drwg rhwng Abimelech a 23
gwŷr Sichem; a gwŷr Sichem a aethant yn anghywir i
Abimelech: Fel y delai y traha *a wnelsid* â deng mab a 24
thri ugain Jerubbaal, ac y gosodid eu gwaed hwynt ar
Abimelech eu brawd, yr hwn a'u lladdodd hwynt; ac ar
wŷr Sichem, y rhai a'i cynorthwyasant ef i ladd ei frodyr.
A gwŷr Sichem a osodasant iddo ef gynllwynwyr ar ben y 25
mynyddoedd; a hwy a yspeiliasant bawb a'r a oedd yn
tramwy heibio iddynt ar hyd y ffordd. A mynegwyd *hyny*
i Abimelech. A Gaal mab Ebed a ddaeth, efe a'i frodyr, 26
ac a aethant drosodd i Sichem: a gwŷr Sichem a roisant

---

ydyw *ffynon*, nid rhyfedd fod petrusder at ba le y cyfeirir yma, gan fod cynifer o leoedd yn dwyn yr enw. (1) Y syniad mwyaf cyffredinol ydyw mai Beeroth *(Bireh)* yn llwyth Benjamin a olygir yma (Jos. ix. 17; xviii. 25). Gorwedd rhyw ddwy filldir i'r de-orllewin o Bethel, a deng milldir i'r gogledd o Jerusalem. Dyma yr arhosfan gyntaf i'r teithwyr, ar y ffordd o Jerusalem i Galilea, a gesyd traddodiad y fan hon allan fel y lle y gwybu Joseph a Mair gyntaf golli ohonynt yr Iesu. (2) Dyru Jerome y lle ar y ffordd o Jerusalem i Gazah, wyth milldir i'r gogledd o *Beit-jibrin*, lle y darganfu Robinson bentref adfeiliedig o'r enw *El-Bireh*. (3) Tybia Ewald y gallai ei fod yr un a Beer ar derfyn Moab (Num. xxi. 16), lle sydd heb ei ddarganfod. Gesyd Conder y Beer yn yr adnod hon yn anhysbys, a'r dybiaeth hon, neu y gyntaf, yw y debycaf i fod yn gywir.

22—24. Ac Abimelech a deyrnasodd.—Nid ydyw y gair a ddefnyddir yn adn. 6, "brenin," yn cael ei ddefnyddio yma, eithr y gair "teyrnasodd" (adn. 22), yr hwn sydd i'w ddarllen, yn llythyrenol, **a dywysogaethodd**; cystal ag i awgrymu, er ei alw i fod yn frenin, nad ydoedd ond tywysog bychan, ac nad ydoedd ei lywodraeth namyn trawsfeddiant. Duw.—Nid Jehofah; oherwydd y dygir y gair i mewn yma yn nglŷn â gweithrediad llywodraeth foesol y Goruchaf. Yspryd drwg.—Golyga fwy na thueddfryd ddrygionus yn unig; rhywbeth cyfystyr â 1 Sam. xvi. 14, 15; xviii. 10; 1 Bren. xxii. 21, 23. Danfonwyd ef gan Dduw yn gospedigaeth am ddrygioni Abimelech a'r Sichemiaid. Fel y delai y traha.—Darllen y LXX. yn lle "y traha," yr **anghyfiawnder.** Cymharer 1 Bren. ii. 5, 32, 33; Math. xxiii. 35, 36. Y mae y "traha" a'r "gwaed," a'r "dyfod" a'r "gosod," yr un peth, ond yn unig fod y diweddaf yn fwy penodol.

25, 26. Iddo ef.—Neu, yn fwy cywir, **yn ei erbyn ef**, er nad, hwyrach, yn ei erbyn ef yn bersonol, eithr yn erbyn ei awdurdod ef, i ddal ei genhadau neu ei swyddogion ef. Cynllwynwyr.—Yspeilwyr penffordd *(Brigands)*. Dynion yn cymeryd mantais ar sefyllfa y wlad, ac yn cael eu symbylu gan ormes Abimelech; ac yr ydym yn canfod mai gwledydd pwdr, lle y bydd llywodraeth ormesol, ydynt, bob amser, yn nyth-leoedd yspeilwyr. Gaal.—Ni wyddys ddim am Gaal ond yr hyn a fynegir yma. Tybir gan rai (1) mai un o'r hen Ganaaneaid a ddyrchafwyd, efallai, gan

27 eu hyder arno. A hwy a aethant i'r meusydd, ac a gasgl-
asant eu gwinllanoedd, ac a sangasant *eu grawnwin*, ac a
wnaethant yn llawen, ac a aethant i mewn i dŷ eu duw, ac
a fwytasant ac a yfasant, ac a felldithiasant Abimelech.
28 A Gaal mab Ebed a ddywedodd, Pwy *yw* Abimelech, a
phwy *yw* Sichem, fel y gwasanaethem ef? onid mab
Jerubbaal *yw efe?* onib Zebul *yw* ei swyddog? gwasanaeth-
wch wŷr Hemor tad Sichem: canys paham y gwasanaethem
29 ni ef? O na byddai y bobl hyn dan fy llaw i, fel y bwriwn
ymaith Abimelech! Ac efe a ddywedodd wrth Abimelech,
Amlhâ dy lu, a thyred allan.

---

Abimelech yn fath o swyddog ydoedd, ac a ddanfonwyd drosodd i ddwyn y Sichemiaid yn ol dan iau Abimelech, ond yn lle hyny, a droes gyda hwynt; (2) ond tebycach mai math o farchog crwydrol, gyda mintai o ganlynwyr, "efe a'i frodyr," ydoedd, y rhai a groesawyd gan wŷr Sichem, er eu cynorthwyo i gael gwared oddiwrth ormes Abimelech.

27—29. Yn yr adnodau hyn cawn y gwrthryfel yn erbyn Abimelech, yr hwn, hyd yma, ydoedd yn gynwysedig yn unig mewn gweithredoedd annheyrngarol, yn tori allan yn gyhoeddus, ar achlysur yr ŵyl gynhauaf, yr un ŵyl, dybygid, ag a sefydlodd Moses (Lef. xix. 23—25); ond yn unig y cedwid hi yma i Baal, ac nid i Jehofah. Gwel pen. viii. 33. A wnaethant yn llawen.—Ni cheir y gair a gyfieithir yma "llawen," ond yn y fan hon ac yn Lef. xix. 24, lle y darllenir ef "molianu." Golyga tarddiad y gair y ffrwythau a offrymid, yn fwy na'r yspryd yn mha un y'u hoffrymid, neu y caniadau o fawl a offrymid gyda hwynt. Ty eu duw.—Dengys hyn eu hymadawiad llwyr â'r Arglwydd. A phwy yw Sichem.—Ceir brawddeg gyffelyb yn 1 Sam. xxv. 10, yr hon a'n harwain i feddwl nad ydyw y gair "Sichem" yma ond enw arall ar Abimelech. Darllena y LXX. *mab Sichem*, gyda chyfeiriad at darddiad Canaaneaidd Abimelech; ond ni byddai ystyr i'r darlleniad hwn heb olygu mai Israeliaid oedd gwŷr Sichem. Onid mab Jerubbaal.—Dirmygai Gaal Abimelech, nid oherwydd (1) ei fod o darddiad isel; (2) ei fod yn greulawn; (3) eithr am ei fod yn fab y gŵr a fwriodd i lawr allor Baal. Gwasanaethwch wyr Hemor, tad Sichem.—Er yr amrywiaeth golygiadau ar y rhan anhawdd hon, braidd na thybiem mai yr ystyr a gyflëir gan y darlleniad arferol yw y cywiraf. (1) Yn ol y golygiad hwn, dengys Gaal mai rhyw haner perthynas iddynt oedd Abimelech—"onid mab Jerubbaal?" Dewiswch i chwi lywodraethwr o'ch brodyr eich hunain, a gwasanaethwch wŷr Hemor, tad Sichem—hen gyndadau cyntefig y ddinas. Mae yr esboniad hwn yn cymeryd yn ganiataol mai un o'r Canaaneaid ydoedd Gaal. (2) Yr esboniad arall a gyflëa ystyr fel y canlyn:—Gwasanaethed gwŷr Hemor—y boblogaeth Ganaaneaidd—Abimelech eu brawd, a Zebul ei dywysog, os mynant; ond pa raid i *ni*, Israeliaid rhyddion, fel nyni, ei wasanaethu? Y ddau beth sydd yn ffafr y golygiad diweddaf yma ydyw, mai enw Canaaneaidd oedd Abimelech (Gen. xxvi. 1), a bod yr eglurhad hwn yn rhoddi mwy o le i'r gair "ni" na'r golygiad arall, yr hwn, yn ddiau, sydd yn air pwysleisiol yn yr adnod. Canys

A phan glybu Zebul, llywodraethwr y ddinas, eiriau 30
Gaal mab Ebed, y llidiodd ei ddigllonedd ef. Ac efe a 31
anfonodd genhadau at Abimelech yn ddirgel, gan ddy-
wedyd, Wele Gaal mab Ebed a'i frodyr wedi dyfod i
Sichem ; ac wele hwynt yn cadarnhau y ddinas i'th erbyn.
Gan hyny cyfod yn awr liw nos, ti a'r bobl *sydd* gyda thi, 32
a chynllwyn yn y maes : A chyfod yn fore ar godiad yr 33
haul, a rhuthra yn erbyn y ddinas : ac wele, *pan* ddelo efe
a'r bobl *sydd* gydag ef allan i'th erbyn, yna gwna iddo yr
hyn a ellych.

Ac Abimelech a gyfododd, a'r holl bobl y rhai *oedd* gydag 34
ef, liw nos, ac a gynllwynasant yn erbyn Sichem yn bedair
byddin. A Gaal mab Ebed a aeth allan, ac a safodd *wrth* 35
ddrws porth y ddinas ; ac Abimelech a gyfododd, a'r bobl
y rhai *oedd* gydag ef, o'r cynllwyn. A phan welodd Gaal 36
y bobl, efe a ddywedodd wrth Zebul, Wele bobl yn dyfod
i waered o ben y mynyddoedd. A dywedodd Zebul wrtho,
Cysgod y mynyddoedd yr ydwyt ti yn ei weled fel dynion.
A Gaal a chwanegodd eto lefaru, ac a ddywedodd, Wele 37

---

paham.—Yn hytrach, **Ond paham.** Amlha dy lu.—Hèr dyn meddw. Efallai iddo ei chyflwyno i Zebul, a thrwyddo ef i Abimelech.

30, 31. Zebul (preswyl).—Math o swyddog dan Abimelech, yn llywodraethu y ddinas yn ei absenoldeb. Yn ddirgel.—Y mae y gair a gyfieithir "yn ddirgel" yma yn air mor anghyffredin, fel na cheir ef yn un man arall yn y Beibl ; a chyfieithir ef gan rai yn *Tormah,* enw ar le, yr un lle, efallai, ag Arumah (adn. 41). Cadarnhau y ddinas i'th erbyn.—Yn llythyrenol, **cynhyrfu y ddinas yn dy erbyn di.**

32, 33. Ystyr y genadwri oedd fod brâd-gynllun ar droed, ac am i Abimelech gymeryd mantais ar y nos, a chymeryd y gelynion yn ddiarwybod iddynt. A rhuthra yn erbyn y ddinas.—Ystyr llythyrenol y gair ydyw **ymdaenu allan,** fel mewn cynllwyn. Gwna iddo yr hyn a ellych.—Gwêl 1 Sam. x. 7 ; xxv. 8.

34, 35. Yn bedair byddin.—Gwêl pen. vii. 16. Gellir casglu fod Gaal a'i ganlynwyr wedi arfaethu myned allan, ar ryw ymgyrch neu gilydd ; efallai mai at hyny y cyfeiria adn. 33, ond iddo, cyn gadael pyrth y ddinas, weled milwyr Abimelech, a drwgdybio brâd.

36, 37. Yn yr adnodau hyn, ceir hanes y cyntaf o dri ymosodiad drwy ba rai y darostyngodd Abimelech y gwrthryfelwyr. (1) Yn y cyntaf daw Abimelech a'i filwyr allan yn lladradaidd o "benau y mynyddoedd," o "ganol y tir," ac o "ffordd gwastadedd Meonenim," gan ymlid Gaal hyd i Sichem (adn. 36—40). (2) Yn yr ail, ymleddir y brif frwydr, yn y maes agored, lle y mae y Sichemiaid, wedi colli eu harweinydd, yn cael eu llwyr orchfygu, a'u dinas ei dinystrio (adn. 42—45). (3) Y trydydd, pryd y mae y

bobl yn dyfod i waered o ganol y tir, a byddin arall yn
38 dyfod o ffordd gwastadedd Meonenim. Yna y dywedodd
Zebul wrtho ef, Pa le yn awr *y mae* dy enau di, *â'r hwn* y
dywedaist, Pwy *yw* Abimelech, pan wasanaethem ef? onid
dyma y bobl a ddirmygaist ti? dos allan, atolwg, yn awr,
39 ac ymladd i'w herbyn. A Gaal a aeth allan o flaen gwŷr
40 Sichem, ac a ymladdodd âg Abimelech. Ac Abimelech a'i
herlidiodd ef, ac efe a ffodd o'i flaen ef; a llawer a gwymp-
41 asant yn archolledig hyd ddrws y porth. Ac Abimelech a
drigodd yn Arumah: a Zebul a yrodd ymaith Gaal a'i
42 frodyr o breswylio yn Sichem. A thranoeth y daeth y
43 bobl allan i'r maes: a mynegwyd *hyny* i Abimelech. Ac
efe a gymerth y bobl, ac a'u rhanodd yn dair byddin, ac a

---

gweddill o'r gwrthryfelwyr, wedi llechu yn yr amddiffynfa a berthynai i dŷ eu duw Berith, yn cael eu llosgi â thân (adn. 46—49). Canol y tir.—Darllena y LXX. a'r *Vulgate*, **Bogail y tir.** Yr ystyr ydyw o uwchder y wlad. Gwastadedd Meonenim.—Yn llythyrenol, **derwen y rhinwyr**. Cyfeiriad at le anhysbys, os nad (1) yr un lle a "derwen y golofn" (adn. 6); (2) neu, yn fwy tebygol, y pren y claddodd Jacob yr eilun-dduwiau dano (Gen. xxxv. 4).

38—40. Yr oedd Zebul, hyd yn hyn, wedi llefaru yn fwyn wrth Gaal; ond pan yn gwybod fod milwyr Abimelech mor agos, yr ydoedd yn fforddio iddo daflu ei gochl ymaith, a llefaru yn hyf. O flaen gwyr Sichem.—Ysgarmes ydoedd yr ymosodiad hwn, rhwng Gaal a'i ganlynwyr, ac Abimelech a'i filwyr yn unig; oblegid yn adn. 33—35, deallwn i Gaal fyned allan gyda dim ond ei ganlynwyr ei hunan, tra y profa adn. 42, 43, nad aeth gwŷr Sichem allan hyd y dydd canlynol; felly, goddefa yr ymadrodd uchod ei ddeall **yn nholwg arglwyddi Sichem,** yr oeddynt yn edrychwyr ar y frwydr.

41, 42. A drigodd.—Yn llythyrenol, **a eisteddodd i lawr,** dros y noswaith hono, gan ddisgwyl egŵyl arall. Arumah.—Lle na chrybwyllir mohono ond yma, os nad ydym i ddeall fod cyfeiriad ato yn adn. 33. Yn ol Conder y mae yn anhysbys; ond gesyd Tristram ef yn bur hyderus i'r de-orllewin, tua haner y ffordd o Sichem i Siloh *(Seilûn)*, mewn lle a elwir yn awr *El-Orma*. Y mae hyn yn ei osod yn rhy bell o Sichem; gofyn yr hanes, yn ol Van-de-Velde, ei fod rhyw ddwy filldir i'r gogledd-orllewin o Sichem. Yrodd ymaith Gaal. Er nad oedd y Sichemiaid wedi eu darostwng, eto, yr oedd buddugoliaeth Abimelech, ac agosrwydd ei filwyr, wedi cryfhau dwylaw Zebul gymaint fel y gallai yn hawdd fwrw Gaal a'i ganlynwyr allan o'r ddinas. Dranoeth.—Ar ol bwriad ymaith Gaal a'i ganlynwyr. Allan i'r maes.—I orphen cynhauafa y gwinwydd, neu i ryw orchwyl amaethyddol, gellid meddwl.

43—45. Hysbysid holl symudiadau y dinaswyr gan Zebul i Abimelech. Mae y rhaniad ar y fyddin yn fwy llwyddianus na'r dydd o'r blaen, am nad oedd yno yr un milwr profedig, megis Gaal (adn. 35), i ddarganfod y

gynllwynodd yn y maes, ac a edrychodd, ac wele y bobl
wedi dyfod allan o'r ddinas; ac efe a gyfododd yn eu
herbyn, ac a'u tarawodd hwynt. Ac Abimelech, a'r fyddin 44
*oedd* gydag ef, a ruthrasant, ac a safasant wrth ddrws porth
y ddinas: a'r ddwy fyddin *ereill* a ruthrasant ar yr holl
*rai oedd* yn y maes, ac a'u tarawsant hwy. Ac Abimelech 45
a ymladdodd yn erbyn y ddinas yr holl ddiwrnod hwnw:
ac efe a enillodd y ddinas, ac a laddodd y bobl *oedd* ynddi,
ac a ddistrywiodd y ddinas, ac a'i hauodd â halen.

A phan glybu holl wŷr tŵr Sichem *hyny*, hwy a aethant 46
i amddiffynfa tŷ duw Berith. A mynegwyd i Abimelech, 47
ymgasglu o holl wŷr tŵr Sichem. Ac Abimelech a aeth i 48
fyny i fynydd Salmon, efe a'r holl bobl *oedd* gydag ef: ac
Abimelech a gymerth fwyell yn ei law, ac a dorodd gangen
o'r coed, ac a'i cymerth hi, ac a'*i* gosododd ar ei ysgwydd;
ac a ddywedodd wrth y bobl *oedd* gydag ef, Yr hyn a
welsoch fi yn ei wneuthur, brysiwch, gwnewch fel finau.
A'r holl bobl a dorasant bob un ei gangen, ac a aethant 49
ar ol Abimelech; ac a'u gosodasant wrth yr amddiffynfa,
ac a losgasant â hwynt yr amddiffynfa â thân: felly holl
wŷr tŵr Sichem a fuant feirw, yn nghylch mil o wŷr a
gwragedd.

---

ddichell. Y bobl wedi dyfod allan.—Yn fwy cywir, **y bobl yn dyfod allan.** Am raniad y fyddin cymharer pen. vii. 16, 19. Hauodd a halen.—Wedi ei chwalu hyd ei sylfeini (2 Sam. xvii. 13), efe a'i hauodd â halen i arwyddo ei ddymuniad am iddi, ar ol peidio a bod yn ddinas, i beidio hefyd a bod yn faes ffrwythlon. Y mae halen yn arwyddlun o ddiffrwythdra (Deut. xxix. 23; Job xxxix. 6; Salm cvii. 34; ac ymyl y ddalen, Jer. xvii. 6; Ezec. xlvii. 11).

46, 47. Gwyr twr Sichem.—Yr un rhai a "holl dŷ Milo" (adn. 6); ac, o bosibl, rhai o brif arglwyddi Sichem a'u teuluoedd. Amddiffynfa ty duw Berith.—Yr unig le arall y ceir y gair a gyfieithir yma "amddiffynfa," ydyw yn 1 Sam. xiii. 6, lle y cyfieithir ef "tyrau." Meddwl y geiriau hyn ydyw, fod holl "wŷr tŵr Sichem" wedi ymneillduo i gysegrfa yn nheml Baalberith, nid yn gymaint er mwyn gwneyd amddiffynfa filwrol o'r lle, eithr er mwyn cael nawdd y deml a'r eilun rhag dialedd Abimelech.

48, 49. Mynydd Salmon.—Yr un, dybygid, a'r Salmon yn Salm lxviii. 15. Tardd y gair o air sydd yn golygu *cysgod;* felly gellir casglu ei fod yn dra uchel, ac, yn y gauaf, yn enwog am ei eira, ac yn yr haf am gysgod ei goedwigoedd. (1) Tybia Conder mai yr un ydyw a *Jebel Suleiman*, ychydig i'r deheu o Garizim. (2) Gogwydda Tristram a Stanley i feddwl mai rhan o Ebal ydoedd. Yr amddiffynfa.—Yr un gair

50 Yna Abimelech a aeth i Thebez; ac a wersyllodd yn
51 erbyn Thebez, ac a'i henillodd hi. Ac yr oedd tŵr cadarn
yn nghanol y ddinas; a'r holl wŷr a'r gwragedd, a'r holl
rai o'r ddinas, a ffoisant yno, ac a gauasant arnynt, ac a
52 ddringasant ar nen y tŵr. Ac Abimelech a ddaeth at y
tŵr, ac a ymladdodd yn ei erbyn; ac a nesaodd at ddrws
53 y tŵr, i'w losgi ef â thân. A rhyw wraig a daflodd ddarn
o faen melin ar ben Abimelech, ac a ddrylliodd ei benglog
54 ef. Yna efe a alwodd yn fuan ar y llanc oedd yn dwyn
ei arfau ef, ac a ddywedodd wrtho, Tyn dy gleddyf, a lladd
fi; fel na ddywedant am danaf, Gwraig a'i lladdodd ef.
55 A'i langc a'i trywanodd ef, ac efe a fu farw. A phan
welodd gwŷr Israel farw o Abimelech, hwy a aethant bob
un i'w fangre.
56 Felly y talodd Duw ddrygioni Abimelech, yr hwn a
wnelsai efe i'w dad, gan ladd ei ddeg brawd a thri ugain.
57 A holl ddrygioni gwŷr Sichem a dalodd Duw ar eu pen

---

ag adn. 46. Gwêl nodiad. Yr oedd llosgi y lle a thân yn gyflawniad llythyrenol o eiriau Jotham (adn. 20).

50—52. O'r diwedd, y mae y dynged a ragfynegwyd gan Jotham (adn. 20) yn goddiweddyd Abimelech, y fieren-frenin. Thebez.—Mae y lle, yn ol yr awdurdodau, hen a diweddar, yr un a phentref *Tubas*, tua thair milldir ar ddeg i'r dwyrain-ogledd o Sichem, ar y ffordd i Bethsean. Tebyg fod y lle yn rhan o deyrnas Abimelech, ac yn gyfranog â Gaal a'r Sichemiaid yn y gwrthryfel. Holl rai o'r ddinas.—Yn hytrach, **holl arglwyddi y ddinas.** Ar nen y twr.—Gwêl pen. xvi. 27; Jos. ii. 6, 8; Salm cxxix. 6. Yr un ddyfais a ddefnyddir yma ag yn Sichem (adn. 49).

53, 55. A rhyw wraig.—Y mae yn amlwg fod "nesâu at y drws" yn orchwyl tra pheryglus, oherwydd y gallai personau, ar nen y tŷ, daflu meini i lawr. Felly fu; fe daflodd menyw ddarn o faen melin—y maen uwchaf (Deut. xxiv. 6)—ar ei ben nes ei ddryllio. Ei benglog.—Yr un gair yn Hebraeg a'r gair *Golgotha* (Math. xxvii. 33). Ystyr gyntaf y gair ydyw *rhywbeth crwn*. Gwêl gyfeiriad at yr amgylchiad hwn, 2 Sam. xi. 21. Cymharer marwolaeth Abimelech â marwolaeth Saul (1 Sam. xxxi. 3; 2 Sam. i. 10, 14—16); mor wahanol y teimlad ato ef fel "eneiniog yr Arglwydd," ragor at Abimelech, yr hwn nid ydoedd amgen na gormesdeyrn. Gwrthodai cludydd arfau Saul ei drywanu; y mae llanc Abimelech yn trywanu ei feistr ar air; am Saul canodd Dafydd farwnad odidog; ond unig feddargraff Abimelech ydyw melldith Jotham, ei frawd.

56, 57. Felly y talodd.—Cynwys y geiriau hyn yr addysg foesol oddiwrth y cyfan. Y ddau bechod a nodir allan yma fel yn cael eu cospi ydyw, diffyg parch Abimelech i'w dad, ac anniolchgarwch gwŷr Sichem. Cymharer Gen. ix. 24, 25; Ex. xx. 12, â 2 Sam. ix. 1—7; x. 2.

hwynt: a melldith Jotham mab Jerubbaal a ddaeth arnynt hwy.

---

Nodwedd neillduol y Beibl ydyw ei fod yn priodoli pobpeth i fŷs Duw ei hunan, gan fyned heibio i bob cyfryngau fyddo gan y Goruchaf i gario allan ei wobrwyon a'i gospedigaethau. Cyflawnwyd melldith Jotham (adn. 20) i'r llythyren. Ond nid oes yma unrhyw gefnogaeth i'r syniad ofergoelus am felldithio. Fe gafodd y Sichemiaid eu dinystrio, nid oherwydd ddarfod i Jotham eu melldithio, eithr oherwydd eu bod yn haeddu y felldith.

---

## PENOD X.

AC ar ol Abimelech, y cyfododd i waredu Israel, Tola, 1
mab Puah, mab Dodo, gwr o Issachar; ac efe oedd
yn trigo yn Samir ym mynydd Ephraim. Ac efe a farnodd 2
Israel dair blynedd ar hugain, ac a fu farw, ac a gladdwyd
yn Samir.

---

PEN. x. *1, 2.—Tola o lwyth Issachar yn barnu Israel am ugain mlynedd. 3—5.—Jair o Gilead am ddwy-flynedd-ar-hugain. 6—9.—Israel yn gwrthgilio a'u cospedigaeth. 10—16.—Yn edifarhau ac yn bwrw ymaith eu gau-dduwiau. 17, 18.—Ymgynulliad meibion Ammon, a phryder gwyr Gilead.*

(e) *Tola a Jair yn barnu Israel: Tymhor o Heddwch ar ol marwolaeth Abimelech* (pen. x. 1—5).

1, 2. Ar ol Abimelech.—Ni olygir yma fod Abimelech yn farnwr, ond yn unig dynodir pwynt o amser. Cyfododd.—Nid ydyw y ferf a ddefnyddir yma mor gref a'r un a ddefnyddir yn hanes Othniel (pen. iii. 9); eto, dengys yn amlwg fod Tola yn un o'r barnwyr a gyfodwyd gan Ragluniaeth Ddwyfol i waredu Israel. Gwaredu Israel.—Yn fwy cywir, **achub.** Gwel nodiad (pen. ii. 16). Nid ydyw y gair "Israel" yn golygu namyn y llwythau gogleddol, ac efallai y rhai a drigent ar y tu dwyreiniol i'r Iorddonen. Tola (y pryf) mab Puah.—Ni wyddys ychwaneg am dano, na pha beth ydoedd peryglon Israel ar y pryd. Er cyfiawnhau y gair "gwaredu," nid rhaid deall, o angenrheidrwydd, fod gelynion yn ymosod ar Israel ar y pryd; digon ydyw deall fod Tola yn cadw y genedl rhag syrthio yn ol i eilunaddoliaeth, a rhag myned yn fathrfa i'r cenedloedd cylchynol. Cyfarfyddir â'r enwau *Tolah, Puah, Dodo*, fel enwau ar benau teuluoedd a phersonau yn Issachar (Gen. xlvi. 13; Num. xxvi. 23; 2 Sam. xxiii. 9, 24; 1 Cron. vii. 1). Samir.—Y cwbl a ellir sicrhau am y lle ydyw mai nid yr un ydyw a Samir yn mynydd-dir Judah (Jos. xv. 48). Gallai fod Tola (1), er o lwyth Issachar, yn byw y tuallan i derfynau ei lwyth yn mynydd Ephraim; (2) neu fod mynydd Ephraim yn ymestyn dros ychwaneg o le na rhandir llwyth Ephraim, gan gymeryd i fewn ranau o randir Issachar. Gwel pen. iii. 27.

3 Ac ar ei ol ef y cyfoddodd Jair, Gileadiad; ac efe a farnodd
4 Israel ddwy flynedd ar hugain. Ac iddo ef yr oedd deng
mab ar hugain yn marchogaeth ar ddeg ar hugain o
ebolion asynod; a deg dinas ar hugain *oedd* ganddynt, y
rhai a elwyd Hafoth-Jair hyd y dydd hwn, y rhai *ydynt* yn
5 ngwlad Gilead. A Jair a fu farw, ac a gladdwyd yn

---

3—5. Cyfododd Jair (Duw rydd oleuni).—Gwel adn. 1. Gileadiad.—Yn llythyrenol, **Y Gileadiad.** Un o haner llwyth Manasseh, yr ochr ddwyreiniol i'r Iorddonen. Er fod y genedl wedi suddo yn isel, eto nid ydoedd wedi colli ei hundod cenedlaethol. Hafoth-Jair.—Yn fwy cywir, **Pebyll-bentrefi Jair.** Yn Num. xxxii. 41; a Deut. iii. 14, ceir fod Jair, mab Manasseh, wedi rhoddi enwau ar y lleoedd hyn. Felly, y tebyg ydyw na wnaeth meibion y Jair hwn ond ail-gyfodi hen enw, neu ei barhau hyd ddyddiau ysgrifenydd yr hanes. Ni ddywedir dim manylion am Jair namyn yr anrhydedd a feddienid gan ei feibion. Cymharer pen. v. 10 â xii. 14. Yn ngwlad Gilead.—Yr oedd pentrefi Jair dros yr Iorddonen, yn rhandir haner llwyth Manasseh, mewn parth o wlad Gilead, a elwir, yn yr Hen Destament, Argob *(Carnedd geryg)*; yn y Testament Newydd, Trachonitis *(caregog)*; ac yn bresenol, *Lejah (lloches)*, am ei fod, meddir, yn nythle i yspeilwyr. Mae Argob yn lle tra neillduol, yn rhyw driugain milldir o amgylchedd, ac yn cael ei wahanu, oddiwrth y lleoedd o'i amgylch, gan yr hyn o elwir "terfyn Argob"—math o geulan garegog wedi ei gadael, yn ddiamheu, gan ryw gynhyrfiadau tan-ddaearol gan ffurfio terfyn iddo, ac yn tori rhyngddo â'r lleoedd o'i amgylch. Ac a gladdwyd.—Dichon fod hyn yn cyfeirio at fath o arŵyl gyhoeddus a swyddogol. Sonir am hyn gyntaf gyda Tola yn adn. 2 o'r benod hon. Camon.—Ni chrybwyllir y lle yn un man arall. Gesyd Josephus (Hynaf. v. 66) ef fel un o ddinasoedd Gilead; ond dyru Jerome ef yn nyffryn Jezreel, chwe' milldir i'r gogledd o Megido. Rhestrir ef gan Conder yn mhlith y lleoedd anhysbys.

(3) Y Trydydd Cyfnod o Wrthgiliad ac Adferiad (pen. x. 6—xii. 15).

Yn gyffelyb i'r cyfnod blaenorol, ni chynwys hwn eto ond un tymhor o orthrymder; ond fod hwnw gan elynion o ddau gyfeiriad (pen. x. 7), y Philistiaid a meibion Ammon. Gwelir yn amlwg fod gwrthgiliad y genedl yn ddyfnach yn y cyfnod hwn nag yn yr un o'i flaen. Wrth gymharu geiriau Duw wrthynt, pen. ii. 1; vi. 8, â'i eiriau yn pen. x. 11—14, gymaint yn gryfach y llefara yr Arglwydd yn y lle diweddaf! Ar ol cyfodiad Jephthah, ymffurfia bradwriaeth o fewn y llwythau, sydd yn galw am y fath ddedfryd ar lwyth Ephraim (pen. xii. 1—6), fel ag i agos ei lwyr-ddifrodi, yn gyffelyb i Benjamin (pen. xx. 12, 13), a Jabes Gilead (pen. xxi. 1—10) cyn hyn. Megis gormes Abimelech, yr oedd hyn yn gymaint o drychineb, oddifewn i'r llwythau, â gorthrymder gan elynion o'r tuallan. Canlynir Jephthah gan dri barnwr; ond nid ydyw hyd tymhor y pedwar, gyda'u gilydd, ond un ar ddeg ar hugain o flynyddoedd, na hyd yr holl gyfnod, hyd y gellir casglu, yn llawn haner canrif.

Camon. A meibion Israel a chwanegasant wneuthur yr 6
hyn oedd ddrwg yn ngolwg yr ARGLWYDD, ac a wasanaeth-
asant Baalim, ac Astaroth, a duwiau Syria, a duwiau
Sidon, a duwiau Moab, a duwiau meibion Ammon, a
duwiau y Philistiaid; a gwrthodasant yr ARGLWYDD, ac ni
wasanaethasant ef.
A llidiodd digllonedd yr ARGLWYDD yn erbyn Israel; 7
ac efe a'u gwerthodd hwynt yn llaw y Philistiaid, ac
yn llaw meibion Ammon. A hwy a flinasant ac a ysigasant 8
feibion Israel y flwyddyn hono: tair blynedd ar bymtheg,
holl feibion Israel y rhai *oedd* tu hwynt i'r Iorddonen,
yn ngwlad yr Amoriaid, yr hon *sydd* yn Gilead. A meibion 9
Ammon a aethant trwy yr Iorddonen, i ymladd hefyd yn

---

(a) *Gwrthgiliad Israel a'r Canlyniadau* (pen. x. 6—18).

6. Mae y geiriau hyn yn parotoi y ffordd i hanes Jephthah. Enwir yma saith o genedloedd y gwasanaethodd Israel eu duwiau; ac yn adn. 11, 12, enwir saith o genedloedd y gwaredodd yr Arglwydd Israel o'u llaw. Yr oedd mesur anwiredd y genedl yn cyfateb megis i fesur gwaredigaethau yr Arglwydd iddi. **Baalim ac Astaroth.**—Gwel pen. ii. 11, 13. **Duwiau Syria.**—Ni cheir enwau arnynt; ond gellir casglu eu bod yr un a duwiau Phenicia. **Duwiau Sidon.**—Astaroth (1 Bren. xi. 5). **Duwiau Moab.**—Cemos (1 Bren. xi. 33). **Duwiau meibion Ammon.**—Milcom (1 Bren. xi. 5, 33); neu, Moloch (Lef. xviii. 21). **Duwiau y Philistiaid.**—Dagon (pen. xvi. 23). Gwahanol ffurfiau ar Baal ac Astaroth oeddynt braidd i gyd. Am ymchwiliad trwyadl i'r holl gwestiwn, gweler erthygl ar "Dduwiau Canaan," gan Proffeswr Sayce yn y *Contemporary Review* am Medi, 1883, tudal. 388.

7—9. **Philistiaid.**—Gwel pen. iii. 3. Cyfyngid eu hymosodiad blaenorol i'r deheu yn unig (pen. iii. 31); ond yma ymddengys eu bod yn awr yn dyfod yn uwch i fyny ar yr holl dde-orllewin. **Meibion Ammon.**—Gwel pen. iii. 13. Deuent, dybygid, o'r tu dwyreiniol. Efallai fod cyngrair rhwng y gelynion hyn; y Philistiaid i ymosod ar y llwythau o'r tu gorllewinol i'r Iorddonen, tra y blinai yr Ammoniaid y llwythau ar yr ochr ddwyreiniol. Ceir dau air cryf yn adn. 8 i ddesgrifio y gorthrymder—"blinasant" ac "ysigasant"—y cyntaf yn golygu yn llythyrenol, *tori yn ddarnau*, a'r llall *ysigo*. **Y flwyddyn hono.**—Mae dau olygiad yn bosibl. (1) Blwyddyn ddiweddaf y gorthrymder—y flwyddyn y cyrhaeddodd y gorthrwm ei bwynt eithaf, ac y dechreuodd Israel edifarhau (adn. 10, 15, 16). (2) Blwyddyn gyntaf y cyngrair rhwng y Philistiaid a'r Ammoniaid, ac o bosibl blwyddyn marwolaeth Jair. Tebyg fod yr hanes wedi ei gymeryd o gronicl blaenorol, ac yn hwnw dichon fod "y flwyddyn hono" yn cael ei nodi allan yn fwy manwl. Y golygiad diweddaf o'r ddau uchod ydyw y mwyaf cydweddol â'r hanes. **Y rhai oedd tuhwnt i'r Iorddonen.**—Reuben, Gad, a haner llwyth Manasseh. Y llwythau a drigent ar yr ochr ddwyreiniol i'r Iorddonen, y rhai oeddynt dra llwyddianus, yn nyddiau Jair (adn. 3, 4), a deimlasant yn

erbyn Judah, ac yn erbyn Benjamin, ac yn erbyn tŷ
Ephraim; fel y bu gyfyng iawn ar Israel.
10 A meibion Israel a lefasant ar yr ARGLWYDD, gan
ddywedyd, Pechasom yn dy erbyn; oherwydd gwrthod
11 ohonom ein DUW, a gwasanaethu Baalim hefyd. A
dywedodd yr ARGLWYDD wrth feibion Israel, Oni *waredais*
*chwi* rhag yr Aiphtiaid, a rhag yr Amoriaid, a rhag meibion
12 Ammon, a rhag y Philistiaid? Y Sidoniaid hefyd, a'r

---

fwyaf, ac yn gyntaf oddiwrth y gorthrwm; ond oddiwrth yr adnod nesaf, gwelwn ddarfod iddo gyrhaedd at y rhai ar y tu gorllewinol hefyd. **Gwlad yr Amoriaid.**—Cyfrifir Sehon ac Og, y brenhinoedd a orchfygwyd gan Israel, yn Amoriaid (Num. xxi. 21. 31; Deut. iii. 8). Golyga y gair "Amoriaid" rai yn trigo mewn ucheldir (gwel pen. i. 35; iii. 5); ac yr oedd eu prif drigfod y tu dwyrain i'r Iorddonen, yn mynydd-dir Gilead a Moab. **Gilead.**—Golyga Gilead yn briodol gadwen o fynydd-dir ffrwythlawn, tua thri ugain milldir o hyd, wrth tuag ugain o led, yn rhedeg o'r tu dwyrain i'r Iorddonen, o gŵr deheuol Môr Galilea, hyd gŵr gogleddol y Môr Marw. Ystyr y gair "Gilead" ydyw *tir creigiog*, i'w wahaniaethu, fe ddichon, oddiwrth wastadeddau Basan, y rhai, ar du y gogledd, sydd yn terfynu arno. Gelwir ef weithiau "mynydd Gilead" (Gen. xxxi. 21, 25); bryd arall "tir Gilead" (Num. xxxii. 1); a phryd arall "Gilead" (Gen. xxxvii. 25; Salm lx. 7). Dywedir yn Deut. iii. 12, 13; Jos. xii. 1—5; xiii. 25, 31, fod haner Gilead yn perthyn i Sehon, a'r haner arall yn eiddo i Og, a daeth y diriogaeth hon yn feddiant i Gad, a haner llwyth Manasseh. Yn gyffredinol, golyga Gilead yr holl diriogaeth a oresgynwyd gan Israel ar du dwyrain yr Iorddonen (Num. xxxii. 29; Deut. xxxiv. 1; Jos. xxii. 9; Barn. xx. 1). Golygir y gair yn yr ystyr gyffredinol hon yn yr adnod uchod. Wedi deunaw mlynedd o orthrymu ar y llwythau oeddynt yn ngwlad Gilead, daeth yr Ammoniaid drwy yr Iorddonen gan wasgu ar y llwythau oeddynt y tu arall i'r afon. **Ty Ephraim.**—Golygir, efallai, fwy na therfynau priodol rhandir y llwyth. Mor fawr oedd y cyfyngder (pen. ii. 15) fel y daeth llwyth cryf Judah, yr hwn a grybwyllir yma am y waith gyntaf, er pen. i., i deimlo oddiwrtho.

**10—12. A lefasant.**—Cymharer pen. iii. 9, 15; vi. 7. **Baalim.**—Yn llythyrenol, **Y Baalim,** yr eilun-dduwiau a nodir (adn. 6). **A dywedodd yr Arglwydd.**—Amrywia esbonwyr yn fawr gyda golwg ar y cyfrwng y llefarodd yr Arglwydd drwyddo. (1) Golyga rhai fod yr ymostyngiad wedi cymeryd lle o flaen drws pabell y cyfarfod, ar un o'r gwyliau cyhoeddus, a bod yn debyg felly fod y genadwri wedi dyfod iddynt drwy yr archoffeiriad; (2) tyb ereill ydyw mai drwy Urim a Thummim; (3) ereill mai drwy lais mewnol eu cydwybodau eu hunain; (4) a rhai mai drwy brophwyd, neu genad ddynol; (5) ond y golygiad sydd yn ymddangos yn fwyaf cydweddol â thôn Llyfr y Barnwyr ydyw mai drwy Angel y Cyfamod. Yr oedd ymddangosiad yr angel yn nodweddu dechreuad pob cyfnod mawr a hynod yn hanesiaeth y llyfr (gwêl ii. 1—5; vi. 11—24; xiii. 3—23); ac yn blaenori, bob amser, roddiad yr Ysbryd Glân i gyfodi offerynau neillduol i waredu y genedl (pen. x. 29). Y mae y paragraph hwn mor dra thebyg i ymddangosiad yr angel yn Bochim (pen. ii.

Amaleciaid, a'r Maoniaid, a'ch gorthrymasant chwi; a
llefasoch arnaf, a minau a'ch gwaredais chwi o'u llaw
hwynt. Eto chwi a'm gwrthodasoch i, ac a wasanaeth- 13
asoch dduwiau dïeithr : am hyny ni waredaf chwi mwyach.
Ewch, a llefwch at y duwiau a ddewisasoch : gwaredant 14
hwy chwi yn amser eich cyfyngdra.
A meibion Israel a ddywedasant wrth yr ARGLWYDD, 15
Pechasom ; gwna di i ni fel y gwelych yn dda : eto gwared
ni, atolwg, y dydd hwn. A hwy a fwriasant ymaith *y* 16
duwiau dïeithr o'u mysg, ac a wasanaethasant yr AR-
GLWYDD : a'i enaid ef a dosturiodd, oherwydd adfyd Israel.
Yna meibion Ammon a ymgynullasant, ac a wersyllasant 17

---

1—5), fel yr ydym yn cael ein cadarnhau mai yr un Genad Ddwyfol sydd yno ag yma. Cymharer hefyd Ex. xxiii. 12, ac yn enwedig Es. lxiii. 9—11, lle yr arferir bron yr un ymadrodd, am "angel ei gynddrychioldeb ef," ag a arferir yma (adn. 16) am yr Arglwydd. Yn adn. 11, 12, adgofia yr Arglwydd iddynt ei dosturiaethau tuagatynt, ac yn adn. 13, 14, cyfymliw â hwynt yn herwydd eu hanffyddlondeb. Gwaredasai Duw hwynt (1) rhag yr *Aiphtiaid*, yn amser eu mynediad allan o'r Aipht (Ex. i.—xiv.); (2) rhag yr *Amoriaid*, yn amser goresgyniad Og a Sehon, yn nghyda phum' brenin yr Amoriaid (Num. xxi. 3; Jos. x. 5, 6, 12; Barn. xi. 21); (3) rhag *meibion Ammon*, yn amser Ehwd (pen. iii. 12, 13); (4) rhag y *Philistiaid*, drwy Samgar (pen. iii. 31; 1 Sam. xii. 9); (5) rhag y *Sidoniaid*, y rhai, gan fod Sidon, fel y tybir, yn meddu math o uchafiaeth yn ngogledd Canaan (xviii. 7, 28), oeddynt elfen gref yn myddin Jabin, brenin Canaan (pen. iv. 2, 3); (6) rhag yr *Amaleciaid* yn Horeb (Ex. xvii. 8), ac wedi hyny (pen. iii. 13: vi. 3); (7) rhag y *Maoniaid*, yn fwy cywir, **Midianiaid**, yn amser Gedeon (pen. vi.—vii.). Saif rhai ysgolheigion at y darlleniad arferol,, gan olygu fod yma gyfeiriad at ryw lwyth anhysbys o "feibion y dwyrain" (pen. vi. 3), neu at y Mehuniaid (2 Chron. xxvi. 7), y rhai, fel y tybir, oeddynt breswylwyr dinas Maon (Jos. xv. 55; 1 Sam. xxv. 2). Y mae hyn, fodd bynag, yn dra anhebyg, gan y buasid felly yn gadael allan o'r rhestr yn gyfangwbl y waredigaeth oddiwrth y Midianiaid.

13, 14. Ewch a llefwch.—Cymharer Deut. xxxii. 37, 38; 2 Bren. iii. 13. Y duwiau a ddewisasoch.—Yr eilun-dduwiau yn adn. 6.

15, 16. Fel y mae ymlygriad y genedl yn myned yn ddyfnach, y mae cerydd yr Arglwydd yn myned yn drymach. Nid digon ganddo eiriau o edifeirwch; rhaid cael gweithredoedd. Pan y maent yn bwrw ymaith dduwiau Canaan (pen. vi. 25, 28; Jos. xxiv. 23; 1 Sam. 3; 2 Chron. xv. 4—8), ac yn adsefydlu addoliad y gwir Dduw y mae efe yn troi atynt. Ei enaid ef a dosturiodd.—Yn llythyrenol, **a fyrhawyd.** Gair tra neillduol i ddangos teimlad Duw tuagat ei bobl. Dullwedd ddynol o lefaru am Dduw. Cymharer Zech. xi. 8.

17, 18. Yna.—Yn hytrach, **a,** oblegid nid pwynt o amser sydd gan yr ysgrifenydd mewn golwg, eithr cysylltiad yn unig i ddangos fod yr hanes wedi cyrhaedd ei bwynt—y pwynt ydoedd mewn golwg er dechreu

yn Gilead: a meibion Israel a ymgasglasant, ac a wersyll-
18 asant ym Mispah. Y bobl hefyd *a* thywysogion Gilead a
ddywedasant wrth eu gilydd, Pa wr a ddechreu ymladd yn
erbyn meibion Ammon? efe a fydd yn benaeth ar drigolion
Gilead.

---

y benod. **Ymgynullasant.**—Golyga y gair galw yn nghyd drwy gyhoeddi. Gwêl pen. iv. 10, 14; vii. 23. Ffurfia yr adnodau hyn arweiniad i mewn i hanes Jephthah, a geir yn y penodau dilynol. **Gilead.**—Y parth hwnw o Gilead yr oeddynt eisoes wedi ei feddianu, a'r rhan, hefyd, y bwriadent ei meddianu yn llwyr hyd i Jabboc i fyny yn y gogledd (pen. xi. 13). **Mispah (Twr gwyliadwriaeth).**—(1) Y dybiaeth fwyaf naturiol, yn ol yr hanes, ydyw fod y lle hwn yr un a'r Mispah y cyfeirir ati yn Gen. xxxi. 49; Jos. xiii. 26, yr hwn le sydd yr un, dybygid, a Ramoth-Gilead *(Salt)*, un o'r dinasoedd noddfa (Deut. iv. 43). Cyfeirir hefyd ati, pen. xi. 11, 29, lle y gelwir hi "Mispah Gilead." Os mai y lle hwn ydyw, gorwedd ar y ffordd o Jericho i Damascus, a phery yn dref o gryn bwysigrwydd hyd y dydd hwn. Y mae Tristram, ac amryw o awdurdodau ereill, yn gosod "Mispah Gilead" yn nes i'r gogledd na *Salt*. (2) Ceir ereill yn dadleu yn gryf mai Mispah yn Benjamin a olygir yma (Jos. xiii. 26), yr hwn le ydoedd yn enwog yn moreu cyfnod y Barnwyr (pen. xx. 1, 18, 23; xxi. 5, 8), a'r hwn a adnabyddir yn awr dan yr enw *Neby Samwil*. Ond y mae y rhesymau cryfaf o lawer o blaid y Mispah yn Gilead. Ceir amryw leoedd ereill yn dwyn yr enw, megis, Mispah yn Judah (Jos. xv. 38), Mispah yn Moab (1 Sam. xxii. 3), "a gwlad Mispah" (Jos. xi. 3, 8). **Y bobl hefyd a thywysogion.**—Darllener **y bobl, sef tywysogion,** *h.y.*, penau y llwythau, a phenau teuluoedd yn mysg y llwythau. **Pa wr a ddechreu?**—Yn llythyrenol, **Pwy yw y dyn?** Eu hangen mawr oedd arweinydd, ac y mae yr Arglwydd wedi darpar un iddynt; a dengys y geiriau eu bod hwy—gwŷr Gilead—yn barod i gydnabod uwchafiaeth y gŵr a ddelai yn mlaen i lenwi yr adwy, gan nad beth a wnai y llwythau ereill.

---

## PENOD XI.

1 A JEPHTHAH y Gileadiad oedd wr cadarn nerthol, ac
efe *oedd* fab i wraig o butteinwraig: a Gilead a

---

(b) *Y Waredigaeth drwy Jephthah: Ei Fuddugoliaeth a'i Adduned* (pen. xi. 1—40).

PEN. xi.—*1—3.—Bwrw Jephthah allan o'i gartref. 4—11.—Henuriaid Gilead yn cynyg iddo benogaeth y llwyth. 12—27.—Yntau, ar dir hanesyddol a chyfreithiol, yn gwrthod cydnabod hawliau meibion Ammon. 28.—Hwythau yn gwrthod heddwch. 29—31.—Adduned Jephthah. 32, 33.—Buddugoliaethu ar yr Ammoniaid. 34—40.—Cyflawni ei adduned.*

1—3. **A Jephthah.**—Ystyr yr enw Jephthah ydyw *efe a ryddha;*

genhedlasai y Jephthah hwnw. A gwraig Gilead a 2
ymddûg iddo feibion: a meibion y wraig a gynyddasant,
ac a fwriasant ymaith Jephthah, ac a ddywedasant wrtho,
Nid etifeddi di yn nhŷ ein tad ni; canys mab gwraig
ddïeithr *ydwyt* ti. Yna Jephthah a ffodd rhag ei frodyr, 3
ac a drigodd yn ngwlad Tob; a dynion ofer a ymgasglas-
ant at Jephthah, ac a aethant allan gydag ef.
Ac wedi *talm* o ddyddiau, meibion Ammon a ryfelasant yn 4
erbyn Israel. A phan oedd meibion Ammon yn rhyfela yn 5
erbyn Israel, yna henuriaid Gilead a aethant i gyrchu
Jephthah o wlad Tob: Ac a ddywedasant wrth Jephthah, 6
Tyred, a bydd yn dywysog i ni, fel yr ymladdom yn erbyn
meibion Ammon. A Jephthah a ddyewdodd wrth henur- 7
iaid Gilead, Oni chasasoch chwi fi, ac a'm gyrasoch o dŷ
fy nhad? a phaham y deuwch ataf fi yn awr, pan *yw*

---

gyda chyfeiriad, fe ddichon, at y waredigaeth a roddodd Duw i Israel drwyddo. Gwr cadarn, nerthol.—Gwêl pen. vi. 12; 2 Bren. v. 1. Gilead.—Nid (1) y wlad o'r enw hwnw a feddylir; (2) na Gilead mab Machir, ŵyr Manasseh (Num. xxvi. 29); (3) eithr enw personol ar dad Jephthah—enw ag oedd, fel yr eiddo Tola a Puah (pen. x. 1), yn cael ei fynychu yn llinach disgynyddion Gilead, ŵyr Manasseh. Fwriasant ymaith Jephthah.—Yn debyg i Abraham yn danfon Ismael a meibion Ceturah ymaith, rhag iddynt fod yn gydetifeddion âg Isaac (Gen. xxi. 10; xxv. 6). Gwraig ddyeithr.—Yn llythyrenol, **gwraig arall.** Mae cymeriad y gair yn awgrymu tôn o ddiystyrwch, a hefyd yn awgrymu fod mwy o amheuaeth yn gorwedd ar haniad Jephthah nag Abimelech. Yn ngwlad Tob.—Ystyr y gair "Tob" ydyw *tir da.* Yr un lle, fel y tybir, ag "Istob" (2 Sam. x. 6, 8) lle y darllenir ar ymyl y ddalen, "gwŷr Tob." Dywed Condér fod lle o'r enw *Tabiyibeh*, tua deuddeng milldir i'r de-ddwyrain o Fôr Galilea, yn nghŵr deheuol Basan, yn bod yn awr. Dynion ofer.—Gwêl pen. ix. 4. Casgl rhai beirniaid oddiwrth hyn fod Jephthah yn lled isel mewn crefydd—fod y swydd o farnwr, ynddo ef a Samson, wedi cyrhaedd ei phwynt isaf o ddirywiad. Ond dichon mai *anffawd* Jephthah yn fwy na'i *fai* ydoedd ei fod ef, megis Dafydd, &c., ar ei ol, a dynion drwg yn ymuno âg ef. Dengys hyn gymeriad yr amseroedd hyny lawn cymaint a chymeriad Jephthah.

4—6. Talm o ddyddiau.—Rhaid ei fod yn yspaid lled faith, oblegid yr oedd Jephthah yn ŵr ieuanc pan y cafodd ei alltudio gan ei frodyr, eithr yr oedd yn wr priod a chanddo ferch mewn oed yn amser ei fuddugoliaeth ar yr Ammoniaid. Bydd yn dywysog.—Gwêl adn. 11. Cymerir i fyny yma hanes y rhyfel y crybwyllwyd am dano (pen. x. 17) rhwng Israel a'r Ammoniaid, a desgrifir ei hanes yn ystod dyddiau Jephthah.

7, 9. A'm gyrasoch o dy fy nhad.—Mae yn amlwg un (1) ai fod y gair "brodyr," yn adn. 3, yn golygu, nid ei frodyr naturiol yn

8 gyfyng arnoch? A henuriaid Gilead a ddywedasant wrth
Jephthah, Am hyny y dychwelasom yn awr atat ti, fel y
delit gyda ni; ac yr ymladdit yn erbyn meibion Ammon,
9 ac y byddit i ni yn ben ar holl drigolion Gilead. A
Jephthah a ddywedodd wrth henuriaid Gilead, O dygwch
fi yn fy ol i ymladd yn erbyn meibion Ammon, a rhoddi o'r
ARGLWYDD hwynt o'm blaen i; a gaf fi fod yn ben arnoch
10 chwi? A henuriaid Gilead a ddywedasant wrth Jephthah,
Yr ARGLWYDD a fyddo yn dyst rhyngom ni, oni wnawn ni
11 felly yn ol dy air di. Yna Jephthah a aeth gyda henur-
iaid Gilead; a'r bobl a'i gosodasant ef yn ben ac yn
dywysog arnynt: a Jephthah a adroddodd ei holl eiriau
gerbron yr ARGLWYDD yn Mispah.
12 A Jephthah a anfonodd genhadau at frenin meibion
Ammon, gan ddywedyd, Beth *sydd* i ti *a wnelych* â mi, fel

---

unig, eithr ei frodyr o'r un llwyth; (2) neu ei fod yn ystyried y gallasai "henuriaid Gilead" atal i'w frodyr ei yru ef ymaith. Y diweddaf ydyw y tebycaf yma. Ystyr adn. 8 ydyw y caffai fod yn ben arnynt ar ddau amod; sef myned allan gyda hwynt, ac hefyd ymladd drostynt â'r Ammoniaid. **Holl drigolion Gilead.**—Y ddau lwyth a haner ar du dwyrain yr Iorddonen. **A gaf fi fod yn ben arnoch chwi?**—Yn fwy cywir, **myfi a fyddaf yn ben arnoch**. Mae yn amlwg, oddiwrth atebiad henuriaid Gilead (adn. 10) fod yr ymadrodd hwn i'w ddeall yn fwy fel mynegiad cadarnhaol nag fel cwestiwn. Y mae y gair "myfi" yn bwysleisiol.

10, 11. **Yn ben ac yn dywysog.**—Golyga y gair "pen" arweinydd milwraidd ar achlysur penodol yn unig; ond am y gair "tywysog," er ei ddefnyddio yn Jos. x. 24, mewn ystyr filwraidd, eto cyfieithir ef, mewn manau ereill, bob amser, i olygu arweinydd mewn pethau gwladol yn benaf (Diar. vi. 7; xxv. 15; Es. i. 10; iii. 6, 7; Dan. xi. 18; Micah iii. 1, 9). **Ger bron yr Arglwydd.**—Yr esbonwyr sydd yn credu mai Mispah yn Benjamin y cyfeirir ati (pen. x. 17; xi. 11, 34), a ddefnyddiant yr ymadrodd hwn yn ddadl gref dros eu golygiad, gan mai yno, dybygid, yr oedd yr arch ar y pryd; a bod hyn yn cyfeirio at fath o ymgyfamodiad o flaen yr Arglwydd yn nrws pabell y cyfarfod. I osgoi yr anhawsder, golyga ereill fod yr archoffeiriad wedi dwyn yr ephod, ac, efallai, yr arch hefyd, drosodd i Mispah Gilead. Ond nid ydyw yn angenrheidiol deall y naill na'r llall; nid ydyw yr ymadrodd yn golygu ond fod Jephthah yn gwneyd ei gyfamod gan edrych i fyny at Dduw—Jehofah (cymharer pen. x. 16 â pen. xi. 9); a'i fod yn cadarnhau ei eiriau drwy fath o lw. Nid ydyw yn debygol, ychwaith, fod Jephthah yn dal cysylltiad uniongyrchol ond â'r ddau lwyth a haner, a'i fod yn byw yn Gilead (pen. xii. 1, 4, 7).

12, 13. **A anfonodd genhadau.**—Y mae y cweryl hwn rhwng Israel a'r Ammoniaid yn tarddu o un o hen gwestiynau concwest Canaan.

y delit yn fy erbyn i ymladd yn fy ngwlad i? A brenin 13
meibion Ammon a ddywedodd wrth genhadau Jephthah,
Oherwydd i Israel ddwyn fy ngwlad i pan ddaeth i fyny o'r
Aipht, o Arnon hyd Jabboc, a hyd yr Iorddonen: yn awr
gan hyny dod hwynt adref mewn heddwch. A Jephthah 14
a anfonodd drachefn genhadau at frenin meibion Ammon;
Ac a ddywedodd wrtho, Fel hyn y dywed Jephthah; Ni 15
ddug Israel dir Moab, na thir meibion Ammon: Ond pan 16
ddaeth Israel i fyny o'r Aipht, a rhodio trwy yr anialwch,
hyd y Môr Coch, a dyfod i Cades; Yna Israel a anfonodd 17
genhadau at frenin Edom, gan ddywedyd, Gâd i mi
dramwy, atolwg, trwy dy wlad di. Ond ni wrandawodd
brenin Edom. A hwy a anfonasant hefyd at frenin Moab:
ond ni fynai yntau. Felly Israel a arhosodd yn Cades.
Yna hwy a gerddasant yn yr anialwch, ac a amgylchyn- 18
asant wlad Edom, a gwlad Moab; ac a ddaethant o du

---

Dwyn fy ngwlad.—Y cyhuddiad ydyw fod Israel yn amser Moses, pan y daethant i fyny o'r Aipht, wedi yspeilio yr Ammoniaid o'u gwlad. O Arnon hyd Jabboc.—Ystyr y gair Arnon ydyw *ffrwd redegog*, a rhed i lawr o fynyddoedd Moab drwy hollt dwfn a elwir yn awr *Wady Mojib*, gan ymarllwys i'r Môr Marw yn rhywle tua haner ei hyd ar yr ochr ddwyreiniol iddo. Ystyr y gair Jabboc ydyw *tywalltydd*, yr hon a red i lawr o fynyddoedd Gilead, gan ymarllwys i'r Iorddonen gerllaw dinas Adam (Jos. iii. 16), rhyw haner y ffordd yn rhediad yr Iorddonen o Fôr Galilea i'r Môr Marw. A hyd yr Iorddonen.—Mae brenin meibion Ammon yma yn nodi hen derfynau gwreiddiol brenhiniaeth plant Lot; o'r Arnon yn y deheu, hyd Jabboc, i fyny yn y gogledd; a hyd yr Iorddonen ar y gorllewin.

14—16. Mae atebiad Jephthah i'r cyhuddiad yn dra meistrolgar, ac yn dangos ei gyfarwydd-der â hanes y genedl, a chynwys y Pum' Llyfr. Dengys, yn ol Num. xx. a xxi., a Deut. ii. a iii., fod y wlad yn ddiameu wedi bod yn eiddo gwreiddiol i Ammon a Moab—meibion Lot; ond iddynt ei cholli drwy i Sehon brenin yr Amoriaid ei meddianu; felly, pan ddaeth Israel i fyny i'r tir, yr Amoriaid oedd yn ei feddianu. Dengys i Israel gymeryd trafferth i amgylchu gwlad Edom a Moab yn briodol (adn. 17, 18), yn ol gorchymyn yr Arglwydd (Deut. ii. 5, 9, 19); ac mai eu hamcan oedd myned yn dawel i Ganaan, ond i Sehon eu gorfodi i ymladd (adn. 19, 20); ac iddo gael ei ddinystrio (adn. 23), a'r wlad felly i syrthio yn gyfiawn i ddwylaw Israel (adn. 21), ac os oedd gan yr Ammoniaid unrhyw hawl i'r wlad, y dylasent fod wedi ei ddwyn yn mlaen dri chan' mlynedd yn gynt (adn. 26).

17, 18. Ond pan ddaeth Israel.—Y darlleniad cywiraf o adn. 16 a'r 17, ydyw y canlynol:—**Canys pan ddaethant o'r Aipht, yna cerddodd Israel drwy yr anialwch, hyd y Mor Coch, a daethant i Cades, ac Israel a anfonodd genhadau, &c.** Cades.—Un o'r lleoedd pwysicaf

codiad haul i wlad Moab, ac a wersyllasant tu hwnt i
Arnon; ac ni ddaethant o fewn terfyn Moab: canys Arnon
19 *oedd* derfyn Moab. Ac Israel a anfonodd genhadau at
Sehon brenin yr Amoriaid, brenin Hesbon; ac Israel a
ddywedodd wrtho, Gâd i ni dramwy, atolwg, trwy dy wlad
20 di, hyd fy mangre. Ond nid ymddiriedodd Sehon i Israel
fyned trwy ei derfyn ef: eithr Sehon a gasglodd ei holl

---

yn hanesiaeth yr Hen Destament: ond un o'r lleoedd ag y mae ei safle wedi peri mwyaf o amheuaeth i esbonwyr. Yn Jos. x. 41., xv. 3, gelwir hi Cades-Barnea. Yn ol Num. xiii. 3, 21; xx. 1; xxxiii. 36, yr ydoedd rhwng anialwch Paran ac anialwch Sin. Yn ol Deut. i. 19, 20, yr ydoedd yn agos i "fynydd yr Amoriaid." Ac yn ol Num. xx. 16, yr ydoedd ar derfyn eithaf Edom. (1) Syniad Robinson, ac ereill, ydyw mai *Ain-el-Weibah*, tua deng milldir i'r gogledd o fynydd Hor, yn y pantle suddedig (*Arabah*, Jos. xviii. 18) a red i'r Môr Coch ydyw. (2) Ailgyfododd Stanley yr hen dybiaeth mai *Petra* ydoedd. Ond yn lle bod "ar derfyn Edom," gosodai hyny hi yn nghanol Edom. (3) Mae Wilton yn ei waith ar "Y Negeb," a Rowlands a Bartlett yn ei rhoddi yn llawer iawn nes i'r gorllewin mewn lle a elwir *Ain Gadis*. Gesyd hyn hi tua deng milldir a thriugain i'r gorllewin o safle Robinson, ac i lawr yn union i'r deheu o Gazah. Teifl Tristram ei holl ddylanwad o blaid y safle hon; ond y mae y rhesymau cryfion o blaid y gyntaf yn parhau hyd yma heb eu hateb. **At frenin Moab.**—Yr ydym yn ddyledus i Jephthah am y ffaith hon; ni fynegir yn Num. xx. 14—21, ond am genhadaeth at frenin Edom yn unig. **Amgylchynasant wlad Edom a gwlad Moab.**—Gwel Num. xx. 22; xxi. 4, 13. **Canys Arnon oedd derfyn Moab.**—Y terfyn ar du y gogledd. Yn lle "oedd derfyn," dylid darllen **sydd derfyn**: dyma sefyllfa y terfynau pan y llefarai Jephthah. Disgynodd y wlad y tu gogledd i'r afon Arnon i randir Reuben; felly daeth y Reubeniaid a'r Moabiaid yn gymydogion, a'r Arnon yn derfyn rhyngddynt. Gwel nodiad pen. iii. 13. Cymharer hefyd Num. xxi. 13; Deut. iii. 6, 16.

**19, 20. At Sehon brenin yr Amoriaid.**—Gwel Num. xxi. 21; Deut. ii. 26—32, 33. Mae yr enw Amoriaid, fel y tybir, yn air o darddiad Semitaidd, yn golygu rhai yn *preswylio yn uchel*. Ar y cyntaf ceir eu hanes yn preswylio rhwng Engedi a Hebron, ar du gorllewinol y Môr Marw (Gen. xiv. 13); yna croesasant yr Iorddonen, gan feddianu y llain ffrwythlawn o dir, a derfynid gan yr Arnon ar y deheu, y Jabboc ar y gogledd, yr Iorddonen ar y gorllewin, a'r anialwch ar y dwyrain; yr hwn a elwid, mewn modd neillduol, yn "dir yr Amoriaid" (Num. xxi. 31; Jos. xii. 2, 3; xiii. 9; Barn. xi. 21, 22). Ond yn Deut. iii. 8; iv. 48, mynegir fod eu tiriogaeth yn ymestyn at droed mynydd Hermon, gan gynwys yr "oll o Gilead a Basan" (Deut. iii. 10), a'r rhan o ddyffryn yr Iorddonen a orweddai ar du dwyrain yr afon (Deut. iii. 10); ac yn ffurfio, gyda'u gilydd, diriogaethau Og a Sehon, "dau frenin yr Amoriaid" (Deut. xxxi. 4; Jos. ii. 10; ix. 10; xxiv. 12). Gwel nodiad pen. iii. 13. **Brenin Hesbon.**—Tuag ugain milldir i'r dwyrain ar linell unionsyth, o ben gogleddol y Môr Marw, y saif adfeilion dinas Hesbon (*Hesbân*), hen brif ddinas Sehon. Gorwedd ar fin byrdd-dir Moab, yn agos i'r fan lle

bobl, a hwy a wersyllasant yn Jahaz, ac efe a ymladdodd
yn erbyn Israel. Ac ARGLWYDD DDUW Israel a roddodd 21
Sehon a'i holl bobl yn llaw Israel; a hwy a'u tarawsant
hwynt. Felly Israel a feddianodd holl wlad yr Amoriaid,
trigolion y wlad hono. Meddianasant hefyd holl derfynau 22
yr Amoriaid, o Arnon hyd Jabboc, ac o'r anialwch hyd yr
Iorddonen. Felly yn awr, ARGLWYDD DDUW Israel a 23
fwriodd yr Amoriaid allan o flaen ei bobl Israel: gan
hyny *ai* tydi a'i meddienit hi? Oni feddieni di yr hyn a 24
roddo Cemos dy dduw i ti i'w feddianu? Felly yr hyn oll
a oresgyno yr ARGLWYDD ein DUW o'n blaen ni a feddianwn
ninau. Ac yn awr, *a wyt* ti yn well na Balac mab Sippor, 25
brenin Moab? a ymrysonodd efe erioed âg Israel, neu
gan ymladd a ymladdodd efe i'w herbyn hwy? Pan oedd 26
Israel yn trigo yn Hesbon a'i threfydd, ac yn Aroer a'i
threfydd, ac yn yr holl ddinasoedd y rhai *sydd* wrth der-
fynau Arnon, dri chân mlynedd; paham nad achubasoch
*hwynt* y pryd hwnw? Am hyny ni phechais i yn dy erbyn 27

---

y disgyn y tir hwnw, gydag ymyl serth, i lawr i'r Môr Marw; a dyfned ydyw arwynebedd y môr hwnw, ac uched ydyw safle Hesbon, fel nad ydyw y disgyniad yn nemawr llai na 4000 o droedfeddi! Yr oedd Hesbon ar gyffiniau rhandiroedd Reuben a Gad; ac yn ol Jos. xxi. 39, perthynai i ddinasoedd Lefiaidd y llwyth diweddaf. **Hyd fy mangre.**—Sef gwlad Canaan ar du gorllewinol yr Iorddonen, a gellid meddwl fod yma awgrym nad ystyrid rhanbarth y ddau lwyth a haner, ar y tu dwyrain i'r Iorddonen, fel yn perthyn yn briodol i Wlad yr Addewid. Cymharer Deut. ii. 29. **Wersyllasant yn Jahaz.**—Dyma faes y frwydr fawr rhwng Israel a'r Amoriaid, a'r lle y meddianasant y dernyn cyntaf o'u gwlad. Gan fod Jahaz mewn rhanbarth o wlad sydd, hyd yn hyn, heb ei harchwilio, y mae ei safle yn anhysbys: ond rhaid ei fod yn lle ar derfyn dwyreiniol teyrnas Sehon, ac ar eithaf terfyn deheuol rhandir Reuben. Disgynodd i ran Reuben (Jos. xiii. 18); a daeth yn un o'r dinasoedd Lefiaidd, drwy iddi hi a'i maesdrefi gael eu rhoddi (Jos. xxi. 36; 1 Cron. vi. 71) i feibion Merari. Ceir amryw ffurfiau o sillebu y gair, megis "Jasah," "Jahasah," &c. Gwel Num. xxi. 23; Deut. ii. 32; Es. xv. 4; Jer. xlviii. 34.

**21—23. Arglwydd Dduw Israel.**—Rhoddir arbenigrwydd neillduol ar y teitl hwn, adn. 21, 23, pan y dygir Israel a'i Duw i sylw mewn cyferbyniad i'r cenedloedd a'u duwiau. Yn niwedd adn. 21, gofala Jephthah am ddyweyd mai "gwlad yr Amoriaid" ydoedd; oblegid y pwynt sydd ganddo ydyw profi mai yr Amoriaid, ac nid yr Ammoniaid, a ddifeddianwyd gan Israel. Yn adn. 22, nodir fod Sehon wedi colli ei holl diriogaeth. Gwel nodiad adn. 19. Cymharer adn. 13.

**24—28. Cemos.**—Dyma dduw cenedlaethol y Moabiaid; ond oherwydd fod yr Ammoniaid a'r Moabiaid yn tarddu o Lot, ac yn gymydog-

di; ond yr ydwyt ti yn gwneuthur cam â mi, gan ymladd
yn fy erbyn i; yr ARGLWYDD Farnwr a farno heddyw
28 rhwng meibion Israel a meibion Ammon. Er hyny ni
wrandawodd brenin meibion Ammon ar eiriau Jephthah,
y rhai a anfonodd efe ato.
29 Yna y daeth ysbryd yr ARGLWYDD ar Jephthah; ac efe

---

ion, a chanddynt lawer o bethau yn gyffredin, edrychir arnynt fel un bobl, ac yn addoli yr un eilun-dduw. Am Cemos, gwel pen. x. 6, a chymharer 1 Bren. xi. 7; 2 Bren. iii. 26, 27; xxiii. 13; Jer. xlviii. 7, 13, 46. **A oresgyno.**—Mae y ferf hon yn cyfleu y syniadau o yru allan o feddiant, a rhoddi yn feddiant; canys, pa fodd y byddai yn bosibl rhoddi tir yn feddiant heb yn gyntaf yru ymaith y perchenog blaenorol? **Balac.**—Gwel Num. xxii.—xxiv; Deut. xxiii. 3, 4. Dygir yma ymresymiad newydd yn mlaen gan Jephthah, sef na ddarfu i Balac, er cymaint ei eiddigedd at Israel, erioed eu cyhuddo o fod wedi lladrata ei wlad. Gwir iddo gyrchu Balaam i regu Israel; ond yr oedd hyny, nid er ceisio adfeddianu yn ol dir yr Amoriaid oddiar Israel, eithr rhag ofn i Israel feddianu gweddill ei etifeddiaeth. Mae holl resymau Jephthah i frenin meibion Ammon yn benderfynol; ac yn seiliedig ar egwyddorion cyffredinol yn hanes Israel. Dengys (1) nad ydoedd y tir hwnw yn feddiant yr Ammoniaid pan y daeth ei gydwladwyr iddo, eithr iddynt ei gael drwy hawl concwest, oddiar yr Amoriaid; (2) fod Israel wedi ei fwynhau yn dawel am dri chan' mlynedd, yr hyn oedd yn sicrhau hawl-feddiant parhaus ynddo; (3) wedi ei gael yn rhodd gan eu Duw, yr oedd Israel yn meddu hawl ynddo ar yr un egwyddor ag yr oedd yr Ammoniaid yn derbyn rhoddion gan eu duw Cemos; (4) nad oedd unrhyw gais wedi ei wneyd, am yr holl ganrifoedd, gan Balac na neb arall, i geisio difeddianu Israel o Hesbon, Aroer, a'u trefydd. **Aroer a'i threfydd.**—Yn llythyrenol, **a'i merched.** Gwel pen. i. 27. Yr oedd dau le yn dwyn yr enw hwn ar y tu dwyreiniol i'r Iorddonen (1), un yn rhandir Reuben (Deut. ii. 36; iii. 12; iv. 48; Jos. xii. 2; xiii. 9, 16; 2 Bren. x. 33; 1 Cron. v. 8); ond fe syrthiodd yn ol i feddiant Moab (Jer. xlviii. 19). Gorweddai ar fin ceunant dwfn yr afon Arnon (*Wady Môjib*), yr ochr ogleddol; ac felly, o fewn rhandir Reuben. Enw presenol yr adfeilion ydyw *Aráir.* (2) Yr oedd yr Aroer arall yn rhandir Gad, "o flaen Rabbah" (Num. xxxii. 34; Jos. xiii. 25; 2 Sam. xxiv. 5). Mae ei safle bresenol yn anhysbys. Tybir mai at y gyntaf o'r trefydd hyn y cyfeiria yr adnod hon—26, ac mai at yr ail y cyfeiria adn. 33. **Dri chan' mlynedd.**—Mae yn amlwg mai rhif *crwn* ydyw hwn. Wrth gyfrif er amser gorthrymder Cusanrisathaim hyd ddyddiau Jephthah, fe geir oddeutu tri chan' mlynedd; yn unig ni wyddys pa faint o amser *cyn* y gorthrymder hwnw yr oedd Hesbon wedi ei meddianu, nac, ychwaith, pa faint oedd hyd tymhor Samgar (pen. iii. 31; v. 8). Gallem feddwl, wrth hyn, mai cyfrif yn syml hyd tymhor pob gorthrymder, a phob barnwr, yr ydoedd Jephthah, ac mai felly hefyd y gwna Paul, yn Act. xiii. 20, 21; yna, eu symio i fyny gyda'u gilydd. Gwel Rhagarweiniad, tudal. 11.

**29—31. Yna y daeth yspryd yr Arglwydd.**—Gwêl pen. iii. 10; vi. 34; xiii. 25. Golyga hyn y neillduaeth a fu arno i'w waith fel

a aeth dros Gilead a Manasseh; ac a aeth dros Mispah
Gilead, ac o Mispah Gilead yr aeth efe drosodd *at* feibion
Ammon. A Jephthah a addunedodd adduned i'r ARGLWYDD, 30
ac a ddywedodd, Os gan roddi y rhoddi di feibion
Ammon yn fy llaw i; Yna yr hwn a ddelo allan o ddrysau 31
fy nhŷ i'm cyfarfod, pan ddychwelwyf mewn heddwch

---

gwaredwr Israel. Cymharer Zech. iv. 6; Es. lxi. 1; Luc iv. 18, 21; Math. iii. 16. Dros Gilead a Manasseh.—Darllener, **drwy Gilead a Manasseh.** Mae y cyfeiriadau daearyddol braidd yn ddyrus yma; ond ymddengys iddo fyned drwy "Gilead"—rhandiroedd Reuben a Gad, rhwng yr Arnon a'r Jabboc; ac yna myned dros y Jabboc i "Manasseh," sef Gilead Ogleddol a Basan—y rhandir a dderbyniasai haner llwyth Manasseh. Yna ar flaen y fyddin a ymunasai âg ef wrth fyned drwy y parthau hyn, fe aeth i Mispah, i'r gwersyll, i gyrchu y milwyr a adewsid ganddo yno o'r blaen; ac a aeth drosodd—myned mewn ymosodiad—at feibion Ammon, y rhai a wersyllent yn neheubarth Gilead. Adduned i'r Arglwydd.—Gwêl adduned Jacob (Gen. xxviii. 20—22), a'r eiddo Hannah (1 Sam. i. 11). Cymharer hefyd, 2 Sam. xv. 8. Ei adduned ydyw y prif bwynt o ddyddordeb yn hanes Jephthah. Yr hwn a ddelo allan.—Yn llythyrenol, **pwy bynag a ddelo allan,** yn dangos yn amlwg fod adduned Jephthah yn golygu rhywun o'i deulu—rhyw fôd dynol, ac nid un o'i anifeiliaid, neu ei dda yn unig. Ond nid ydyw yn dyweyd yr hwn ddêl allan *yn gyntaf;* y mae rhai esbonwyr fel pe byddent am ei ddeall felly. A fydd eiddo yr Arglwydd, a mi a'i hoffrymaf.—Ar ymyl y ddalen, a chan rai cyfieithwyr, awgrymir y darlleniad canlynol: *a fydd eiddo yr Arglwydd, neu mi a'i hoffrymaf yn boethoffrwm;* gan olygu fod Jephthah yn rhoddi ei adduned mor benagored, fel ag i olygu, os deuai o ddrws ei dŷ rywun offrymadwy a chymeradwy, yr offrymai efe ef, neu y ceisiai y creadur agosaf ato i'w offrymu yn ei le. Ymddengys, fodd bynag, na chaniata yr iaith y darlleniad, ac y mae, ar ei wyneb, yn creu drwgdybiaeth, am ei fod wedi ei ddwyn i fod fel gwaredigaeth o anhawsder. Golygiadau ereill am ystyr yr adduned hon ydynt—(1) Y golygiad *llythyrenol*, fod Jephthah wedi byw cymaint yn mhlith y Cenhedloedd Paganaidd, dros yr Iorddonen—y Moabiaid a'r Ammoniaid—y rhai a aberthent ebyrth dynol i'w duwiau (2 Bren. iii. 27; Jer. xlix. 1; Ezec. xx. 26; Micah vi. 7), nes tywyllu ei syniadau am Dduw Israel i'r fath raddau, fel ag i olygu aberth dynol i'r Goruchaf; ac iddo ladd ei ferch yn aberth, a'i llosgi yn boethoffrwm. Dyma y golygiad boreuaf, a dyma y golygiad a fabwysiadwyd gan esbonwyr Iuddewig a Christionogol, o Josephus a'r Targumiau, i waered hyd yr unfed ganrif ar ddeg o'r cyfrif Cristionogol. (2) Yn y canol-oesoedd, gan esbonwyr Rabbinaidd i ddechreu, yna gan rai Cristionogol, dechreuwyd coledd golygiad arall, sef fod Jephthah wedi neillduo ei ferch i wyryfdod parhaus, ac i wasanaeth arbenig yr Arglwydd, yn nglyn â'i gysegr. Y mae swyn neillduol yn y golygiad hwn i'r rhai nas gallant fabwysiadu y golygiad arall; a derbyniwyd ef yn llawen, gan luaws o esbonwyr, ac y mae iddo gefnogwyr pybyr yn ein dyddiau ni. Ceir mwyafrif mawr, fodd bynag, yn mysg y Tadau Eglwysig ac esbonwyr diweddar, o blaid y golygiad llythyrenol. Dygir rhesymau seiliedig ar iaith y paragraph hwn, ac ar

oddiwrth feibion Ammon, a fydd eiddo yr Arglwydd, a mi
a'i hoffrymaf ef yn boeth-offrwm.
32 Felly Jephthah a aeth drosodd at feibion Ammon i
ymladd yn eu herbyn: a'r ARGLWYDD a'u rhoddodd hwynt
33 yn ei law ef. Ac efe a'u tarawodd hwynt o Aroer hyd oni
ddelych di i Minnith, *sef* ugain dinas, a hyd wastadedd y

---

gyfeiriadau hanesyddol, ac arferion Dwyreiniol o blaid y naill olygiad a'r llall. Yn ein bryd ni y mae allwedd yr anhawsder yn gorwedd, i fesur mawr, yn nghymeriad Jephthah. Pa un ai haner pagan tywyll, ar gyffiniau bod yn eilun-addolwr ydoedd, ai ynte Hebrewr twym-galon, cyfarwydd âg aberthau, addoliad, a chyfreithiau Duw Israel? Y rhai sydd dros y syniad iddo ladd ei ferch a ddywedant, (1) Ei fod yn byw yn nghanol yr Ammoniaid—addolwyr Moloch, duw ag yr oedd ei wasanaeth, mewn modd arbenig, yn cael ei nodweddu gan ebyrth dynol; (2) ei fod wedi bod yn nghwmni oferwyr yn ngwlad Tob; (3) nad elwir ef yn "farnwr"—*Shophet* —eithr yn "flaenor," *Katzia;* (4) nad oedd na phrophwyd nac offeiriad wrth law i'w gyfarwyddo, fod y rhai hyny, yn ogystal ag arch y dystiolaeth, yr ochr arall i'r Iorddonen, yn nhiriogaeth llwyth gelynol Ephraim; (4) a'i fod, gyda'r syniadau tywyll a chymysglyd oedd ganddo am Dduw, eto yn meddwl, digon tebyg, am esiampl Abraham yn offrymu Isaac, ei fod yn disgwyl, efallai, y deuai iddo yntau ryw waredigaeth, fel na orfyddid iddo ladd ei ferch. Y rhai a bleidiant y golygiad arall, drachefn, a ddywedant, (1) nad ydoedd ebyrth dynol yn perthyn yn hanfodol, hyd yn nod i eilun-addoliaeth, ond yn ei chyfnodau isaf; (2) fod yn rhaid cael y gwryw yn wastad yn boeth-offrwm i'r Arglwydd, ac na fuasai aberth dynol namyn aberth i Moloch, mewn gwirionedd; (3) fod aberthau dynol y fath ffieidd-dra yn ngolwg yr Arglwydd (Lef. xviii. 21; xx. 2—5; Deut. xii. 31; xviii. 11), fel nas gallasai unrhyw Israeliad, dan unrhyw amgylchiadau, feddwl am danynt, llawer llai Jephthah; (4) yr hwn ydoedd arweinydd dewisedig, wedi ei gyfodi gan Dduw i farnu ei bobl (pen. xi. 29; xii. 7); (5) yr hwn y canmolir ei ffydd (Heb. xi. 32), a hyny, dybygid, gyda chyfeiriad arbenig at yr adduned hon; (6) a'r hwn, yn ei genadwri at frenin meibion Ammon, a ddangosasai y fath wybodaeth am hanes ei genedl; (7) a'r hwn, hefyd, efe a'i ferch, yn nglŷn â'r adduned hon, a ddangosasant y fath gyfarwydd-der â chyfreithiau Duw, o berthynas i addunedau (Num. xxx. 2; Deut. xxxiii. 23); (8) a'r hwn, yn wahanol i rai o'r barnwyr ereill, a ymgadwodd, yn ol fel y gellir casglu, oddiwrth amlwreiciaeth, yr hyn a brawf nad ydoedd ei foesoldeb personol yn isel.

32, 33. Aroer.—Y mae y pwyntiau daearyddol yn dra ansicr yn yr adnodau hyn. Bernir nad yr un Aroer y cyfeirir ati yma ag yn adn. 26; hono yn y deheu, yn rhandir Reuben, ac ar fin yr afon Arnon, a hon yn y gogledd, yn rhandir Gad. Gwêl adn. 26. Minnith.—Dyru Eusebius y lle hwn tua phedair milldir i'r dwyrain o Hesbon; ond mwy tebygol ei fod yn golygu rhanbarth "o ugain dinas," yn ngwastadeddau Moab *(Mizhor)*, ac yn enwog am gynyrchu gwenith (Ezec. xxvii. 17). Cafwyd lleoedd, y tu dwyrain i Hesbon, yn dwyn yr enwau *Menjah* a *Mahannah*, y rhai sydd, dybygid, yn cario yr enw i lawr hyd yn awr. Gwastadedd y gwinllanoedd.—Yn ol yr Hebraeg, **Abel**

gwinllanoedd, â lladdfa fawr iawn. Felly y darostyngwyd
meibion Ammon o flaen meibion Israel.
A Jephthah a ddaeth i Mispah i'w dŷ ei hun: ac wele 34
ei ferch yn dyfod allan i'w gyfarfod â thympanau, ac â
dawnsiau; a hi oedd ei unig *etifedd* ef; nid *oedd* ganddo
na mab na merch ond y hi. A phan welodd efe hi, efe a 35
rwygodd ei ddillad, ac a ddywedodd, Ah! ah! fy merch,
gan ddarostwng y darostyngaist fi; ti hefyd wyt *un* o'r
rhai sydd yn fy molestu: canys myfi a agorais fy ngenau
wrth yr ARGLWYDD, ac ni allaf gilio. A hi a ddywedodd 36
wrtho, Fy nhad, *od* agoraist dy enau wrth yr ARGLWYDD,

---

**Cheramim.** Mae yn amlwg mai enw priodol ar le neillduol ydyw, lle, fel y tybir, tua saith milldir o Rabbath Ammon (*Amân*). Dyru ereill y lle yn anhysbys. Peth posibl mai dyma y gwinllanoedd lle y cyfarfu Balaam â'r angel ar ei ffordd o Mesopotamia i Moab (Num. xxii. 24). **A lladdfa fawr iawn.**—Gwêl 1 Sam. iv. 10. **Felly y darostyngwyd.**—Yn llythyrenol, **y plygwyd i lawr.** Gwêl yr un ymadrodd yn pen. iii. 30; viii. 28; 1 Sam. vii. 13.

**34—36. Mispah.**—Mispah Gilead, lle yr ymddengys yr oedd gwŷr Gilead wedi neillduo tŷ at wasanaeth eu harweinydd (pen. xi. 11). **Yn dyfod allan i'w gyfarfod.**—Yr un ymadrodd yn hollol â geiriau ei adduned. Deuent allan â thympanau, fel merched Israel yn dathlu buddugoliaeth Moses ar Pharaoh (Ex. xv. 20), a'r eiddo Saul a Dafydd ar y Philistiaid (1 Sam. xviii. 6, 7; xxi. 11). **Tympanau.**—Math o dabwrdd bychan (*tambourine*) a arferir ar achlysuron o'r fath yn y Dwyrain hyd heddyw. **Ei unig etifedd ef.**—Yr un gair ag a ddefnyddir am Isaac yn Gen. xxii. 2, 12, 16. Y mae yn ymadrodd sydd yn dangos anwyldeb neillduol (Jer. vi. 26; Zech. xii. 10). **Ond y hi.**—Nid ydyw darlleniad ymyl y ddalen ond gwan yma; gan nad ydyw yr ymadrodd yn golygu o gwbl, fel yr awgrymir gan y darlleniad hwnw, y gallai fod ganddo blant ereill wedi eu hymddwyn gan ei wragedd, o wŷr ereill, yn flaenorol i'w priodas gydag ef. Oddiwrth yr awgrym, yn y fan hon, gellid meddwl nad oedd ganddo ond un wraig, yr hyn a'i gesyd, dybygid, mewn goleuni gwahanol i rai o'r barnwyr ereill (pen. viii. 30; x. 4; xii. 9, 14). **Efe a rwygodd ei ddillad.**—Arwydd o angerddoldeb teimlad (Lef. x. 6). Y mae yr holl eiriau yn dangos fod ei fynwes wedi ei chynhyrfu i'w dyfnderoedd. **Molestu.**—Cythryblu ydyw ystyr gyntaf y gair; yr ydwyt yn un o'r dosbarth sydd yn fy mhoeni. Ar ol gorchfygu yr Ammoniaid, wele ofid eto yn ei gyfarfod yn nrws ei dŷ ei hun. **Myfi a agorais fy ngenau.**—Am gyfreithiau adduned, gwêl Num. xxx. 2; Deut. xxiii. 21—23; Ex. xx. 7. Am yr euogrwydd, gerbron yr Arglwydd, o dori adduned, gwêl 1 Sam. xiv. 24—45; 2 Sam. xxi. 1, 2; ac am y cysegredigrwydd, yn ol barn dynion, a berthyn i lŵ neu adduned, gwêl Marc vi. 23—26. **Gwna a mi yn ol yr hyn a aeth allan o'th enau.**—Y mae merch Jephthah yn ychwanegu un enw arall at y gyfres o wragedd sydd a hanes eu gorchestion yn y llyfr hwn. Pan y deuai ei thad adref, gyda buddugoliaeth, beth oedd yn fwy naturiol nag iddi hithau

gwna i mi yn ol yr hyn a aeth allan o'th enau; gan i'r
ARGLWYDD wneuthur drosot ti ddïaledd ar dy elynion,
37 meibion Ammon. Hi a ddywedodd *hefyd* wrth ei thad,
Gwneler i mi y peth hyn; paid â mi ddau fis, fel yr elwyf
i fyny ac i waered ar y mynyddoedd, ac yr wylwyf

---

ei gyfarfod â thympanau? Os nad allai fyned i'r frwydr ei hunan, gallai fyned i longyfarch ei thad fel gorchfygwr. Gan fod ei gwlad wedi ei rhyddhau, gelynion ei chenedl wedi eu darostwng gan yr Arglwydd, drwy offerynoliaeth ei thad, pa ferch a allasai beidio a llawenhau? Sêl ei thad a barodd iddo addunedu; ond rhyfyg ydoedd iddo addunedu fel y gwnaeth. Deallodd hi yn fuan fod yr adduned wedi ei gwneuthur, ac mai ei pherson hi ydoedd hanfod yr adduned. Ond tra y mae ei hymddygiad yn enyn edmygedd, pan yn cyfarfod ei thad gyda gorfoledd, y mae yn esgyn yn uwch fyth yn ei hymostyngiad i'w adduned. Gadawer ei bod, hi a'i thad, fel y dywed rhai esbonwyr, a'u syniadau yn gymysglyd am natur Duw, ac am yr ebyrth cymeradwy ganddo, nid ydyw hyny ond yn ychwanegu at arddunedd ei hymostyngiad. Y mae yr engraipht uwchaf o ymostyngiad plentyn i hawliau tad, ac o reddf ysprydol yn esgyn yn uwch na deall; a thlodion yr ymddengys yr esiamplau a ddwg esbonwyr o bethau tebyg, yn y byd paganaidd, megis hanes Idomeneus, o Crete, a'i fab, Agamemnon, ac Iphigenio, &c., yn ymyl yr hanes hwn. Nis gwyddom pa un i ryfeddu ato fwyaf, ai ei gwladgarwch, ei phenderfyniad i ufuddhau i hawliau ei thad arni, neu, ynte, ei syniadau am fawredd Duw.

37—40 Paid a mi ddau fis.—Gwêl yr esbonwyr sydd yn tybied iddi gael ei lladd yn weithredol, debygolrwydd mawr yn yr ymadrodd yma i 1 Sam. xi. 3. I fyny ac i waered ar y mynyddoedd.—Yn llythyrenol, I **waered, ac yn mlaen i fyny i'r mynyddoedd.** Myned i waered o Mispah, yr hwn a safai ar le uchel, a myned yn mlaen i'r dyffrynoedd a'r mynyddoedd cylchynol. Yr wylwyf oherwydd fy morwyndod.—Ni buasai llawer o reswm yn hyn, ar y dybiaeth iddi gael ei rhoddi i farwolaeth. Mwy rhesymol fuasai iddi fod gartref gyda'i thad. Hefyd, nid ydyw yn debyg y buasai ei chais o aros dau fis yn cael ei ganiatau o gwbl. Cyn pen y dau fis gallasai farw o farwolaeth naturiol, neu gallasai ei deimladau ef, neu hi, neu yr eiddo y bobl, erbyn hyny, fod yn erbyn cyflawni yr adduned. Pan y galwyd Abraham i offrymu ei fab, yn yr ystyr o'i roddi i farwolaeth, nid yn mhen dau fis y gwnaeth, eithr efe a gyfododd yn foreu dranoeth; ond pan ddarfu i Hannah offrymu Samuel, yn yr ystyr o'i neillduo i fod yn gysegredig i'r Arglwydd, arhosodd hi nes y diddyfnwyd ef, a hyd nes y daeth yn ddigon hen i wasanaethu yr Arglwydd. O'r ochr arall, os mai ei neillduo i fywyd o forwyndod parhaus, fel un gysegredig i'r Arglwydd a feddylir, beth a fuasai yn fwy naturiol nag iddi hi a'i chyfeillesau fyned i wylo ar y mynyddoedd; oblegid i wyryf Hebreaidd, bod yn wraig a mam ydoedd un o brif amcanion bywyd: ac nid ydoedd yr adduned hon yn ddim llai nag iddi fod byth fel blaguryn heb ymagor, a'i thad i fod yn ddiepil. Wylo ar y *mynyddoedd* hefyd. Pe mai ei bywyd fuasai yn y cwestiwn, buasai yn fwy priodol iddi wylo gartref; ond gan mai ei morwyndod, nis goddefai gwylder iddi alaru yn mhlith meibion, ac yn y pentrefi, eithr mwy priodol

oherwydd fy morwyndod, mi a'm cyfeillesau. Ac efe a 38
ddywedodd, Dos. Ac efe a'i gollyngodd hi *dros* ddau fis.
A hi a aeth â'i chyfeillesau, ac a wylodd oherwydd ei
morwyndod ar y mynyddoedd. Ac yn mhen y ddau fis hi 39
a ddychwelodd at ei thad: ac efe a wnaeth â hi yr adduned
a addunasai efe: a hi ni adnabuasai wr. A bu *hyn* yn

---

ydoedd unigrwydd y mynyddoedd i dywallt ei chalon mewn galar cysegredig. Heblaw hyny, y mae yr ymadrodd *a hi ni adnabuasai wr* yn cydredeg yn dda â'r syniad mai bywyd o neillduaeth i fath o wyryfdod a olygir. Mewn gair, nid oes son am roddi i farwolaeth yn yr holl hanes o gwbl; tra y mae son unwaith ac eilwaith am *forwyndod*, ac am ei bod *heb adnabod gwr*. Y gair agosaf yn yr holl hanes at roddi i farwolaeth ydyw y gair offrymu yn boeth-offrwm yn adn. 31; ond profa Keil mai prif ddrychfeddwl y gair yn llythyrenol ydyw, nid lladd a llosgi yn aberth, eithr neillduad cyfangwbl i wasanaeth yr Arglwydd, mewn cyferbyniad i ebyrth ereill, yn y rhai nid aberthid ond rhan yn unig i Dduw, tra y cadwai yr aberthwr ran iddo ei hunan. Hefyd, amgylchynir y syniad o roddi i farwolaeth âg anhawsderau anorfod. Rhaid fuasai gwneyd hyny yn Siloh, a hyny gan offeiriad, neu dybied i Jephthah wneyd hyny ei hunan, a hyny y tu dwyrain i'r Iorddonen; ac felly gyflawni y trosedd triphlyg o gymeryd arno ei hunan waith offeiriad, aberthu mewn lle anmhriodol, ac aberthu aberth i Dduw Israel nad oedd deilwng ond i Moloch. Heblaw hyny, y mae rhediad y geiriau, a'r iaith, yn adn. 39, 40, yn gryf yn erbyn y golygiad hwn. Trefn yr hen ddarlleniadau henaf ydyw rhoddi diwedd-nod yn niwedd adnod 39, ac felly cysylltu y frawddeg ddiweddaf yn yr adnod â'r hyn sydd o'i blaen, ac nid â'r adnod ganlynol, fel y canlyn:—*Ac efe a wnaeth â hi yr adduned a addunasai efe: a hi ni adnabuasai wr;* **ac yr oedd hyn yn ordeiniad yn Israel.** Yn ol y trefniant hwn, fe gymer y frawddeg un o ddau eglurhad. (1) Yr oedd hyn yn ordeiniad yn Israel i gyflawni adduned yn ffyddlawn, pa mor anhawdd bynag fyddai gwneyd hyny (Num. xxx. 2; Preg. v. 4, 5); (2) neu yr oedd yn ddefod yn Israel i gael urdd o wyryfon wedi eu neillduo i wasanaeth yr Arglwydd. Ond o'r fan hon y cyfyd un o'r gwrthddadleuon cryfaf i'r golygiad, sef nad oes son am urdd o'r fath. Ond atebir drwy ddyweyd fod sôn am wragedd felly yn y Beibl, sef Ex. xxxviii. 8; 1 Sam. ii. 22, ac efallai yn Luc ii. 37. Rhaid oedd iddynt fod, dybygid, yn wyryfon neu yn weddwon, er mwyn ymgyflwyno yn llwyr i wasanaeth yr Arglwydd; eto lleied o le a roddir i ferched yn ngoruchwyliaeth yr Hen Destament, fel nad ydyw y crybwylliadau am danynt ond damweiniol, a thebyg na chlywsem am yr urdd oni bae i'r gwragedd hyn offrymu eu drychau i wneyd y noe bres yn amser Moses, ac i feibion Eli fyned i odinebu gyda hwynt yn nyddiau Eli. Ond pe na dderbynid y darlleniad uchod ar adn. 39, y mae y trefniant arferol ar yr adnodau lawn mor ffafriol i'r golygiad hwn. **I alaru am ferch Jephthah.**—Yn lle "galaru" darllener **clodfori.** Nid yr un gair ag sydd yn cael ei ddarllen yn "wylo," yn adn. 37 a 38, sydd yma; ond gair nad ydyw i'w gael yn unman yn yr Hen Destament ond unwaith, a hyny yn pen. v. 11, o'r llyfr hwn, a chyfieithir ef yno yn "adrodd," gyda'r drychfeddwl o glodfori yn ddealledig. Ond y mae cystrawen y geiriau

40 ddefod yn Israel, Fyned o ferched Israel bob blwyddyn i alaru am ferch Jephthah y Gileadiad, bedwar diwrnod yn y flwyddyn.

---

ychydig yn wahanol yma i'r hyn ydyw yno. Yma defnyddir yr arddodiad "am," yr hwn y gellir ei gyfieithu un ai yn *wrth* neu *am*. Hyn sydd wedi rhoddi bod i ddarlleniad ymyl y ddalen—*ymddiddan â merch Jephthah*. Y syniad a gyfleir gan y geiriau, o'u deall yn llythyrenol, yn ddiau ydyw, fod morwynion Israel yn myned bedwar diwrnod yn y flwyddyn, bob blwyddyn tra y bu hi byw, i ganmol y wyryf a roddes heibio ei gobeithion uchel ac ymgyflwyno i wasanaethu yr Arglwydd. Yr oedd hyn yn werth ei ddathlu a'i gadw mewn coffadwriaeth. Y mae yn anhawdd gweled ystyr i hyn os mai ei lladd yn aberth a gafodd. Anghofio ffieidd-dra felly fuasai y fendith fwyaf. Os mai dyna yr ystyr, y mae yn anhawdd meddwl pa fodd y cawsai y fath beth le o gwbl yn yr Ysgrythyr. Gwir y dodir llosgach Lot i mewn (Gen. xix. 30); ond gwneir hyny er dangos haniad y Moabiaid a'r Ammoniaid, eithr yma nid oes dim felly i gyfreithloni i'r fath hanes a hwn i gael ei adrodd. Diau fod anhawsderau mawrion ar bob llaw yn cwmpasu yr amgylchiad hwn; ond a chymeryd ystyr syml y geiriau, cymeriad Jephthah a'i ferch, a holl gysylltiadau yr hanes i ystyriaeth, y mae y fantol yn troi yn drwm yn mhlaid y golygiad iddi gael ei gwneyd yn boeth-offrwm, drwy neillduad cysegredig, ac nid drwy farwolaeth. Yr oedd eu cyfundrefn o aberthau wedi dysgu i Israel, er yn foreu, pa beth ydoedd ystyr offrymau o'r fath; a cheir fod cysegru personau i wasanaeth yr Arglwydd, drwy addunedau, yn sefydliad rheolaidd, a bod darpariaeth bendant tuagat eu rhyddhau oddiwrth eu haddunedau (Lef. xxvii. 1—8).

---

## PENOD XII.

1 AGWYR Ephraim a ymgasglasant, ac a aethant tua'r
gogledd, ac a ddywedasant wrth Jephthah, Paham
yr aethost ti drosodd i ymladd yn erbyn meibion Ammon,
ac na elwaist arnom ni i fyned gyda thi? dy dŷ di a
2 losgwn ni am dy ben â thân. A Jephthah a ddywedodd

---

(c) *Jephthah a'r Ephraimiaid: ei olynwyr Ibsan, Elon, ac Abdon* (pen. xii. 1—15).

PEN. xii.—*1—3.—Eiddigedd yr Ephraimiaid a Jephthah yn cyfymliw â hwynt. 4—6.—Eu gorchfygu a phrofi y ffoedigion. 7.—Marwolaeth Jephthah. 8—15.—Ibsan, Elon, ac Abdon yn barnu Israel.*

1—3. A gwyr Ephraim.—Danghosasai trahausder ac eiddigedd yr Ephraimiaid ei hunan yn flaenorol (pen. viii. 1—3); ond fe'u hatebwyd yn wahanol gan Jephthah yma i'r modd y gwneir gan Gedeon yno; un ai (1) am ei fod yn byw yr ochr arall i'r Iorddonen, tra yr ydoedd Gedeon yn

wrthynt hwy, Myfi a'm pobl oeddem yn ymryson yn dost
yn erbyn meibion Ammon; a mi a'ch gelwais chwi, ond
ni waredasoch fi o'u llaw hwynt. A phan welais i nad 3
oeddych yn fy achub, mi a osodais fy einioes yn fy llaw,
ac a euthum yn erbyn meibion Ammon; a'r ARGLWYDD
a'u rhoddodd hwynt yn fy llaw i: paham gan hyny y
daethoch i fyny ataf fi y dydd hwn, i ymladd i'm herbyn?
Yna Jephthah a gasglodd yn nghyd holl wŷr Gilead, ac 4
a ymladdodd âg Ephraim: a gwŷr Gilead a darawsant
Ephraim, am ddywedyd ohonynt hwy, Ffoaduriaid Eph-
raim yn mysg yr Ephraimiaid, *ac* yn mysg Manasseh,
*ydych* chwi y Gileadiaid. A'r Gileadiaid a enillasant rydau 5
yr Iorddonen o flaen yr Ephraimiaid: a phan ddywedai yr
Ephraimiaid a ddiangasent, Gedwch i mi fyned drwodd:
yna gwŷr Gilead a ddywedent wrtho, Ai Ephraimiad *ydwyt*

---

byw yr un ochr a hwynt; (2) neu am ei fod o dymher wahanol; (3) neu, mwy tebyg, am fod ysbryd yr Arglwydd (pen. xi. 29), yn ei gyfarwyddo i ymddwyn yn wahanol. Chwenychai yr Ephraimiaid flaenori y llwythau a chael eu cyfrif yn wladgar heb ymgymeryd â llafur y frwydr. Ymgasglasant.—Yn hytrach, **A alwyd yn nghyd.** Galw drwy gyhoeddiad. Gwêl pen. iv. 13; vi. 34; vii. 23, 24; x. 17. Tua'r gogledd.—Darllena rhai awdurdodau y gair *i Zaphon,* gan olygu dinas o'r enw hwnw yn rhandir Gad (Jos. xiii. 27); ond y mae yn rhy amheus. Golygir yma yn ddiameu fyned dros yr Iorddonen yn y rhydau gerllaw Succoth. Daw trahausder annyoddefol yr Ephraimiaid i'r golwg yn y bygythiad i losgi tŷ Jephthah am ei ben. Ymddengys fod llosgi yn cael ei ddefnyddio (1) fel cospedigaeth ddienyddol (Gen. xxxviii. 24; Jos. vii. 25; Barn. xiv. 15; xv. 6); ac (2) yn gospedigaeth rhyfel Jos. viii. 8, 19; Barn. i. 8; xx. 48). Mi a'ch gelwais.—Ni chrybwyllir hyn yn pen. xi.; ond dichon iddo gymeryd lle pan (1) ddewiswyd Jephthah yn flaenor; (2) neu pan y danfonodd genadwri at frenin meibion Ammon; (3) neu, mwy tebyg, fod Jephthah yn llefaru yma gan bersonoli y Gileadiaid; felly eu bod hwy wedi danfon at yr Ephraimiaid cyn ysgogi o gwbl yn yr ymgyrch. Nad oeddych yn fy achub.—Yn llythyrenol, **nad oeddit**; gan bersonoli llwyth Ephraim fel un gŵr, yn gyffelyb i'r modd y personola yntau y Gileadiaid oll yn ei berson ei hunan.

4—7. Mae y darlleniad a'r ystyr yn adn. 4 yn neillduol o anhawdd. Cyfeiria y geiriau at ryw gwerylon, o bosibl, ag oedd yn llawn o chwerwder y pryd hyny; ond sydd erbyn hyn yn annealladwy. (1) Defnyddia y rhan fwyaf o'r esbonwyr y geiriau gyda chyfeiriad at fyddin Jephthah—diystyrwch yr Ephraimiaid o'r Gileadiaid; ac yn neillduol y milwyr a gasglasai Jephthah yn nghyd. Y darlleniad felly fyddai, **Ffoaduriaid Ephraim ydych chwi; yn nghanol Ephraim, yn nghanol Manasseh.** Er cymaint o anhawsderau sydd yn nglyn â'r ystyr hon, feallai ei bod yn fwy cydweddol â thôn drahausfalch yr Ephraimiaid, ac yn rhoddi cyfrif

6 ti? Os dywedai yntau, Nag ê; Yna y dywedent wrtho,
Dywed yn awr, Shibboleth. Dywedai yntau, Sibboleth:
canys ni fedrai efe lefaru felly. Yna y dalient ef, ac y
lladdent ef wrth rydau yr Iorddonen. A chwympodd y
7 pryd hwnw o Ephraim ddwy fil a deugain. A Jephthah
a farnodd Israel chwe blynedd. Yna y bu farw Jephthah
y Gileadiad, ac a gladdwyd yn *un* o ddinasoedd Gilead.

---

gwell am ddialedd y Gileadiaid na'r un arall. Tybia rhai fod yma gyfeiriad at rhyw hen gwerylon a ddigwyddodd yn amser ymsefydliad y ddau lwyth a haner o'r tu dwyrain i'r Iorddonen, neu at rai a ffoisant at Ephraim, oddiwrth ormes meibion Ammon, yn ystod y deunaw mlynedd (pen. x. 8). Dichon nad oedd yr enw hwn—"Ffoaduriaid Ephraim," yn gymhwysadwy at y llwythau yn y cyfanrif, ond at ganlynwyr Jephthah; neu, feallai, ei fod yn hen ymadrodd dirmygus, fel math o lysenw, wedi aros amser maith, ac yn dangos mor ddiystyrllyd yr edrychai yr Ephraimiaid ar eu carenydd, o'r tu arall i'r afon, gan gyflawni felly yr hyn a ofnir yn Josh. xxii. 24—28. Os dyma yr ystyr, buan y daeth dydd eu gofwy; oblegid yn adn. 5, y mae yr Ephraimiaid yn ffoaduriaid, ac yn cael eu lladd wrth y miloedd wrth rydau yr Iorddonen. Yr unig anhawsder mawr sydd i'r ystyr uchod ydyw, egluro paham y gelwir byddin Jephthah yn "Ffoaduriaid *Ephraim*." Ond gwyddys fod lluaws o Manasseh (pen. xi. 29) yn ei fyddin, a diamheu fod perthynas agos rhwng y ddau lwyth o bob tu i'r Iorddonen, a wnelent i fyny dŷ Joseph. (2) Y mae yr eglurhad arall yn cynyg darlleniad hollol wahanol i'r cyfieithiad arferol; ac yn ol hwnw, yn deall y gair "ffoaduriaid Ephraim," yn adn. 4, yn cyfeirio at yr un personau a'r "Ephraimiaid a ddiangasent," adn. 5. Dodwn i ganlyn arall-eiriad rhydd o'r golygiad hwn:—*Gwyr Gilead a darawasant Ephraim, canys hwy* (y Gileadiaid) *a ddywedasant, Ffoaduriaid Ephraim ydych chwi. (Gorwedd Gilead rhwng Ephraim a Manasseh; a'r Gileadiaid a enillasant rydau, &c.)* Fe ddodir yr holl eiriau o'r gair *Gorwedd Gilead* yn niwedd adn. 4, hyd y gair *wrth rydau yr Iorddonen*, yn niwedd adn. 6, rhwng cromfachau, fel eglurhad ar y datganiad, *A gwyr Gilead, &c.*, yn niwedd adn. 4. Shibboleth.—Engrhaifft foreu a tharawiadol o'r hyn a elwir llediaith—y gwahaniaeth rhwng y naill dalaeth a'r llall, mewn gwlad, yn cynanu yr un geiriau. Ystyr y gair "Shibboleth" ydyw *tywysen o ŷd*, neu *ffrwd* (Salm lxix. 2, 15; Es. xxvii. 12). Dylid deall y deugain mil am yr holl laddedigion a laddwyd, yn y frwydr, ac wrth rydau yr Iorddonen. Gwir fod y nifer yn fawr: ond dylid cofio fod balchder yr Ephraimiaid yn fradwriaeth yn erbyn y Ddwyflywiaeth *(Theocracy)*, ac yn cyfranogi o natur pechod Meroz (pen. v. 23), gwŷr Penuel a Succoth (pen. viii. 6—8, 14—17), gwŷr Jabes Gilead, a Benjamin (pen. xx., xxi). A Jephthah a farnodd.—Mynegir yn bendant yma, yr hyn a awgrymir yn pen. xi. 29, ei fod yn farnwr ar Israel. Tybia rhai nad ydoedd yn barnu ond ar y llwythau o'r tu dwyrain i'r Iorddonen; tybia ereill ei fod, ar ol darostwng yr Ephraimiaid, yn barnu ar holl Israel. Mae lle ei feddrod yn anhysbys; dywed yr Hebraeg ei **gladdu yn ninasoedd Gilead**, oherwydd fod y ddinas neillduol yn anhysbys. Am leoedd beddrod y barnwyr ereill gwel pen. ii. 9; viii. 32; x. 2, 5; xii. 10, 12, 15; xvi. 31. Mae beddrodau Othniel, Ehwd, a Barac yn anhysbys.

Ac ar ei ol ef, Ibsan o Bethlehem a farnodd Israel. 8
Ac iddo ef yr oedd deng mab ar hugain, a deng merch ar 9
hugain, *y rhai* a anfonodd efe allan, a deng merch ar
hugain a ddug efe i'w feibion oddiallan. Ac efe a farnodd
Israel saith mlynedd. Yna y bu farw Ibsan, ac a gladd- 10
wyd yn Bethlehem.

Ac ar ei ol ef, Elon y Zabuloniad a farnodd Israel: ac 11
efe a farnodd Israel ddeng mlynedd. Ac Elon y Zabulon- 12
iad a fu farw, ac a gladdwyd yn Ajalon, yn ngwlad
Zabulon.

Ac Abdon mab Hilel y Pirathoniad a farnodd Israel ar 13
ei ol ef. Ac iddo ef yr oedd deugain o feibion, a deg ar 14

---

8—10. Ac ar ei ol ef.—Canlynwyd buddugoliaeth Jephthah ar ei elynion, a'i waith yn darostwng balchder yr Ephraimiaid, gan bum' mlynedd ar hugain o heddwch, o dan dri barnwr; cyffelyb i'r pum' mlynedd a deugain o heddwch o dan ddau farnwr a gafwyd wedi buddugoliaeth Gedeon, a darostyngiad gwrthryfel Abimelech. Ibsan (Alcan) o Bethlehem.—(1) Tyb rhai ydyw mai Bethlehem yn Zabulon (Josh. xix. 15) a feddylir. Mae y lle i'w gael heddyw yn bentref distadl a budr tuag wyth milldir i'r gogledd-orllewin o Nazareth, o'r enw *Beitlahm.* Pe buasai Ibsan yn enedigol o'r lle hwn, buasai, fel ei olynydd, yn Zabuloniad, a buasem yn disgwyl mynegiad o hyny yn y naill amgylchiad fel y llall. (2) Tybia ereill, o ddyddiau Josephus (Hyn. v. 7, 13) i waered, mai Bethlehem Judah neu Ephratah, a olygir. Os felly, efe yw y barnwr cyntaf a gyfododd, er dyddiau Othniel, o lwyth Judah. Ni ddywedir dim am ei waith (gwel nodiad, pen. x. 1); ond oddiwrth yr hyn a fynegir am ei deulu ef a'i olynydd, gellir casglu eu bod hwythau, fel Jair (pen. x. 4), yn byw mewn sefyllfa freninol. Dywedir iddo roddi ymaith mewn priodas ei ddeg merch ar hugain, a dwyn adref ddeg ar hugain o ferched yn wragedd i'w feibion.

11, 12. Elon (Derwen) y Zabuloniad.—Yr ydoedd llwyth Zabulon eisoes wedi dangos gwladgarwch a phybyrwch mawr yn nyddiau Barac (pen. iv. 10; v. 18). Ajalon.—Nid yr Ajalon *(Yâlo)*, lle ar derfyn Dan ac Ephraim, y sonir am dano, yn Jos. x. 12; xix. 42; Barn. i. 35; ond lle yn rhandir Zabulon, nad enwir mohono yn un man arall. Ystyr y gair Ajalon ydyw *Lloches yr Hydd*, a thybir mai adfeilion a elwir yn awr *Jalûn*, gwaith tua phedair awr o deithio i'r dwyrain o Acco *(Acre)* ydyw. Dyru Conder y lle yn anhysbys.

13—15. Abdon y Pirathoniad.—Tybir yn gryf mai yr un ydyw a Bedan yn 1 Sam. xii. 11. Yr ydoedd yn Ephraimiad, canys yn 1 Cron. xxvii. 14, darllenwn fod "Benaiah y Pirathoniad o feibion Ephraim." Dengys hyn nad ydoedd gwir wladgarwch wedi llwyr ddiffoddi o lwyth Ephraim. Gorwedd Pirathon yn llwyth Ephraim, tua chwe' milltir i'r dê-orllewin o Sichem, a gelwir hi yn awr *Ferata.* Mynydd yr Amaleciaid.—Gallai (1) mai hen sefydliad o'r Amaleciaid oedd wedi aros ynddo; (2) neu ruthrgyrch o'u heiddo wedi cymeryd lle arno (pen. iii.

hugain o ŵyrion, yn marchogaeth ar ddeg a thri ugain o
ebolion asynod: ac efe a farnodd Israel wyth mlynedd.
15 Ac Abdon mab Hilel y Pirathoniad a fu farw: ac a gladdwyd yn Pirathon, yn ngwlad Ephraim, yn mynydd yr
Amaleciaid.

---

13; vi. 3); (3) neu fuddugoliaeth a enillasid arnynt ydoedd wedi rhoddi enw ar y lle. Rhaid ei fod yn fynydd, neu fynydd-dir yn nhiriogaeth Ephraim.

(4) Y Pedwerydd Cyfnod o Wrthgiliad ac Adferiad (pen. xiii.—xvi. 31).

Yma yr ydym yn dyfod i mewn i gyfnod newydd yn hanes Israel, y golygfeydd, y gelynion, a'r gwaredydd, yn wahanol i'r hyn oeddynt yn y cyfnod blaenorol. Yn gyffelyb i'r cyfnod blaenorol, nid oes yma ond un tymhor o orthrymder, ond ei fod yn faith a chaled; mewn gair, nid ydyw yr holl gyfnod ond gorthrymder ar ei hyd. Tra yr oedd Jephthah, ar uchelderau Gilead, y tuhwnt i'r Iorddonen, yn gyru yn eu hol elynion Israel, yn y cyfeiriad hwnw; yr ochr arall i'r Iorddonen, yn ngorllewin y wlad, yr oedd gelyn arall, mwy gormesol fyth—y Philistiaid—yn difa nerth y genedl. Cyn hyn, yn nyddiau Samgar, gormesasai y Philistiaid gymaint ar randiroedd Dan a Judah, nes yn ol pob tebyg, y gorfodasant ran o lwyth Dan i ymfudo i ogledd y wlad. Tebyg ddarfod i Samgar roddi ychydig o atalfa ar eu rhwysg. Ond yn awr y mae y gwaredwr arall yn cyfodi—Samson—*y cryf*, yn ol fel yr esbonia Josephus ystyr yr enw (Hyn. v. 8, 4), yn ol ereill, *fel yr haul;* y *dinystrydd*, medd ereill. Nid ydyw yntau er ei holl wrhydri ond yn "dechreu gwaredu Israel o law y Philistiaid" (pen. xiii. 5). Yn yr hanes canlynol gosodir ef gerbron, (1) fel barnwr—swydd a lanwodd am ugain mlynedd (pen. xv. 20; xvi. 31); (2) fel Nazaread (pen. xiii. 5; xvi. 17); (3) fel un wedi ei gynysgaeddu mewn modd neillduol âg yspryd yr Arglwydd (pen. xiii. 25; xiv. 6, 19; xv. 14). Ac edrych ar ei hanes yn ngoleuni y nodweddau hyn ydyw prif allwedd ei holl gymeriad. Fel *barnwr* yr ydoedd yn bortread cywir o'i genedl, Israel, yn neillduol felly yn y cyfnod hwn o'u hanes—eu neillduaeth, eu rhagorfreintiau, eu cyflawniadau, a'u gwendidau—y mae Samson yn ddrych cywir ohonynt. Fel *Nazaread* yr ydoedd yn neillduedig o groth ei fam i'r Arglwydd. Yn ei Nazareaeth y mae hanfod ei holl gymeriad. Nid wedi ymgymeryd yn wirfoddol â'i Nazareaeth yr oedd, eithr yr ydoedd wedi ei osod arno megis gan orchymyn dwyfol yn ei genedliad a'i enedigaeth. Yr oedd y Nazaread hwn yn bortread byw o'r genedl, ar un llaw, o'r nerth oedd yn eisiau i'w gwaredu, drwy ffydd yn eu Duw; ac, ar y llaw arall, o'r gwendid yr oeddynt wedi syrthio iddo drwy eu hanffyddlondeb. Gwelent fod eu nerth cenedlaethol yn gynwysedig mewn ymadawiad llwyr âg eilunaddoliaeth, ac mewn cysegredigaeth hollol i wasanaeth yr Arglwydd, ac y gallai efe, ond iddynt ei wasanaethu, roddi iddynt nerth i ddarostwng eu holl elynion (1 Sam. ii. 10). Yn hanes y gwaredwr newydd hwn, amlheir hefyd y cyfeiriadau at ei fod wedi ei *ddonio* mewn modd arbenig gan yr Yspryd Glân (pen. xiii. 25; xiv. 6, 19; xv. 14; xvi. 20), a dangosir yn amlwg fod ei ffyddlondeb i adduned ei Nazareaeth, yn amod y dylanwadau dwyfol. Pell ydyw ei hanes o fod ar yr un tir a'r chwedlau am Erewlff *(Hercules)*, ac ereill o arwyr

Chwedloniaeth baganaidd. Nid cawr naturiol, a'i ewynau yn rymusach na dynion cyffredin ydoedd ; eithr dyn, ag oedd ar amserau yn teimlo cynhyrfiadau goruwchnaturiol yn ei alluogi i wneuthur yr hyn nas gallai unrhyw fraich ddynol ei gyflawni. Yr ydoedd y cynhyrfiadau hyn, i Samson, yr un peth ag ydoedd y cynhyrfiadau goruwchnaturiol i'r prophwydi ; a dylasai, yn y naill amgylchiad fel y llall, fod "ysprydoedd y prophwydi yn ddarostyngedig i'r prophwydi" (1 Cor. xiv. 32). Ond gwendid Samson ydoedd darostwng y ddawn ddwyfol i amcanion rhy isel, ac yn y cyfeiriad yma y bu ei gwymp. Temtid ef i chwareu megis â hi, a mwyheid y demtasiwn gan y ffaith mai gorchestion yn nhiriogaeth nerth corphorol yn unig a osodwyd iddo i'w cyflawni. Ond dengys ei hanes mor lleied ellid wneyd i Israel drwy waredigaethau o rymusdra corphorol yn unig. Da fod nerth Samson, gan mor ddaearol ydoedd, fel llawer diwygiwr ar ei ol, yn cael ei ganlyn gan nerth mwy ysprydol. Yn Samuel y daeth yr elfen *ysprydol* i'r golwg. Rhagredegydd Samuel ydoedd Samson.

Yn pen. xiii. ceir hanes amgylchiadau gwyrthiol ei enedigaeth ; ac yn pen. xiv.—xvi., ceir hanes ei fywyd a'i anturiaethau, ei farwolaeth a'i gladdedigaeth.

---

## PENOD XIII.

1 A MEIBION Israel a chwanegasant wneuthur yr hyn oedd ddrwg yn ngolwg yr ARGLWYDD: a'r ARGLWYDD a'u rhoddodd hwynt yn llaw y Philistiaid ddeugain mlynedd.

---

### (a) *Amgylchiadau Genedigaeth a Galwad Samson* (pen. xiii. 1—25).

PEN. xiii.—*1—5.—Gwrthgiliad Israel ac ymddangosiad angel i wraig Manoah. 6, 7.—Hithau yn mynegi i'w gwr ei genadwri. 8—10.—Yr angel yn ymddangos iddo yntau. 11—18.—Manoah yn cyflwyno offrwm iddo. 19—20.—Yntau yn diflanu. 21—23.—Tawelu ofnau Manoah gan ei wraig. 24, 25.—Genedigaeth Samson.*

1. **Gwneuthur yr hyn oedd ddrwg.**—Dyma yr ymadrodd arferol i ddynodi gwrthgiliadau y genedl (gwel nodiad, pen. ii. 11), a defnyddir ef yma fel math o ragarweiniad i hanes Samson. Mae un gwahaniaeth pwysig rhwng y cyfnod hwn a'r blaenorol ; sef, na fynegir am unrhyw ymostyngiad edifeiriol, a dychweliad cenedlaethol at yr Arglwydd yn flaenorol i gyfodiad y gwaredwr yn y cyfnod hwn. **Yn llaw y Philistiaid.**—Ymddengys ddarfod i dair tòn olynol o'r "ymfudwyr," neu y "dyeithriaid" hyn, fel y golyga ystyr eu henw, oresgyn y llain ffrwythlawn o dir gyda glàn Môr y Canoldir, yn iseldir de-orllewinol Palestina. (1) Y *gyntaf* oddiwrth y Caasluhim (Gen. x. 14) ; (2) yr *ail*, a'r benaf, oddiwrth y Caphtoriaid (Deut. ii. 23 ; Jer. xlvii. 4 ; Amos ix. 7), un ai o'r Aipht (gwel nodiad, pen. iii. 3), neu o Asia Leiaf a'r ynysoedd cyfagos, efallai, o Creta ; (3) y *drydedd* oddiwrth y Cerethiaid (1 Sam. xxx. 14).

2 Ac yr oedd rhyw wr yn Sorah, o dylwyth y Daniaid, a'i
enw ef *oedd* Manoah ; a'i wraig ef *oedd* anmhlantadwy,
3 heb esgor. Ac angel yr ARGLWYDD a ymddangosodd i'r
wraig, ac a ddywedodd wrthi, Wele, yn awr anmhlant-
adwy *ydwyt* ti, ac heb esgor: ond ti a feichiogi, ac a

---

Y drydedd dòn yma, yr hon, dybygid, ydoedd newydd gymeryd lle, a bâr fod y fath gynydd ar ddylanwad y Philistiaid yn y cyfnod hwn. Ceir cyfeiriadau o'r blaen atynt fel gormeswyr Israel (pen. iii. 31 ; x. 7, 11); ond dyma yr hanes manwl cyntaf am gysylltiad Israel â hwynt. Dechreuodd eu gormes mawr yn niwedd tymhor y Barnwyr ; a pharhasant i fod y gelynion gwaethaf a feddai y genedl er dyddiau y caethiwed Aiphtaidd, drwy ystod teyrnasiad y ddau frenin cyntaf fu ar Israel—Saul a Dafydd ; ac ni lwyr orchfygwyd hwynt hyd ddyddiau Hezeciah (2 Bren. xviii. 8). **Deugain mlynedd.**—Gesyd rhai esbonwyr bwys mawr ar yr ymadrodd hwn fel pwynt yn amseryddiaeth y llyfr ; ond ychydig bwys ellir roddi arno felly, heblaw yn unig ei fod yn gwneuthur amcan-gyfrif hyd tymhor y gorthrymder tua deugain mlynedd. Cyfyd y cwbl sydd dros ben hyn oddiar fod rhai beirniaid wedi mabwysiadu rhyw ddamcaniaeth neillduol o berthynas i amseryddiaeth y cyfnod hwn ; ac felly, yn ceisio llunio pobpeth i gyfarfod gofynion y ddamcaniaeth hono. Golyga rhai mai yr ymlygriad a'r gorthrymder y sonir am dano, pen. x. 6, ydyw hwn yma ; a bod dau farnwr, ar yr un amser, yn gorchfygu dau ddosbarth o elynion, sef Jephthah y tuhwnt i'r Iorddonen yn gorchfygu yr Ammoniaid (pen. xi., xii.), a Samson yn trechu y Philistiaid yn ngorllewin y wlad (pen. xiii.—xvi.) Yn ol hyn rhaid fod y ddau farnwr yn barnu Israel ar yr un adeg, a bod y ddau gyfnod yn un.

2, 3. **Ac yr oedd rhyw wr.**—Gwel yr un ffurf o ymadroddi yn 1 Sam. i. 1. **Sorah.**—Yn Jos. xv. 33, gosodir hi allan fel un o ddinasoedd Judah "yn y dyffryn" *(Shephela)* ; ond yn Jos. xix. 41, gosodir hi allan fel yn perthyn i Dan. Yn y ddau le, yn gystal ag yn yr holl fanau y cyfeirir ati, yn y llyfr hwn a 1 Cron. ii. 53, cysylltir hi âg Estaol. (1) Efallai yn ninasoedd y terfynau fod llwythau Judah a Dan yn cymysgu â'u gilydd ; (2) neu, mwy tebyg, fod Sorah, fel amryw leoedd ereill, wedi ei roddi ar y cyntaf i Judah, a'i drosglwyddo drachefn yn feddiant i Dan. Gorwedd ar lechwedd-dir gorllewinol mynydd-dir Judah, uwchben dyffryn Sorek *(Wady Surar)*, rhyw dair milldir ar ddeg ar linell unionsyth i'r gorllewin o Jerusalem. Ceidw ei hên enw yn y ffurf bresenol *Suràh*. **O dylwyth y Daniaid.**—Defnyddir y gair "tylwyth" yma fel yn Jos. vii. 17 ; Barn. xvii. 7 ; xviii. 2, 11, 19 ; Zech. xii. 13, yn yr ystyr o lwyth. Gellir casglu hefyd, yn ol Num. xxvi. 42, 43, nad ydoedd llwyth Dan yn cynwys ond un tylwyth. **Manoah.**—Ystyr yr enw ydyw *gorphwysdra*. Gellid meddwl ei fod, fel ei hynafiad Abraham, yn llettygar, a'i fod yn dilyn rhyw alwedigaeth a barai iddo fod am ran o'r dydd yn absenol oddiwrth ei wraig, a hyny nid yn y maes (adn 9) ; a'i fod ef, a'i wraig, yn un allan o'r ychydig deuluoedd hyny yn y wlad oeddynt yn parhau yn ffyddlon i'r Arglwydd, yn nghanol yr ymlygriad mawr. Cymharer yr amgylchiadau gyda hanes genedigaeth Isaac, Jacob, Samuel, ac Ioan Fedyddiwr (Gen. xxi. 1 ; xxv. 21 ; 1 Sam. i. 2, 5, 20 ; Luc i. 7). **Angel yr Arglwydd.**—Gwel nodiad, pen. ii. 1.

esgori ar fab. Ac yn awr, atolwg, ymochel, ac nac ŷf 4
win na diod gadarn, ac na fwyta ddim aflan. Canys wele, 5
ti a feichiogi, ac a esgori ar fab; ac ni ddaw ellyn ar ei
ben ef: canys Nazaread i Dduw fydd y bachgen o'r groth:
ac efe a ddechreu waredu Israel o law y Philistiaid.

Yna y daeth y wraig ac a fynegodd i'w gwr, gan ddy- 6
wedyd, Gwr Duw a ddaeth ataf fi; a'i bryd ef *oedd* fel
pryd angel Duw, yn ofnadwy iawn: ond ni ofynais iddo

---

4, 5. Mae yn amlwg fod yr holl baragraph hwn wedi ei seilio ar gyfraith y Nazareaid (Num. vi. 1—21). Ymddengys fod mam Samson hefyd i fod, hyd nes y genid ef, o dan ddeddf y Nazareaid. Canys Nazaread i Dduw.—Golyga Nazaread un wedi ei neillduo at wasanaeth Duw. Ymddengys fod cyfraith Nazareaeth, fel ei gosodir i lawr yn Num. vi. 1—21, yn golygu ymgysegriad *gwirfoddol*, a thros *amser penodol*, ac nid Nazareaid o'r groth, a rhai parhaus, fel Samson, Samuel, ac Ioan Fedyddiwr. Cynwys y gyfraith dri pheth:—(1) Eu bod i lwyr-ymwrthod â gwin a phob diodydd cedyrn; ïe, â phobpeth a ddelai oddiwrth y winwydden, i lawr, hyd yn nôd, at y cnewyllyn a'r plisgyn. (2) Eu bod i atal i ellyn ddyfod ar eu penau; felly, eu gwallt i dyfu. (3) Nad oeddynt i ymhalogi drwy gyffyrddiad â chorph marw, hyd yn nôd tad, mam, brawd, neu chwaer. Ni nodir gwyryfdod; felly, nid ydoedd Nazareaeth, fel y tybia y Pabyddion, yn gysgod o Fynachaeth. Hanfod Nazareaeth ydoedd cario allan y neillduaeth a'r cysegredigrwydd a berthynai i fywyd offeiriad i ganol amgylchiadau cyffredin bywyd. Yr ydoedd y Nazaread yn byw y bywyd offeiriadol heb *waith* y swydd, ac felly yn gysgod neillduol o fywyd sanctaidd; a'r gwir Nazaread ydyw yr hwn sydd yn rhoddi ei hunan "yn aberth byw, sanctaidd a chymeradwy," gan fod felly yn un o'r "breninol offeiriadaeth," ac yn frenin ac yn offeiriad i Dduw. Mae y gwaharddiadau yr un iddo ef ag i'r offeiriad. Y mae i ymgadw rhag yfed gwin, &c., i ddangos fod y bywyd sanctaidd yn cynwys ymwadu âg annuwioldeb a chwantau bydol. Yr ydoedd i adael i'w wallt dyfu, er dangos nerth, prydferthwch, a ffrwythlonder, yn ngwasanaeth yr Arglwydd, ac fel y byddai i'w wallt i fod, fel meitr offeiriadol, ar ben ei Nazareaeth ef; ac yr ydoedd i ymgadw rhag ymhalogi â chorph marw am fod marwolaeth yn arwyddlun o bechod a llygredigaeth. Am y rheolau hyn, y mae y ddwy gyntaf i'w gweled yn rhwymedig ar y Nazaread parhaus yn unig yn y fan hon. Yn 1 Sam. i. 11, ni nodir ond yr ail yn unig; ac yn Luc i. 15, ni chrybwyllir ond y gyntaf yn unig. Samson oedd y Nazaread cyntaf y mae genym hanes am dano. Yn nghanol yr ymlygriad mawr, pan oedd y gwahaniaeth rhwng glân ac aflan wedi ei golli, a'r gyfundrefn Lefiticaidd wedi syrthio i ddirywiad mawr, byddai y "bachgen" hwn yn dystiolaeth fyw i'r genedl o'i dyledswydd i ddychwelyd at yr Arglwydd. Ac efe a ddechreu waredu.—Dyma air newydd yn hanes y Barnwyr. Gallai fod yma awgrym y cyfodai anmherffeithrwydd ei waith oddiar anmherffeithrwydd ei gymeriad. Prophwydoliaeth ac addewid ydoedd, ond yn dangos, ar yr un pryd, fod yn rhaid edrych i ddyddiau Samuel a Dafydd am waredigaeth lwyr.

6, 7. Gwr Duw.—Ymadrodd arferedig am un yn datguddio

7 o ba le yr oedd, ac ni fynegodd yntau i mi ei enw. Ond
efe a ddywedodd wrthyf, Wele, ti a feichiogi, ac a esgori
ar fab. Ac yn awr nac ŷf win na diod gadarn, ac na
fwyta ddim aflan : canys Nazaread i Dduw fydd y bachgen,
o'r groth hyd ddydd ei farwolaeth.
8 Yna Manoah a weddïodd ar yr Arglwydd, ac a ddy-
wedodd, Atolwg, fy Arglwydd, gâd i wr Duw yr hwn a
anfonaist, ddyfod eilwaith atom ni, a dysgu i ni beth a
9 wnelom i'r bachgen a enir. A Duw a wrandawodd ar lef
Manoah : ac angel Duw a ddaeth eilwaith at y wraig, a
hi yn eistedd yn y maes ; ond Manoah ei gwr nid *oedd*
10 gyda hi. A'r wraig a frysiodd, ac a redodd, ac a fynegodd
i'w gwr, ac a ddywedodd wrtho, Wele, ymddangosodd y
11 gwr i mi, yr hwn a ddaeth ataf fi y dydd *arall*. A Manoah
a gyfododd, ac a aeth ar ol ei wraig, ac a ddaeth at y gwr
ac a ddywedodd wrtho, Ai ti *yw* y gwr a leferaist wrth y
12 wraig ? Dywedodd yntau, *Ië*, myfi. A dywedodd Manoah,
Deled yn awr dy eiriau i ben. Pa fodd y trinwn y bachgen,
13 ac y gwnawn iddo ef ? Ac angel yr Arglwydd a ddywedodd
wrth Manoah, Rhag yr hyn oll a ddywedais wrth y wraig,
14 ymocheled hi. Na fwytaed o ddim a ddêl allan o'r win-

---

meddwl Duw (Deut. xxxiii. 1) â gair a fynych arferir yn yr Hen Destament am brophwyd (1 Sam. ii. 27 ; ix. 6, 7, 8, 10 ; 1 Bren. xii. 22 ; xiii. 1, 5, 6, 11). Cymhwysa Paul yr un gair at Timotheus (1 Tim. vi. 11 ; 2 Tim. iii. 17). A'i bryd.—Yn llythyrenol, **ei ymddangosiad**, gan olygu, nid prydwedd ei wyneb yn unig eithr ei holl ymddangosiad. Yn Dan. x. 18, cyfieithir yr un gair yn "ddull." Tarawyd y wraig gymaint gan ymddangosiad mawreddog y person, fel nas meiddiai ofyn ei enw. Hyd ddydd ei farwolaeth.—Ni fynegir hyn yn yr adroddiad, adn. 5, o anerchiad yr angel. Weithiau yr oedd adduned y Nazareaid, fel yr eiddo Paul (Act. xviii. 18 ; xxi. 23—26), dros amser penodol yn unig ; ond brydiau ereill, fel yr eiddo Samuel (1 Sam. i. 11), ac felly yma, dros yr oes.

8—14. A weddiodd ar y Arglwydd.—Mae pobpeth yn dangos fod y pâr yma yn meddu ffydd gref, er nad efallai wybodaeth ëang. Daw hyn i'r golwg yn eu hawydd am gyfarwyddyd, pa fodd i ddwyn y bachgen i fyny, neu pa beth a fyddai. Dewiser yr un a fyner o'r ddau ddarlleniad, ar adn. 12, daw yr un peth i'r golwg. Atolwg, fy Arglwydd.—Darllener, **Atolwg, Arglwydd.** Deled yn awr dy eiriau i ben.—Y LXX. a'r *Vulgate*, *Pan y daw dy eiriau i ben.* Darllen ereill, *Os daw dy eiriau i ben.* Pa fodd y triniwn y bachgen ; ac y gwnawn iddo ef?—Yn llythyrenol, **Pa fath fydd dull y bachgen ; a pha beth fydd ei waith ?** Cyflea y darlleniad hwn syniad ychydig yn wahanol i'r darlleniad arferol, sef eu hawydd am wybod ei ddyfodol, a chyfodai yr awydd hwnw oherwydd eu bod

wydden, nac yfed win na diod gadarn, ac na fwytaed
ddim aflan: cadwed yr hyn oll a orchymynais iddi.
A dywedodd Manoah wrth angel yr ARGLWYDD, Gâd, 15
atolwg, i ni dy atal, tra y parotôm fŷn gafr ger dy fron
di. Ac angel yr ARGLWYDD a ddywedodd wrth Manoah, 16
Ped atelit fi, ni fwytawn o'th fara di: os gwnei boeth-
offrwm, gwna ef i'r ARGLWYDD. Canys ni wyddai Manoah
mai angel yr ARGLWYDD *oedd* efe. A Manoah a ddy- 17
wedodd wrth angel yr ARGLWYDD, Beth *yw* dy enw, fel
y'th anrhydeddom di pan ddelo dy eiriau *i ben?* Ac angel 18
yr ARGLWYDD a ddywedodd wrtho, Paham yr ymofyni am
fy enw, gan ei *fod* yn rhyfeddol? Felly Manoah a gymerth 19
fŷn gafr, a bwyd-offrwm, ac a'*i* hoffrymodd ar y graig i'r
ARGLWYDD. A'r *angel* a wnaeth yn rhyfedd: a Manoah
a'i wraig oedd yn edrych. Canys, pan ddyrchafodd y fflam 20
oddiar yr allor tua'r nefoedd, yna angel yr ARGLWYDD a
ddyrchafodd yn fflam yr allor: a Manoah a'i wraig oedd
yn edrych ar *hyny*, ac a syrthiasant i lawr ar eu hwynebau.
(Ond ni chwanegodd angel yr ARGLWYDD ymddangos 21
mwyach i Manoah, nac i'w wraig.) Yna y gwybu Manoah
mai angel yr ARGLWYDD *oedd* efe. A Manoah a ddywedodd 22
wrth ei wraig, Gan farw y byddwn feirw; canys gwelsom
DDUW. Ond ei wraig a ddywedodd wrtho ef, Pe mynasai 23

---

yn awyddus am ei barotoi ar gyfer ei waith. Yr oedd cenadwri gyntaf yr angel wedi ateb y ddau gwestiwn. (1) Dull ei ddygiad i fyny ydoedd fel Nazaread; (2) a'i waith fyddai dechreu gwaredu Israel o law y Philistiaid. Ond bwysiced ydoedd y genadwri, ac i ochel pob camgymeriad, chwenychai Manoah gael ei ail hysbysu. Cymharer 1 Sam. xvii. 26, 27. Yn adn. 13, 14, ail edrydd yr angel y cyfarwyddiadau a roddasai o'r blaen, adn. 4, gyda'r ychwanegiad nad ydoedd i fwyta dim a ddeuai oddiwrth y winwydden, yn ol Num. vi. 3. Ymocheled hi.—Yn llythyrenol, **bydded iddi gael ei chadw**; ffurf oddefol ydyw hon, i'r un ferf ag a gyfieithir yn yr adnod nesaf yn "cadwed." O'r winwydden.—Mae y gair gwinwydden yn golygu *gwinwydden y gwin*, mewn cyferbyniad i'r winwydden wyllt (2 Bren. iv. 39), a phrenau ereill elent, mewn modd cyffredinol, o dan yr enw hwnw.

15—23. Ni fwytawn o'th fara di.—Gwrthyd y genad ddwyfol groesaw Manoah, nid, fel y tybia rhai, oherwydd ei fod yn gwrthod addoliad dwyfol; eithr oblegid nad oedd Manoah eto yn deall pwy ydoedd, ac am barotoi gwledd iddo fel pe na buasai ond prophwyd neu genad ddynol yn unig. Y mae geiriau yr angel yn dra thebyg i eiriau ein Harglwydd yn Math. xix. 17. Beth yw dy enw.—Yn llythyrenol, **Pwy yw dy enw?** Mae y gair "pwy" yn golygu y person, a'r gair "enw" ei gymeriad. Hwyrach fod y gair yn fwriadol amwys, am fod

yr ARGLWYDD ein lladd ni, ni dderbyniasai efe boeth-
offrwm a bwyd-offrwm o'n llaw ni, ac ni ddangosasai efe i
ni yr holl *bethau* hyn, ac ni pharasai efe i ni y pryd hyn
glywed *y fath bethau.*
24 A'r wraig a ymddûg fab, ac a alwodd ei enw ef Samson.
A'r bachgen a gynyddodd ; a'r ARGLWYDD a'i bendithiodd

---

Manoah yn dyfod i ddechreu tybied y gallai ei fod yn genad ddwyfol. Golyga y gair *anrhydeddu*, yn ei berthynas â dynion, *rhoddion*, *anrhegion* (Num. xxii. 17), fel a roddir i weledyddion (1 Sam. ix. 7, 8 ; 2 Bren. v. 5, 15) ; ond yn ei berthynas â Duw, y mae i'w ddeall am anrhydeddu drwy *gyflwyno aberth* (Es. xliii. 23). **Gan ei fod yn rhyfeddol.**—Dynoda y gair, nid enw priodol yr angel, eithr cymeriad ei enw ; ond gan fod yr enw drachefn yn dynodi ei natur, y mae yr enw, gan hyny, yn gosod allan nodweddau ei natur. Cymharer Es. ix. 6 âg Exod. xvii. ; xxxiv. 10 ; Jos. iii. 5 ; Salm cxviii. 23. **A bwyd-offrwm.**—Sef bwyd-offrwm perthynol i boeth-offrwm, yn ol Num. xv. 4. **A wnaeth yn rhyfedd.**—Gwneyd y wyrth, sef peri i fflam ddyrchafu, adn. 20, a difa yr aberth, fel gyda Gedeon (pen. vi. 21). **Ar yr allor.**—Y graig ag oedd, erbyn hyn, yn allor, gan i'r Angel-Jehofah, yn ei waith yn derbyn yr aberth oddiarni, ei sancteiddio i fod felly. **A syrthiasant i lawr.**—Mewn gorchwyledd addolgar. Gwel Lef. ix. 24 ; Num. xiv. 5 ; Jos. v. 14 ; 1 Cron. xxi. 16 ; Dan. x. 9, &c. **Byddwn feirw.**—Gwel nodiad, pen. vi. 22. **Gwelsom Dduw.**—Y mae y casgliad y daeth Manoah a'i wraig iddo yn un tra neillduol, sef iddynt yn ymddangosiad yr angel weled Duw, ac yn un nas gellir ei esbonio ond ar y syniad fod yr ymddangosiadau hyn yn rhag-gysgodi yr ymgnawdoliad. Cymharer yn fanwl Math. xviii. 10 ; Ioan i. 18 ; xiv. 9 ; Act. xii. 15 ; Col. i. 15 ; Heb. i. 3. Mae y pwyntiau o *gyffelybrwydd* rhwng yr ymddangosiad hwn a'r ymddangosiad i Gedeon (pen. vi. 11—24) yn dra tharawiadol. (1) Yr amheuaeth o berthynas i radd y genad (adn. 16, 21) ; (2) y petrusder, mewn canlyniad, pa un ai gwledd ai aberth fyddai fwyaf cymwys ; (3) y darganfyddiad o urddas y genad yn nhân yr aberth ; (4) a'u harswyd oherwydd iddynt weled Duw. Y mae y *gwahaniaeth* rhwng y dull y rhagfynegwyd genedigaeth Isaac a'r dull y rhagfynegir genedigaeth Samson yma, yn dra awgrymiadol. Yr oedd Abraham yn gyfaill Duw, ac aeth yr angel i mewn ato gan dderbyn ei groesaw, ac ymddiddan âg ef fel gŵr gyda'i gyfaill ; ond yma y mae ymddangosiad yr Arglwydd, er yn rasol, eto fel yr un ar Sinai, wedi ei amgylchynu â therfyn, fel nad ellid myned drosto. **Ond ei wraig a ddywedodd.**—Deonglodd y wraig yn gywir ddyben ymweliadau grasol Duw, â hwynt a thrwy hyny symudwyd eu hofnau. Yr oedd Duw wedi gwneyd gwyrth ddeublyg iddynt, sef derbyn eu haberth, a mynegi iddynt y pethau hyn. **Y pryd hyn.**—Cyfeiriad fel yr ymddengys, at y cyfnod a'r oes yr oeddynt yn byw ynddi, ac nid at eu hoedran personol eu hunain.

**24, 25. Ac a alwodd ei enw ef Samson.**—Cyflawnwyd yr addewid yn ngenedigaeth Samson. Bodola cryn amrywiaeth barn o berthynas i ystyr yr enw Samson. Tybia rhai ei fod yn tarddu o *Shemesh*—yr haul ; felly cyfieithant ef *arwr yr haul*, neu *heulog*. Ereill a dybiant

ef. Ac yspryd yr ARGLWYDD a ddechreuodd ar amseroedd 25
ei gynhyrfu ef yn ngwersyll Dan, rhwng Sorah ac Estaol.

---

ei fod yn tarddu o air sydd yn golygu *cryf*, gan ei ddeall fel yn dynodi *un yn gweithredu yn rymus*, yna un yn *difrodi*. **Ei gynhyrfu ef.**—Yn llythyrenol, **ei yru ef.** Golyga weithrediad *sydyn* a *grymus*, Am yr ymadrodd "yspryd yr Arglwydd," gwêl nodiad, pen. iii. 12. **Yn ngwersyll Dan.**—Gellir ei ddarllen, **Mahaneh Dan**; enw priodol ar le neillduol. Yn ol pen. xviii. 11, 12, dyma wersyllfan gyntaf y Daniaid yn eu hymfudiad i'r gogledd, ac yr ydoedd "y tu ol i Ciriath-Jearim." Dywedir yma ei fod "rhwng Sorah ac Estaol." Tybir yn lled gyffredinol mai *Eshûà* ydyw Estaol, lle tua dwy filldir i'r dwyrain o Sorah (gwêl adn. 3); ac fel Sorah, eistedd yn bentref clai bychan ar lethr gogleddol dyffryn Sorek (*Wady Surar*), a Bethsemesh a Timnath yr ochr ddeheuol i'r dyffryn. Rhwng y ddau le—Sorah ac Estaol—yr oedd "gwersyll Dan." Gellid meddwl ei fod yn lle cadarn, caerog, efallai, lle yr amddiffynai milwyr Dan eu hunain rhag ymosodiadau parhaus y Philistiaid; ac yma, yn nghanol hên ryfelwyr y llwyth, y dygwyd Samson i fyny, ac y dechreuodd deimlo cynhyrfiadau yspryd yr Arglwydd; ac yma, yn y diwedd, y dygwyd ef i'w gladdu yn meddrod Manoah ei dad (pen. xvi. 31). Cymerai y cynhyrfiadau hyn, o bosibl, y ffurf o eiddigedd llosgedig oherwydd darostyngiad ei frodyr, a chynlluniau er eu gwaredu. Cymharer Act. vii. 23—25.

---

## PENOD XIV.

A SAMSON a aeth i waered i Timnath; ac a ganfu 1
wraig yn Timnath, o ferched y Philistiaid. Ac efe a 2

---

(b) *Samson yn Dechreu ar ei Waith* (pen. xiv. 1—20).

PEN. xiv.—*1—4.—Samson yn deisyfu gwraig o ferched y Philistiaid. 5—9.—Yn lladd llew ar y ffordd, ac yn cael mêl yn ei ysgerbwd. 10—14.—Ei wledd briodas a'i ddameg. 15—18.—Ei wraig yn datguddio ei ddameg. 19, 20.—Yntau yn lladd deng wr ar hugain o'r Philistiaid, ac felly yn talu ei ddyled.*

1, 2. **Aeth i waered i Timnath.**—Mae dau le yn dwyn yr enw—(1) Timnath (*Tibna*), rhyw wyth neu naw milldir i'r de-orllewin o Bethlehem, ac yn rhandir Judah (Jos. xv. 10, 57). (2) Timnath (*Tibneh*), lle tua phedair milldir i'r de-orllewin o Sorah (pen. xiii. 2), a thua dwy filldir i'r gorllewin i Bethsemes. At yr olaf, yn ddiamheu, y cyfeirir yma. Yn gyffelyb i Sorah ac Estäol, fe'i rhoddwyd ar y cyntaf i lwyth Judah, ond fe'i trosglwyddwyd, ar ol hyny, i lwyth Dan (Jos. xv. 10; xix. 43); ond y tebyg ydyw na chymerwyd hi erioed oddiar y Philistiaid. Yma yr oedd Judah mab Jacob yn cneifio ei ddefaid (Gen. xxxviii. 12, 13, 14); a'r fath ydyw yr argraph o wirionedd a geir ar wyneb hanesion y Beibl, fel y dywedir yno am Judah ei fod yn myned "i fyny," tra y dywedir yma am

ddaeth i fyny, ac a fynegodd i'w dad ac i'w fam, ac a
ddywedodd, Mi a welais wraig yn Timnath o ferched y
3 Philistiaid: cymerwch yn awr hono yn wraig i mi. Yna
y dywedodd ei dad a'i fam wrtho, Onid *oes* yn mysg
merched dy frodyr, nac yn mysg fy holl bobl, wraig, pan
ydwyt ti yn myned i geisio gwraig o'r Philistiaid dïen-
waededig? A dywedodd Samson wrth ei dad, Cymer hi
4 i mi; canys y mae hi wrth fy modd i. Ond ni wyddai ei
dad ef na'i fam mai oddiwrth yr ARGLWYDD *yr oedd* hyn,

---

Samson ei fod yn myned "i waered." Y rheswm, wrth gwrs, ydyw fod y ddau yn cychwyn o safleoedd gwahanol. I ddangos priodoldeb y dywediad "a ddaeth i waered" yn hanes Samson, nid rhaid ond dyweyd fod Sorah tua 1500 o droedfeddi uwchlaw y môr; tra nad oedd Timnath ond tua 750. Yr oedd raid iddo ddisgyn i lawr drwy ddyffryn Sorec, ac yna esgyn ychydig i'r ochr gyferbyniol iddo. Mae yr ŷd i'w weled eto yn ymdòni ar waelod y dyffryn, a'r olewydd-lanoedd a'r gwinllanoedd yn gwisgo ei ystlysau; ac, efallai, mai pan yn dawnsio yn agos i un o'r gwinllanoedd hyn, fel y gwelwyd morwynion Siloh gan y Benjaminiaid (pen. xxi. 21), y gwelodd Samson gyntaf ei wraig, a Dalilah ar ol hyny. **O ferched y Philistiaid.**—Gwir nad ydoedd y Philistiaid wedi eu nodi yn mysg y cenedloedd hyny y gwaherddid i Israel wneyd cyfathrach â hwynt (Ex. xxxiv. 11—16; Deut. vii. 1—4), ac na roddasid gwaharddiad anunion-gyrchol, ychwaith, fel gyda'r Ammoniaid a'r Moabiaid (Deut. xxiii. 3); eto, prin y buasai unrhyw Israeliad cydwybodol, yn neillduol ac yntau yn Nazaread i Dduw, yn gwneuthur y fath ddewisiad, oherwydd fod y Philistiaid, i bob pwrpas ac amcan, wedi dyfod, erbyn hyn, yn elynion marwol i Israel, ac felly i gael eu hystyried yn hollol ar yr un tir a'r Canaaneaid. Y mae yr holl hanes yn cario ar ei wyneb wersi cryfion o gondemniad ar briodasau anachaidd o'r fath, ac nid ydyw y daioni rhagluniaethol a ddeilliodd i Israel yn penderfynu dim am natur ymddygiad Samson.

3, 4. **Merched dy frodyr.**—Rhai o fewn ei dylwyth, neu ei lwyth ei hun. **Philistiaid dienwaededig.**—Defnyddir ef yma fel ymadrodd o ddiraddiad. Gwêl 1 Sam. xiv. 6; xvii. 26; xxxi. 4. Cymharer hefyd Act. xi. 3. **Cymer hi i mi.**—Lleferir fel hyn yma ac yn adn. 2, oherwydd yn y Dwyrain, yr arfer ydyw i rieni y priodfab i gario y drafodaeth yn mlaen, a thalu y gynysgaeth angenrheidiol (Gen. xxxiv. 12) yn nghyda rhoddion i gyfeillion. Gwêl Ex. xxii. 16, 17. Am hyny lleferir yn fynych am dadau yn cymeryd gwragedd i'w meibion (Ex. xxxiv. 16; Neh. x. 30). **Wrth fy modd i.**—Yn llythyrenol, **yn uniawn yn fy ngolwg.** Y mae dilyn ei lygaid mewn dewisiad o'r fath yn anheilwng o Nazaread; ac nid ydyw un amser yn dibenu yn dda. **Oddiwrth yr Arglwydd.**—Nid ydym i ddeall ei fod oddiwrth yr Arglwydd, yn yr ystyr fod Duw yn cwbl gymeradwyo y dewisiad; eithr yn yr ystyr ail-raddol hono, pan y dywedir fod Duw, er cyrhaedd amcanion ei lywodraeth foesol, yn rhoddi cyfeiriad i ddyn i gwrs penodol, nad ydyw ynddo ei hunan yn uniawn; ond cwrs ag y buasai ei dueddfryd drygionus,

mai ceisio achos yr oedd efe yn erbyn y Philistiaid: canys
y Philistiaid oedd y pryd hwnw yn arglwyddiaethu ar
Israel. Yna Samson a aeth i waered, a'i dad a'i fam, i 5
Timnath; ac a ddaethant hyd winllanoedd Timnath: ac
wele genaw llew yn rhuo yn ei gyfarfod ef. Ac yspryd yr 6
ARGLWYDD a ddaeth yn rymus arno ef; ac efe a holltodd
*y llew* fel yr holltid mŷn, ac nid *oedd* dim yn ei law ef:
ond ni fynegodd efe i'w dad nac i'w fam yr hyn a wnelsai.
Ac efe a aeth i waered, ac a ymddiddanodd â'r wraig; ac 7
yr oedd hi wrth fodd Samson.

---

pe yn cael ei gadael iddi ei hunan, yn cymeryd cyfeiriad cyfartal gyfeiliornus. Dirgelwch mawr ydyw y modd y mae Duw sanctaidd a phur yn cario yn mlaen ei amcanion drwy gynlluniau a gweithredoedd drygionus plant dynion; ond y mae y Beibl yn llawn o'r gwirionedd hwn. Gwêl Jos. xi. 20; 1 Bren. xii. 15; 2 Bren. vi. 33; 2 Cron. x. 15; xxii. 7; xxv. 20. Mai ceisio achos.—Yn hytrach, darllener, **canys yr ydoedd efe yn ceisio achlysur**. Ni cheir y gair a gyfieithir "achos" yma yn un man arall yn y Beibl; ond ceir gair yn tarddu o'r un gwreiddyn yn 2 Bren. v. 7, ac yno hefyd cyfieithir ef yn "achos." Gellir deall y frawddeg hon —(1) am Dduw; ei fod yn ceisio achlysur, sef gwneuthur camymddygiad gwraig Samson, yr hwn a ragwelid ganddo ef, yn achlysur dinystr y Philistiaid. (2) Am Samson, ei fod yn ceisio pigo cweryl â'r Philistiaid. Prin y cydwedda y golygiad cyntaf â chymeriad Duw, a phrin hefyd y cydwedda yr ail â chymeriad Samson. Pe felly, byddai raid deall priodas Samson heb fod yn amgen na ffug. Er yr anhawsder yr ydym braidd yn gogwyddo yn ffafr y golygiad diweddaf, gan dybied y gallai yr ymadrodd "ceisio achlysur" fod yn ddesgrifiad cyffredinol, nid yn gymaint o'i amcanion priodasol, ag o'i holl hanes, paham y troes y pryd hwn ei wyneb i lawr tua gwlad y Philistiaid o gwbl. Mae gormod o duedd mewn rhai beirniaid ysgrythyrol, hwyrach, i osod Samson allan fel rhyw gawr cellweirus, yn llawn o fath o ddireidi dinystriol, ac yn cyflawni rhai o'i weithredoedd mwyaf dialeddol, gan chwerthin yn mhrofedigaethau ei elynion. Nid ydyw yr hanes, o'i ddeongli yn syml, yn ei bortreiadu felly; y mae yna elfen o ddifrifwch yn rhedeg drwy ei holl hanes. Gwir ei fod yn engraipht dda o genedl Israel, wedi ei neillduo gan Dduw o'r dechreuad, fel cenedl, ac wedi ei gwisgo, fel y dywed Balaam (Num. xxiii. 21—24) â nerth arbenig o'r Nefoedd, ac felly yn gallu gwneuthur gorchestion anhygoel (Deut. xxxii. 30, 42); eto yn fynych yn cyflawni y fath ynfydrwydd, ag a'u gwnelent yn wawd a chwerthiniad y cenedloedd cylchynol. Felly, y mae mwy o wendidau ac o wyrthiau, mwy o orchestion ac o ddiffygion, yn hanes Samson nag odid yr un o'r Barnwyr. Y Philistiaid oedd y pryd hyny.—Dengys yr ymadrodd hwn i'r hanes gael ei ysgrifenu ar ol i Israel fwrw ymaith oddiarnynt iau y Philistiaid; felly, y mae yn taflu adeg ysgrifeniad Llyfr y Barnwyr yn mlaen i ddyddiau y frenhiniaeth, efallai mor bell a dyddiau Dafydd.

5—7. A'i dad a'i fam.—Myned i waered i'w dyweddïo iddo; nid i'w briodi y waith hon; a thebyg, wrth gymharu adn. 5 a'r 10, nad aeth

8 Ac ar ol ychydig ddyddiau efe a ddychwelodd i'w
chymeryd hi; ac a drodd i edrych ysgerbwd y llew; ac
9 wele haid o wenyn a mêl yn nghorph y llew. Ac efe a'i
cymerth yn ei law, ac a gerddodd dan fwyta; ac a ddaeth
at ei dad a'i fam, ac a roddodd iddynt; a hwy a fwytasant:
ond ni fynegodd iddynt hwy mai o gorph y llew y cymer-
asai efe y mêl.

---

ei fam i'r briodas o gwbl. Cenaw llew.—Golyga y gair, yn ol yr Hebraeg, lew ieuanc bron yn nghyflawnder ei faintioli. Yr oedd bylchau mynydd-dir Judah yn llawn o fwystfilod ysglyfaethus. Yn yr iaith Hebraeg ceir pedwar gair i ddynodi y llew, a pharhaodd y llew i fod yn un o fwystfilod y wlad hyd ddyddiau y Croesgadwyr *(Crusaders)*. Gelwir un o bentrefi Judah "Lebäoth."—*y llewesau* (Jos. xv. 32; xix. 6). Mae yn deilwng o sylw fod y rhan amlaf o'r amgylchiadau gyda llewod, a grybwyllir yn yr Ysgrythyr, wedi cymeryd lle yn, neu yn agos i fynydd-dir Judah. Yma y lladdodd Dafydd lew ac arth (1 Sam. xvii. 34, 35), ac y lladdwyd y prophwyd o Judah gan lew ar y ffordd (1 Bren. viii. 24). Priodol iawn, gan hyny, ydoedd galw Judah yn "llew" (Gen. xlix. 9), a'r Hwn a ddisgynodd ohono yn "Llew o lwyth Judah." A ddaeth yn rymus arno ef.—Dyma y ferf a ddefnyddir fynychaf i osod allan ddylanwadau yspryd yr Arglwydd; ond gadewir allan yn fynych y gair "grymus." Cymharer adn. 19, pen. xv. 14. Hwn yw y gair a ddefnyddir yn hanes yspryd yr Arglwydd gyda Saul (1 Sam. x. 6, 10; xi. 6; xvi. 13). Ystyr lythyrenol y gair ydyw *tori drwodd*, ac awgryma fod yr yspryd yn cymeryd meddiant sydyn o'r dyn. Fel yr holltid myn.—Dengys hyn yr hawsder gyda pha un y cyflawnodd efe yr orchest, a hyny heb arf yn ei law. Lladdodd Dafydd a Benaiah, un o'i gedyrn, bob un lew (1 Sam. xvii. 34, 35; 2 Sam. xxiii. 20), a cheir hanes rhai o'r Arabiaid presenol yn lladd ambell i fwystfil ysglyfaethus, weithiau, gyda ffon; ond yma, fe laddodd Samson y bwystfil yn hawdd, a hyny gyda dwylaw moelion. Efallai na chaniateid i'r Israeliaid gario arfau y pryd hwn gan y Philistiaid (1 Sam. xiii. 19—22). A ymddiddanodd a'r wraig.—Bellach, yr ydoedd hi wedi ei dyweddïo yn ffurfiol iddo, y gynysgaeth a'r anrhegion wedi eu rhoddi, ac felly a rhyddid iddo i ymddiddan â hi. Hyd oni chymerai hyny le, cedwid y terfynau rhwng ieuenctyd, o'r ddau ryw, yn dra chyfyng yn y Dwyrain.

8, 9. Ar ol ychydig ddyddiau.—Yspaid yr amser rhwng adeg y dyweddïo ac adeg y briodas—yspaid yn amrywio o ychydig ddyddiau i fyny i flwyddyn. Ysgerbwd y llew.—Nid yr un gair ydyw hwn a'r gair a geir yn niwedd yr adnod hon, ac yn adn. 9; ac y mae y cyfieithwyr Cymreig, gyda'u craffder arferol, wedi cyfieithu hwn yn "ysgerbwd," a'r llall yn "gorph;" tra nad oes gan y cyfieithwyr Seisnig ond yr un gair am y naill a'r llall. Ystyr lythyrenol y gair "ysgerbwd" ydyw, *peth adfeiliedig*, wedi *syrthio i'r llawr*. Cyfeiria, nid at gelain ddrewedig, lawn o gnawd braenedig; ond y fath ydyw y gwres yn y wlad hono, fel y lleibia gwres yr haul yr holl wlybwr, yn nghorff pob creadur, cyn pen y pedair awr ar hugain ar ol ei farw, nes gadael y gelain yn "ysgerbwd," heb na malldod nac arogl arno. Hefyd, ceir gwenyn a mêl yn heigio y wlad i gyd

Felly ei dad ef a aeth i waered at y wraig; a Samson a 10
wnaeth yno wledd: canys felly y gwnai y gwŷr ieuainc.
A phan welsant hwy ef, yna y cymerasant ddeg ar hugain 11
o gyfeillion i fod gydag ef.
A Samson a ddywedodd wrthynt, Rhoddaf i chwi 12
ddychymyg yn awr: os gan fynegi y mynegwch ef i mi o
fewn saith niwrnod y wledd, ac a'*i* cewch; yna y rhoddaf
i chwi ddeg ar hugain o len-llieiniau, a deg pâr ar hugain
o ddillad: Ond os chwi ni fedrwch *ei* fynegi i mi, yna 13
chwi a roddwch i mi ddeg ar hugain o lèn-llieiniau,
a deg pâr ar hugain o wisgoedd. Hwythau a
ddywedasant wrtho, Traetha dy ddychymyg, fel y
clywom ef. Ac efe a ddywedodd wrthynt, Allan o'r bwyt- 14
awr y daeth bwyd, ac o'r cryf y daeth allan felysdra. Ac

---

(1 Sam. xiv. 30); a mynegir am danynt yn crwybro mewn hên geu-brenau ac agenau creigiau, a naturiol ydoedd iddynt gymeryd meddiant o ysgerbwd sych y cenaw llew ar fin y ffordd. Ac efe a'i cymerth yn ei law.—Nid y gair arferol am *gymeryd* a gyfieithir felly yma; eithr y mae y gair hwn yn cyfleu yr ystyr ddeublyg o *gymeryd allan o'r llew*, a'i *gymeryd yn ei law*. Naturiol oedd i Samson, wedi iddo gael ei hunan ar y llecyn lle y cawsai y fath waredigaeth o safn y llew, ddechreu meddwl am y waredigaeth a throi i weled a oedd yr ysgerbwd yno. Gwna yr Esgob Hall y sylw tarawiadol, mai wrth adgofio gwaredigaethau y Goruchaf—myfyrio ar y gwaredigaethau a gafwyd o safn profedigaeth, mai felly y ceir mêl allan ohonynt. Ond ni fynegodd iddynt.—Dichon na buasai ei rieni yn ei fwyta, pe yn gwybod o ba le y daethai, oherwydd ei fod yn aflan seremonïol; a hefyd gofala yr hanesydd am hysbysu hyn yma, ac yn adn. 6, er dangos mai drwy ei wraig, a hi yn unig, y daeth cyfrinach Samson yn wybyddus i'r Philistiaid.

10—18. Ei dad ef a aeth i waered.—Cyfeiria y crybwylliad am dad Samson yn myned i waered at ei fynediad, yn unol â'r arferiad, i hawlio y ferch yn wraig i'w fab. Canys felly y gwnai y gwyr ieuainc.—Yr oedd gwledd yn rhan hanfodol o'r seremoni briodasol (Gen. xxix. 22; Esth. ii. 18; Math. xxii. 2—4; xxv. 10; Luc xiv. 8; Dat. xix. 7, 9); ond tybir mai arfer y Philistiaid, ac nid yr Israeliaid oedd i'r priod-fab roddi y wledd. A phan welsant hwy ef.—Rhieni a chyfeillion y briod-ferch a feddylir yma. Darllena y LXX., *a phan ofnasant ef.* Ond darlleniad tra amheus ydyw. Nid ydyw yn debyg fod ei ofn eto wedi disgyn ar y Philistiaid, ac ni fuasai hyny yn gyson, ychwaith, â diwedd yr adnod, heb ei aralleirio, fel y gwneir gan rai, i *fod yn ei wylio ef.* Cyfeillion.—Yn Math. xi. 15, gelwir hwynt "yn blant yr ystafell briodas." Gan na ddaethai Samson a neb gydag ef, rhaid oedd dewis rhai o'r Philistiaid. Rhoddaf i chwi ddychymyg.—Yr oedd dychymygion fel hyn yn un o brif ddifyrion y gwleddoedd meithion hyn. Cyfieithir y gair yn "gwestiynau caled," yn 1 Bren. x. 1, ac yn "ddychymyg" yn Ezec. xvii. 2. Cyfeiria y gair Hebraeg at rywbeth wedi

15 ni fedrent ddirnad y dychymyg *mewn* tri diwrnod. Ac yn
y seithfed dydd y dywedasant wrth wraig Samson, Huda
dy wr, fel y mynego efe i ni y dychymyg; rhag i ni dy
losgi di a thŷ dy dad â thân: ai i'n tlodi ni y'n gwahodd-
16 asoch? onid *felly y mae?* A gwraig Samson a wylodd
wrtho ef, ac a ddywedodd, Yn ddïau y mae yn gâs genyt
fi, ac nid wyt yn fy ngharu: dychymyg a roddaist i feibion
fy mhobl, ac nis mynegaist i mi. A dywedodd yntau
wrthi, Wele, nis mynegais i'm tad nac i'm mam: ac a'*i*
17 mynegwn i ti? A hi a wylodd wrtho ef y saith niwrnod
hyny, tra yr oeddid yn cynal y wledd: ac ar y seithfed
dydd y mynegodd efe iddi hi: canys yr oedd hi yn ei flino
18 ef; a hi a fynegodd y dychymyg i feibion ei phobl. A
gwŷr y ddinas a ddywedasant wrtho ef y seithfed dydd,
cyn machludo yr haul, Beth *sydd* felysach na mêl? a pheth
gryfach na llew? Dywedodd yntau wrthynt, Oni buasai
i chwi aredig â'm hanner i, ni chawsech allan fy nychymyg.

---

ei *glymu*, ac felly yn anhawdd ei ddatod. Adroddir am rai brenhinoedd Dwyreiniol wedi cyngwystlo dinasoedd cyfain ar gael allan atebiad i ddychymyg. **Deg ar hugain o len-llieiniau.**—Yn hytrach crysau. Math o grysau o lian main drudfawr, a wisgid ar y corph noeth. Yn Es. iii. 23, cyfieithir yr un gair yn "llian meinwych." **Deg par ar hugain o ddillad.**—Mae y gair yn golygu *dillad drudfawr;* efallai wedi eu gwneyd o wlân, y rhai a wisgir gan y Dwyreinwyr yn ddillad uwchaf. Yn mhob un o'r lleoedd yr arferir y gair (Gen. xlv. 22; 2 Bren. v. 5, 22, 23) cyfeiria at ddillad costfawr, gogyfer âg amgylchiadau neillduol. **Allan o'r bwytawr.**—Y mae dychymyg Samson yn engraipht odidog o ddywediad cûdd *(riddle);* a braidd na thybiem, gyda'r eglurhad uchod ar gair "ysgerbwd" (gwel nodiad, adn. 8), nad allai fod gan y dychymyg gyfeiriad at Israel ar y pryd. Mêl a llaeth oeddynt arwyddion llwyddiant gwlad Canaan, ac yn awr wele ychydig lwyddiant yn dyfod o ganol "adfeilion" y genedl. Dyru y wledd a'r ddychymyg gip-drem i ni ar gyflwr cymdeithasol a theithi meddyliol yr oes hono. **Ac yn y seithfed dydd.**—Pair *trefn* y dyddiau a nodir yn y paragraph hwn beth dyryswch. Yr anhawsder ydyw fod yr hanesydd, yn adn. 15 yn cyfeirio at seithfed dydd y wledd, tra yn adn. 16 a 17 y gellid meddwl ei fod yn dyfod yn ol at yr hyn a gymerodd le ar y pedwerydd a'r pummed, a'r chweched dydd. I osgoi yr anhawsder, darllena y LXX., *ar y pedwerydd dydd*, yr hyn sydd lawer haws ei gysoni, ond nad oes digon o awdurdod dros y darlleniad. Dyfaliad arall ydyw darllen *chwe' diwrnod* yn niwedd adn. 14, yn lle tri; ni byddai hyny ond gwahaniaeth o un llythyren yn yr Hebraeg. Ar y cyntaf, gellid meddwl fod ymdrech yn cael ei wneyd o ddau gyfeiriad er cael allan allwedd dychymyg Samson—ei wraig o gywreinrwydd, a'r Philistiaid er mwyn y wobr. Ar y trydydd dydd (adn. 14) ymunodd y Philistiaid gyda gwraig Samson, er ceisio cael allan drwyddi hi. Ond ar y seithfed dydd (adn. 15) daethant yn fygythiol

Ac yspryd yr ARGLWYDD a ddaeth arno ef; ac efe a 19
aeth i waered i Ascalon, ac a darawodd ohonynt ddeg ar
hugain, ac a gymerth eu hysbail, ac a roddodd y parau
dillad i'r rhai a fynegasant y dychymyg: a'i ddigllonedd

---

ati, gan ddyweyd, oni chaffai hi allan y llosgid hi a thŷ ei thad â thân, bygythiad a gariwyd allan ar ol hyny (pen. xv. 6). A hi a wylodd . . . y saith niwrnod hyny.—Dullwedd Hebreig o lefaru ydyw enwi y rhif yn gyflawn, pryd na byddis yn golygu ond rhan yn unig ohono. Yn engraipht o hyn gwel 1 Sam. xvi. 10. Ond y mae yn dra naturiol i feddwl fod ei wraig, o'r dechreu, pe na buasai ond o gywreinrwydd yn unig, yn crefu am eglurhad ganddo, er nad ydoedd, hwyrach, yn wylo yr holl amser. Y mynegodd efe iddi.—Dyma esiampl o'r gwendid moesol oedd yn cyd-drigo â'r nerth goruwch-naturiol ydoedd yn nodweddu Samson. Beth sy' felusach na mel?—Maent yn ateb mewn ffordd ag oedd yn ceisio argraffu ar feddwl Samson mai cael allan y dirgelwch ohonynt eu hunain a wnaethant. Ond cenfydd Samson yn fuan pwy oedd wedi bradychu y gyfrinach, ac etyb hwynt mewn ymadrodd sydd yn cyfranogi o natur dychymyg—dywediad diarhebol—"Oni buasai i chwi aredig â'm haner i, &c." Cyfeiria yr ymadrodd at ddull yr amaethwyr yn nyffryn Philistia, hyd y dydd hwn, yn aredig, nid yn unig âg ychain, eithr â gwartheg, ac âg aneirod hefyd. Wedi diosg yr ymadrodd o bob ffugr, golyga fod Samson yn ystyried eu bod wedi gwneyd defnydd annheg o'i wraig ef, a'u bod felly, mewn gwirionedd, wedi fforffedio eu gwystl, a hithau wedi fforffedio ei ffafr.

19—20. A aeth i waered.—Y mae yn cael ei gymhell gan ryw fath o anrhydedd i gyflawni ei amod â hwynt. Yr un yspryd ag a'i cymhellodd i ladd y llew sydd yn disgyn arno i'w gymhell i hyn. Ascalon.—Yr oedd y lle hwn ryw bedair milldir ar hugain i'r de-orllewin o Timnath. Dichon fod Samson wedi ei ddewis oherwydd ei fod yn lle nodedig o elyniaethus i Israel. Gorwedd y lle ar làn y môr, rhyw ddeuddeg milldir i'r gogledd o Gazah. Yn ddiweddarach na hanesiaeth y Beibl, yn amser Rhyfeloedd y Groes, y daeth Ascalon i hynodrwydd mawr. Nid ydyw y lle yn awr, yn ol rhagfynegiadau y prophwydi (Zeph. ii. 4; Zech. ix. 5), ond pentref tlawd o fythod clai, yn cario fyth yr hên enw—*Askalân*. Ac a gymherth eu hyspail.—Cyfieithir y gair a ddarllenir yma "yspail" yn "arfau" yn 2 Sam. ii. 21. Oddiwrth hyn gellir casglu mai arfogion oedd y gwŷr a laddesid ganddo, a'u bod, fe ddichon, y pryd hwn ar gymeryd rhyw ymgyrch yn erbyn Israel. A'i ddigllonedd ef a lidiodd.—Nis gellir edrych ar Samson yn cyflawni hyn o dan gynhyrfiad o ymddial cnawdol, oblegid ymddengys na ddigllonodd ei lid ef hyd nes yr oedd y weithred wedi ei chyflawni; ac nid yn erbyn y Philistiaid yn gymaint yr enynodd ei lid, eithr yn erbyn ei wraig am fradychu ohoni ei gyfrinach ef. Felly, fe ddychwelodd i dŷ ei dad heb ei wraig. I'w gyfaill.—Un o'r deg ar hugain cyfeillion (adn. 11), yr hwn, yn ol seremoni y briodas, a elwid yn "arweinydd y briodas-ferch," ac yn Ioan iii. 29, a elwir yn "gyfaill y priod-fab." Ymddengys oddiwrth pen. xv. 1, er diced ydoedd Samson, na fwriadai dori y briodas. Ond dengys yr hanes y syniadau lleicion oedd gan y Philistiaid ar briodas; ac addysg amlycaf yr hanes ydyw condemniad ar Nazaread yr Arglwydd am ymgysylltu â hwynt. Ni

20 ef a lidiodd, ac efe a aeth i fyny i dŷ ei dad. A rhoddwyd
gwraig Samson i'w gyfaill ef ei hun, yr hwn a gymerasai
efe yn gyfaill.

---

ddeilliodd dim cysur *personol* i Samson o'r undeb, a gwaith Duw yn unig ydoedd tynu daioni *cyffredinol* o'r amgylchiad. Fel y sylwai yr Esgob Hall, gyda mesur o ffraethineb, ond yn llawn gwirionedd :—"Yr hwn nis gallodd llew ei orchfygu, a orchfygwyd gan ddagrau benyw. Pa ddiogelwch sydd i'r hwn fyddo a Philistiad yn ei fynwes? Bradychwyd Adda y dyn perffeithiaf, a Samson y dyn cryfaf, a Solomon y dyn doethaf gan weniaeth eu cymharesau. Fel nad oes yr un cysur mwy na chymhares ffyddlon; felly gwae yr hwn fyddo wedi ei briodi âg un o'r Philistiaid."

## PENOD XV.

1 AC wedi *talm* o ddyddiau, yn amser cynhauaf y gwenith,
Samson a aeth i ymweled â'i wraig â myn gafr; ac a
ddywedodd, Mi a äf i mewn at fy ngwraig i'r ystafell.
2 Ond ni chaniatâi ei thad hi iddo ef fyned i mewn. A'i

---

(c) *Samson a'r Philistiaid: Ychwaneg o Ddial o bob tu*
(pen. xv. 1—20).

PEN. xv.—*1—5.—Samson yn dial am roddi ei wraig i un arall. 6.—Y Philistiaid yn llosgi ei wraig a'i thad. 8.—Yntau yn eu taraw glun a morddwyd. 13.—Gwyr Judah yn ei ddal ac yn ei draddodi i'r Philistiaid. 14—17.—Yntau yn eu lladd â gen asyn. 18—20.—Ffynon Lehi.*

1, 2. Ac wedi talm o ddyddiau.—Yn llythyrenol, **ar ol dyddiau.** Yr un ymadrodd ag a geir yn pen. xiv. 8, ac a gyfieithir yno *ychydig ddyddiau.* Golyga yspaid o amser yn amrywio o fis i fyny i flwyddyn. Cynhauaf gwenith.—Y tymhor hau, ar gyfer y cnydau cynaraf, ydoedd yn niwedd y flwyddyn—yn mis Tizri (Hydref); yna heuid yn y gwanwyn ar gyfer cnydau ereill. Byddai yr haidd yn barod erbyn y Pasg, a'r gwenith erbyn y Pentecost (Exod xxxiv. 22). Disgynai yr adeg hon—cynhauaf y gwenith—yn enwedig yn y gwastad-diroedd, tua diwedd ein mis Ebrill ni, neu yn mlaen i'r rhan gyntaf o Fai: a byddai pobpeth, yr adeg hono, mor hylosg gan y gwres, fel na byddai eisieu ond gwreichionen i ennyn goddaith. Nodir yma yr adeg ar y flwyddyn, er taflu goleuni ar yr amgylchiadau dilynol a gofnodir yn adn. 5—y difrod a wnaethpwyd ar y cnydau. A myn gafr.—Dyma yr anrheg arferol ar achlysuron o'r fath (Gen. xxxvii. 17; Luc xv. 29): a hefyd, o bosibl nad oedd yma gydnabyddiaeth o du Samson o awydd am gymodi a'i wraig. Daw caredigrwydd a nwyd—nerth a gwendid ei gymeriad i'r golwg yn yr amgylchiadau hyn. I'r ystafell.—Ystafell y gwragedd—yr *Harêm*—rhan o babell, neu dŷ Dwyreiniol, na chaniateid i'r un mab fyned i mewn iddi dan boen

thad a lefarodd, gan ddywedyd, Tybiaswn i ti ei chasau
hi; am hyny y rhoddais hi i'th gyfaill di: onid *yw* ei
chwaer ieuangaf yn lanach na hi? bydded *hono* i ti, atolwg,
yn ei lle hi.
A Samson a ddywedodd wrthynt, Difeiach ydwyf y waith 3
hon na'r Philistiaid, er i mi wneuthur niwed iddynt. A 4
Samson a aeth ac a ddaliodd dri chant o lwynogod; ac a
gymerth ffaglau, ac a drodd gynffon at gynffon, ac a
osododd un ffagl rhwng dwy gynffon yn y canol. Ac efe 5
a gyneuodd dân yn y ffaglau, ac a'u gollyngodd *hwynt* i

---

marwolaeth, oddieithr iddo fod yn ŵr y tŷ, neu yn aelod o'r teulu. Nid oedd cynyg ei chwaer ieuangach na hi iddo yn ei lle ond esgusawd tlawd, a dirmyg ar Samson. Buasai yn anghyfreithlon i Israeliad dderbyn y fath gynygiad (Lef. xviii. 18). Y mae y gair "mi a'i rhoddais" yn air arferol i dad y ferch, gwaith yr hwn ydyw ei rhoddi mewn priodas (Gen. xxix. 19, 26; xxxiv. 16), megis y mae y gair "cymeryd" yn air priodol i'r gŵr fyddo yn priodi.

3—5. Wrthynt.—Sef wrth dad ei wraig, a'r rhai o'i amgylch. Difeiach.—Yn hytrach darllener yr holl frawddeg:—**Yn awr difai ydwyf tuagat y Philistiaid os gwnaf niwed iddynt.** Mae yma haner cyfaddefiad nad ydoedd ef ei hunan yn gwbl rydd oddiwrth fai o'r blaen; a'i fod yn rhwymedig yn ol deddfau llettygarwch i beidio a niweidio pobl Timnath pan y gwnaethant gam âg ef, am hyny yr aeth efe i Ascalon; ond yn awr y mae ei ddwylaw yn rhyddion, a gwel yn ymddygiad ei dad-yn-nghyfraith engraifft o ymddygiad y Philistiaid yn gyffredinol at Israel, am hyny penderfyna ymddial ar yr holl genedl. Dri chant o lwynogod.—Yn hytrach *Jackals* (Hebraeg *Shualim*; creadur rhwng y blaidd a'r llwynog *(Canis Aureus)*, y rhai ydynt yn gyffredin yn finteioedd gyda'u gilydd; ac nid pob un ar ei ben ei hun, fel y llwynog. Yn nyddiau Josua yr oeddynt mor lluosog, fel ag i roddi enwau ar leoedd; gelwid un lle yn Hasar-Shual—pentref y *Jackal* (Jos. xv. 29; xix. 3; 1 Sam. xiii. 17). Cydwedda yn dda â chymeriad Samson, ac â'i hanes yn lladd llew (pen. xiv. 6), i dybied ei fod yn heliwr cadarn. Ffaglau.—Math o fflamdyrch *(torches)*, a gyneuent yn araf, ac a enynid gan y gwynt, pan y rhedai y llwynogod. Tebyg fod y rhwymyn yn hir fel y gallent redeg gyda'u gilydd, ac eto yn rhyddion. Dyfais a ddefnyddiwyd lawer gwaith i bwrpas cyffelyb, yn ol hanesiaeth baganaidd; a thybiai rhai y gallai Samson fod yn hysbys ohoni fel y cyfryw. Ar fachlud haul gollyngai hwynt i lawr drwy y bylchau sydd yn rhandir Dan, i lawr i ganol y gwastadeddau ŷd oedd yn nhir y Philistiaid. Parai y boen i'r creaduriaid ymgreinio, ac felly enyn y tân, nes gyru yr holl wastadedd yn oddaith; ac nis gallai neb gynorthwyo ei gymydog oherwydd fod pob un yn awyddus i achub ei gnwd ei hun. Mewn defnydd oedd mor hylosg, buasai gwreichionen yn ddigon; ond bwriadai Samson ddial cyffredinol. Hyn oedd y rheswm iddo ddala cynifer o lwynogod. Hefyd, yr oedd angen am lawer o nifer oherwydd, er fod y meusydd, yn y wlad ohono, heb gloddiau na therfynau fel gyda ni; eto, oddiwrth adn. 5, gwelir fod peth o'r ŷd wedi ei gasglu yn "ddâsau,"

ydau y Philistiaid ; ac a losgodd hyd yn nod y dasau, a'r ŷd ar ei droed, y gwinllanoedd *hefyd*, *a'r* olew-wŷdd.
6 Yna y Philistiaid a ddywedasant, Pwy a wnaeth hyn? Hwythau a ddywedasant, Samson daw y Timniad ; am iddo ddwyn ei wraig ef, a'i rhoddi i'w gyfaill ef. A'r Philistiaid a aethant i fyny, ac a'i llosgasant hi a'i thad â thân.
7 A dywedodd Samson wrthynt, Er i chwi wneuthur fel
hyn, eto mi a ymddïalaf arnoch chwi ; ac wedi *hyny* y
8 peidiaf. Ac efe a'u tarawodd hwynt glun a morddwyd â

---

peth "ar ei droed," a peth ohono a'r "gwinllanoedd," a'r "olewyddlanoedd" yn cyfryngu, ac felly, yn gwneyd gwagleoedd rhwng rhai rhanau ohono a'u gilydd. Am yr anhawsder o ddal cynifer o lwynogod, dylid cofio fod y wlad yn heigio ohonynt ; oblegid ceir yno finteioedd, hyd yn nod yn awr, pan y mae arfau tân wedi difa llawer ohonynt. Hefyd, pryd nad oedd arfau tân yn y wlad, rhaid fod dynion lawer yn fwy medrus i'w dal gyda rhwydau a maglau, at yr hyn y ceir cyfeiriadau mynych yn y Beibl. Nid ydym, ychwaith, yn rhwym o gredu fod Samson dan orfod i wneyd hyn ei *hunan*, nac ar *unwaith*. Dichon ei fod, er nad efallai yn farnwr ar Israel y pryd hyn, eto yn un o ddylanwad mawr yn ei lwyth, ac felly â digon o gynorthwywyr, ac amser ganddo, i weinyddu y dialedd rhyfedd hwn ar orthrymwyr ei genedl.

6. **Yna y Philistiaid.**—Teimlid fod llosgi yr ydau y fath drychineb fel y penderfynodd y Philistiaid ddial ar yr achos anuniongyrchol o'r galanastra, sef ar dad-yn-nghyfraith, a gwraig Samson. Syrthiodd arni y trychineb y mynai hi ei osgoi (pen. xiv.), ag y bradychodd hi gyfrinach ei gŵr i'r perwyl hwnw. Cymaint ydyw ofn yr Arabiaid o dân, yn amser cynhauaf, fel y llosgant â than, hyd yn nod yr hwn yn ddamweiniol a rydd dân mewn maes. Dialodd y Philistiaid ar y Timniad a'i ferch gyda'r un elfen ag y dialodd Samson arnynt hwythau.

7, 8. **Er i chwi.**—Mae dau ddull o ddeall adn. 7. (1) Er i chwi wneuthur fel hyn, *h.y.*, cospi fy ngwraig a'i thad. Dyma y syniad a gyfleir gan y darlleniad arferol. (2) Neu ddeall fod Samson yn golygu llosgi ei wraig a'i thad yn weithred o elyniaeth yn ei erbyn ef yn *bersonol* ; felly y darlleniad fyddai, "*Os gwnewch y cyfryw bethau, myfi a ddielir arnoch, ac wedi hyny (yn unig)*, y *peidiaf*." Mae amser y ferf "ymddialaf" yn dangos bwriad wedi cwbl benderfynu arno yn meddwl Samson. **Glun a morddwyd a lladdfa fawr.**—Y mae yr Hebraeg yn fwy desgrifiadol, yn dyferu ymaith yr "a" o flaen "lladdfa fawr." Ceir dau eglurhad ar yr ymadrodd "clûn a morddwyd." (1) Ymadrodd diarebol o darddiad amheus, ond a thebygolrwydd ei fod wedi ei gymeryd oddiwrth ddarnau ebyrth, megis yn Ezec. xi. 3, 6, 7, 11 ; xxiv. 3, 4, 6. Y gair a gyfieithir yma "clûn," a gyfieithir yn Exod. xxix. 22, 27, ac mewn manau ereill, yn "ysgwyddog ;" a'r gair a gyfieithir yma "morddwyd," a gyfieithir gyda'r un gair yn Ezec. xxiv. 4 ; a gelwir ef yno yn un o'r "drylliau teg." Yn ol yr eglurhad hwn, meddwl yr ymadrodd yn y fan hon fyddai yr holl

lladdfa fawr: ac efe a aeth i waered, ac a arhosodd yn
nghopa craig Etam.
Yna y Philistiaid a aethant i fyny, ac a wersyllasant yn 9
Judah, ac a ymdaenasant yn Lehi. A gwŷr Judah a 10
ddywedasant, Paham y daethoch i fyny i'n herbyn ni?
Dywedasant hwythau, I rwymo Samson y daethom i fyny,

---

rai mawrion a galluog—yr holl ddarnau dewisol, fel y forddwyd a'r ysgwyddog yn mysg darnau yr aberth. (2) Ymadrodd cryf i osod allan laddfa fawr, nes bod eu cyrph yn ddarnau—clûn a morddwyd yn domenau ar eu gilydd. Felly, golyga rhai ei fod yn cyfeirio at y dull o ladd, neu y lleoedd ar eu cyrph lle y'u clwyfid. Yn nghopa craig Etam.—Darllena y LXX. yn lle "copa" *twll*, a'r *Vulgate*, *ogof*. Ond y darlleniad cywiraf ydyw, **Yr agen yn nghlogwyn Etam.** Yn Es. ii. 21, ceir yr un gair, a chyfieithir ef yno yn "copäu," a gwelir yno, yn gystal ag yn Es. lvii. 5, mai agenau o'r fath oedd amddiffynfeydd a llochesau naturiol y wlad. Cymharer 1 Sam. xiii. 6; 1 Bren. xviii. 13. Mae lleoliad Etam yn fater o ddyddordeb neillduol. Gellir casglu fod tri lle yn dwyn yr enw hwn yn y Beibl. (1) Yr Etam yn 1 Cron. iv. 32, yr un, fel y tybir, a lle a elwir yn awr *Aitun*, ychydig i'r de-orllewin o Hebron. (2) Yr Etam yn 2 Cron. ix. 6, yr un a phentref presenol *Urtas*, i'r deheu o Bethlehem, ac yn agos i Tecoah, gerllaw gerddi a llynau Solomon, yn rhandir Judah. Tybia rhai fod y ddau le hyn yr un lle; ond gellid meddwl oddiwrth gysylltiadau yr enwau fod yr un diweddaf bellder i'r gogledd o'r cyntaf. Cymer rhai hefyd fod yr un diweddaf yr un a'r Etam sydd yn yr hanes hwn. (3) Nid ymddengys fod yr Etam yn yr hanes hwn yn dref o gwbl; ond yn graig nodedig fel ymguddfan—"craig gref," ydyw yr enw a rydd Josephus arni. Rhaid ei bod hefyd yn y rhanbarth o'r wlad y gwnaeth Samson y rhan fwyaf o'i gampau ynddi, ac yn lle ag yr oedd yn briodol dyweyd ei fod yn myned "i waered" (adn. 8) wrth fyned iddi, ac yn briodol dywedyd (ymyl y ddalen, adn. 11), fod gwŷr Judah yn "disgyn" wrth fyned i'w ymofyn allan ohoni. Mae Conder yn gryf mai craig fawr, ar derfyn rhandir Judah a Dan, rhyw bum' milldir i'r de-ddwyrain i Sorah, ac yn agos i bentref a elwir yn awr *Beit Atab*, yw y lle. Etyb y lle hwn yn dda holl ofynion yr hanes. Ceir hi yn ngwaelod y wlad y gellir ei galw mewn modd neillduol yn "wlad Samson;" lle y ceir enwau ar leoedd cylchynol yn aros, megis Shemsun, Samat, Sanasin, a Samit, enwau sydd, yn ol Conder, i'w holrain yn uniongyrchol at Samson. Gyferbyn a'r graig y gorwedd Sorah ac Estäol, ar ystlys ogleddol dyffryn Sorek, a Timnath yr un ochr a hi, ar y tu deheuol i'r dyffryn. "Clogwyn" uchel o galchfaen caled ydyw, uwchben glyn dwfn, a thair o ffynonau bychain yn y gwaelod. Hefyd, y mae wedi bod yn ymguddfan oesol; canys y mae "agen" fawr tua haner cant o drodfeddi o hyd, yn arwain yn ddirgelaidd o dan bentref presenol *Beit Atab*, ac i'r ffynon sydd yn ei ymyl. Nid oes yr amheuaeth leiaf yn meddwl Conder nad dyma y lle, ac â hyn y mae Tristram yn cytuno. Gyda golwg ar leoliad Etam, y mae Keil o blaid y lle cyntaf a nodasom; Robinson o blaid yr ail, a Conder o blaid y trydydd.

9—13. Aethant i fyny.—Gair yn golygu ymdaith byddin o filwyr (Jos. viii. 1). Ac a ymdaenasant yn Lehi.—Desgrifiad o ddull

11 i wneuthur iddo ef fel y gwnaeth yntau i ninau. Yna tair
mil o wŷr o Judah a aethant i gopa craig Etam, ac a
ddywedasant wrth Samson, Oni wyddost ti *fod* y Philist-
iaid yn arglwyddiaethu arnom ni? paham gan hyny y
gwnaethost hyn â ni? Dywedodd yntau wrthynt, Fel y
gwnaethant hwy i mi, felly y gwneuthum inau iddynt
12 hwythau. Dywedasant hwythau wrtho, I'th rwymo di y
daethom i waered, *ac* i'th roddi *yn* llaw y Philistiaid. A
Samson a ddywedodd wrthynt, Tyngwch wrthyf, na
13 ruthrwch arnaf fi eich hunain. Hwythau a'i hatebasant
ef, gan ddywedyd, Na *ruthrwn:* eithr gan rwymo y'th
rwymwn di, ac y'th roddwn yn eu llaw hwynt; ond ni'th
laddwn di. A rhwymasant ef â dwy raff newydd, ac a'i
dygasant ef i fyny o'r graig.
14 A phan ddaeth efe i Lehi, y Philistiaid a floeddiasant
wrth gyfarfod âg ef. Ac yspryd yr ARGLWYDD a ddaeth

---

milwyr y Philistiaid yn gorymdeithio i fyny y dyffrynoedd, yna yn ymwasgaru yn finteioedd i chwilio am Samson. Defnyddir yr un ymadrodd am y Philistiaid yn 2 Sam, v. 18, 22. Am Lehi, gwel nodiad ar adn. 19. **A gwyr Judah.**—Dengys hyn y diraddiad mawr y syrthiasai y genedl iddo. Er dyddiau caethiwed yr Aipht, pryd y gwrthodasant Moses (Act. vii. 35), hyd yr adeg y gwrthodasant eu gwir Waredwr (Ioan xix. 15), nid oes engraifft gryfach o ddirywiad cenedlaethol nag a welir yma: a gesyd hyn gymeriad Samson mewn goleuni tra ffafriol. O'i gydmaru â sefylla mwyafrif mawr ei genedl, yr ydoedd yn wir Nazaread i Dduw. Cymharer 1 Sam. xiii. 7, 19. Daw mawrfrydigrwydd ei gymeriad hefyd i'r golwg yma; ni fynai ymladd â'i frodyr, er cymaint y llwfrdra a'r gwendid yspryd a ddangosent, a theimlai yntau, tra y caffai fywyd, fod gan yr Arglwydd waith iddo. **Paham y gwnaethost hyn a ni?**—Sef y lladdfa yn adn. 8. Tair mil o lwfriaid sydd yma yn dyfod i fyny i werthu eu rhyddhawr i ddwylaw eu gelynion. Pe buasai ond llwyth Judah yn ymuno â Samson, gallasent ymlid y Philistiaid i lawr i'w gwlad eu hunain, a meddianu eu tiriogaeth; ond y ffaith bob amser ydyw, fod yn well gan genedloedd, wedi iddynt gyrhaedd rhyw bwynt o ddirywiad cenedlaethol, i ymostwng yn wasaidd nag ymdrechu yn egnïol am ryddid. Dyma un o anhawsderau bywyd y Barnwyr, fod ganddynt i ymwneyd â dynion oeddynt wedi suddo i'r fath bydrni. Ystyr y "rhuthro" yn adn. 12 ydoedd "lladd," fel y gwelir oddiwrth adn. 13. Gwêl Barn. viii. 21; 2 Sam. i. 15; 1 Bren. ii. 29, 31, 34. **I fyny o'r graig.**—Ei ddwyn i fyny o'r hollt (adn. 8) yn y clogwyn, a'i arwain i fyny i wersyll y Philistiaid yn Lehi (adn. 14).

**14—17. A phan ddaeth.**—Er mwyn desgrifio yn fwy bywiog oruchafiaeth Samson, cymer yr adroddiad, a hyny i raddau yn sydyn, ffurf farddonol yn adn. 14. Yn ol eu dull arferol mewn brwydr, bloeddiai y Philistiaid (1 Sam. iv. 5; xvii. 20, 52), heb wybod fod yr un yspryd ag a'i

arno ef; a'r rhaffau *oedd* am ei freichiau a aethant fel llin
a losgasid yn tân, a'r rhwymau a ddatodasant oddiam ei
ddwylaw ef. Ac efe a gafodd ên asyn îr; ac a estynodd 15
ei law, ac a'i cymerodd, ac a laddodd â hi fil o wŷr. A 16
Samson a ddywedodd, A gên asyn, pentwr ar bentwr;
â gên asyn y lleddais fil o wŷr. A phan orphenodd efe 17
lefaru, yna efe a daflodd yr ên o'i law, ac a alwodd y lle
hwnw Ramath-lehi.

Ac efe a sychedodd yn dost; ac a lefodd ar yr Ar- 18
glwydd, ac a ddywedodd, Tydi a roddaist yn llaw dy was

---

cynhyrfasai o'r blaen (pen. xiv. 6, 9) yn myned i wneuthur mwy o wrhydri drwyddo y tro hwn. Aeth y rhaffau newyddion mor egwan i ddarostwng ei nerth ef a'r llin haner-llosgedig gan y tân, yr hwn a dŷr ar y cyffyrddiad lleiaf; mewn gair, toddasant ymaith oddiwrtho. **Gen asyn ir.**—Asgwrn gên asyn, newydd farw, a'r asgwrn a'r holl suddion ynddo—yn îr, ac felly heb fod yn frau gan henaint. Dyma y peth cyntaf y tarawodd ei law arno—"ei gleddyf o asgwrn"—ys dywed Milton, â'r hwn y gwnaeth efe fwy o wrhydri hyd yn nod na Samgar â'r îrai ychain (pen. iii. 31). **Fil o wyr.**—Tebyg fod y rhif hwn—mil o wŷr—yma, fel yn fynych yn y Beibl, yn rhifedi cyflawn, ac yn dynodi nifer fawr, ac wedi ei drosi drosodd megis o'r rhyfel-gân i'r hanes. Pwynt mwyaf tarawiadol yr amgylchiad ydyw y medr gyda pha un y troes Samson eu goruchafiaeth arno yn drychineb iddynt, a'i fod mewn dywediad haner gwawdlyd, anmhosibl ei gyfieithu, yn desgrifio canlyniadau y trychineb. **Pentwr ar bentwr.**—Yn llythyrenol, **pentwr, dau bentwr.** Anmhosibl trosglwyddo ffurf y dywediad, a bywiogrwydd nwyfus yr iaith, o'r naill iaith i'r llall, gan fod yma yr hyn a elwir chwareu ar eiriau; yr un gair yn yr Hebraeg yn gosod allan "asyn" a "phentwr." Daw yr un yspryd ag oedd yn dyfod i'r golwg yn ei ddychymyg (pen. xiv. 12—18) i'r golwg yn y dywediad haner-ffraeth hwn. Gwelir hefyd engreifftiau o ddywediadau cyffelyb mewn rhyfel-gânau ereill. Gwêl Exod. xv. 1; Barn. v. 1; 1 Sam. xviii. 6, 7. Mater o ddyfaliad hollol ydyw manylion y fuddugoliaeth hon; ond oddiwrth y geiriau, "pentwr ar bentwr," gellid meddwl mai nid ar un ergyd megis y tarawodd efe hwynt. Wrth weled y nerth goruwch-naturiol a amlygid ganddo, peth posibl fod y Philistiaid wedi eu taraw âg arswyd, ac yn ffoi, tra yntau yn eu hymlid dros y creigiau, a'r dibynau calchfaen, yn bentyrau ar eu gilydd. Yr oedd buddugoliaeth Samson yn gyflawniad llythyrenol o Lef. xxvi. 8. **Ramath-lehi.**—Gellir deall ystyr yr ymadrodd i olygu (1) *tafliad yr ên;* (2) neu *cyfodiad yr ên;* (3) neu yn fwy tebygol, *uwchder yr ên,* yn yr ystyr o enw priodol ar le neillduol. Am ei leoliad gwêl nodiad, adn. 19.

18—20. **Ac efe a sychedodd.**—Yr oedd lladd y "mil o wŷr" y fath waith, yn enwedig ag ystyried ei bod yn adeg mor boeth ar y flwyddyn, fel "y sychedodd yn dost." **Ac a lefodd ar yr Arglwydd.**—Yma y gwelwn y llinell grefyddol a redai drwy gymeriad Samson a'i ffydd yn Nuw (Heb. xi. 32), yn nghyda'i ymddibyniad arno Ef am nerth i waredu Israel. Rhed drwy y geiriau hefyd yr ymdeimlad ei

yr ymwared mawr yma: ac yn awr a fyddaf fi farw gan
19 syched, a syrthio yn llaw y rhai dïenwaededig? Ond
Duw a holltodd y cilddant *oedd* yn yr ên, fel y daeth allan
ddwfr ohono; ac efe a yfodd, a'i yspryd a ddychwelodd,
ac efe a adfywiodd: am hyny y galwodd efe ei henw En-

---

fod yn ymladd rhyfeloedd yr Arglwydd. Fel plant Israel, yn amser Moses yn yr Aipht (Exod. ii. 11—14; Act. vii. 27, 28), felly yr oedd y genedl y pryd yma hefyd yn hoffi byw mewn caethiwed, fel y buasent yn gadael i Nazaread yr Arglwydd i farw o syched oni buasai i Dduw dosturio wrtho. Y cil-ddant oedd yn yr en.—Y darlleniad cywir yn ddiau ydyw **y pantle oedd yn Lehi.**—Mae y gair Hebraeg *Machtesh*, a gyfieithir yma "cil-ddant," yn yr unig fan arall lle y digwydd yn y Beibl, yn cael ei gyfieithu "mortar" (Diar. xxvii. 22). Ystyr lythyrenol y gair ydyw *twll* neu *bant*, a cheir lle gerllaw Jerusalem—math o bantle gerllaw y ddinas yn cael ei alw yn "Machtes" (Zeph. i. 11). Ffansi yr esbonwyr Rabbinaidd, gan mwyaf, ydoedd ei ddeall am y twll yn yr ên, lle yr oedd y cil-ddant ynddo, yr hyn sydd yn arwain i'n cyfieithiad ni. Gwir y cyfieitha y LXX. ef *y twll oedd yn yr ên;* ond y mae yr awdurdodau blaenaf, a holl dôn y geiriau, yn nghyda'r ffaith fod y ffynon yn aros yn Lehi hyd ddyddiau yr hanesydd, yn myned yn erbyn y darlleniad arferol, ac o blaid y darlleniad diwygiedig. Ar yr Arglwydd *(Jehofa)* y llefodd Samson; ond Duw *(Elohim)* a agorodd y ffynon, i ddangos fod y wyrth wedi ei chyflawni gan Dduw fel Creawdwr a Chynaliwr. Gwyrth gyffelyb i'r un yn Horeb a Chades sydd yma (Exod. xvii. 6; Num. xx. 8, 11). Cymharer hefyd Gen. xxi. 19; Es. xli. 17—18. En-haccore, yr hon sydd yn Lehi.—Ystyr "En-haccore" ydyw *ffynon, yr hwn sydd yn llefain, h.y.*, ar Dduw; ac ystyr "Lehi" ydyw *gên*. Tybia rhai y gallai fod Lehi yn enw blaenorol ar y lle oherwydd fod y bryn yn debyg o ran ei ffurf i asgwrn gên; ond mwy tebygol o lawer ydyw fod yma gyfeiriad deublyg at y wyrth, yn enw y bryn a bodolaeth y ffynon; a bod yr enw Lehi wedi ei ddefnyddio o'r blaen gan yr hanesydd (adn. 9, 14), mewn math o ragolygiad am yr enw a dderbyniai y lle oddiwrth y wyrth. Awgryma yr ymadrodd fod y ffynon yn bod yn nyddiau yr hanesydd, a lleola yr hen draddodiadau hi i lawr yn agos i'r hên Gath *(Beitjibrîn);* ond mwy dyogel, o bosibl, dyweyd ei bod hi a Lehi yn mysg y lleoedd anhysbys. Gellir casglu fod Lehi yn rhanbarth o wlad, a ffynon En-haccore yn y rhanbarth hono. Gwnaeth Cab. Conder, fodd bynag, ddarganfyddiad rhyfedd, a ddichon fod yn taflu goleuni ar y fan. Tua saith milldir o *Beit Atab* (gwel nodiad, adn. 8), ac ychydig i'r gogledd-orllewin o Sorah, canfu fryn bychan, a ffynon wrth ei droed, yn dwyn yr enw *Ayun Abu Mehârib*—"Ffynonau lle y brwydrau;" ac yn eu hymyl canfu gapel Mahomedanaidd bychan wedi ei gysegru i *Sheikh Nedhir*—"y penaeth Nazareaidd." Yn gyfagos i'r deml fechan hon ychydig uwch i fyny, darganfu adfeilion yn dwyn yr enw hynod *Jsm Allah*—"enw Duw," yr hwn, yn ei fryd ef, sydd yn llygriad o *Esma Allah*—"Duw a wrandawodd," yr hyn, pe felly, sydd yn gyfeiriad amlwg at frwydr Ramath-lehi. Tebyg fod y "penaeth Nazareaidd" yn cyfeirio at Samson, a sicrhai yr Arabiaid i Conder y gelwid y ffynon wrth droed y bryn, weithiau, yn *Ayûn Kara*, amrywiad bychan o'r gair En-haccore. Ar ol bod yno eilwaith yn archwilio, ac wedi

haccore, yr hon *sydd* yn Lehi hyd y dydd hwn. Ac efe a 20
farnodd Israel yn nyddiau y Philistiaid ugain mlynedd.

---

mantoli yn deg yr holl draddodiadau yn ffafr lleoedd ereill, saif Conder yn ddiysgog at ei syniad am y lleoliad. Gwêl *Palestine Exploration Fund Quarterly Statement*, am Hydref, 1883, tudal. 182. Modd bynag, cred efe fod "gwlad Samson" yn llawn olion ohono mewn enwau ar leoedd, a thraddodiadau am ei orchestion wedi goroesi y canrifau hirion i gyd. **Efe a farnodd Israel.**—Ni nodir dim am dymhor swyddol Samson, ond ei hyd, a'i fod "yn nyddiau y Philistiaid." Tebyg i'r orchest ddiweddaf hon sefydlu megis ei hawl i'r swydd o farnwr, os nad ydoedd yn un yn flaenorol. Ond ymddengys na fu iddo lwyr waredu Israel o law y Philistiaid, er fod ei nerthoedd, fel llosg-fynydd, yn ymdori yn annisgwyliadwy arnynt yn awr ac yn y man. Gellid meddwl fod yr hanesydd fel pe buasai wedi bwriadu terfynu ei hanes gyda diwedd y benod hon, ac nid ydyw yr hyn a fynegir yn y benod nesaf ond hanes ei gwymp a'i farwolaeth; ni chafodd yr un waredigaeth i Israel wedi hyn, oddieithr yr un yn ei farwolaeth. Fel ei genedl, nid oedd llwyddiant yn dygymod âg ef; tewychodd ac aeth yn fras, gan anghofio Duw, craig ei iachawdwriaeth. Mynudau goreu Samson ydyw adegau ei gyfyngder, ond mewn hawddfyd yr ydoedd bob amser yn ymlygru.

---

## PENOD XVI.

YNA Samson a aeth i Gazah; ac a ganfu yno buttein- 1
wraig, ac a aeth i mewn ati hi. A *mynegwyd* i'r 2
Gaziaid, gan ddywedyd, Daeth Samson yma. A hwy a

---

(d) *Diwedd Samson* (pen. xvi. 1—31).

Pen. xvi.—*1—3.—Samson yn dianc o Gazah. 4, 5.—Dalilah yn ceisio ei hudo i fynegi iddi le ei fawr nerth. 6—14.—Yntau yn ei thwyllo deirgwaith. 15—20.—Hithau o'r diwedd yn llwyddo. 21.—Ei ddal, tynu ei lygaid, a'i roi i falu yn y carchardy. 22—31.—Ei ddial diweddaf ar y Philistiaid, ei farwolaeth, a'i gladdedigaeth.*

1—3. **Yna Samson.**—Darllener, **A Samson,** oblegid nid oes yn y fan hon unrhyw nodiad o amser, dim ond cysylltair yn unig. **Gazah.**—Prif-ddinas y Philistiaid y pryd hyny, a pharhä i fod hyd yn awr, o ran poblogaeth a phwysigrwydd, yr ail ddinas yn y wlad—yn ail yn unig i Jerusalem. Yn gyffelyb i Damascus, ceir cyfeiriadau mynych ati yn nghwrs yr hanesiaeth Ysgrythyrol o Genesis hyd Actau yr Apostolion. Y rheswm penaf am hyny ydyw ei safle. Hi ydyw y ddinas isaf, ar gŵr deorllewinol Palestina; ac felly mewn ystyr drafnidiol ar y ffordd fawr o ddyffryn y Nile i fyny i Syria, ac mewn ystyr filwraidd yn allwedd gwlad Canaan, oherwydd ei bod ar y brif-ffordd lle yr oedd ymherodraethau

gylchynasant, ac a gynllwynasant iddo, ar hyd y nos, yn
mhorth y ddinas; ac a fuant ddistaw ar hyd y nos, gan
3 ddywedyd, Y boreu pan oleuo hi, ni a'i lladdwn ef. A
Samson a orweddodd hyd haner nos; ac a gyfododd ar
haner nos, ac a ymaflodd yn nrysau porth y ddinas, ac yn

---

mawrion y Dwyrain, Assyria, Babilon a Phersia, bob amser yn cyfarfod â'r eiddo yr Aipht. Yn Gen x. 19, sonir am dani fel un o ddinasoedd "terfyn y Canaaneaid;" yn Deut. ii. 23, gelwir hi Azzah; ac yn Jos. x. 41; xi. 22; xiii. 3, enwir tiriogaeth Gazah fel un nad allai Josua ei chymeryd. Yn ol Jos. xv. 47, rhoddwyd hi i lwyth Judah, ac yn ol Barn. i. 18, meddianodd Judah hi, ond ni chadwodd hi yn hir, canys yn Barn. iii. 3; xiii. 1; xvi. 1, 21, cawn hi yn brif-ddinas y Philistiaid, a pharhaodd felly, dybygid, drwy amser Samuel, Saul a Dafydd, (1 Sam. vi. 17; xiv. 52; xxx. 1; 2 Sam. xxi. 15). Gwir y dywedir i Solomon feddianu Azzah (1 Bren. iv. 24); ond dywedir drachefn ddarfod i Hezeciah daraw y Philistiaid hyd Gazah (2 Bren. xviii. 8). Am y crybwylliadau am Gazah yn llyfrau y prophwydi, gwel Amos i. 6, 7; Zeph. ii. 4; Zech. ix. 5. Crybwyllir am dani hefyd ar ddychweliad yr eunuch yn Act. viii. 26. Gorwedd rhyw bymtheg milldir i'r de-orllewin o Ascalon, ac o fewn tair milldir i lân Môr y Canoldir, a'r holl ffordd o'r dref i'r porthladd (*Majuma*) yn llawn o olion ei henwogrwydd gynt. Ei henw presenol ydyw *Guzzeh*, yr ystyr ydyw *cadarn*. Cyfrifir ei phoblogaeth bresenol tua 18,000 (Conder); saith gant ohonynt yn rhyw fath o Gristionogion (Thomson), a'r gweddill yn Fahometaniaid. Golygir ei bod yn un o'r lleoedd mwyaf cynyddol yn y wlad. **Ganfu butein-wraig.**—Nid ydyw amcan ei fynediad i Gazah yn hysbys; ond ni ddywedir yma, fel yn pen. xiv. 4, fod hyn "oddiwrth yr Arglwydd." Darfu i'r Arglwydd oruwch-lywodraethu ei gariad at un o ferched y Philistiaid, yn y dechreu, i fod yn achlysur iddo i ddangos ei nerth; ond wedi iddo ddarostwng y cariad hwnw i fod yn buteindra, daeth yn achlysur ei gwymp. Fel y dywed Ambrose, "gallodd Samson hollti llew; ond nis gallai lindagu ei chwantau ei hunan. Efe a dorodd lyffetheiriau ei elynion; ond nid rhwymau ei flysiau ei hunan. Efe a losgodd gnydau rhai ereill, ond a gollodd ffrwyth ei rinwedd ei hun, oherwydd ymlosgi gan chwant a enynwyd gan un fenyw." **Ac a fuant ddistaw.**—Rhoddi eu hunain i fyny i orphwys, ar y dybiaeth na buasai Samson yn ceisio dyfod allan o'r ddinas cyn y boreu. Pe buasai y ceidwaid yn cyflawni eu dyledswyddau, ac nid syrthio i drwmgwsg, buasai yn anmhosibl iddo gario pyrth y ddinas ymaith heb yn wybod iddynt. Desgrifiad bywiog ydyw adn. 3 o'r orchest a wnaeth Samson ganol y nos hono. Yn hytrach na cheisio gwthio y drysau yn agored, efe a dynodd y pŷst o'r gwraidd, gan eu cymeryd, yn nghyda'r bâr croes, ar ei ysgwyddau i ben y bryn. Dylid cofio fod pyrth y dinasoedd Dwyreiniol yn gulion ac isel, fel y rhaid i farchog, ar geffyl, ostwng i lawr hyd at fwng ei anifail i fyned drwyddynt. Cyfeirir at hyny yn Salm xxiv. 7; Luc xiii. 24. Mae tref Gazah yn bresenol heb na chaerau na phyrth; ond dangosir olion un o'r hen byrth, wrth droed y bryn, ar du de-orllewinol y ddinas—porth ag y dywed traddodiad y cariodd Samson ei bŷst i ben y bryn. **I ben bryn.**—Yn hytrach, darllener **y bryn**, oblegid awgryma y geiriau yn amlwg fod y bryn yn adnabyddus, fel y cyfryw, yn nyddiau yr hanesydd. **Gyferbyn**

y ddau bost, ac a aeth ymaith â hwynt yn nghyda'r barr,
ac a'*u* goscdodd ar ei ysgwyddau, ac a'u dug hwynt i
fyny i ben bryn *sydd* gyferbyn â Hebron.
4 Ac wedi hyn efe a garodd wraig yn nyffryn Sorec, a'i
5 henw Dalilah. Ac arglwyddi y Philistiaid a aethant i
fyny ati hi, ac a ddywedasant wrthi, Huda ef, ac edrych
yn mha *le y mae* ei fawr nerth ef, a pha fodd y gorthrechwn
ef, fel y rhwymom ef i'w gystuddio: ac ni a roddwn i ti

---

**a Hebron.**—Gellir deall yr ymadrodd (1) *ar gyfer Hebron;* a chan fod Hebron tua deugain milldir o Gazah, anhawdd iawn meddwl mai dyma yr ystyr yma. (2) Neu gellir ei ddeall i olygu i *gyfeiriad Hebron*, yr hyn yn ddiau yw yr ystyr yn y fan hon. Yn Gen. xviii. 16, ceir engraifft o'r un ymadrodd yn cael ei ddeall yn gyffelyb. I'r dwyrain i Gazah y mae trum o fynyddoedd, yn rhedeg o'r gogledd i'r deheu, a'r uchaf ohonynt oll, yr hwn a saif ar ei ben ei hunan, i'r de-ddwyrain i'r dref, a elwir *El-Muntâr*. Gwir nas gellir gweled tref Hebron o'r fan hon, am y rheswm amlwg ei bod mewn pantle, ond gellir cael golwg ar y mynyddoedd o amgylch Hebron. Dyma safle draddodiadol y bryn; ac er nad oedd, efallai, fel yr oedd pyrth y ddinas ar y pryd, ond gwaith rhyw haner awr o gario ar ddrysau y porth, eto yr ydoedd yn orchest nas gallasai neb ond Samson ei chyflawni.

**4, 5. Dyffryn Sorek.**—Y mae y gair a gyfieithir yma "dyffryn," yn golygu yn llythyrenol nant, drwy yr hon y rhed afon ar lifogydd yn unig. Gwelir yr un gair yn Num. xxi. 12; 1 Sam. xv. 5. Arferir y gair weithiau am y nant sêch ei hunan, ac weithiau am yr afon a red drwyddi (1 Bren. xvii. 3). Lleolid y dyffryn gan yr hên draddodiadau gynt, i lawr ar y tu deheuol i Ascalon a Gazah; ond y mae yr ymchwilwyr diweddaraf yn ei roddi yn bur hyderus yr un a *Wady Sûrâr*—dyffryn sydd yn cychwyn y tu gogleddol i Jerusalem, gan redeg i lawr gyda Sorah ac Estäol ar ei ystlys ogleddol, a Bethsemes *(Ain Shems)* a Timnath ar ei ystlys ddeheuol, ac yn cyrhaedd i Fôr y Canoldir ychydig i'r gogledd i Jabneh *(Yebna)*. Hon yw y nant ag y mae braidd holl ddyfroedd mynydd-dir gorllewinol Judea yn rhedeg drwyddi i'r môr. Cadarnheir y lleoliad gan y ffaith fod adfeilion yn dwyn yr enw *Surîk* ar ochr ogleddol y dyffryn. **A'i henw Dalilah.**—Ystyr ei henw ydyw *crymedig, gwanaidd;* ond dealla rhai y gair fel yn golygu ymddangosiad corphorol lluniaidd a phrydferth. Cymerir yn ganiataol, gan y rhan amlaf o esbonwyr, mai un o'r Philistiaid ydoedd, er nad oes dim yn yr hanes yn profi hyny. Y mae yn anhawdd meddwl y buasai Samson, gyda'i holl wendidau, yn ymddiried cymaint i un o'i elynion. Hefyd gellid meddwl pe mai un o'r Philistiaid ydoedd, na buasai angen y fath wobr fawr er ceisio ei pherswadio i ddenu Samson i'w ddinystr. **Arglwyddi y Philistiaid.**—Gwêl nodiad, pen. iii. 3. **Yn mha le y mae ei fawr nerth ef.**—Darllener yn hytrach, **yn mha le,** neu, *drwy ba beth,* **y mae ei nerth yn fawr.** Tyb y Philistiaid yn ddiameu oedd fod ganddo rhyw swyn—rhywbeth yn cael ei gario ar ei berson, ac mai yn hwnw yr oedd dirgelwch ei gryfder. Yr oedd cymaint a hyny o wirionedd yn y syniad, fod y rhodd oruwch-naturiol o gryfder wedi ei chysylltu âg arwydd-lun corphorol, colli yr hwn a ganlynwyd ar

6 bob un fil a chant o arian. A Dalilah a ddywedodd wrth
Samson, Mynega i mi, atolwg, yn mha *fan y mae* dy fawr
7 nerth di, ac â pha beth y'th rwymid i'th gystuddio. A
Samson a ddywedodd wrthi, Pe rhwyment fi â saith o
wdyn irion, y rhai ni sychasai; yna y gwanychwn, ac y
8 byddwn fel gwr arall. Yna arglwyddi y Philistiaid a
ddygasant i fyny ati hi saith o wdyn irion, y rhai ni sych-
9 asent; a hi a'i rhwymodd ef â hwynt. (A chynllwynwyr
*oedd* yn aros ganddi mewn ystafell). A hi a ddywedodd
wrtho ef, *Y mae* y Philistiaid arnat ti, Samson. Ac efe a
dorodd y gwdyn, fel y torir edau garth wedi cyffwrdd *â*'r
10 tân: felly ni wybuwyd ei gryfder ef. A dywedodd Dalilah

---

unwaith gan golli y nerth. Gwyddai arglwyddi y Philistiaid, ys dywed yr Esgob Hall, yn bur dda yn mha le yr oedd *gwendid* Samson, onitê ni buasent yn defnyddio benywod i'w dwyllo; ond yn awr, y mae arnynt eisieu gwybod yn mha le y mae ei *nerth*. Fil a chant o arian.—Golygir yma *siclau* arian, a cheir yr un swm yn pen. xvii. 3. Dangosai mawredd y swm yr arswyd a gynyrchwyd gan Samson. Yn ol Keil yr oedd y swm yn gyfartal i £135; felly, y cyfanswm yn £675. Cyfrif ereill fod y sicl arian yn gyfartal i dri swllt, yr hyn a chwyddai y cyfanswm i £825.

6—9. A Dalilah a ddywedodd.—Cynygiodd Dalilah deirgwaith am gael allan ddirgelwch ei gryfder a methu (adn. 6—9; 10—12; 13—15); a'r pedwerydd tro, llwyddodd (adn. 17—20). Saith o wdyn irion.—Mae darlleniad ymyl y ddalen yn fwy cywir yn ol y gwreiddiol, **saith o reffynau newyddion.** Defnyddir y gair "irion" yma i olygu fod y llin, o ba un y gwnaed y rheffynau, heb orphen sychu, a chyfieithir yr un gair yn Gen. xxx. 37, mewn cysylltiad â gwïail, yn "wïail gleision," ac yn Num. vi. 3, mewn cysylltiad â grawnwin, yn "irion." Teg ydyw dyweyd fod tybiau ereill o berthynas i'r rheffynau hyn. (1) Golyga rhai mai math o wrŷsg plethedig o ganghenau tyner y gwinwydd, neu goed ereill oeddynt; (2) neu fath o gareiau plethedig o grwyn, neu ranau ereill o anifeiliaid, cyffelyb i'r gair a gyfieithir "llinyn" yn Job xxx. 11; Salm xi. 2, oeddynt. Nid ydyw tarddiad y gair yn rhoddi unrhyw gynorthwy i benderfynu, a chymhellir y darlleniad a fabwysiadwyd uchod gan yr awdurdodau goreu, a chydwedda yn dda â thôn yr hanes. Fel gwr arall.—Yn llythyrenol, fel un o ddynion, *h.y.*, fel dyn cyffredin. A hi a'i rhwymodd.—Mewn math o gellwair ymddangosiadol, fe ddichon; neu, efallai, ei fod yn cysgu, er na ddywedir hyny yn bendant hyd y drydedd waith (adn. 14). Mae yn amlwg nad ydoedd Samson yn deall eu bwriad; ac y mae yr un mor amlwg ei bod hithau yn meddwl llwyddo, onidê ni osodasai hi gynllwynwyr mewn ystafell i'w wylio. Ni wyddai Samson, bid sicr, am fodolaeth y cynllwynwyr; yr oedd y rhai hyny yn aros mewn "ystafell"—yn ystafell y gwragedd, o bosibl, rhan o dŷ dwyreiniol ydoedd yn ymguddfan ragorol. Y mae y geiriau yn ddesgrifiad byw iawn o'r olygfa; yr hudoles yn gwaeddi "Philistiaid, arnat ti, Samson," ac yntau yn ymysgwyd gan dori y rheffynau fel y torid edau a ddelid yn y fflam.

10—12. A rhaffau.—Ni fynegir pa beth ydoedd eu defnydd; yn

wrth Samson, Ti a'm twyllaist, ac a ddywedaist gelwydd
wrthyf: yn awr mynega i mi, atolwg, â pha beth y gellid
dy rwymo. Ac efe a ddywedodd wrthi, Pe gan rwymo y 11
rhwyment fi â rhaffau newyddion, y rhai ni wnaethpwyd
gwaith â hwynt; yna y gwanychwn, ac y byddwn fel gwr
arall. Am hyny Dalilah a gymerth raffau newyddion, ac 12
a'i rhwymodd ef â hwynt; ac a ddywedodd wrtho, *Y mae*
y Philistiaid arnat ti, Samson. (Ac *yr oedd* cynllwynwyr
yn aros mewn ystafell). Ac efe a'u torodd hwynt oddiam
ei freichiau fel edau. A Dalilah a ddywedodd wrth 13
Samson, Hyd yn hyn y twyllaist fi, ac y dywedaist gelwydd
wrthyf: mynega i mi, â pha beth y'th rwymid. Dywedodd
yntau wrthi hi, Pe plethit ti saith gudyn fy mhen yn nghyd
â'r we. A hi a'i gwnaeth yn sicr â'r hoel; ac a ddywed- 14
odd wrtho ef, *Y mae* y Philistiaid arnat ti, Samson. Ac
efe a ddeffrôdd o'i gwsg, ac a aeth ymaith â hoel y garfan,
ac â'r we.

A hi a ddywedodd wrtho ef, Pa fodd y dywedi, Cu 15
genyf dydi, a'th galon heb *fod* gyda mi? Teirgwaith
bellach y'm twyllaist, ac ni fynegaist i mi yn mha *fan y*
*mae* dy fawr nerth. Ac oherwydd ei bod hi yn ei flino ef 16
â'i geiriau beunydd, ac yn ei boeni ef, ei enaid a ymofidiodd

---

unig, awgryma y gair Hebraeg eu bod wedi eu *cordeddu*, ac yn *breiffion*, yr hyn a wna y gwahaniaeth rhyngddynt â'r rhai yn adn. 7. Fel edau.—Nid yr un gair sydd yma a'r un a geir—"edau garth"—yn adn. 9. Yno cyfeiria yr ymadrodd at edau fain, gordeddedig, eithr yma cyfeiria y gair yn benaf at y defnydd a wneid ohoni, sef edau i wnïo â hi.

13—16. Saith gudyn fy mhen.—Yn ddamweiniol cawn allan yma fod gwallt Samson yn arferol o gael ei blethu yn saith o gudynau. Dichon fod y rhif saith, fel rhif cysegredig, yn cyfeirio at y nerth dwyfol oedd ganddo. Y mae cryn anhawsder i egluro y ddyfais yma, (1) oherwydd tybir nad ydyw y desgrifiad yn llawn yma; (2) ac hefyd, fod amryw o'r ymadroddion hyn sydd yn desgrifio yr offer a'r gelfyddyd o wau, nad ydynt yn hysbys yn awr. Modd bynag, cyfeirir yma at y gwŷdd a ddefnyddir gan y merched i wau yn y Dwyrain, yr hwn ydoedd yn offeryn neillduol o syml yn cael ei osod ar ei ben, yn syth i fyny, a chŵr pellaf y wê yn ei sicrhau, yn y mur neu yn y llawr, gan hoel. Defnyddid math arall o wŷdd gan y dynion, yr hwn a osodid ar ei hyd, a charfan yn perthyn iddo, i ddirwyn y wê am dani (1 Sam. xvii. 7; 1 Cron. xi. 23; xx. 5). Gwir fod rhai yn golygu mai dyma y math y cyfeirir ato yn y fan hon, a bod yr ymadrodd "hoel y garfan" (adn. 14) yn cadarnhau hyny; ond gair hollol wahanol yw y gair a gyfieithir yma "carfan," i'r gair arferol am "garfan gwêhydd." Tybia Keil mai y grib, yr hon oedd yn rhan o'r gwŷdd, a'r hon nid ellid ei thynu ond drwy nerth mawr, a feddylir yma wrth garfan. Cyfieithia

17 i farw: Ac efe a fynegodd iddi ei holl galon; ac a
ddywedodd wrthi, Ni ddaeth ellyn ar fy mhen i: canys
Nazaread i Dduw *ydwyf* fi o groth fy mam. Ped eillid
fi, yna y ciliai fy nerth oddiwrthyf, ac y gwanychwn, ac y
18 byddwn fel gwr *arall.* A phan welodd Dalilah fynegi
ohono ef iddi hi ei holl galon, hi a anfonodd ac a alwodd
am bendefigion y Philistiaid, gan ddywedyd, Deuwch i
fyny unwaith; canys efe a fynegodd i mi ei holl galon.
Yna arglwyddi y Philistiaid a ddaethant i fyny ati hi, ac a
19 ddygasant arian yn eu dwylaw. A hi a wnaeth iddo
gysgu ar ei gliniau; ac a alwodd ar wr, ac a barodd eillio
saith gudyn ei ben ef: a hi a ddechreuodd ei gystuddio ef;
20 a'i nerth a ymadawodd oddiwrtho. A hi a ddywedodd,

---

ereill ef yn *hoel y gwŷdd*, gan gymeryd felly y gair a gyfieithir genym ni "carfan," i olygu yr holl offeryn. Golyga yr hanes, o'i ddarllen yn ngoleuni arferion Dwyreiniol, fod Dalilah yn gwau gyda'i gwŷdd, mewn congl o'r ystafell, a Samson yn cysgu, a'i ben ar ei gliniau—ystum arferol yn y Dwyrain—a'i bod hithau yn gwau cudynau ei ben i fewn i'r wê a weuid ganddi, fel rhan ohoni. Mae y gair "hoel" yr un a'r gair a geir yn pen. iv. 21, 22. Er i'r dyfeisiau ereill, fe ddichon, gael eu profi pan ydoedd yn cysgu, yma y dywedir gyntaf ei fod yn cysgu. Nid ydys i ddeall fod y treialon hyn yn dilyn eu gilydd yn sydyn; y tebyg ydyw fod dyddiau lawer yn cyfryngu rhyngddynt. Y drydedd waith hon, aeth Samson, fel dynion wrth bechu, yn gyffredin, yn beryglus o agos at ddirgelwch ei gryfder, a dylasai fod yn wers iddo rhag cellwair â'r ddawn ddwyfol a roddasid iddo.

17—20. Ac efe a fynegodd iddi.—Er methu, penderfynai Dalilah ddyfal-barhau; a chan wybod pa mor ddarostyngedig ydoedd Samson i'w chwant, hi a wnaeth gyfres o ymosodiadau arno, nes cael allan ddirgelwch ei gryfder. Ei enaid a ymofidiodd.—Yn llythyrenol, **a ymgryfhaodd**. Cymhwysir yr un gair at Dduw yn pen. x. 16; a cheir yr un ymadrodd mewn cysylltiad arall yn Num. xxi. 4. I farw.—Cymh. Math. xxvi. 38, gyda Gen. xxvii. 46; 1 Bren. xix. 4; Jonah iv. 3, 8. Ped eillid fi.—Yma efe a ddatguddiodd iddi ei holl galon. Adduned ei Nazareaeth, yr hon ydoedd i barhau dros ei holl oes, a fynegodd efe iddi. Ei wallt hir, cudynog, ydoedd yn arwydd-lun o'i Nazareaeth, ac yn wystl, o du Duw, y parheid iddo y nerth goruwch-naturiol tra na ddeuai ellyn ar ei ben. Am briodoldeb yr arwyddlun o wallt, fel elfen yn yr adduned Nazareaidd, gellir ystyried ei fod yn gosod allan fod y bywyd—yr holl fywyd, a bywyd yr oll o'r dyn—yn cael ei gysegru i'r Arglwydd, ac yn cael ei gadw rhag unrhyw gamddefnydd. Y gwinwydd, y rhai a adewid heb eu taclu, a'r rhai ni chesglid eu gwinwydd ar flwyddyn y Sabboth gorphwysdra i'r tir, ac ar flwyddyn y Jubili, a elwid yn Nazareaid. Dyna ystyr lythyrenol yr ymadrodd "ni thaclwyd" yn Lef. xxv. 5, 11. Felly gadewid perffaith ryddid i'r gwinwydd i ffrwytho, a chedwid eu ffrwyth rhag defnydd anghysegredig. Yr un modd yr oedd gwallt y

*Y mae* y Philistiaid arnat ti, Samson. Ac efe y ddeffrôdd o'i gwsg, ac a ddywedodd, Af allan y waith hon fel cynt, ac ymysgydwaf. Ond ni wyddai efe fod yr ARGLWYDD wedi cilio oddiwrtho.

Ond y Philistiaid a'i daliasant ef, ac a dynasant ei 21
lygaid ef, ac a'i dygasant ef i waered i Gazah, ac a'i

---

Nazareaid yn dangos *nerth* a *ffrwythlondeb*, a bod y rhai hyny yn gyfangwbl gysegredig i'r Arglwydd. A phan y byddai Nazaread, nad ydoedd ei adduned am ei oes, yn ymryddhau oddiwrth ei adduned, yr ydoedd i daflu gwallt ei Nazareaeth i dân yr hedd-aberth, ydoedd yn rhan o'r aberth a aberthid ar yr achlysur, i ddangos ei fod yn cyflwyno ei wallt yn ol i Dduw yn ddihalog. Ac a alwodd am bendefigion.—Yn hytrach, **arglwyddi**; yr un gair ag a geir yn adn. 5. Ac a ddygasant arian.—Darllener, **yr arian**, sef yr arian a addewsid ganddynt iddi os llwyddai (adn. 5). Yr oedd rhywbeth yn ei holl ymddygiad, a'i eiriau, yn dangos i Dalilah ei fod, y tro hwn, wedi mynegu iddi ei holl galon. A hi a wnaeth iddo gysgu ar ei gliniau.—Yr eglurhad ymarferol goreu, efallai, ar yr holl hanes, yn neillduol y rhan hon ohono, ydyw Diar. vii. 10—23. Ac a alwodd ar wr.—Yn hytrach, **y gwr,** sef y cynllwynwr oedd ganddi, rhag iddi, os llwyddai y cynllun, i fod ei hunan gyda Samson (adn. 9, 12). Ac o'r diwedd hi lwyddodd i'w ddarostwng. Anmhosibl i lygaid ddisgyn ar olygfa fwy pruddaidd na hon—Nazaread yr Arglwydd yn deffroi o'i gwsg, ar liniau putain, a'i nerth wedi ei adael, ac yntau heb wybod hyny! Wedi colli y dylanwadau dwyfol, wedi ei ddarostwng yn ei gymeriad, ac eto, dan ddylanwad yr hudoliaeth, yn anwybodol o hyny! Fod yr Arglwydd wedi cilio.—Yn yr hanes, priodolir nerth Samson yn barhaus i bresenoldeb yr Arglwydd (pen. xiii. 25; xiv. 6, 19; xv. 14). Nid yn ei wallt ynddo ei hun y trigai ei nerth goruwch-naturiol, eithr yn y ffaith fod yr Arglwydd gydag ef; ac yr oedd yr Arglwydd gydag ef tra y cadwai efe adduned ei Nazareaeth, o ba un yr oedd ei wallt yn arwydd-lun; a'r foment y cafodd ellyn gyffwrdd â'i ben, profai hyny fod cyfamod ei Nazareaeth wedi ei dori. Y mae yr ymadrodd hwn—fod yr Arglwydd wedi cilio—yn dra awgrymiadol. Yn adn. 17, dywedai Samson, "yna y cilia fy *nerth* oddiwrthyf;" ond yma dywed yr hanesydd, "fod yr *Arglwydd* wedi cilio oddiwrtho," yr hyn a ddengys nad ydoedd Samson yn edrych yn ddigon uchel ar y ddawn oruwch-naturiol oedd wedi ei hymddiried iddo, ac nad ydoedd yn sylweddoli, yn ddigon bywiog, mai presenoldeb yr Arglwydd ydoedd y ffynonell ohoni. Ceir gwersi lluosog a phwysig yn yr hanes. Perygl hunan-hyder, a'r pwysigrwydd o ymorphwys yn syml a chalonog ar yspryd yr Arglwydd sydd amlwg. Hefyd, dylid sylwi ar y cysylltiad a esyd Duw rhwng arwyddion allanol a doniau dwyfol; ac eto, ni ddylid mawrhau yn ormodol y berthynas hon, na'r doniau ynddynt eu hunain, oblegid yn ol y geiriau a ddyru Milton yn ngenau Samson (*Samson Agonistes*), "Pan roddes Duw i mi nerth, er dangos pa mor ansicr oedd y ddawn, fe'i crogodd yn fy ngwallt." Yr athrawon goreu i ni yn fynych yw ein gwendidau.

21, 22. A'i daliasant ef.—Yr ydoedd, bellach, druan, yn hollol at drugaredd ei elynion. Ar yr achlysuron blaenorol ni fynai y Philistiaid

rhwymasant ef â gefynau pres; ac yr oedd efe yn malu
22 yn y carchardy. Eithr gwallt ei ben ef a ddechreuodd
23 dyfu drachefn, ar ol ei eillio. Yna arglwyddi y Philistiaid
a ymgasglasant i aberthu aberth mawr i Dagon eu duw,
ac i orfoleddu: canys dywedasant, Ein duw ni a roddodd
24 Samson ein gelyn yn ein llaw ni. A phan welodd y bobl
ef, hwy a ganmolasant eu duw: canys dywedasant, Ein
duw ni a roddodd ein gelyn yn ein dwylaw ni, yr hwn

---

ddyfod allan o'u llochesau; eithr yn awr, wrth weled ei nerth wedi cilio, rhuthrent allan i'w ddal. Dynasant ei lygaid.—Golyga y gair eu tynu allan, yn y modd creulonaf—eu *tyllu* neu eu *cloddio allan.* Yn ol eu tyb hwy, yr oedd hyn y ffordd fwyaf effeithiol i'w lesteirio i wneuthur ychwaneg o ddrygioni. Am yr arferiad greulawn o dynu y llygaid, gwêl Num. xvi. 14; 2 Bren. xxv. 7; Jer. xxxix. 7. Yr hen Rabbiniaid a wnant y sylw ddarfod i Samson gael tynu ei lygaid oherwydd ei fod yn dilyn chwant y llygad; cafodd Absalom ei grogi gerfydd ei wallt, am ei fod yn ymffrostio yn ei wallt. I waered i Gazah.—Dygasant ef mor belled ag y gallent o ddyffryn Sorec, ac i un o'u hamddiffynfeydd cadarnaf, a mangre ei orchest a'i waredigaeth (adn. 1—3). Gefynau pres.—Rhwymau o bres er mwyn perffaith ddyogelwch. Golyga y gair rwymau ar gyfer y dwylaw a'r traed, neu, ar gyfer y ddau droed. Rhwymwyd y brenin Zedeciah yn gyffelyb (2 Bren. xxv. 7). Cymharer 2 Sam. iii. 34; Jer. lii. 11. Ac yr oedd efe yn malu.—Y mae yr amser sydd i'r ferf "malu" yn dangos mai dyma oedd ei waith cyson—ei fod wedi ei ddarostwng i wneyd y gwaith isel hwn yn barhaus. Dyma y gorchwyl iselaf a chaletaf, a rhoddid ef yn wastad i'r math isaf o gaeth-weision. Cymharer Ex. xi. 5 â'r xii. 29; Es. xlvii. 2; Galar. Jer. v. 13. Gwneyd y gorchwyl hwn oedd cospedigaeth y Rhufeiniaid a'r Groegiaid i'r carcharorion rhyfel mwyaf diraddiol, ac yn y Dwyrain, gwneir y gwaith, hyd heddyw, gan gaethion benywaidd, o'r dosbarth iselaf. Yn y carchardy.—Yn llythyrenol, **ty y rhwymedigion**—Gwêl Gen. xxxix. 20; ond ni cheir yr ymadrodd yn hollol fel y mae oddieithr yn Preg. iv. 14; Jer. xxxvii. 15; ac yn y manau hyny cyfieithir y gair yn "carchardy." Y mae pob brawddeg yn adn. 21 yn cyfleu rhyw elfen yn niraddiad Samson; ei ddal gan y Philistiaid, tynu ei lygaid, ei ddwyn i waered i Gazah, ei rwymo â gefynau pres, a'i ro'i i falu yn y carchardy. A ddechreuodd dyfu drachefn ar ol ei eillio.—Mae "ar ol" yn ddarlleniad anghywir yn y fan hon; gwell yw darlleniad ymyl y ddalen, **fel pan eilliwyd ef.** Ond cyfieithir yr ymadrodd gan rai i osod allan y syniad fod ei wallt wedi tyfu *o'r adeg yr eilliwyd ef.* Modd bynag, cyflëa y geiriau y syniad na adawyd mohono yn hir gan ras Duw iddo ei hunan. Dechreuodd edifarhau; ac yn nyfnder ei enaid, teimlai chwerwder yn herwydd iddo esgeuluso cyfamod ei Dduw. Dychwelodd calon a gwallt ei Nazareaeth. Yn ngeiriau pert yr Esgob Hall, "Tyfai ei wallt gyda'i edifeirwch, a'i nerth gyda'i wallt."

23, 24. Dagon eu duw.—Efe oedd duw cenedlaethol y Philistiaid. Portreiadid ef gyda chorph pysgodyn, a phen a dwylaw dyn (1 Sam. v. 4; 1 Cron. x. 10). Addolid ef fel y duw ag oedd yn peri i'r môr

oedd yn anrheithio ein gwlad ni, yr hwn a laddodd lawer
ohonom ni. A phan oedd eu calon hwynt yn llawen, yna 25
y dywedasant, Gelwch am Samson, i beri i ni chwerthin.
A hwy a alwasant am Samson o'r carchardy, fel y chwar-
euai o'u blaen hwynt; a hwy a'i gosodasant ef rhwng y
colofnau. A Samson a ddywedodd wrth y llanc oedd yn 26
ymaflyd yn ei law ef, Gollwng, a gâd i mi gael gafael ar
y colofnau y mae y tŷ yn sefyll arnynt, fel y pwyswyf
arnynt. A'r tŷ oedd yn llawn o wŷr a gwragedd; a holl 27
arglwyddi y Philistiaid *oedd* yno: ac ar y nen *yr oedd* yn
nghylch tair mil o wŷr a gwragedd yn edrych tra yr
ydoedd Samson yn chwareu. A Samson a alwodd ar yr 28
ARGLWYDD, ac a ddywedodd, O Arglwydd IOR, cofia fi,

---

heigio o bysgod. Ymddengys fod teml iddo yn Asdod, yn gystal ag yn Gazah, a cheir olion o'r addoliad a delid iddo, yn daenedig drwy y wlad, yn enwau y lleoedd, megis Bethdagon—Tŷ Dagon, &c. (Jos. xv. 41). Yr oedd y Philistiaid am i'r achlysur hwn i fod yn aberth diolch i'r eilun, ac yn wledd o orfoledd iddynt hwythau. A ganmolasant eu duw.—Dagon oedd prif wrthwynebydd Duw Israel (Deut. xxxii. 27), ac iddo ef y priodolent eu goruchafiaeth ar Samson, a theifl bôst annuwiol y Philistiaid oleuni ar y geiriau sydd yn dyweyd fod Duw yn amddiffyn gogoniant ei enw, &c. (Ezec. xx. 22; xxxvi. 20—23; Dan. v. 1—5).

25—27. A phan oedd eu calon yn llawen.—Yn llawen gan win, fel y gellir casglu. Gweler pen. xix. 6, 9, 22; Ruth iii. 7; 1 Sam. xxv. 36, &c. I beri i ni chwerthin.—Yn hytrach darllener, **fel y chwareuo o'n blaen ni**; *h.y.*, canu a dawnsio, fel y dengys yr un gair a ddefnyddir yn Ex. xxxii. 6, lle y defnyddir ef yn hollol yn yr un cysylltiad, sef ar ol gwledd yr eilun. Canlynid y dawnsio yn wastad gan gerddoriaeth offerynol a lleisiol. Am y defnyddiad o'r un gair, neu eiriau o'r un gwreiddyn, cymharer 1 Sam. xviii. 7; 2 Sam. ii. 14; vi. 5, 21; 1 Cron. xiii. 8; xv. 29, gyda 2 Sam. v. 16; Jer. xxx. 19; xxxi. 4. Gad i mi gael gafael ar y colofnau.—Cymerai arno flino wrth ganu a dawnsio, a chrefai gael gorphwys ar bwys y colofnau. Nid ydyw ein gwybodaeth am adeiladwaith Phœniciaidd y fath fel ag i'n galluogi i egluro dull y deml hon, a'i dinystr; oblegid fe dybir mai teml yr eilun ydoedd chwareudy ei addolwyr. Gellir casglu fod arglwyddi y Philistiaid o dan y tô, oddifewn i'r deml; ac ar nen wastad y deml, a gynhelid i fyny gan ddwy golofn, y rhai a safent, dybygid, yn agos i'w gilydd yn nghanol ffrynt yr adeilad, yr oedd tua thair mil o wŷr a gwragedd. Pwysai y rhai hyn, yn nghyda'r coed a'r ceryg, yn hollol ar y ddwy golofn; a phan y tynodd Samson hwynt, daethant i lawr gyda dinystr dychrynllyd.

28—30. O Arglwydd Ior.—Darllener, **O Arglwydd Jehofah.** Arfera Samson yn ei weddi dri enw ar Dduw, "Arglwydd" *(Adonai)*, "Ior" *(Jehofah)*, a "Duw" *(Elohim)*, yr hyn a geir yn fynych pan y bydd saint y Beibl, mewn mynudau o ddifrifoldeb mawr, yn rhoddi pwys neillduol ar enw Duw (Jos. xxii. 22; Salm l. 1). Y mae ei weddi yn

atolwg, a nertha fi, atolwg, yn unig y waith hon, O Dduw,
fel y dïalwyf *âg* un dïaledd ar y Philistiaid am fy nau lygad.
29 A Samson a ymaflodd yn y ddwy golofn ganol, y rhai yr
oedd y tŷ yn sefyll arnynt, ac a ymgynhaliodd wrthynt,
30 un yn ei ddeheulaw, a'r llall yn ei law aswy. A dywedodd
Samson, Bydded farw fy einioes gyda'r Philistiaid. Ac

---

cynwys anadl gwir ffydd ac ymostyngiad, gan ddychwelyd at yr Arglwydd, a'i gydnabod fel Llywodraethwr a Rheolwr, ac fel y Tragywyddol, yr hwn a ddatguddiodd ei hunan i Moses, a'r Hollalluog, yr hwn oedd abl i'w waredu yntau a'i gyd-genedl. Yn unig nid oedd Samson wedi dysgu y wers, "Myfi biau dial, myfi a dalaf, medd yr Arglwydd," yr hyn sydd i'w briodoli, i raddau mawr, i'r oes a'r amgylchiadau yr ydoedd efe ynddynt ar y pryd. Fel y dialwyf . . . am fy nau lygad.—Y darlleniad cywir ydyw, **fel y dialwyf . . . am un o'm dau lygad:** awgrym, dybygid, nas gallai unrhyw ddialedd gyrhaedd ond haner y golled a gawsai efe, yr hyn a ddengys ei deimladau yn ngwyneb ei golled; ac hefyd, sydd yn engraifft, yn ol Deon Stanley, o'r teimlad llywodraethol yn gryf yn angeu, fod ei dymher haner-ffraeth yn d'od i'r golwg yn ei ddialedd diweddaf. Ymaflodd.—Gair tra neillduol, ac a arferir yma am y waith gyntaf; ond a geir drachefn yn Ruth iii. 8 (ymyl y ddalen); Job vi. 18. Fe blethodd ei freichiau am y colofnau, fel i orphwys, eithr mewn gwirionedd, i ddwyn y dinystr ar ei elynion. Bydded farw fy einioes.—Defnyddir y gair "einioes," megis y defnyddir y gair "enaid," yn y Testament Newydd, mewn ystyr îs na'r gair "yspryd," i olygu yr egwyddor o fywyd sydd gan ddyn yn gyffredin iddo ef a'r anifeiliaid afresymol; ond mae yn amlwg y golygir yma einioes mewn undeb â'r yspryd—yr egwyddor îs mewn undeb â'r un uwchaf. Yr oedd ei einioes o'r dechreu wedi ei neillduo i wasanaeth Jehofah; ond yr oedd llawer o'i fywyd wedi myned yn ofer. Teimlai rwymedigaeth arno i offrymu y gweddill o'i fywyd i wasanaeth Duw, drwy farw er lleshâd ei wlad, ac er amddiffyniad i enw ei Arglwydd. Efe ydoedd gwaredwr swyddol ei bobl hyd ddydd ei farwolaeth (adn. 31); a theimlai alwad arno i geisio sicrhau ymwared i'w genedl, beth bynag a ddeuai o'i fywyd ef ei hunan. Gwyddai, pe cawsai fyw, y byddai iddo gario fyth i'w ganlyn ei ddallineb, fel arwydd o'i anffyddlondeb i Dduw, ac o oruchafiaeth ei elynion arno. Yn ei farwolaeth tynwyd ymaith oddiwrtho gywilydd ei bechod, a chafodd Duw Israel fuddugoliaeth ar ei elynion, ac ar eu duwiau. Yn ei fywyd yr oedd Samson yn ddychryn i'r Philistiaid, ond yn ei angeu fe ddinystriodd deml eu heilun; ac, yn y weithred ddiweddaf hon, fe amddiffynodd gymeriad Duw Israel yn erbyn Dagon, duw y Philistiaid. Y mae arddunedd gwirioneddol, hyd yn nod yn nirywiad a chwymp y wladwriaeth Hebreaidd, pan y mae un o'i Barnwyr rheolaidd diweddaf yn marw dros ei wlad! A syrthiodd y ty.—Rhaid fod yr adeilad yn eang i gynwys y fath nifer; ac yn ol ein dull ni o adeiladu, efallai fod yn anhawdd meddwl pa fodd y gallai tynu i lawr golofn neu ddwy achosi y fath ddinystr. Ond yr oedd tref Gaza wedi ei hadeiladu ar fryniau bychain, ac ar lethr un o'r rhai hyny, yn nghŵr gogledd-ddwyreiniol y dref bresenol, y tybia Dr. Thomson fod y deml hon wedi ei hadeiladu, canys felly, yn gyffredin, yr adeiledir temlau yn y Dwyrain. Gellid meddwl, hefyd, fod cynllun yr adeilad y fath, fel

efe a ymgrymodd â'*i* *holl* nerth; a syrthiodd y tŷ ar y
pendefigion, ac ar yr holl bobl *oedd* ynddo: a'r meirw y
rhai a laddodd efe wrth farw, oedd fwy nag a laddasai efe
yn ei fywyd. A'i frodyr ef, a holl dŷ ei dad ef, a ddaeth- 31
ant i waered, ac a'i cymerasant ef, ac a'*i* dygasant i fyny,
ac a'i claddasant ef rhwng Sorah ac Estaol, yn meddrod
Manoah ei dad. Ac efe a farnasai Israel ugain mlynedd.

---

wrth dynu i lawr y colofnau canol, fod yr holl adail yn treiglo i lawr y bryn, gyda dinystr. Dylid deall yr ymadrodd yn niwedd adn. 20, hwyrach, i olygu nid *nifer* y rhai a laddwyd yn gymaint a'u *sefyllfa*—yr oedd y lladdedigion yn cynwys prif ddynion y genedl a'u teuluoedd.

31. A'i frodyr ef.—Mae yr ymadrodd ei "frodyr ef," a "holl dŷ ei dad," yn golygu holl lwyth Dan, fel llwyth yn dyfod i gynorthwyo ei berthynasau agosaf i'w gladdu. Arferir yr ymadrodd, "tŷ ei dad," am lwyth o bobl, yn Num. i. 4; ii. 2; iii. 15, 20; xvii. 2; xviii. 1. Yr oedd raid cael nifer lled fawr o bobl i anturio i ganol y Philistiaid i gyrchu corph eu prif elyn. Ond y mae yn amlwg fod hon yn ergyd ddinystriol i'r Philistiaid, ac yr oeddynt, nid yn unig wedi eu taflu i ddyfnder galar am eu prif ddynion, eithr hefyd wedi eu taraw âg ofn Duw Israel, drwy yr Hwn y gwyddent y gwnaethai Samson y dinystr hwn. Daw llwyrder buddugoliaeth Samson i'r golwg yn y ffaith fod ei frodyr yn gallu gwneyd math yn y byd o angladd iddo, heb son am arŵyl cyhoeddus, fel yr un a geir yma, a hyny yn hollol ddiwrthwynebiad. Yn meddrod ei dad.—Awgryma y geiriau hyn fod ei dad wedi marw. O ddyddiau Gedeon i waered nodir yn fanwl feddrodau y Barnwyr; ond ni cheir, yn hanes yr un ohonynt, ddesgrifiad mwy tarawiadol nag a geir yma—ei frodyr a'i lwyth yn cludo, ar eu hysgwyddau, gorph marw eu harwr "i fyny" ar hyd llethrau serth ei fryniau genedigol, i'w gladdu "rhwng Sorah ac Estäol," lle y gorweddai wrth ochr ei dad, yr hwn, gydag ymffrost tadol, a wyliasai yn fanwl ei orchestion boreuol. Felly y bu farw, ac y claddwyd, y diweddaf o'r gyfres reolaidd o Farnwyr y ceir eu hanes yn y llyfr hwn.

---

## RHAN III.—YR ATTODIAD (PEN. XVII.—XXI.).

Diweddglöir Llyfr y Barnwyr gydag atodiad, yn cynwys darluniadau sydd yn rhoddi cipdrem i ansawdd cymdeithas yn Israel, yn yr adeg foreu hono. Saif gwahanol ranau Llyfr y Barnwyr, yn eu perthynas â'u gilydd, fel y canlyn:—Desgrifia yr *adran arweiniol* yr amgylchiadau y tarddodd gorchestion y gwahanol Farnwyr ohonynt; yr angenrheidrwydd am danynt; a phaham y cyfododd yr Arglwydd y fath ddynion rhyfedd. Yn y *prif adroddiad* ceir hanes eu gweithredoedd nerthol o ymwared i Israel: ac yn yr *atodiad* hwn, ceir desgrifiad byw o yspryd yr oes, fel yr ydoedd i'w weled yn ystod cyfnod y Barnwyr. Nid oes perthynas uniongyrchol rhwng yr amgylchiadau hyn â'u gilydd; a pherthynant, o ran amser, i ddechreu cyfnod y Barnwyr, efallai cyn marwolaeth Josua, neu yn fuan ar ol hyny. Ond y mae y ffaith fod amgylchiadau o'r fath wedi eu rhoddi ar gof a

chadw, a hyny gyda'r fath fanylwch, yn profi nad oedd dylanwad dysgeidiaeth Moses, a llenyddiaeth yr Aipht, wedi cwbl ddiflanu o fysg y genedl. Ar ol hyn, daw tlodi llenyddol Israel i'r golwg yn gymaint ag nad oes ond ambell fflachiad o orchestion gwladgarol fel yr eiddo Deborah, Gedeon, Jephthah, a Samson, wedi eu cofnodi, ac felly y parhaodd pethau hyd gyfodiad Samuel ac Ysgolion y Prophwydi. Er i'r amgylchiadau a gofnodir yn yr atodiad gymeryd lle yn moreu cyfnod y Barnwyr, eto, dodir hwynt i mewn fel hyn yn niwedd y llyfr, oblegid nas gallesid eu gweithio i mewn yn naturiol i hanes cyflawn y cyfnodau blaenorol yn y llyfr, ac oherwydd eu bod yn dal cysylltiad, nid â rhyw un Barnwr neillduol, ond â'r oll, fel y taflant oleuni ar natur y drygau a lygrent Israel yn ystod holl gyfnod y Barnwyr, sef ymadawiad âg addoliad y gwir Dduw yn Siloh, ac agosrwydd gormodol y genedl at ffieidd-dra y Canaaneaid o'u hamgylch. Efallai mai yn nghofnodau hanesyddol llwyth Dan y cafwyd yr adroddiadau ohonynt. Hyn, o bosibl, sydd yn peri eu bod wedi eu rhoddi yn niwedd hanes Samson, oherwydd fod pen. xvii. a xviii. yn crybwyll y llwyth hwnw, ac am bethau wedi cymeryd lle rhwng Sorah ac Estäol, lle y claddwyd Samson. Gallai, hefyd, fod yr amgylchiadau wedi eu cysylltu â'u gilydd oherwydd fod perthynas rhyngddynt â Bethlehem-Judah. Cymharer pen. xvii. 7—9 â xix. 1, 2.

Gan fod yr amgylchiadau a gofnodir yn yr atodiad wedi cymeryd lle oddeutu yr un adeg a'r rhai a gofnodir yn mhenodau cyntaf y llyfr, a bod y rhai hyny, rai ohonynt, wedi cymeryd lle cyn marwolaeth Josua; felly, y tebyg ydyw, fod yr amgylchiadau hyn wedi cymeryd lle cyn marwolaeth Josua, neu yn fuan ar ol hyny. Dichon mai at yr ymfudiad hwn o eiddo llwyth Dan y cyfeirir yn Jos. xix. 47; Barn. i. 34. Ceir dau bwynt arall yn y penodau hyn yn cyfeirio at adeg foreu. Yn pen. xviii. 30, dywedir mai Jonathan, mab Gerson, mab Manasseh, ydoedd offeiriad Micah. Mae lle cryf i gasglu mai "Moses," ac nid "Manasseh," ydyw y gwir ddarlleniad (gwêl nodiad, pen. xviii. 30). Os felly, penderfyna hyn yr amser yn yr ail genedlaeth ar ol Moses. Hefyd, yn ol pen. xx. 28, ymddengys fod yr anwiredd yn Gibeah wedi cymeryd lle yn amser Phinees, mab Eleazer, mab Aaron, yr hyn a esyd yr amgylchiad hwnw drachefn yn yr ail genedlaeth ar ol Aaron. Yn pen. xiii. 25, sonir am "wersyll Dan"—Mahaneh-Dan—fel enw ar le neillduol, tra y rhoddir, yn pen. xviii. 12, achlysur yr enw, yr hyn a ddengys fod y cyfeiriad diweddaf, o ran ei amseryddiaeth, yn gynt na'r cyntaf. Am y cyfeiriadau yn y penodau hyn at adeg *ysgrifeniad* Llyfr y Barnwyr, gweler nodiadau ar pen. xvii. 6, 7; xviii. 30, 31, &c.

Rhenir yr atodiad yn naturiol yn ddwy ran, sef (1) eilun-addoliaeth Micah ac ymfudiad y Daniaid (pen. xvii.—xviii. 31); (2) Y gyflafan yn Gibeah, a chospedigaeth y Benjaminiaid (pen. xix.—xxi. 25).

### (1) Sefydliad Addoliad Delw Micah yn Dan (pen. xvii.—xviii. 31).

Adroddir hanes Micah yma, oherwydd ei gysylltiad âg ymfudiad rhan o lwyth Dan i fyny i ogledd y wlad, i sefydlu trefedigaeth newydd. Ond yn y cysylltiad hwn (1) ceir un o'r desgrifiadau mwyaf byw a manwl o deulu gwledig o'r amseroedd hyny; ac felly, o agwedd cymdeithas yn yr oes hono. (2) Gwelir hefyd mor llwyr ac mor foreu yr anghofiwyd y gyfraith gan y bobl, oherwydd y mae Micah yn llenwi rhan o'i dŷ â delwau cerfiedig, ac yn urddo, yn gyntaf, ei fab ei hun (pen. xvii. 5), ac yna Lefiad,

heb fod o'r llinach offeiriadol (pen. xvii. 12) yn offeiriad, gan droseddu, drwy hyny, yr Ail Orchymyn, yn nghyda chyfreithiau yr offeiriadaeth. (3) Ceir gweled yn yr hanes, hefyd, sefyllfa y Lefiaid, fel yr oeddynt wedi eu rhanu yn Jacob a'u gwasgaru yn Israel (Gen. xlix. 7). (4) Heblaw hyny, dangosir yn amlwg yn yr hanes yr anrhefn mawr a ffynai yn y tir, pryd nad oedd brenin ar Israel, eithr pob un a wnai yr hyn oedd uniawn yn ei olwg ei hun. Byddin o chwe' chant o arfogion yn tramwy o ddeheuorllewin y wlad i fyny i'r gogledd, gan yspeilio eiddo personol yn eu ffordd, a hyny heb fod, fel ar achlysuron dilynol (2 Sam. ii. 12; xx. 7, 14), dan gyfarwyddyd brenin na thywysog! Prin y gall y llywodraeth Dyrcaidd bresenol, er mor bydredig ydyw, oddef aflywodraeth mwy. Ac eto ni fynai y bobl hyn fod heb ddelwau ac offeiriad!

---

## PENOD XVII.

AC yr oedd gwr o fynydd Ephraim, a'i enw Micah. 1
Ac efe a ddywedodd wrth ei fam, Y mil a'r cȧn *sicl* 2
arian a ddygpwyd oddi arnat, ac y rhegaist *am danynt*, ac
y dywedaist hefyd lle y clywais; wele yr arian gyda mi,
myfi a'i cymerais. A dywedodd ei fam, Bendigedig

---

(a) *Pechod Micah* (pen- xvii. 1—13).

PEN. xvii.—*1, 2.—Ephraimiad o'r enw Micah yn lladrata mil a chant o siclau arian oddiar ei fam, ac yn eu hadfer yn ol iddi. 3—5.—Hithau, drwy ei gymhorth ef, yn eu defnyddio i sefydlu delwaddoliaeth. 6.—Anrhefn yr amseroedd hyny. 7—13.—Lefiad crwydrol yn dyfod i dŷ Micah, yntau yn ei gyflogi i fod yn offeiriad iddo.*

1—4. Mynydd Ephraim.—Gwêl nodiad, pen. iii. 27. Micah.—Ffurf Hebreig yr enw ydyw *Micâyehû* (tebyg i Jehofah); ond o adn. 5 yn mlaen gadewir allan y llafariad terfynol. Dyn ydoedd, fel y gellid meddwl, o lwyth Ephraim; ond ni fynegir dim am dano nac am ei deulu namyn yr hyn a geir yn yr hanes hwn. Neillduolrwydd yr hanes ydyw y desgrifiad a rydd o'r cymysgedd o oleuni a thywyllwch, teimladau crefyddol, a syniadau cyfeiliornus am Dduw a ffynent yn Israel y dyddiau hyny. Dechreua yr hanes gyda chyffesiad, o du Micah, ei fod wedi lladrata mil a chant o siclau arian oddiar ei fam, yr hon a gyhoeddasai felldith uwchben y lleidr, cyn gwybod ohoni, dybygid, mai ei mab ydoedd. Dyru Ewald wêdd hollol wahanol i hyn ar yr amgylchiad. Tybia efe mai cyfeiriad sydd yma at ryw ychydig o drafodaeth fasnachol rhwng Micah a'i fam—ei bod hi wedi ymddiried arian iddo i ryw anturiaeth fasnachol, a'i fod yntau yn awr yn eu dychwelyd. Ond, a chymeryd y geiriau yn eu hystyr naturiol, mae yn amlwg mai wedi eu lladrata yr oeddynt, a'i bod hithau wedi cyhoeddi math o felldith uwchben y troseddwr, a'i fod yntau, dan ddylanwad arswyd melldith ei fam, wedi dychwelyd yr arian yn ol. Y mil a'r can' sicl o arian.—Gwêl nodiad pen. xvi. 5. Y rhegaist.—Er cynal i fyny

3 *fyddych*, fy mab, gan yr ARGLWYDD. A phan roddodd efe
y mil a'r càn *sicl* arian adref i'w fam, ei fam a ddywedodd,
Gan gysegru y cysegraswn yr arian i'r ARGLWYDD o'm
llaw, i'm mab, i wneuthur delw gerfiedig a thoddedig: am
4 hyny yn awr mi a'i rhoddaf eilwaith i ti. Eto efe a dalodd
yr arian i'w fam. A'i fam a gymerth ddau càn *sicl* o arian,
ac a'u rhoddodd i'r toddydd; ac efe a'u gwnaeth yn
ddelw gerfiedig, a thoddedig: a hwy a fuant yn nhŷ

---

y ddamcaniaeth o drafodaeth fasnachol, dyru Ewald yr ystyr i'r gair hwn o dyngu er sicrhad, yr un modd a Matth. xxvi. 63. Ond y mae Keil yn gryf o'r farn mai rhegi yn yr ystyr o felldithio sydd yma. **Gan gysegru y cysegraswn.**—Nid ydyw amser y ferf "cysegru," o angenrheidrwydd yn golygu bwriad blaenorol i gysegru yr arian, cyn eu dychweliad yn ol; eithr yn hytrach, gweithred newydd ei chyflawni:– *Yr ydwyf yn datgan fy mod yn awr yn cysegru.* Oherwydd iddo ddychwelyd yr arian, y mae ei fam yn ei fendithio, a hyny mewn rhan, oblegid ei bod yn gweled yn ei ymddygiad fymryn o ofn yr Arglwydd; ond yn benaf oherwydd ei bod hi ar fedr cysegru yr arian i'r Arglwydd. **I'r Arglwydd.**—Yn ol yr Hebraeg, **I Jehofah.** Mae yn amlwg y golygai Micah, a'i fam, addoliad y gwir Dduw, ac nad oeddynt wedi troi at dduwiau dyeithr; eto, mor fuan yr oedd gorchymynion y gyfraith wedi cilio o gôf a meddwl y bobl! Yr oedd cysegru arian i'r amcan o wneyd delwau tawdd a cherfiedig o Dduw yn waharddedig gan y gyfraith (Ex. xx. 4; Lef. xxvi. 1; Deut. iv. 16; xxvii. 15). **Rhoddaf eilwaith i ti.**—Y meddwl yw eu rhoddi i'w mab tuagat ddodrefnu a llanw "tŷ y duwiau" (adn. 5) â delwau. **Delw gerfiedig a thoddedig.**—Ystyr y gair Hebraeg *pesel*, ydyw delw gerfiedig, gan nad pa un ai o bren, maen (Es. xliv. 15), neu fetel yr ydoedd (Es. xxx. 22); ac ystyr y gair *massecah* ydyw delw dawdd, *h.y.*, un wedi *ei thywallt allan.* Mae penderfynu y berthynas rhwng y rhai hyn â'u gilydd wedi peri cryn betrusder i esbonwyr. (1) Golygir gan rai eu bod i'w cymeryd ar wahan, gan fod pen. xviii. 17, 18, yn eu gwahanu, ac yn llefaru am danynt fel pe byddent yn ddau, ac nid yn un. Prin, fodd bynag, y gellid meddwl y golygai mam Micah ddwy ddelw o'r Jehofah, ac iddo yntau eu gosod i fyny yn ei dŷ. (2) Cymer ereill y ddau yn un—y *massecah*—y rhan doddedig, yn perthyn i'r *pesel*—y rhan gerfiedig, fel math o ystôl neu fainc o dano; ac yn ol y darlleniad cywiraf, ar ddiwedd adn. 4, fe leferir am danynt, nid fel pe byddent yn ddau, eithr yn un, *ac efe a fu yn nhŷ Micah.* Fe gymhwysir y gair a gyfieithir yma "delw doddedig," bob amser, at y llo aur a wnaeth Aaron a Jeroboam (Ex. xxxii. 4; Deut. ix. 12; 1 Bren. xii. 29). Gellir casglu oddiwrth hyn eu bod, gyda'u gilydd, yn ffurfio math o bortreiad o Dduw ar gyffelybrwydd llo o arian, tebyg i'r un wrth Sinai. Mae yn amlwg mai y rhan gerfiedig ydoedd y benaf, oblegid fe'i nodir yn flaenaf ar y rhestr o'r pethau a ladratawyd gan y Daniaid o dŷ Micah (pen. xviii. 17, 18); ac wrth osod i fyny addoliad y ddelw yn Dan ni sonir ond am y "ddelw gerfiedig" yn unig (pen. xviii. 30, 31). **Dau can' sicl o arian.**—Nid oedd hyn ond prin y bumed ran o'r cyfanswm; ond gan y dywedir iddi gysegru y cyfanswm, efallai i'r naw can' sicl arall fyned at

Micah. A chan y gwr hwn Micah *yr oedd* tŷ duwiau ; ac 5
efe a wnaeth ephod, a theraphim, ac a gysegrodd un o'i
feibion i fod yn offeiriad iddo. Yn y dyddiau hyny nid 6
*oedd* brenin ar Israel : ond pob un a wnai *yr hyn oedd*
uniawn yn ei olwg ei hun.

---

gynhaliaeth addoliad yr eilun, ac i wneyd "yr ephod a'r teraphim," ac i ddodrefnu "tŷ y duwiau" (adn. 5).

5, 6. Ty duwiau.—Yn ol y LXX. a'r *Vulgate*, **Ty Dduw.** Mae yn amlwg y golygai Micah i'r capel teuluaidd hwn gynwys addoliad i'r gwir Dduw (adn. 13), ond ei fod yn cyfeiliorni am natur ysprydol addoliad Jehofah. Gwelir yma ymadawiad boreu oddiwrth Siloh, lle yr addoliad cenedlaethol. Barna yr Esgob Hall mai arian a phechod wedi dyfod o'r Aipht ydoedd y rhai hyn yn nhŷ Micah, fod yr hen foneddiges, mam Micah, a dyddiau ei hieuenctid yn cyrhaedd mor bell yn ol a dyddiau y dawnsio o flaen y llo aur yn Sinai. Gosodai hyny yr hanes hwn yn foreu iawn—yn rhy foreu, efallai, ar ol sefydliad y genedl yn Nghanaan. Mwy tebyg mai *dylanwad* yr eilun-addoliaeth hwnw sydd i'w ganfod yma. Neillduwyd rhan o dŷ Micah i fod yn fath o deml, ar gynllun, ac fel gwrthymgeisydd, gellid meddwl, i'r tabernacl yn Siloh, ac yn hono y rhoddwyd y delwau hyn i fyny. A wnaeth ephod a theraphim.—Am yr ephod, gwêl pen. viii. 27. Teraphim oeddynt fath o oraclau teuluaidd *(penates)*, ar ffurf delwau, weithiau, gellid meddwl, o faintioli, ac ar ffurf dyn (1 Sam. xix. 13, 16), yr ymgynghorid â hwynt gan deuluoedd ar achlysuron arbenig. Y mae yr enw, er yn air o darddiad anhysbys, yn awgrymu yr edrychid arnynt fel noddwyr llwyddiant tymhorol. Arferir y gair bob amser yn y ffurf lluosog, a hyny hyd yn nod pan na olygir ond un ddelw unigol (1 Sam. xix. 13). Nid oes prawf yr addolid hwynt yn uniongyrchol ; ond ymgynghorid â hwynt, a chedwid hwynt mewn teuluoedd lle yr oedd rhyw gymaint o wybodaeth am y gwir Dduw. Y crybwylliad cyntaf am danynt sydd yn hanes ffoedigaeth Jacob o Padanaram, pryd y lladrataodd Rahel "ddelwau" (ymyl y ddalen, *teraphim)* ei thad (Gen. xxxi. 19), ac yn adn. 30, o'r un benod, geilw Laban hwynt "ei dduwiau," er fod yn amlwg ei fod ef yn addolwr y gwir Dduw. Am danynt hwy y crybwylla Jacob, efallai, fel y "duwiau dyeithr" yn Gen. xxxv. 2. Sonir am danynt yn achlysurol yn nyddiau y barnwyr, a'r brenhinoedd boreuaf fu ar Israel (Jos. xxiv. 2 ; 1 Sam. xv. 23 ; xix. 16). Tynwyd hwynt ymaith yn amser Josiah (2 Bren. xxiii. 24) ; eithr ail ymddangosasant ar ol y caethgludiad (Zech. x. 2), a hyny, efallai, mewn canlyniad i ddylanwad eilun-addoliaeth Caldea ar Israel (Ezec. xxi. 21—24). Tybir fod yma fath o ymgais, ar du Micah, i wneuthur y pethau hyn mor debyg ag oedd bosibl i'r oracl yn Siloh. Ac a gysegrodd un o'i feibion i fod yn offeiriad.—Ystyr lythyrenol y gair "cysegru" ydyw *llenwi y llaw, h.y.*, llanw llaw âg offrymau i Dduw (Ex. xxviii. 41 i xxix. 9 ; Lef. vii. 37 ; viii. 33 ; xvi. 32 ; Num. iii. 3), y rhai, yn nghyda rhanau yr offeiriad, a ddodid yn nwylaw yr offeiriad (Ex. xxix. 24 ; Lef. viii. 27). Ond yr ydoedd yn groes i orchymyn pendant y gyfraith iddo i wneuthur ei fab yn offeiriad (Num. xviii. 7). Nid oedd brenin yn Israel.—Fel eglurhad ar yr annhrefn hwn, ychwanega yr hanesydd y geiriau hyn.

7 Ac yr oedd gwr ieuanc o Bethlehem Judah, o dylwyth
8 Judah, a Lefiad *oedd* efe; ac efe a ymdeithiai yno. A'r
gwr a aeth allan o'r ddinas o Bethlehem Judah, i drigo pa
le bynag y caffai *le:* ac efe a ddaeth i fynydd Ephraim i
9 dŷ Micah, yn ei ymdaith. A Micah a ddywedodd wrtho,
O ba le y daethost ti? Dywedodd yntau wrtho, Lefiad
*ydwyf* o Bethlehem Judah; a myned yr ydwyf i drigo lle

---

Mynychir y mynegiad hwn yn y penodau hyn (pen. xviii. 1; xix. 1; xxi. 25), a dengys fod ysgrifenydd yr hanes ei hunan yn byw dan aden y frenhiniaeth, ac yn priodoli annhrefn yr amseroedd yr ysgrifenai am danynt i'r amddifadrwydd o'i nodded. Y mae hyn yn rhoddi amser ysgrifeniad yr *atodiad*, beth bynag am gorph y llyfr, yn moreu dyddiau y frenhiniaeth—teyrnasiad Saul, neu flynyddoedd cyntaf teyrnasiad Dafydd, ond yn amlwg cyn ymraniad y deyrnas, ac o flaen y Caethgludiad i Babilon.

7—9. Amcanai Micah yn ddiamheu gael yn "nhŷ y duwiau" ddynwarediad o'r hyn oedd yn Siloh; a thybia rhai fod y ddelw gerfiedig yn sefyll yn lle arch y dystiolaeth, yr ephod yn sefyll dros y dillad offeiriadol, a'r teraphim yn lle enwau y deuddeg llwyth, ar y meini gwerthfawr, y rhai a roddid ar ysgwyddau yr offeiriad pan yn myned i'r cysegr (Ex. xxviii. 9—22). Er cwblhau y dynwarediad yn llawn yr oedd un peth, a hwnw o'r fath bwysicaf, yn angenrheidiol, sef cael archoffeiriad; ac i feddwl hanerofergoelus, fel yr eiddo Micah, llanwai y Lefiad y lle hwnw. Yr oedd ymadawiad amlwg oddiwrth Dduw yn mhob un o actau Micah:—Gwneuthur delw arian o'r Duw anweledig; ephod ofergoelus yn lle y wir fantell offeiriadol; offeiriad o'i deulu ac o'i wneuthuriad ei hunan, ac nid o gysegriad yr Arglwydd ac o lwyth Lefi; archoffeiriad mympwyol, er o lwyth Lefi, eto nid o'r teulu offeiriadol, yn y llwyth hwnw. **Bethlehem-Judah.**—Hwn, o bosibl, ydyw yr ail grybwylliad am enw y lle yn y Beibl (Gen. xxxv. 19). Gwir fod y LXX. yn ei ddarllen dan yr enw "Ephrath" yn Jos. xv. 59, 60; ond nid ydyw y geiriau hyny yn ein darlleniadau cyffredin ni. Yn yr arbenigrwydd a roddir yn y rhanau hyn o'r llyfr ar lwyth Judah, ac ar Bethlehem yn rhandir y llwyth hwnw, ac er nad oedd brenin ar Israel ar y pryd, ceir awgrym fod brenhiniaeth deilwng wrth y drws. Pan yr ydoedd Ruth yn lloffa yn maes Boaz, yr oedd Duw wedi penderfynu, drwy y ferch ieuanc hono o wlad ddyeithr, rhoddi y deyrnwialen i Judah, ac ymadrodd diweddaf Llyfr Ruth ydyw y gair "Dafydd;" ac yn nyfodiad Dafydd yr oedd swn traed Brenin arall, mwy nag ef, yn dyfod ar ei ol—y Messiah. Mae Bethlehem yn parhau yn dref lanwedd a chynyddol yn awr, yn cynwys tua 5000 o breswylwyr, a'r rhai hyny gan mwyaf yn fath o Gristionogion. Gorwedd y ddinas rhyw bum' milldir i'r deheu o Jerusalem, ac ar safle sydd tua 2550 o droedfeddi uwchlaw wyneb y môr. Ei henw presenol ydyw *Beitlahm.* Dywed Conder fod y cyferbyniad mwyaf rhwng Bethlehem a Hebron—y cyferbyniad sydd rhwng Cristionogaeth a Mahometaniaeth. Y mae Hebron yn ddinas sydd yn edrych yn ol, fel pe byddai wedi ei lapio i fyny gyda'i beddrodau cysegredig, ac yn un o eisteddleoedd crefydd sydd a'i phrif nodwedd mewn tynged ddall; tra y mae Bethlehem, o'r tu arall, yn dref sydd fel pe byddai yn edrych yn mlaen, ac yn fangre genedigaeth crefydd sydd yn

caffwyf *le*. A Micah a ddywedodd wrtho, Trig gyda mi, 10
a bydd i mi yn dad ac yn offeiriad ; a mi a roddaf i ti ddeg
*sicl* o arian bob blwyddyn, a phâr o ddillad, a'th luniaeth.
Felly y Lefiad a aeth i mewn. A'r Lefiad a fu foddlawn i 11
aros gyda'r gwr? a'r gwr ieuanc oedd iddo fel un o'i
feibion. A Micah a urddodd y Lefiad ; a'r gwr ieuanc fu 12

---

swcwr i wareiddiad a chynydd. **O dylwyth Judah.**—Gedy y copi o'r LXX. sydd yn y *Vatican*, y gair "Judah" allan o'r ymadrodd "Bethlehem Judah," gan ddarllen *o Bethlehem, o dylwyth Judah*. Ond yr ystyr yn ddiameu ydyw, nid ei fod yn ddisgynydd o deulu yn llwyth Judah; oblegid nid ydoedd yn enedigol o Bethlehem, eithr yn ymdeithio yno; ond ei fod yn perthyn i'r Lefiaid a drigent yn llwyth Judah, ag oeddynt, o ran breintiau gwladol, yn rhan megis o'r llwyth. Gwir nad ydoedd Bethlehem yn un o'r dinasoedd Lefiaidd; ac yn rhaniad y wlad, teulu Aaron, yr offeiriad yn unig oeddynt wedi eu coelbrenu i lwyth Judah (Jos. xxi. 9, 10), tra yr oedd rhanau ereill o'r Lefiaid— teulu Cohath, &c., wedi eu coelbrenu i lwythau ereill. Eto gymaint ydoedd yr annhrefn ar y pryd, fel y gallai fod llawer o'r dinasoedd Lefiaidd, er syrthio ohonynt, drwy goelbren, i'r gwahanol lwythau, eto heb eu henill oddiar y Canaaneaid, neu wedi llithro yn ol i'w dwylaw, a bod y Lefiaid, gan hyny, dan orfod i ymofyn trigfanau mewn dinasoedd ereill. Neu gallai y Lefiad hwn, o du ei fam, fod yn dal cysylltiad â llwyth Judah. **A Lefiad oedd efe.**—Am achau ac enw y Lefiad hwn gwêl pen. xviii. 30. Awgryma rhai, yn gymaint a bod darpariaeth wedi ei gwneyd ar gyfer y Lefiaid yn Israel, fod ei waith yn crwydro fel hyn yn dangos tueddfryd ddiles. Ond mwy tebyg fod hyn yn tarddu oddiar annhrefn yr amseroedd hyny, a dyry hyn ystyr neillduol i'r ymadrodd hwnw, "Y Lefiad yr hwn sydd o fewn dy byrth" (Deut. xii. 12, 18, 19; xiv. 27, 29; xvi. 11, 14; Mal. ii. 7, 8.

10—13. **Bydd i mi yn dad.**—Enw o barch a roddir ar brophwydi (2 Bren. vi. 21; xiii. 14) ac offeiriaid, ac a roddir, weithiau, ar bersonau heb fod y naill na'r llall, megis Joseph (Gen. xlv. 8). **Deg sicl o arian.**—Os ydoedd y sicl arian, fel y golyga rhai, yn gydbwys a chyfwerth â dernyn haner coron o'n harian ni, nid oedd ei gyflog blynyddol ond £1 5s.; neu os ydoedd, fel y tybia ereill, yn gyfwerth â thri swllt, nid oedd y cyfanswm namyn £1 10s. Mae yn engraifft foreu o deml gostfawr ac offeiriad llwm. **Par o ddillad a'th luniaeth.**—Golyga y gair "pâr" yn y fan hon ei holl ddiwyg offeiriadol a'r dillad cyffredin a wisgai, a'r gair "lluniaeth" a arferir yma yn gyfystyr â bywoliaeth. Aeth yn gyfamod rhwng Micah a'r Lefiad: a desgrifia adn. 11—13 ganlyniad y cyflogiad. **Gwna yr Arglwydd ddaioni i mi.**—Gallai fod Micah, yn enwedig os ydyw dyfaliad Ewald yn gywir (gwêl nodiad adn. 2), ei fod o dueddfryd masnachol, â'i lygaid ar wneuthur enill o'i deml a'i offeiriad. Disgwyliai, feallai, y deuai pobl y cymydogaethau cyfagos i addoli i'w gysegr ef; ac felly y cyfoethogid yntau â'u hoffrymau. Gwir fod yr ymadrodd, "gan fod Lefiad genyf yn offeiriad," yn dangos fod llwyth Lefi yn cadw ei le yn mysg y llwythau fel llwyth offeiriadol, eto y mae bodolaeth y fath ddelw-addoliaeth bechadurus mor agos i Siloh braidd yn anhygoel. Daw anwybodaeth ac ofergoeledd Micah i'r golwg yn amlwg

13 yn offeiriad iddo, ac a fu yn nhŷ Micah. Yna y dywedodd
Micah, Yn awr y gwn y gwna yr ARGLWYDD ddaioni i mi;
gan fod Lefiad genyf yn offeiriad.

---

(cymharer 2 Bren. xviii. 22); a dengys y benod ddilynol mor fuan yr aflonyddwyd y tawelwch gau a gafodd i'w gydwybod, ac y siomwyd ei ddisgwyliadau am lwyddiant. Nid ydyw rhoddi coehl offeiriadol dros ddrygioni mewn un modd yn ei gyfiawnhau.

---

## PENOD XVIII.

1 YN y dyddiau hyny nid *oedd* brenin yn Israel: ac yn y
dyddiau hyny llwyth y Daniaid oedd yn ceisio iddynt
etifeddiaeth i drigo; canys ni syrthiasai iddynt hyd y dydd
2 hwnw etifeddiaeth yn mysg llwythau Israel. A meibion
Dan a anfonasant o'u tylwyth bump o wŷr o'u bro, gwŷr

---

(b) *Ymfudiad y Daniaid i'r Gogledd; a Sefydliad Delw-addoliaeth Micah yn Laish-Dan* (pen. xviii. 1—31).

PEN xviii. *1, 2.—Pumwr o lwyth Dan yn cael eu danfon yn yspïwyr. 3—6.—Yn cael eu calonogi gan y Lefiad ieuanc. 7—10.—Hwythau yn dwyn adroddiad ffafriol am Laïs. 11—18.—Chwe' chan' wr o feibion Dan yn ymfudo ac yn ymosod ar dŷ Micah, gan ei yspeilio o'i ddelwau. 19—26.—Jonathan yr offeiriad yn cydsynio i fyned gyda hwynt, a Micah yn gorfod ymostwng i hyny. 27—31.—Y maent yn gorchfygu Laïs, ac yn gosod i fyny y ddelw-addoliaeth yno.*

1, 2. **Yn y dyddiau hyny.**—Gwêl nodiad, pen. xvii. 6. **Llwyth y Daniaid oedd yn ceisio iddynt etifeddiaeth i drigo.**—Am randir llwyth Dan gwêl pen. i. 34. Wrth y gair "etifeddiaeth" y golygir, yn y fan hon, dreftadaeth y gellid ei throsglwyddo o dad i fab yn feddiant parhaus. **Canys ni syrthiasai iddynt.**—Cyfeiria y gair "syrthiasai" at syrthio drwy goelbren (Num. xxxiv. 2; Jos. xiii. 6, &c.). Nid ydys i olygu na chawsant etifeddiaeth o gwbl, oblegid fe roddwyd iddynt etifeddiaeth fel y llwythau ereill. Ond hwynt hwy oeddynt y rhai diweddaf i dderbyn eu hetifeddiaeth; ac er y rhoddwyd iddynt randir fras a ffrwythlawn, eto yr ydoedd yn anhawdd ei gorchfygu. Yr oedd ganddynt hefyd lwythau galluog yn gymydogion iddynt—Judah ar y deheu a'r de-ddwyrain, ac Ephraim a Benjamin ar y gogledd a'r dwyrain; a chanddynt yn elynion ffyrnig iddynt, yr Amoriaid a'r Philistiaid, oblegid nid ydoedd dyffryn Saron, rhan o'u rhandir, namyn parhad, i gyfeiriad y gogledd, o wlad y Philistiaid. Ymddengys hefyd na ddarfu iddynt gonero na chadw meddiant o'r hyn a roddwyd iddynt (pen. i. 34), ac mai eu diffyg ffydd a barai fod yn rhaid iddynt grwydro fel hyn

grymus, o Sorah, ac o Estaol, i ysbïo y wlad, *ac* i'w chwilio: ac a ddywedasant wrthynt, Ewch, chwiliwch y wlad. A phan ddaethant i fynydd Ephraim i dŷ Micah,

---

o ddiffyg lle. Gwthiasai yr Amoriaid, ac, wedi hyny, y Philistiaid, hwynt i fyny i'r mynyddoedd o'r gwastadedd; felly nid oedd ganddynt ond ychydig ddinasoedd ar lethrau y mynyddoedd, y rhai oedd yn llawer rhy gyfyng i lwyth a rifai, yn ol y cyfrifiad diweddaf a wnelsid arnynt, 64,400 o wrywaid uwchlaw ugain mlwydd oed (Num. xxvi. 43). Ond y mae yn amlwg nad ydoedd yr ymgyrch hwn o eiddo llwyth Dan i'r gogledd, yn ei gynlluniad na'i weithiad allan, o dan nodded y Goruchaf. Fe'i gwnaed oddiar ddybenion bydol, ac ar draul yspeilio llwyth arall—Naphtali, dybygid— o ran o'i diriogaeth; a therfynodd mewn tori i fyny undod cenedlaethol y llwyth, ac mewn halogi y bobl drwy sefydliad eilun-addoliaeth yn ninas Dan, yr hyn a fu yn achlysur, o bosibl, i Jeroboam sefydlu ffieidd-dra cyffelyb yno yn mhen canrifoedd. Ar ol hyn, yn nghofrestrau achau llwythau yr Arglwydd, y rhai a wnelent i fyny Eglwys yr Hen Destament (1 Cron. ii.—xii.), y mae llwyth Dan wedi ei golli yn gyfangwbl; a phan y mae yr angel, yn hanes Eglwys y Testament Newydd (Dat. vii. 4—8), yn rhoddi i lawr y nifer arwyddluniol oedd wedi eu selio, nid oes son am dano. Ni sonir am brophwyd na barnwr, na neb enwog yn cyfodi ohono oddigerth Samson yn unig. O'u bro.—Yn llythyrenol, **O'u cyrau**; ond nid cyrau terfynau y llwyth mewn ystyr ddaearyddol, eithr cyrau holl boblogaeth y llwyth—o'r naill gŵr i'r llall. Darllenir gair o'r un tarddiad yn Num. xxii. 41, yn unol â'r ystyr hon. Mae yn air tra neillduol, ac y mae camgyfieithiad amlwg ohono yn 1 Bren. xii. 31, lle y darllenir ef "y rhai gwaelaf," ac yn 1 Bren. xiii. 33; 2 Bren. xvii. 32, lle y darllenir ef yn "gwehilion;" ond yr ystyr yn y manau hyny ydyw, *pob dosbarth o'r bobl.* Felly yma golyga fod yr ysbïwyr hyn yn cael eu hanfon oddiwrth y llwyth fel cyfangorph i'w cynrychioli. Gwyr grymus.—Yn llythyrenol, **gwyr, meibion o ddewrder.** Yr oeddynt yn cael eu danfon ar gynllun yr ysbïwyr yn myned i chwilio Canaan (Num. xiii. 1—16); ond nid oes unrhyw sail i dybied fod yr Arglwydd yn cymeradwyo y danfoniad hwn, er i'r Lefiad, offeiriad Micah, sicrhau iddynt ei fod (adn. 6). O Sorah ac o Estaol.—Y manau adnabyddus yn hanes genedigaeth a marwolaeth Samson. Gwêl pen. xiii. 25; xvi. 31. Oddiwrth yr awgrym yma, nid ydyw yn annaturiol i ddeall fod yr hanes hwn wedi ei gymeryd o'r un ffynonell a hanes Samson, ac, feallai, o groniclau hanesyddol llwyth Dan, y rhai, o bosibl, a aethant ar goll ar ol hyn, canys nid oes nemawr o hanes y llwyth i'w gael drachefn. I fynydd Ephraim.—Y darlleniad llythyrenol o'r gair "mynydd Ephraim" yn mhob man yn Llyfr y Barnwyr ydyw **mynydd-dir Ephraim,** ac felly y dylid ei ddarllen hefyd yma, ac yn adn. 13. Gwêl pen. iii. 27. Yr oedd rhandir fynyddig Ephraim yn gorwedd yn union ar lwybr y Daniaid i fyny i'r gogledd, gan eu bod, yn ddiau, yn osgoi y llwybr drwy ddyffryn Saron a'r gwastadedd, gan ofn yr Amoriaid. I dy Micah.—Yn ol y cyfeiriadau a geir yn y benod hon, ymddengys fod yr hyn a elwir yma "tŷ Micah," fel y tabernacl yn Siloh, yn cael ei amgylchynu gan gyntedd, a'r tŷ ei hunan yn fath o gyfuniad o deml a chastell, oblegid ni arferir y gair "porth" (adn. 16) byth am ddrws tŷ, eithr bob amser am borth dinas gaerog, neu amddiffynfa.

3 hwy a letyasant yno. Pan *oeddynt* hwy wrth dŷ Micah,
hwy a adnabuant lais y gwr ieuanc y Lefiad: ac a droisant
yno, ac a ddywedasant wrtho, Pwy a'th ddug di yma? a
pheth yr ydwyt ti yn ei wneuthur *yma?* a pheth *sydd* i ti
4 yma? Ac efe a ddywedodd wrthynt, Fel hyn ac fel hyn y
gwnaeth Micah i mi; ac efe a'm cyflogodd i, a'i offeiriad
5 ef ydwyf fi. A hwy a ddywedasant wrtho ef, Ymgyng-
hora, atolwg, â DUW, fel y gwypom a lwydda ein ffordd
6 yr ydym ni yn rhodio arni. A'r offeiriad a ddywedodd

---

Oddiamgylch i dŷ Micah ymgasgaslasai ereill i fyw, y rhai yr oedd iddynt ran yn nygiad yn mlaen yr addoliad a gerid yn mlaen yn y deml; a diau fod tŷ y Lefiad (adn. 15) yn agos i borth y cyntedd, gyda llety fforddolion yn rhywle heb fod yn mhell o'r fan. Tebyg fod yma fath o sefydliad—pentref bychan, wedi ymgasglu yn nghyd, cyffelyb i'r modd yr adeiladir preswylfeydd yn fynych o amgylch tai addoliad, ac y gelwid y cwbl Beth-Micah—Tŷ Micah.

3—6. **A adnabuasant lais y gwr ieuanc.**—Tybia rhai (1) nad ydyw hyn yn golygu ond eu bod, pan ar gychwyn i'w taith, o dŷ Micah, wedi digwydd clywed llais offeiriad mewn defosiwn, yn canu neu yn adrodd Salmau neu weddïau yn uchel; (2) ereill iddynt adnabod, oddiwrth ei lediaith, nad ydoedd yn perthyn i'r parthau hyny; (3) ond mwy tebyg, gan fod rhandir Dan yn terfynu ar randir Judah, a bod y Lefiad hwn, dybygid, o duedd grwydraidd, ac, yn neillduol, os ydoedd o deulu enwog Moses (adn. 30), eu bod yn gydnabyddus â'u gilydd yn flaenorol. Ymddengys na fynegasai Micah iddynt am ei deml, oblegid y mae cwestiynau y Daniaid yn amlygu syndod. **Fel hyn ac fel hyn.**—Gweler yr un ffurf o ymadroddi yn 2 Sam. xi. 25; 1 Bren. xiv. 5. Rhoes iddynt grynodeb o hanes ei grwydriadau, pa fodd y bu iddo ddod i dŷ y Micah hwn, yr hwn, fel un o hen bendefigion y Canoloesoedd, oedd mewn angen offeiriad, ac yntau, fel un o'r mynachod crwydraidd, am ychydig siclau, lluniaeth, a phâr o ddillad, yn ymsefydlu i lawr i fod yn offeiriad iddo; ac "offeiriad Micah" y gelwir ef yn yr hanes. **Ymgynghora, atolwg, a Duw.**—Yr oedd golwg ar yr ephod a'r teraphim yn awgrymu iddynt gyfleusdra i ymofyn â Duw. Gwêl pen. i. 1. Mae yn deilwng o sylw eu bod hwy, pan yn ymofyn am gyfarwyddyd yn defnyddio y gair "Duw" yn ei ystyr gyffredinol, ond fod y Lefiad, wrth ymgymeryd âg ateb, yn defnyddio y gair yn ei ystyr neillduol fel "Jehofah." Gydag ychydig iawn o drafferth gallasai y rhai hyn fyned i Siloh i ymofyn â'r Arglwydd yno, yn y gwir dabernacl. Ond, fel y dywed yr Esgob Hall, y mae dynion bydol yn fanwl gyda'u hymborth, eu bargeinion, eu cyfamodau, &c.; ond y peth penaf—pwnc eu duw, os cânt ephod ac eilun, ymfoddlonant ar hyny. Gwell ganddynt gael y gau, gyda hawddfyd, na cheisio y gwir gydag ychydig drafferth. **Gerbron yr Arglwydd y mae eich ffordd chwi.**—Yn llythyrenol, **yn uniawn gerbron yr Arglwydd y mae eich ffordd chwi**, *h.y.*, yn gymeradwy yn ngolwg yr Arglwydd (gwêl Ezrah viii. 21, 22; Diar. v. 21; Jer. xvii. 16). Cyfyd y cwestiwn yn naturiol yma (1) A oedd yr offeiriad hwn yn ateb ohono ei hunan; (2) ai

wrthynt, Ewch mewn heddwch: gerbron yr ARGLWYDD *y mae* eich ffordd chwi, yr hon a gerddwch.
Yna a pùmwr a aethant ymaith, ac a ddaethant i Laïs; 7
ac a welsant y bobl *oedd* ynddi yn trigo mewn dyogelwch,
yn ol arfer y Sidoniaid, yn llonydd ac yn ddiofal; ac nid
*oedd* swyddwr yn y wlad, yr hwn a allai eu gyru *hwynt* i

---

ynte dros Dduw fel yr honai fod; (3) neu drwy gynhyrfiad rhyw yspryd drwg, fel y gau-brophwydi yn nyddiau Ahab? (1 Bren. xxii. 22). Y mae yr ail yn anghredadwy, a'r trydydd yn anhebyg, felly y cyntaf ydyw y tebycaf; ac y mae yr atebiad, fel yr oraclau paganaidd, mor benagored fel y gall fod yn wir neu yn anwir, ac mor debyg o droi allan yn wirionedd a dim arall.

7. Lais.—Dinas yn ngogledd Canaan a adnabyddid ar y cyntaf dan yr enw Laïs, neu Lesem (Jos. xix. 47), ond a ddaeth, wedi hyny, o dan yr enw Dan, yn adnabyddus fel pwynt eithaf y wlad ar du y gogledd. Y crybwylliad cyntaf am dani, a hyny dan yr enw Dan, sydd yn Gen. xiv. 14, pan oedd Abraham yn erlyn y brenhinoedd, a'r diweddaf sydd yn 1 Bren. xv. 20; 2 Cron. xvi. 4, pryd y dinystriwyd hi, a dinasoedd gogleddol ereill, gan Benhadad, brenin Syria. Ystyr y gair Dan ydyw *barnwr;* a thua phedair milldir i'r gorllewin o Cesarea-Philipi *(Banias)*, yn ymyl un o darddleoedd yr Iorddonen, y mae bryncyn bychan, o'r enw *Tell el-Kadi* —Bryn neu Caer y Barnwr, ac yno y tybir, gyda mesur helaeth o sicrwydd, fod safle hen ddinas Dan. Mae yr enw yn dra arwyddocaol, yn gymaint ag mai yr un ystyr sydd i'r gair Arabaeg *Kadi* ag sydd i'r gair Hebraeg Dan. Yn ymyl troed y bryn, ar du y gorllewin iddo, tardd ffynon gref—y gryfaf yn Syria, os nad, yn wir, un o'r rhai cryfaf yn y byd. Allan ohoni y rhêd afon, o dan yr enw *Nahr el-Leddân*—y gair diweddaf, fel y tybir, yn llygriad o'r gair "Dan," a rhêd i lawr i gyfeiriad dyfroedd Merom, yn afon lifeiriol, hyd yn nod ar ei tharddiad cyntaf, a hi ydyw un o wreiddiau yr Iorddonen. Ar du deheuol y bryn, ac o'i amgylch, ceir adfeilion lawer, ac yno y dyry traddodiad safle tabernacl y llo aur, yn nyddiau Jeroboam, a thybir y gallai fod hwnw ar yr un safle a thabernacl y Daniaid. Ar ol sefydliad y Daniaid yn y lle, daeth yn bwynt eithaf Gwlad Canaan yn nghyfeiriad y gogledd, a daeth yr ymadrodd "o Dan i Beerseba" yn ymadrodd cyffredin (Barn. xx. 1; 1 Sam. iii. 20; 2 Sam. iii. 10; xvii. 11; xxiv. 2, 15; 1 Bren. iv. 25); ond yn rhai o lyfrau hanesiol diweddaraf yr Hen Destament, gwrthdroir y dywediad yn "o Beerseba hyd Dan" (1 Cron. xxi. 2; 2 Cron. xxx. 5). Yn ol arfer y Sidoniaid.—Er fod Sidon ei hunan yn dref fawr borthladdol, ar yr arfordir, ac wedi ei hamgylchynu â chaerau; eto, yn gymaint a bod athrylith y Sidoniaid yn rhedeg yn benaf, nid i gyfeiriad milwrol, eithr celfyddydol a masnachol, yr oedd yr ymfudwyr hyn o Sidon yn byw yn ddiofal, gan esgeuluso yn hollol bob math o hunan-amddiffyniad. Oddiwrth yr ymadrodd, "pell oeddynt oddiwrth Sidon," gellir casglu mai wedi ymsefydlu yn fath o drefedigaeth yr oeddynt, a chan fod y Sidoniaid yn enwog am eu celfyddgarwch mewn cymynu coed (1 Bren. v. 6; 1 Cron. xxii. 4), a chan fod Libanus a'i goedwigoedd mor agos (Jos. xiii. 6) tebyg mai dyma alwedigaeth pobl Laïs. Ac nid oedd swyddwr yn y wlad a

gywilydd mewn dim: a phell *oeddynt* oddiwrth y Sidoniaid,
8 ac heb negesau rhyngddynt â neb. A hwy a ddaethant at
eu brodyr i Sorah ac Estaol. A'u brodyr a ddywedasant
9 wrthynt, Beth *a ddywedwch* chwi? Hwythau a ddywedasant, Cyfodwch, ac awn i fyny arnynt: canys gwelsom y
wlad; ac wele, da iawn *yw* hi. Ai tewi yr *ydych* chwi?
na ddiogwch fyned, i ddyfod i mewn i feddianu y wlad.
10 Pan eloch, chwi a ddeuwch at bobl ddiofal, a gwlad eang:

---

**allai eu gyru i gywilydd mewn dim.**—Y mae y darlleniadau, ar y frawddeg hon, yn neillduol o amheus, a'r cyfieithiadau yn dra amrywiol. Ni phetrusa rhai o'r beirniaid goreu i ddyweyd fod y testyn yn anghyflawn, os nad yn anghywir yma. Cydsynir yn lled gyffredinol mai ystyr y gair a gyfieithir genym ni yn "swyddwr" ydyw un yn *meddianu cyfoeth* neu *lywodraeth*, ac mai ystyr yr ymadrodd "gyru hwynt i gywilydd" ydyw *peri niwed*, fel yn 1 Sam. xx. 34; xxv. 7; Diar. xxv. 9. Golyga rhai fod yr ysgrifenydd yn dyfynu y geiriau hyn o ryw ysgrif adnabyddus flaenorol, gan eu cymhwyso yma at y Sidoniaid; felly darllenant yr holl frawddeg fel desgrifiad ohonynt hwy, eu *bod yn llonydd ac yn ddiofal, heb wneyd niwed i neb, gan feddianu cyfoeth, &c.* Y meddwl felly fyddai fod y Sidoniaid a'u bryd ar ymgyfoethogi, ac ar anturiaethau masnachol, yn gymaint fel nad oeddynt yn ceisio niweidio neb, ond yn dilyn eu gorchwylion yn dawel a diofal. Ond yr ystyr yn ddiamheu ydyw —ac y mae hon yn un o'r engreifftiau hyny ag y mae yr *ystyr* yn eglurach na'r *darlleniadau*—nad oedd na brenin na chymydog galluog, o fath yn y byd, yn agos atynt i beri iddynt unrhyw flinder mewn dim. Dylid dyweyd, ar yr un pryd, fod brawddegau diweddaf yr adnod yn ffafrio y golygiad cyntaf, oblegid y mae yn amlwg eu bod wedi eu rhoddi i mewn er dangos agwedd ddiofal a diamddiffyn y Sidoniaid, er eu bod yn bell o Sidon, ac heb gyfathrach rhyngddynt â neb. Felly fe fyddai yr holl adnod yn ddesgrifiad o'r Sidoniaid, yn eu diofalwch, heb ddyweyd yr un gair am eu gelynion, yr hyn nid oedd yn amcan gan yr ysgrifenydd o gwbl. Modd bynag, tra y mae y testyn gwreiddiol mor amheus, nis gellir penderfynu yn sicr aryr ystyr. **A phelloeddynt oddiwrth y Sidoniaid.**—Diamheu yr edrychai preswylwyr Laïs ar Sidon fel eu cartrefle gwreiddiol; ond yr oedd holl drwch cadwen mynyddoedd Libanus a rhan o Anti-Libanus rhyngddynt â'u mam-ddinas; ac felly, pan ddaeth y Daniaid yn ddisymwth arnynt (adn. 27), nid "oedd waredydd." Gwir nad ydoedd Tyrus ond rhyw ugain milldir o bellder oddiwrthynt, ond nid ydoedd Tyrus wedi dyfod i ddim bri na nerth y pryd hyn.

**8—10.** Brysiodd y pum' ŵr o feibion Dan i lawr i'r deheu i hysbysu eu brodyr ddarfod iddynt ddarganfod paradwys o le yn y gogledd, a bod yn hawdd ei meddianu. **Ai tewi yr ydych chwi?**—Dyry Keil ddarlleniad heb fod yn y ffurf o gwestiwn, ac mewn cysylltiad â'r frawddeg flaenorol, fel y canlyn:—*canys gwelsom y tir, ac yr ydych chwi yn ddistaw.* Gweler yr un ymadrodd yn 1 Bren. xxii. 3; 2 Bren. vii. 9. Ystyr y frawddeg ydyw eu bod yn sefyll yn ddiegni heb wneyd dim. Cymharer adroddiad yr ysbïwyr yn Num. xiv. 7 gyda'r holl hanes hwn. **A gwlad eang.**—Yn llythyrenol, **tir llydan ar bob llaw,** *h.y.*, tir heb fod yn

canys Duw a'i rhoddodd hi yn eich llaw chwi : *sef* lle nid
*oes* ynddo eisieu dim a'r *y sydd* ar y ddaear.
Ac fe aeth oddiyno, o dylwyth y Daniaid, o Sorah ac o 11
Estaol, chwe channwr, wedi ymwregysu âg arfau rhyfel.
A hwy a aethant i fyny, ac a wersyllasant yn Ciriath- 12
jearim, yn Judah : am hyny y galwasant y fan hono
Mahaneh-Dan, hyd y dydd hwn : wele, *y mae* o'r tu ol i
Ciriath-jearim. A hwy a aethant oddiyno i fynydd 13
Ephraim, ac a ddaethant hyd dŷ Micah.

---

gyfyng, fel y lle yr oeddynt yn trigo ynddo o'r blaen, ac yn cael eu gyru ohono i'r mynyddoedd gan eu gelynion (pen. i. 34). Ceir yr un ymadrodd yn Gen. xxxiv. 21 ; 1 Cron. iv. 40 ; a gellir gweled yr un gair yn cael ei gymhwyso at "afonydd" a "môr" yn Salm civ. 25 ; Es. xxxiii. 21. Mae y crybwylliad fod Duw yn rhoddi trigolion Laïs yn eu llaw, yn dangos eu bod yn cyfeirio at ateb oracl y Lefiad yn nhŷ Micah. **Lle nid oes eisieu dim ar y sydd ar y ddaear.**—Etyb y wlad i'r desgrifiad hwn heddyw. Ceir rhoddion natur yno yn yr helaethrwydd mwyaf —hinsawdd dymherus, golygfeydd prydferth, tir ffrwythlawn, yn cael ei ddyfrhau gan aberoedd lawer, ac yn cynyrchu, heb lawer o lafur, gnydau trymion o wenith, haidd, a phlanhigion ffrwythlawn ereill. Ceir yno hefyd anifeiliaid yn finteioedd lluosog yn ymbesgi ar borfeydd gwelltog ; mewn gair, y mae yn un o'r llenyrch prydferthaf a ffrwythlonaf yn y wlad i gyd. Gorwedd y lle yn nghŵr uchaf y gwastadedd lle y mae Dyfroedd Merom, yn ymyl ffynonellau yr Iorddonen, a than gysgod mynydd Hermon.

11—13. **O dylwyth y Daniaid.**—Arferir y gair "tylwyth" yn y fan hon yn yr ystyr o *lwyth*. Gwêl pen. xiii. 2. Ymddengys fod y Daniaid hyn yn gweithredu, yn yr ymfudiad hwn, yn enw a than gyfarwyddyd y llwyth (adn. 19) ; a gellir casglu fod y symudiad hefyd yn un llwyr—fod y chwe' chant arfogion, gyda'u teuluoedd, eu meddianau, a'u hanifeiliaid, &c. (adn. 21) oll yn symud gyda'u gilydd. Cymharer yr ymfudiad âg un arall o eiddo y Simeoniaid yn nyddiau Hezeciah (1 Cron. iv. 39-43). **Mahane-Dan.**—Gwel pen. xiii. 25. Enw ar le neillduol ydoedd hwn, a lle a gafodd yr enw oddiwrth yr amgylchiad a gofnodir yma. Efallai mai yno yr ymgyfarfyddai yr holl fintai er ymbarotoi ar gyfer y daith. **O'r tu ol i Ciriath-jearim.**—Dinas sydd, er nad ydyw ond bechan, yn meddu rhan bwysig yn hanesiaeth y Beibl. Crybwyllir hi gyntaf fel un o bedair dinas y Gibeoniaid (Jos. ix. 17). Nodir hi drachefn fel un o bwyntiau terfyn gogleddol Judah (Jos. xv. 9), ac fel y pwynt y cyfarfyddai terfynau gorllewinol a deheuol llwyth Benjamin (Jos. xviii. 14, 15), ac yn y manau hyn ceir ei bod yn adnabyddus dan enw arall—feallai enw boreuach, sef hen enw y duw Canaaneaidd Ciriath-baal. Yn achau llwyth Judah, yn 1 Cron. ii. 50—52, dywedir ei sylfaenu gan Sobal, mab Caleb, mab Hur. Darfu i'r syniad am gysegredigrwydd y lle beri i wyr Bethsemes ddanfon at wyr Ciriath-jearim i ddyfod i gyrchu yr arch (1 Sam. vi. 20, 21) ; a bu yr arch yno, yn nhŷ Abinadab, am ugain mlynedd (1 Sam. vii. 2), hyd nes y symudwyd hi i dŷ Obed-edom (1 Cron. xiii. 5, 6 ; 2 Cron. i. 4 ; 2 Sam. xi. 3). Mynegir ddarfod i bobl Ciriath-

14 A'r pumwr, y rhai a aethant i chwilio gwlad Laïs, a
lefarasant, ac a ddywedasant wrth eu brodyr, Oni wyddoch
chwi fod yn y tai hyn ephod a theraphim, a delw gerfiedig,
a thoddedig? gan hyny ystyriwch yn awr beth a wneloch.
15 A hwy a droisant tuag yno; ac a ddaethant hyd dŷ y gwr
ieuanc y Lefiad, i dŷ Micah; ac a gyfarchasant well iddo.
16 A'r chwe channwr, y rhai oedd wedi eu gwregysu âg
arfau rhyfel, oedd yn sefyll *wrth* ddrws y porth, *sef* y rhai

---

jearim ddychwelyd o'r gaethglud yn Nehem. vii. 29; Ezrah ii. 25, lle y gelwir hi Ciriatharim. Yno hefyd yr oedd cartref y prophwyd Uriah mab Semaiah, yr hwn a roddwyd i farwolaeth gan Jehoiacim brenin Judah (Jer. xxvi. 20). Cytunir yn lled gyffredinol mai pentref ar y brif-ffordd sydd yn arwain drwy fynydd-dir Judeah, o Joppa i Jerusalem, rhyw saith milldir i'r gorllewin-ogledd-orllewin o Jerusalem, o'r enw *Kuriet-el-enab* ydyw ei hen safle. Ystyr yr enw Ciriath-jearim ydyw *dinas-y-coed*, ac ystyr *Kuriet-el-enab* ydyw *dinas y gwinwydd*; a cherllaw i'r pentref hwn y dywed Tristram ddarfod iddo weled yr unig goedwig, deilwng o'r enw, a welodd yn yr oll o Ddeheudir Palestina. Adnabyddir y pentref yn awr, weithiau, o dan yr enw *Abu Gosh*, oherwydd fod penaeth yspeilgar o'r enw hwnw wedi bod yn byw ynddo. Gwahaniaetha Conder oddiwrth y lleoliad uchod gan roddi Ciriath-jearim yr un a lle o'r enw *Arma* (oherwydd, yn un peth, y tebygolrwydd i'r terfyniad *arim* sydd i'r gair yn Ezrah ii. 25), tua phum' milldir i'r de-orllewin o *Kuriet-el-enab*, a phedair milldir i'r dwyrain o Bethsemes. Ond y mae Robinson, Tristram, &c., yn bendant o blaid y lleoliad yn *Kuriet-el-enab*. Golyga y geiriau "tu ol i Ciriath-jearim" i'r de-orllewin iddi. Ty Micah.—Gwel adn. 2.

14—15. Oni wyddoch.—Yr un teimlad ag a barodd i Micah sicrhau yr offeiriad—y trysor crwydrol hwn—a feddianai hefyd fynwesau arfogion llwyth Dan, y rhai a ganfyddasant yn y Lefiad hen gydnabod iddynt. Wrth fyned heibio, y tro o'r blaen, cawsant ei fendith ar eu hanturiaeth; ac hyd yn hyn fe droes yr anturiaeth allan yn llwyddianus. Awgrymasant i'w cyd-deithwyr fod yma gyfleustra rhagorol iddynt i ddyfod i feddiant o'r hyn oedd eisieu er rhoddi gwedd grefyddol, a nodded ddwyfol dros eu hanturiaeth. Dyna feddwl yr ymadrodd, "gan hyny, ystyriwch yn awr beth a wneloch." Y tai hyn.—Y mae yn amlwg, yn ol adn. 2, 3, 32, fod yno amryw dai heblaw yr eiddo Micah, a bod "tŷ y Lefiad" a "thŷ Dduw" ar wahan i dŷ Micah, ond o fewn yr un cyntedd. A hwy a droisant tuag yno.—Golyga yr ymadrodd, yn ol yr Hebraeg, *droi o'r brif-ffordd*; ac yn pen. iv. 18; xix. 12, ceir yr un ymadrodd gyda'r un ystyr. Yn nghanol y sefydliad yr oedd tŷ Micah, ac yn ymyl y porth yr oedd tŷ y Lefiad; ac aethant i mewn yno gan gyfarch gwell iddo, *h.y.*, ymofyn am ei iechyd, mewn dull cyfeillgar (Gen. xliii. 27; Exod. xviii. 7).

16—21. Oedd yn sefyll wrth ddrws y porth.—Mae trefn yr amgylchiadau a gofnodir yn yr adnodau hyn fel y canlyn:—Pan oedd yr holl fintai yn y ffordd, gyferbyn a thŷ y Lefiad, aeth y pum' wr i mewn gan ei longyfarch, daeth yntau allan atynt, ac a ddaeth gyda hwynt at y porth,

*oedd* o feibion Dan. A'r pumwr, y rhai a aethent i chwilio 17
y wlad, a esgynasant, *ac* a aethant i mewn yno; *ac* a
ddygasant ymaith y ddelw gerfiedig, a'r ephod, a'r ter-
aphim, a'r ddelw doddedig: a'r offeiriad oedd yn sefyll
wrth ddrws y porth, gyda'r chwe channwr *oedd* wedi
ymwregysu âg arfau rhyfel. A'r rhai hyn a aethant i dŷ 18
Micah, ac a ddygasant ymaith y ddelw gerfiedig, yr
ephod, a'r teraphim, a'r ddelw doddedig. Yna yr offeiriad
a ddywedodd wrthynt, Beth yr ydych chwi yn ei wneuthur?
Hwythau a ddywedasant wrtho, Taw sôn; gosod dy law 19
ar dy safn, a thyred gyda ni, a bydd i ni yn dad ac yn
offeiriad: *ai* gwell i ti fod yn offeiriad i dŷ un gwr, na'th
fod yn offeiriad i lwyth ac i deulu yn Israel? A da fu gan 20
galon yr offeiriad; ac efe a gymerth yr ephod, a'r ter-
aphim, a'r ddelw gerfiedig, ac a aeth yn mysg y bobl.

---

lle yr oedd y chwe' chanwr yn sefyll i ddisgwyl. Tra yr oedd y Lefiad yn ymddiddan â'r holl fintai aeth y pum' wr yn ol i dŷ y duwiau (a elwir yn adn. 8 yn "dŷ Micah"), yr hwn, feallai, oedd yr un a thŷ y Lefiad—yn rhan ohono, o bosibl, mewn goruwchystafell ynddo ("esgynasant" adn. 17), ac a ladratasant y delwau a'r ephod, ac a'u dygasant allan at y porth, lle yr oedd y Lefiad wedi aros i ymgomio â'r fintai. Ar y foment, pan ddarganfu yr offeiriad y lladrad, efe a ddyrchafodd ei lef (adn. 18); ond dystawyd ef yn ebrwydd â gwobr. "Taw son, gosod dy law ar dy safn," ac efe a ymfoddlonodd; canys gwell ganddo ydoedd bod yn offeiriad i lwyth yn Israel nag i un gŵr. Y fath gymysgedd o ynfydrwydd ac ofergoeledd a geir yn yr hanes hwn! Os nad allai y delwau hyn amddiffyn eu perchen a'u gwneuthurwr rhag cael ei yspeilio, pa fodd y gallent amddiffyn y lladron? Y fath gip ar eilunod, a'r fath werth ar offeiriad! Ac eto yr offeiriad a gyflogir am ddeg sicl, odid nas gellir ei lwgr-wobrwyo âg un ar ddeg. Y mae yr hawsder gyda pha un y llwyddasant i berswadio y Lefiad hwn i werthu ei gymwynaswr, yn berffaith gyson â'r cymeriad a roddir iddo drwy yr holl hanes. Eglura adn. 18, 19, y manylion yn llawnach, gan roddi cyfrif pa fodd yr oedd yr offeiriad yn gallu sefyll wrth y porth, tra yr oedd ei gysegr yn cael ei yspeilio. **Ac a ddygasant ymaith y ddelw gerfiedig, yr ephod, &c.**—Yn ol yr Hebraeg dylid darllen, **a ddygasant ymaith ddelw gerfiedig yr ephod**; ac felly y mae yr ymadrodd yn wahanol i'r hyn a geir yn adn. 14, 17, lle y mae y darlleniad arferol yn gywir. Yr un gair am ddelw gerfiedig, sef y gair *pesel*, a geir yno ag yma; ond yn unig y cysylltir y gair ephod âg ef yn wahanol—ephod-pesel, i olygu, dybygid, nid yr ephod yn wisg am y ddelw, fel y tybia rhai esbonwyr, eithr i ddangos fod yr ephod, fel moddion i gael allan ewyllys yr Arglwydd, yn rhagdybied bodolaeth delw o'r Jehofah, a bod yr offeiriad, pan yn ymofyn â Duw, yn wastad yn rhoddi yr ephod am dano. **Efe a gymerth yr ephod.**—Gan fod y Daniaid wedi ei chymeryd o gysegr Micah, yr oedd raid iddo yntau ei derbyn i'w siars o'u dwylaw hwynt. **Ac a aeth yn mysg y bobl.**—Golyga yr ymadrodd ei fod yn ymdaith

21 A hwy a droisant, ac a aethant ymaith; ac a osodasant y
plant, a'r anifeiliaid, a'r clud, o'u blaen.
22 *A* phan oeddynt hwy enyd oddiwrth dŷ Micah, y gwŷr
*oedd* yn y tai wrth dŷ Micah a ymgasglasant, ac a erlidias-
23 ant feibion Dan. A hwy a waeddasant ar feibion Dan.
Hwythau a droisant eu hwynebau, ac a ddywedasant wrth
Micah, Beth *a ddarfu* i ti, pan wyt yn dyfod â'r fath fintai?
24 Yntau a ddywedodd, Fy nuwiau, y rhai a wneuthum i, a
ddygasoch chwi ymaith, a'r offeiriad, ac a aethoch i ffordd:
a pheth *sydd* genyf fi mwyach? a pha beth *yw* hyn a
25 ddywedwch wrthyf, Beth *a ddarfu* i ti? A meibion Dan
a ddywedasant wrtho, Na âd glywed dy lef yn ein mysg
ni; rhag i wŷr digllawn ruthro arnat ti, a cholli ohonot
26 dy einioes, ac einioes dy deulu. A meibion Dan a aethant
i'w ffordd. A phan welodd Micah eu *bod* hwy yn gryfach

---

yn nghanol y fintai, (1) un ai er diogelwch personol rhag ymosodiadau Micah; (2) neu rhag iddo ddianc ei hunan; (3) neu er dynwared y lle canolog a roddid i'r offeiriad a'r archoffeiriad yn nghynulleidfa meibion Israel, pan ar eu hymdaith drwy yr anialwch. A'r clud o'u blaen.—Defnyddir y gair a gyfieithir yma "clud," yn gyffredin, fel ansoddair i olygu *hardd, ysplenydd*; ond yma defnyddir ef fel enw i ddynodi **pethau gwerthfawr**; nid y pethau trymion, eithr eu trysorau mwyaf dymunol. Y mae y "rhai bach" yn cynwys y gwragedd a'r plant, fel y rhai diamddiffyn, ag yr oedd eisiau eu diogelu (Exod. xii. 37). Disgwylient ymosodiad gan Micah; felly trefnent eu mintai yn y fath fodd fel ag i fod yn fwyaf cyfleus mewn ymosodiad. Cymharer Gen. xxxiii. 2, 3. Y gwahaniaeth ydyw fod Jacob yno yn myned *i gyfarfod* Esau, a'r Daniaid yma yn disgwyl Micah *ar eu hol*.

22—26. Cynlluniwyd y lladrad hwn y fath fel yr oedd y Daniaid yn mhell ar eu ffordd cyn i Micah eu goddiweddyd. Mae y brawddegau sydd yn adn. 22 yn frawddegau eglurhaol a dibynol ar y ferf "gwaeddasant," yn adn. 23, a gellir eu darllen fel y canlyn:—*Ac wedi iddynt* (y chwe' chan' ŵr) *fyned enyd oddiwrth dŷ Micah, ac wedi i'r gwyr oeddynt yn y tai, wrth dŷ Micah, gael eu casglu yn nghyd, a goddiweddyd meibion Dan, hwy* (sef Micah a'r rhai oedd gydag ef) *a waeddasant, &c.* Y tai wrth dy Micah.—Yn hytrach, darllener **y tai yn nhy Micah**, gan olygu tŷ Micah —Beth-Micah, fel yn adn. 3, yn enw ar yr holl bentref, yr hwn bentref a gynwysid i gyd, o bosibl, mewn un cyntedd, a'r mynediad iddo drwy un porth. Dyma y rhai y cyfeirir atynt dan yr enw "y tai hyn" yn adn. 14. Ymgasglasant.—Yn llythyrenol, **a alwyd yn nghyd.** Tebyg fod Micah a'r dynion allan yn y meusydd pan gymerth y lladrad le, a phan ganfu y gwragedd y peth, ymddengys iddynt godi llef, a galw y dynion yn nghyd mor gynted ag yr oedd bosibl, er erlid ar ol y Daniaid. Yn dyfod a'r fath fintai.—Yn llythyrenol, **wedi cynull yn nghyd y fath fintai.** Yr un ymadrodd sydd yma ag yn pen. iv. 13 am Sisera yn cynull ei luoedd yn nghyd. Prawf aiddgarwch Micah yn erlid ar ol meibion Dan ei fod, fel Laban gynt, yn cysylltu rhyw fanteision mawrion â'r

nag ef, efe a drodd, ac a ddychwelodd i'w dŷ. A hwy a 27
gymerasant *y pethau* a wnaethai Micah, a'r offeiriad oedd
ganddo ef, ac a ddaethant i Laïs, at bobl lonydd a diofal;
ac a'u tarawsant hwy â mîn y cleddyf, ac a losgasant y
ddinas â thân. Ac nid *oedd* waredydd; canys pell *oedd* 28
hi oddiwrth Sidon, ac nid *oedd* negesau rhyngddynt â neb;
hefyd *yr oedd* hi yn y dyffryn *oedd* wrth Beth-rehob: a hwy
a adeiladasant ddinas, ac a drigasant ynddi. A hwy a 29

---

"duwiau" (neu y "duw," oblegid fe ellir ei ddarllen felly) hyn, ac awgryma parodrwydd ei gymydogion i ymuno âg ef, fod iddynt hwythau ryw fantais yn deilliaw oddiwrth offeiriad a chysegr Micah. Rhag i wyr digllawn.—Darllener, **gwyr chwerw eu henaid.** Yr un ymadrodd a gyfieithir "creulawn eu meddwl" yn 2 Sam. xvii. 8. Ruthro arnat ti.—Yn hytrach, **syrthio arnat ti.** Yr ystyr ydyw gosod eu dwylaw ar un er niwed. Gwêl nodiad, pen. xv. 12. Ac einioes dy deulu.—Golygir y gair yma fel desgrifiad o bobl yr holl sefydliad ag yr oedd Micah fel math o benaeth arno. Dengys y geiriau yn amlwg eu bod yn penderfynu dal gafael yn yr yspail drwy rym; a phan ganfu Micah eu bod felly, a'u bod yn gryfach nag ef, efe a droes yn ol, a hwythau—y Daniaid—a ymdeithiasant yn mlaen tua'r cartref newydd a feddianwyd mor rwydd ganddynt.

27—29. A gymerasant y pethau a wnaethai Micah.—Yn hytrach darllener, **y duwiau a wnaethai Micah.** Gwêl adn. 24, 31; Exod xx. 4; Deut. xxvii. 15. A ddaethant i Lais.—Golyga yr ymadrodd ddyfod ar warthaf person neu dref yn ddirybudd. Cymharer Gen. xxxiv. 25. Am safle Laïs gwel adn. 7. Nid oes yr awgrym lleiaf yn yr hanes fod meibion Dan yn gweithredu o dan gyfarwyddyd gwirioneddol yr Arglwydd yn yr ymgyrch hwn, na bod y Beibl yn rhoi un math o nodded dros y drafodaeth o gwbl. Yn hytrach ymddengys eu bod yn gweithredu yn fympwyol a chreulawn. Nid ydyw moesoldeb y weithred o gymeryd Laïs yn gorwedd yn hollol ar yr un tir a moesoldeb gwaith Israel yn gorchfygu y Canaaneaid. Ond dylid cofio mai cael eu gyru i'r mynyddoedd gan yr Amoriaid (pen. i. 34), ac, feallai, gan y Philistiaid, yr oedd y Daniaid; ac felly os oedd rhan o'r llwyth yn meddianu lle drwy drais yn ngogledd y wlad, yr oedd hyny oherwydd fod y rhan arall o'r llwyth, o ddiffyg ffydd yn benaf, yn methu meddianu ei randir yn gyflawn yn neheudir y wlad. Yn y dyffryn oedd wrth Beth-rehob.—Darllener, **Yn y dyffryn a ymestyn hyd Beth-rehob.** Ystyr y gair a gyfieithir yma "dyffryn" ydyw dyffryn eang a amgylchynir gan fynyddau; yn ol yr Hebraeg, *Emek*—dyffryn, ac nid *Bikaiah*—gwastadedd. Y gair diweddaf hwn ydyw y gair arferol yn y Beibl yn wastad i ddynodi dyffryn mawr Coele-Syria (gwêl nodiad pen. iii. 3); a chan mai gair gwahanol sydd yma, aiff hyn yn mhell i brofi nad ydoedd Beth-rehob na Dan yn y dyffryn hwnw, fel y ceisia rhai esbonwyr eu rhoddi. Yn hytrach, etyb y desgrifiad hwn yn dda i ben uchaf dyffryn yr Iorddonen, i'r gogledd o Ddyfroedd Merom *(Huleh)*; ac felly ceir Laïs a Beth-rehob yn yr un dyffryn. Ystyr yr enw Rehob ydyw *llydan*; felly cytuna hyn yn dda â desgrifiad yr ysbïwyr (adn.

alwasant enw y ddinas Dan, yn ol enw Dan eu tad, yr hwn a anesid i Israel: er hyny Laïs *oedd* enw y ddinas ar y cyntaf.

---

10), fod y wlad "yn eang." Crybwyllir hi gyntaf dan yr enw Rehob, yn Num. xiii. 21, fel y pwynt eithaf yn y gogledd yr aeth yr ysbïwyr hyd ato wrth edrych y wlad—"o anialwch Sin hyd Rehob;" yr hyn oedd yn gyfystyr, y pryd hyny, â'r ymadrodd "o Dan hyd Beersebah," wedi hyny. Sonir am dani drachefn, hi a Zobah, Maacah, ac Istob, fel teyrnasoedd Syriaidd bychain, a gyflogasid gan yr Ammoniaid i ryfela yn erbyn Dafydd (2 Sam. x. 6—8). Yn gymaint a bod y Beth-rehob yma yn mhell o Sidon, rhaid gwahaniaethu rhyngddi â dwy dref o'r enw Rehob oeddynt yn rhandir Aser (Jos. xix. 28, 30; Barn. i. 31). Ond pa le yr oedd Beth-rebob? (1) Rhydd Robinson, Tristram, &c., hi yr un a *Hunin*, pentref bychan lle y ceir adfeilion un o'r hen amddiffynfëydd cadarnaf a hynotaf yn y wlad. Mae safle y lle ychydig i'r de-orllewin o, ac ar ystlys y mynydd, gyferbyn â Laïs (*Tell-el-Kadi*), a thua saith milldir i'r gogledd o Cedes-Naphtali (gwêl pen. iv. 6), ac y mae yn amlwg iddi fod unwaith yn un o brif amddiffynfëydd y wlad, yn y parthau hyn, gan ei bod uwchben cyrion uchaf dyffryn yr Iorddonen. Ni fedd *Hunin* unrhyw hanes cofnodedig, os nad Beth-rehob ydyw. Naddwyd y ddyfr-ffos sydd o amgylch yr amddiffynfa allan o'r graig; ac yn ei muriau ceir esiamplau o bob math o adeiladwaith, ar hyd yr oesoedd, o hen feini naddedig y Pheniciaid, bwäu y Rhufeiniaid, gwaith y Saraceniaid a'r Croesgadwyr, hyd y meini rhyddion a gyfodwyd, megis er doe, gan yr Arabiaid presenol er lloches i'r praidd. (2) Mae Conder, yn nghydag amryw ereill, yn rhoddi Beth-rehob yn mysg y lleoedd ag y mae eu lleoliad yn anhysbys. Etyb safle *Hunin*, fodd bynag, yn dda i'r desgrifiadau Beiblaidd o Beth-rehob, neu Rehob; ond rhaid gadael ei lleoliad yn un o'r dosbarth hwnw o gwestiynau a berthyn i ddaearyddiaeth Canaan a ystyrir yn gwestiynau agored. A hwy a adeiladasant ddinas.—Darllener, **adeiladasant y ddinas,** sef y ddinas a adeiladwyd ganddynt ar safle y ddinas a losgwyd. A hwy a alwasant enw y ddinas Dan.—Y prif anhawsder yn nglyn â'r enw Dan ydyw, Pa fodd y gelwid hi ar yr enw hwnw yn amser Abraham, gannoedd o flynyddoedd cyn hyny? (Gen. xiv. 14). Gwêl adn. 7. Ceisir cyfarfod yr anhawsder mewn amryw ffyrdd. (1) Fod dau le o'r enw Dan, ac mai nid y Dan yn yr adnod hon ydyw yr un yn Gen. xiv. 14. Golygir gan yr esbonwyr sydd yn coledd y syniad yma, fod y Dan hon lawer yn uwch i fyny y gogledd na'r safle a roddir iddi yn *Tell-el-Kadi*, wrth wreiddiau yr Iorddonen. Ond y mae hyn yn dra anhebygol, tra y mae Josephus (Hynaf. i. 10; viii. 8, 4; v. 3), yn cysylltu y Dan hon yn uniongyrchol â tharddleoedd yr Iorddonen; a Josephus a Jerome yn bendant mai yr un ydyw Dan y Daniaid a Dan Abraham. Hefyd yn mendith Moses ar y llwythau (Deut. xxxiii. 22) desgrifia Dan fel cenaw llew yn neidio o Basan, yr hyn sydd yn dra chywir fel desgrifiad o'r rhandir yma, a enillasant drwy eu cleddyf a'u bwa, yn mhen uchaf dyffryn yr Iorddonen; oblegid yr oedd Basan (*Hauran*) ar eu terfyn megis, mewn gair yr oeddynt "yn ystlys Basan." (2) Barna ereill fod yr ysgrifenydd yn Genesis mewn math o rag-ddisgwyliad prophwydoliaethol yn rhoddi yr enw Dan ar y lle ganrifoedd cyn i'r amgylchiad a roddes fod i'r enw gymeryd lle. Mae hyn yn dra annaturiol.

A meibion Dan a osodasant i fyny iddynt y ddelw gerf- 30
iedig: a Jonathan mab Gerson, mab Manasseh, efe a'i
feibion, fuant offeiriaid i lwyth Dan hyd ddydd caethgludiad

---

(3) Y dybiaeth arall, a'r fwyaf naturiol yn ddiau, ydyw, mai yr hen enw, Lesem neu Laïs, oedd yn yr ysgrif wreiddiol o'r hanes yn Gen. xiv. 14; ond pan y daeth yr enw newydd i fod, iddo gael ei newid gan yr adysgrifwyr i fod yn Dan.

30, 31. A osodasant i fyny.—Mor fuan ag yr adeiladwyd y ddinas, darfu i feibion Dan osod i fyny y ddelw gerfiedig—y *pesel* a ladratawyd ganddynt oddiar Micah. Jonathan (Rhodd Duw) mab Gersom, mab Manasseh.—Cytunir braidd yn unfryd, bellach, mai **Moses** sydd i'w ddarllen yn y fan hon, yn lle "Manasseh." Yn ol yr Hebraeg, ychwanegiad o un lythyren—y llythyren N, sydd yn troi y gair Moses i fod yn Manasseh; ac yn ol yr holl gopïau braidd, gosodir y llythyren N uwchben y llythyrenau ereill, fel hyn:—M. N S.H., yr hyn a awgryma mai ychwanegiad llaw ddiweddarach ydyw. Newidiwyd y gair, yn ddiamheu, er osgoi y gwaradwydd o fod ŵyr Moses y Deddfroddwr yn eilunaddolwr. Darlleniad y *Vulgate* ydyw *Moses;* ond y mae cyfieithiad y LXX., am fod ei awdwyr yn Iuddewon, yn darllen *Manasseh.* Cyfaddefa yr hen Rabiniaid mai mab Moses ydoedd o ran llinach, ond ei fod yn fab Manasseh o ran ei annuwioldeb. Profir anewyllysgarwch boreu i gydnabod y fath wrthgiliad yn nheulu Moses gan y ffaith fod y copïau boreuaf o'r LXX. yn cynwys y cyfnewidiad. Ond y mae y ffaith yn aros fod gan Moses fab yn Gersom (Exod. ii. 22; xviii. 3, 4; 1 Cron. xxiii. 15, 16; xxvi. 24), ac y mae bron yn sicr mai mab y Gersom hwnw yw yr offeiriad dirywiedig hwn. Llawer gwaith y ceisiwyd cuddio beiau olynwyr dinod rhag cymylu enwogrwydd eu henafiaid; a'r un egwyddor a ddaw i'r golwg yma. Hyd ddydd caethgludiad y wlad.—Coleddir amryw olygiadau gan esbonwyr ar yr adeg y cyfeirir ati yma. (1) Golyga rhai fod yr hanesydd yn cyfeirio yma at y caethgludiad i wlad Assyria, yn neillduol at gaethgludiad y llwythau gogleddol gan Tiglath Pileser (2 Bren. xv. 29; xvii. 6), ac felly rhoddant awduriaeth cymhariaethol ddiweddar—mor ddiweddar a dyddiau Ezrah—i Lyfr y Barnwyr; (2) Tybia ereill fod y geiriau yn ychwanegiad llaw ddiweddarach at yr hanes; (3) ereill, gyda llawer mwy o debygolrwydd, a gymerant y geiriau yn adn. 31—"yr holl ddyddiau y bu tŷ Dduw yn Siloh," fel eglurhad ar eiriau yr adnod hon, a deall felly ei bod yn cyfeirio at orchfygiad y wlad gan y Philistiaid, a chaethgludiad yr arch ymaith o dir Israel (1 Sam. iv). Y mae yn amlwg fod y ddwy adnod yn cyfeirio at yr un adeg, a bod y ffieidd-dra hwn wedi aros yn Dan hyd nes y syrthiodd yspryd edifeirwch ac ymostyngiad ar y genedl, ar ol y trychineb mawr a gymerth le, yr hwn a roddes derfyn ar addoliad Duw yn Siloh (1 Sam. v. 1; vii. 2). Yn nyddiau Josua, Eli a Samuel, yr oedd y tabernacl yn Siloh (Jos. xviii. 1; 1 Sam. i. 3; iii. 21; iv. 3); ond yn nyddiau Saul yr ydoedd yn Nob (1 Sam. xxi.), ac yn amser Dafydd yn Gibeon (1 Cron. xvi. 39; xxi. 29); felly bu "tŷ Dduw yn Siloh" hyd ddyddiau Samuel, a rhan o ddyddiau Saul; ac wedi ei symud oddiyno ni ddychwelwyd ef yno mwy. Y mae un ysgrif henafol yn *St. Petersburgh* yn darllen, yn lle "caethgludiad y wlad," *caethgludiad yr arch.* Ond nid ydyw yr ymadrodd yma, yn yr adnod hon, i Israeliad didwyll, yn golygu

31 y wlad. A hwy a osodasant i fyny iddynt y ddelw gerfiedig
a wnaethai Micah, yr holl ddyddiau y bu tŷ DDUW yn Siloh.

---

ond fod gogoniant y tir wedi myned ymaith pan gollwyd yr arch (1 Sam. iv. 22). **A hwy a osodasant i fyny iddynt y ddelw gerfiedig.**—Mae y gair "gosod i fyny" yn adn. 31, yn hollol wahanol i'r ymadrodd "gosod i fyny" yn adn. 30. Ystyr lythyrenol y geiriau ydyw, **a hwy** (y Daniaid) **a roddasant yn eu gofal** (sef yn ngofal meibion Jonathan, yr offeiriad) **y ddelw gerfiedig a wnaethai Micah, yr holl ddyddiau y bu ty Dduw yn Siloh.**

(2) Y TROSEDD FFIAIDD YN GIBEAH; Y RHYFEL YN ERBYN LLWYTH BENJAMIN FEL COSP AM Y TROSEDD; Y CYNLLUNIAU ER CADW Y LLWYTH RHAG DIFODIANT HOLLOL (pen. xix.—xxi.).

Y mae y nodiad amseryddol a geir yn yr adran hon (pen. xx. 28) yn profi i'r amgylchiadau hyn gymeryd lle yn fuan ar ol marwolaeth Josua, pryd yr oedd cyflwr y wlad yn neillduol o annyogel, a'r genedl heb na brenin na barnwr; a'r unig rwymyn o undeb, yn mysg y llwythau, oedd presenoldeb Phinees, yr hwn oedd yn gwasanaethu o flaen yr arch ac yn gofalu am yr oraclau Dwyfol.

Yn pen. xix. ceir hanes yr anfadwaith a gyflawnwyd gan breswylwyr Gibeah, yr hyn a achlysurodd ryfel cartrefol arswydlawn yn mysg y llwythau; yn pen. xx. ceir hanes y rhyfel ei hunan; ac yn pen. xxi. ceir hanes y cynlluniau a fabwysiadwyd er cadw llwyth Benjamin rhag cael ei lwyr ddifodi.

---

## PENOD XIX.

1 AC yn y dyddiau hyny, pan nad *oedd* frenin yn Israel,
yr oedd rhyw Lefiad yn aros yn ystlysau mynydd
Ephraim, ac efe a gymerodd iddo orddrch-wraig o Beth-
2 lehem Judah. A'i ordderch-wraig a buteiniodd yn ei
erbyn ef, ac a aeth ymaith oddi wrtho ef i dŷ ei thad i
Bethlehem Judah; ac yno y bu hi bedwar mis o ddyddiau.

---

(a) *Yr Ysgelerder a Gyflawnwyd yn Gibeah* (pen. xix. 1—30).

PEN. xix.—*1—4.—Lefiad o fynydd Ephraim yn myned i Bethlehem i gyrchu ei ordderch-wraig. 5—9.—Yn cychwyn adref nawn y pumed dydd. 10—15.—Yn cyrhaedd Gibeah lle nad oes neb yn ei groesawu. 16—21.—Hen wr o fynydd Ephraim yn cynyg llety iddo. 22—28.—Y Gibeoniaid yn gwneuthur cam â'i ordderch fel y bu hi farw. 29—30.—Yntau yn danfon rhanau o'i chorph i'r llwythau er eu cynhyrfu i ddial ei gam*

1—4. **Pan nad oedd brenin yn Israel.**—Gwêl nodiad, pen. xvii. 6. **Yn aros yn ystlysau mynydd Ephraim.**—

A'i gwr hi a gyfododd, ac a aeth ar ei hol, i ddywedyd yn 3
yn deg wrthi hi, *ac* i'w throi adref; a'i lanc *oedd* gydag
ef, a chwpl o asynod. A hi a'u dug ef i mewn i dŷ ei
thad: a phan welodd tad y llances ef, bu lawen ganddo
gyfarfod âg ef. A'i chwegrwn ef, tad y llances, a'i 4
daliodd ef *yno;* ac efe a dariodd gydag ef dridiau.
Felly bwytasant ac yfasant, a lletyasant yno. A'r ped- 5
werydd dydd y cyfodasant yn foreu; yntau a gyfododd i
fyned ymaith. A thad y llances a ddywedodd wrth ei
ddaw, Nertha dy galon â thamaid o fara, ac wedi hyny
ewch ymaith. A hwy a eisteddasant, ac a fwytasant ill 6
dau yn nghyd, ac a yfasant. A thad y llances a ddywed-
odd wrth y gwr, Bydd foddlawn, atolwg, ac aros dros
nos, a llawenyched dy galon. A phan gyfododd y gwr i 7
fyned ymaith, ei chwegrwn a fu daer arno: am hyny efe
a drodd ac a letyodd yno. Ac efe a gyfododd yn foreu y 8
pumed dydd i fyned ymaith. A thad y llances a ddywed-
odd, Cysura dy galon, atolwg. A hwy a drigasant hyd

---

Darllen y C.D., **Yr ochr bellaf i fynydd-dir Ephraim.** Mae y gair "aros" yn golygu byw y tuallan i ddinas Lefiaidd. Golyga "ystlysau" y parthau pellaf i gyfeiriad y gogledd, a'r parthau mwyaf neillduedig, o fynydd-dir Ephraim, efallai, yn nghymydogaethau Siloh. **A gymerodd iddo ordderch-wraig.**—Gwraig îs-raddol, ac er bod darpariaeth yn y gyfraith i oddef y fath briodasau, eto nid ydoedd iddi ragorfreintiau ond rhai îs-raddol. **A aeth ymaith . . . i dy ei thad.**—Nid ydyw hyn yn llefaru yn uchel iawn am foesoldeb y Lefiad hwn, na'i chwegrwn; canys yn ol y gyfraith yr oedd achos ei mynediad ymaith yn peri ei bod yn anghyfreithlon iddo ef ei derbyn yn ol (Deut. xxiv. 4). Hefyd, yn ol arferion cyffredin y Dwyrain, dylasai ei thad ei rhoddi hi i farwolaeth am ei phuteindra. **Bedwar mis o ddyddiau.**—Yn llytherenol, **dyddiau, pedwar mis**; yr ymadrodd cyntaf—dyddiau, yn air cyffredinol i ddesgrifio yr holl gyfnod; a'r ail yn cyfyngu y tymhor i bedwar mis o ddyddiau. Priod-ddull Hebreaidd ydyw o lefaru am amser anmhenodol. Mae yr hyn a ddywedir yma yn profi yn (1) fod y cysylltiad rhwng y Lefiad a'i ordderch-wraig yn un a gydnabyddid gan ei thad, ac yn un a oddefid gan y gyfraith; (2) a bod ymheddychiad wedi cymeryd lle rhwng y dyn a'i ordderch.

5—9. Er fod y lletygarwch a ddangosir yma yn hollol gydweddol âg arferion Dwyreiniol, eto y mae mor neillduol fel ag i ddangos awyddfryd y chwegrwn hwn i sicrhau ewyllys da ei fab-yn-nghyfraith, a thrwy hyny i sicrhau i'w ferch garedigrwydd oddiar ei law. Lleferir am eu harosiad yn y rhif lluosog; ond pan y mae ei chwegrwn yn ei gyfarch, gwna hyny yn y rhif unigol, i ddangos fod eu harosiad neu eu hymadawiad i gael ei benderfynu gan y Lefiad ei hunan. Eithr nid oedd perswadio arno yn hwy na'r pumed dydd. **A hwy a drigasant hyd brydnawn.**

9 brydnawn, ac a fwytasant ill dau. A phan gyfododd y
gwr i fyned ymaith, efe a'i ordderch, a'i lanc; ei
chwegrwn, tad y llances, a ddywedodd wrtho, Wele, yn
awr, y dydd a laesodd i hwyrhau; arhoswch dros nos,
atolwg: wele yr haul yn machludo; trig yma, fel y
llawenycho dy galon: a chodwch yn foreu yfory i'ch taith,
10 fel yr elych i'th babell. A'r gwr ni fynai aros dros nos;
eithr cyfododd, ac a aeth ymaith: a daeth hyd ar gyfer
Jebus, hon *yw* Jerusalem, a chydag ef gwpl o asynod
11 llwythog, a'i ordderch-wraig gydag ef. A phan *oeddynt*
hwy wrth Jebus, yr oedd y dydd ar ddarfod; a'r llanc a
ddywedodd wrth ei feistr, Tyred, atolwg, trown i ddinas
12 hon y Jebusiaid, a lletywn ynddi. A'i feistr a ddywedodd
wrtho, Ni thrown ni i ddinas estron nid *yw* o feibion Israel;
13 eithr nyni a awn hyd Gibeah. Ac efe a ddywedodd wrth

---

—Y mae y gair trigo, yn y frawddeg hon, yn air gwahanol i'r gair a ddarllenir "aros" yn adn. 6, a "thrigo" yn adn. 9, ac "aros" yn adn. 10, ac yn golygu *aros rhwng bodd ac anfodd.* Ceir yr un gair yn 2 Sam. xv. 28. **Ac a fwytasant ill dau.**—Yn y Dwyrain, yn gyffredin, ni fwyteir ond dau bryd rheolaidd yn y dydd; un o 10 i 12 yn y boreu, a'r llall tua 7 yn yr hwyr, ac ymddengys fod chwegrwn y Lefiad wedi gohirio y cyntaf hyd y prydnawn, gyda'r amcan o geisio perswadio ei fab-yn-nghyfraith i aros yn hwy. **Y dydd a laesodd i hwyrhau.**—Mae y geiriau hyn yn cyfleu yr ystyr yn rhagorol. Golygir fod nerth y dydd ar haner dydd; yna, fel y mae y goleuni a'r gwres yn dyfod yn llai, y mae y dydd yn gwanhau, neu yn llaesu "hyd yr hwyr," pryd y mae yn trengu. **Wele yr haul yn machludo.**—Golyga y geiriau *ddisgyniad neu blygiad y dydd, h.y.*, canol y prydnawn, yr adeg y byddai teithwyr, wedi teithio er toriad y dydd, yn pabellu, ac ni byddent, un amser, yn meddwl ail gychwyn i'w taith hyd dranoeth. Cofnodir y manylion hyn er dangos pa fodd y bu iddynt gychwyn i'w taith mor ddiweddar ar y dydd, yr hyn a fu yn achlysur y gyflafan ddilynol yn Gibeah.

10—14. **Ar gyfer Jebus (hon yw Jerusalem).**—Yr oedd Jebus tua chwe' milldir i'r gogledd o Bethlehem, a'r llwybr, tua Gibeah, yn pasio yr ochr orllewinol i'r ddinas; felly, priodol dyweyd "ar gyfer Jebus." Dyma hen enw Jerusalem; ond ni cheir ef, yn yr holl Feibl, ond yma ac yn 1 Cron. xi. 4, 5. Yr ymadrodd a ddefnyddir yma—"hon yw"—a geir, bob amser, pan ychwanegir enw diweddar unrhyw le at ei hen enw adnabyddus. Gwêl Gen. xxiii. 2; xxxv. 6; Jos. xv. 9, 60; 1 Sam. v. 7; Esth. ii. 7, &c. Deonglir y gair "Jebus" i olygu lle *sych, mathredig, llawr dyrnu,* ac oddiwrth hyn deonglir y gair "Jebusiaid" i olygu *y dyrnwyr.* Nis gellir penderfynu ai y lle a roddes enw ar y preswylwyr, ai y preswylwyr ar y lle. **Ni thrown ni i ddinas estron.**—Ofnai y Lefiad arferion y Canaaneaid eilunaddolgar, ac ni fynai ymgymysgu yn ddiangenrhaid â hwynt. Dangosir yma fod Jerusalem

ei lanc, Tyred, a nesawn i un o'r lleoedd hyn, i letya dros
nos, yn Gibeah, neu Ramah. Felly y cerddasant, ac yr 14
aethant: a'r haul a fachludodd arnynt wrth Gibeah *eiddo*

---

wedi ei hail-feddianu yn foreu gan y Canaaneaid. Y mae Keil yn egluro ac yn cysoni y cyfeiriadau a geir at Jerusalem yn Jos. xv. 63; Barn. i. 8, 21; 1 Sam. xvii. 54; 2 Sam. v. 6—10, fel y canlyn:—Lladdodd Josua frenin Jerusalem, yn nghyda phedwar o'i gyngrheiriaid, ar ol brwydr Gibeon, ond ni orchfygodd Jerusalem, ei brif-ddinas (Jos. x. 3, 18—26). Cymerwyd hi, yn mhen rhyw yspaid ar ol hyny gan lwyth Simeon a Judah (Barn. i. 8); ond er ei llosgi hi â thân, ni ddaeth yn feddiant hollol i'r Israeliaid; oblegid tra y bu meibion Judah a Simeon yn gorchfygu y Canaaneaid a breswylient "y mynydd," "y deheu," a'r "gwastadedd" (Barn. i. 9), darfu i'r Jebusiaid ei hail-feddianu a'i hail-adeiladu, fel, yn yr oes ganlynol, yr ystyrir hi "yn ddinas estron" (Barn. xix. 11, 12). Disgynodd Jerusalem, fel yr ymddengys, drwy goelbren i feibion Benjamin, ond nid oeddynt hwythau, mwy na meibion Judah, yn abl i yru y Jebusiaid ymaith ohoni; felly buont byw yno, gyda meibion Benjamin (Barn. i. 21), a meibion Judah (Jos. xv. 63), y rhai, yn nhreigliad amser, a ymsefydlasant yn Jerusalem, fel un o ddinasoedd terfyn eu hetifeddiaeth. Ond yr oedd y Jebusiaid wedi ymsefydlu mor ddiysgog, yn enwedig yn rhanau uwchaf y ddinas, ar fynydd Seion, fel nad allwyd eu gyru ymaith hyd nes y darfu i Dafydd gymeryd yr amddiffynfa a gwneyd Seion yn brif-ddinas ei deyrnas (2 Sam. v. 6). Gwel nodiad, pen. i. 8. Gibeah.—Gelwir hi yn adn. 14 yn "Gibeah eiddo Benjamin," i'w gwahaniaethu oddiwrth Gibeah yn mynydd-dir Judah (Jos. xv. 57). Gelwir hi hefyd yn 1 Sam. xv. 34, yn "Gibeah Saul;" ac yno, fel yma, cysylltir hi â Ramah. Gwêl 1 Sam. x. 26; xi. 4; xiii. 2, 15, 16; 2 Sam. xxi. 16. Ystyr y gair ydyw *tref ar fryn*, neu, *tref fynyddig*. Yr un modd ag y dengys y gair bryn neu fynydd, fel rhan o enwau lleoedd yn Nghymru, fod Cymru yn wlad fynyddig; felly y mae mynychrwydd yr enwau "Gibeon," "Gibeah," "Gibeath," a "Geba," yn y Beibl yn profi fod Canaan yn wlad fryniog a mynyddig. Mae amheuaeth o berthynas i leoliad Gibeah. (1) Tybia Conder mai nid enw ar dref neillduol ydoedd, eithr enw ar ranbarth o fryniau noethion yn rhandir Benjamin, i'r gogledd i Jerusalem, ac mai trefi yn y rhanbarth hwnw, drachefn, ydoedd Ramah a Gibeah, y ddiweddaf yma yr un a Geba *(Jeba)*, ac mai hono ydoedd Gibeah Saul. (2) Cymer Robinson, Tristram, ac ereill, olygiad gwahanol ar ei safle. Lleolant Gibeah yr un a bryn llawn o adfeilion, tua phedair milldir i'r dwyrain o Mizpah, a thua'r un pellder, neu ychydig yn ychwaneg, yn ol Josephus (Hynaf. v. 2), i'r gogledd o Jerusalem, gerllaw y ffordd sydd yn arwain i Sichem, o'r enw *Tuleil-el-Fûl*. Gellir casglu, modd bynag, oddiwrth yr hanes (1) ei bod yn ddinas gaerog, oblegid y mae yn anhawdd esbonio adn. 15, oddieithr ar y dybiaeth hono; (2) a'i bod yn rhy agos i Jerusalem i fod yr un a Geba, canys y mae holl dôn yr hanes yn ei rhoddi yn agos i Jerusalem; (3) a'i bod mewn lle nas gallasai ond un llwyth wneyd ymosodiad arni ar unwaith, ac ar graig, modd y gallai y meini a luchiai y Benjaminiaid wneuthur dinystr ar ei hymosodwyr, ac â hyn oll y mae y lleoliad yn *Tuleil-el-Fûl* yn cytuno. Neu Ramah.—Ychydig filldiroedd i fyny i'r gogledd-ddwyrain o Gibeah, yn ol y lleoliad diweddaf a grybwyllasom,

15 Benjamin. A hwy a droisant yno, i fyned i mewn i letya
i Gibeah. Ac efe a ddaeth i mewn, ac a eisteddodd yn
heol y ddinas: canys nid *oedd* neb a'u cymerai hwynt *i'w*
dŷ i letya.
16 Ac wele wr hen yn dyfod o'i waith o'r maes yn
yr hwyr; a'r gwr *oedd* o fynydd Ephraim, ond ei fod
ef yn ymdaith yn Gibeah; a gwŷr y lle hwnw *oedd* feibion
17 Jemini. Ac efe a ddyrchafodd ei lygaid, ac a ganfu wr
yn ymdaith yn heol y ddinas: a'r hen wr a ddywedodd, I
18 ba le yr äi di? ac o ba le y daethost? Yntau a ddywed-
odd wrtho, Tramwyo *yr ydym* ni o Bethlehem Judah, i ystlys
mynydd Ephraim, o'r lle y'm *henyw:* a mi a euthum hyd
Bethlehem Judah, a myned *yr ydwyf* i dŷ yr ARGLWYDD;

---

ar y ffordd sydd yn arwain i fyny i Sichem, y mae pentref presenol *Er-Ram*, ag sydd yn ol pob tebyg yn gorwedd ar safle yr hen Ramah, yr hon ydoedd, fel amryw ereill o drefi Benjamin, ar ben bryn uchel. Hi ydoedd Ramah Benjamin (Jos. xviii. 25), ac y mae ei phellder o Jerusalem tua phum' milldir (gwel nodiad, pen. iv. 5), yn cytuno yn dda â'r hyn a ddywed Eusebius, Jerome, a Josephus am safle Ramah yn eu dyddiau hwy, sef tua deugain ystad. A'r haul a fachludodd arnynt wrth Gibeah.—Dodir ymdaith y Lefiad yn fanwl, a theifl yr hanes fesur o oleuni ar safle y lleoedd a grybwyllir yn y daith. Cychwynodd y Lefiad, a'i fintai fechan, o Bethlehem yn y prydnawn, o ddau i dri o'r gloch; ac yn ol fel y teithia y Dwyreinwyr, gallasent fod wedi cyrhaedd "ar gyfer Jebus" yn mhen tua dwy awr—erbyn pump o'r gloch. Yn yr un yspaid o amser gallasent deithio yr un pellder i fyny i'r gogledd, heibio y ddinas, erbyn tua saith o'r gloch, a dyfod, erbyn hyny, i'r ffordd sydd yn myned o Jerusalem i Sichem. Gerllaw y ffordd yr oedd Gibeah, ac ychydig yn mhellach yr oedd Ramah, a rhwng y ddau le ymranai y ffordd, caine ohoni yn arwain ar y dde "i Gibeah yn y maes" (pen. xx. 31), yr un, fel y tybir, a Geba *(Jeba)*, a'r rhan arall ohoni—y brif-ffordd yn arwain i fyny drwy Bethel *(Beitin)* i Sichem. Yn y Dwyrain machluda yr haul i raddau yn sydyn, a chyda chyfnos byr; felly, erbyn eu bod wrth Gibeah troisant i fyned i lettya yno.

15—21. Ac efe a ddaeth i mewn.—Desgrifia y geiriau hyn ei fynediad i mewn drwy byrth y ddinas. Yn heol y ddinas.—Yn llythyrenol, **yn lle llydan y ddinas.** Cyfeiria at y lle agored—yr ysgwâr a geir yn mhob dinas Ddwyreiniol, lle gynt y gweinyddid barn, a'r lle yn bresenol y gwneir bargeinion ac yr ymgasgl prif ddynion y ddinas i gyfarch gwell i ddyeithriaid. Weithiau ceir y lleoedd hyn mor fuan ag yr eir i mewn drwy borth dinas; bryd arall, ac felly yma, dybygid, yn ei chanol. Pan y daeth yr angylion i Sodom yr oedd Lot yn eistedd yn mhorth y ddinas, a darfu iddo gynyg eu lletya (Gen. xix. 7, 2). Rhaid fod gwŷr Gibeah wedi gweled y dyeithriaid hyn; ond ni chynygiodd neb garedigrwydd iddynt. Nid oedd neb a'i cymerai hwynt i'w dy i letya.—Ystyr lythyrenol y gair "cymeryd" ydyw *casglu*, felly y

ac nid *oes* neb a'm derbyn i dŷ. Y mae *genym ni* wellt 19
ac ebran hefyd i'n hasynod; a bara hefyd a gwin i mi ac
i'th law-forwyn, ac i'r llanc *sydd* gyda'th weision: nid *oes*
eisieu dim. A'r hen wr a ddywedodd, Tangnefedd i ti: 20
bydded dy holl eisieu arnaf fi; yn unig na letya yn yr heol.
Felly efe a'i dug ef i mewn i'w dŷ, ac a borthodd yr 21
asynod: a hwy a olchasant eu traed, ac a fwytasant ac a
yfasant.

---

darllenir ef ar ymyl y ddalen, yn adn. 18. Cyfieithia y LXX. yr holl ymadrodd bron yn yr un geiriau a'r frawddeg ddiweddaf yn Matth. xxv. 35. Y mae yr adnodau o'r 16 hyd y 21 yn cyfleu y portreiad mwyaf tarawiadol o olygfa Ddwyreiniol; ac eto y mae y cymysgedd o garedigrwydd ac angharedigrwydd, y syndod a'r dyddordeb a deimlir mewn dyeithriaid, gan rai fyddo yn ddyeithriaid eu hunain, ac yn neillduol felly pan y trydd allan, fel yn y fan hon, fod y dyeithriaid yn dyfod o'r un parth o'r wlad a hwy eu hunain; y mae y pethau hyn mor naturiol fel y gallent ddigwydd unrhyw ddiwrnod, mewn unrhyw barth o'r byd. Yr unig gymwynaswr i ddyeithriaid yn Gibeah ydoedd ei hunan yn ddyeithr-ddyn ar ymdaith yn y lle. **Oedd feibion Jemini.**—Darllener, fel y Saesonaeg, **oeddynt feibion Benjamin.** Rhoddir hyn i mewn gan yr hanesydd er arwain i mewn yr amgylchiadau dilynol. **Ystlys mynydd Ephraim.**—Gwêl y darlleniad ar adn. 1. **A myned yr ydwyf i dy yr Arglwydd.**—Mae dau olygiad yn bosibl. (1) Y golygiad a gyflëir gan y darlleniad arferol ydyw, ei fod yn myned yn weithredol, y pryd hwnw, i wasanaethu yr Arglwydd yn ei ddydd-gylch yn y tabernacl yn Siloh, yr hwn oedd yn mynydd Ephraim (pen. xviii. 31; xxi. 19). Ond y mae awgrymiadau yn yr hanes mai myned i'w dŷ ei hun yr ydoedd (adn. 29). (2) Darllena rhai yr ymadrodd "myned i dŷ yr Arglwydd" yn yr ystyr o *rodio*, un ai *drwy* neu *yn nhŷ yr Arglwydd*, gan olygu ei waith yn gwasanaethu yr Arglwydd fel Lefiad, neu *rodio gyda'r Arglwydd*, gan ddeall y gair "rhodio" i olygu buchedd yn yr un ystyr a Job xxxi. 5; Salm i. 1. Os mai dyma y gwir ddarlleniad, dyru i'r holl frawddeg un o'r ddwy ystyr darawiadol a ganlyn:—*(a)* Un ai am ei fod yn Lefiad, yn un yn "myned i dŷ yr Arglwydd," ni fynai trigolion Gibeah ei letya—meibion Belial yn dirmygu gwasanaeth yr Arglwydd drwy ddiystyru un o'i weision; *(b)* neu gall rhediad y geiriau olygu, "er fod yr Arglwydd yn fy ystyried yn deilwng i'w wasanaethu, fel Lefiad, eto nid oes neb yn Gibeah a'm derbyn i dŷ." **Ac ebran.**—Mae y gair Hebraeg yn golygu porthiant cymysgedig o wahanol fathau. Cymharer Gen. xxiv. 25, 32; xlii. 27; xliii. 24. Ystyr y Cymraeg ydyw *eb-rhan*—ymborth meirch. **Gyda'th weision.**—Wrth arfer y geiriau hyn am dano ei hunan, ac am ei ordderch-wraig, dilyna y Lefiad yr arfer Ddwyreiniol pan yn llefaru wrth ddyeithriaid (Gen. xviii. 3; 1 Sam. i. 16; 2 Bren. iv. 16). Dichon fod yr hynafgwr yn awyddus am eu lletya gan ei fod yn gwybod cymeriad pobl y lle. **Olchasant eu traed.**—Dyru adn. 21 ddarlun byw o groesaw Dwyreiniol, ac nid rhan ddibwys ohono ydoedd golchi y traed. Gwêl Gen. xviii. 4; xix. 2; xxiv. 32; xliii. 24; Luc vii. 44; Ioan xii. 3; xiii. 5, 12, 14; 1 Tim. v. 10.

22 A phan oeddynt hwy yn llawenhau eu calon,
wele, gwŷr y ddinas, rhai o feibion Belial, a amgylchyn-
asant y tŷ, a gurasant y drws, ac a ddywedasant wrth
berchen y tŷ, *sef* yr hen wr, gan ddywedyd, Dwg allan y
23 gwr a ddaeth i mewn i'th dŷ, fel yr adnabyddom ef. A'r
gwr, perchen y tŷ, a aeth allan atynt, ac a ddywedodd
wrthynt, Nage, fy mrodyr, *nage,* atolwg, na wnewch mor
ddrygionus: gan i'r gwr hwn ddyfod i'm tŷ i, na wnewch
24 yr ysgelerder hyn. Wele fy merch, yr hon *sydd* forwyn, o'i
ordderch yntau; dygaf hwynt allan yn awr, a darostyng-
wch hwynt, a gwnewch iddynt yr hyn fyddo da yn eich

---

22—28. Gwyr y ddinas.—Y mae y desgrifiad bron yn llythyrenol yr un ag yn Gen. xix.; ac oherwydd fod ymddygiad a phechod gwŷr Gibeah yma yr un a'r eiddo y Sodomiaid yno, disgynodd ar y Benjaminiaid gospedigaeth, er nad o'r un natur, eto lawn mor arwyddocaol ag a weinyddwyd ar ddinasoedd y gwastadedd. Yr unig wahaniaeth ydoedd, fod yr holl Sodomiaid yn cymeryd rhan yn yr ysgelerder; tra mai pechod preswylwyr Gibeah ydoedd peidio atal meibion Belial oeddynt yn eu mysg. Portreiadir yma ddirywiad Israel yn y goleuni cryfaf. Meibion Belial.—Defnyddir y gair Belial yn yr Hen Destament, nid yn enw personol, eithr fel math o air yn desgrifio ansawdd, megis *diwerth, drygionus, anfad;* ac ar yr un pryd, yn ymyl bod yn air yn darlunio yr ansawdd hono wedi ei phersonoli. Ac erbyn cyrhaedd y Testament Newydd cymhwysir y gair at Satan fel personoliad o'r hyn oll sydd ddrygionus (2 Cor. vi. 15). Ystyr y gair yn y fan hon ydyw *dynion diwerth, dynion anfad, meibion y fall* (Deut. xiii. 13; 1 Sam. i. 16; ii. 12; x. 27; xxv. 17, 25; xxx. 22; 2 Sam. xvi. 7; xx. 1; 1 Bren. xxi. 10; 2 Cron. xiii. 7). A gurasant y drws.—Mae ffurf yr ymadrodd yn golygu curo parhaus a chynyddol. Ceisient yr un cais yn hollol a'r Sodomiaid (Gen. xix. 6), ac y mae yr un perswad yn cael ei arfer yma ag a arferir gan Lot, sef dadleu cysegredigrwydd deddfau lletygarwch—"gan i'r gŵr hwn ddyfod i'm tŷ i," &c. Ysgelerder.—Yr un gair a geir yn niwedd adn. 24, "mor ysgeler," ac a ddarllenir ar ymyl y ddalen, *mor ynfyd.* Defnyddir ef i osod allan y drygioni a'r halogrwydd mwyaf ffiaidd (Gen. xxxiv. 7; Deut. xxii. 21; Jos. vii. 15). Wele fy merch . . . a'i ordderch yntau.—Dengys hanes Lot (Gen. xix. 8), yn nghyda'r hanes hwn, mor wahanol ydoedd safle benyw yn yr hen fyd i'r hyn ydyw yn awr. Buasai y dyn a gynygiasai ei ferch, a gwraig ei gyfaill, i gael eu sarnu gan ddynion ffiaidd, er arbed ei hunan, yn cael ei warthnodi gan gymdeithas yn ngwledydd Cristionogol y byd! Yn hytrach, buasai dyn yn colli y dyferyn diweddaf o'i waed er amddiffyn ei ferch neu ei wraig. Cristionogaeth sydd wedi gwneyd yr holl wahaniaeth. Ond ni wrandawai y gwyr arno.—Awgryma Milton eu bod—

"O win a thrahâ yn llawn; yr echrydus nos
Yn Gibeah, pan y gwnai llettygar ddrws
Ddynoethi gwraig, er gochel trais oedd waeth."
*Coll Gwynfa,* Llyfr I., Llin. 605.

golwg: ond i'r gwr hwn na wnewch mor ysgeler. Ond 25
ni wrandawai y gwŷr arno: am hyny y gwr a ymaflodd
yn ei ordderch, ac a'i dug hi allan atynt hwy. A hwy a'i
hadnabuant hi, ac a wnaethant *gam* â hi yr holl nos hyd y
boreu: a phan gyfododd y wawr, hwy a'i gollyngasant hi
ymaith. Yna y wraig a ddaeth, pan ymddangosodd y 26
boreu, ac a syrthiodd wrth ddrws tŷ y gwr *yr oedd* ei har-
glwydd ynddo, hyd oleuni *y dydd.* A'i harglwydd a gy- 27
fododd y boreu, ac a agorodd ddrysau y tŷ, ac a aeth allan
i fyned i'w daith: ac wele ei ordderch-wraig ef wedi
cwympo wrth ddrws y tŷ, a'i dwy law ar y trothwy. Ac 28
efe a ddywedodd wrthi, Cyfod, fel yr elom ymaith. Ond
nid oedd yn ateb. Yna efe a'i cymerth hi ar yr asyn; a'r
gwr a gyfododd, ac a aeth ymaith i'w fangre.
A phan ddaeth i'w dŷ, efe a gymerth gyllell, ac a ymaflodd 29
yn ei ordderch, ac a'i darniodd hi *yn nghyd* â'i hesgyrn, yn
ddeuddeg darn, ac a'i hanfonodd hi i holl derfynau Israel.

---

Nid dychymyg farddonol, mae'n debyg, ydyw eu bod yn feddwon; canys benthycir meddwdod i gyflawni y troseddau ffieiddiaf. Y gwr a ymaflodd yn ei ordderch.—Rhaid, yn ol adn. 24, mai gŵr y tŷ a feddylir yma, yr hwn a gymerodd ordderch-wraig ei gyfaill, drwy ei gydsyniad wrth gwrs, ac a'i harweiniodd hi allan atynt hwy. Pan ymddangosodd y boreu.—Cyfeiria yr ymadrodd hwn at doriad cyntaf y wawr, a'r ymadrodd dilynol—"hyd oleuni y dydd," at gyfodiad yr haul. Ac a aeth allan i fyned i'w daith.—Nid yw hyn yn golygu ei fod yn ddifater am dani, na'i fod yn bwriadu myned ymaith heb wneyd ymchwiliad am dani; er, digon tebyg, ei fod wedi rhoddi i fyny feddwl ei chael yn ol o ddwylaw y fath fileiniaid aflan. Wedi cwympo wrth ddrws y ty, a'i dwylaw ar y trothwy.—Dyma un o'r cyffyrddiadau mwyaf pruddaidd yn yr hanes, ac yn ofnadwy o ddesgrifiadol. Mae yn amlwg, yn ol y geiriau hyn, iddi farw mewn canlyniad i'r driniaeth warthus a gafodd; ac yn pen. xx. 4, 5, mynegir yn bendant iddi gael ei llofruddio. Yna efe a'i cymerth hi ar yr asyn.—Y mae, ar hyn o bryd, yn cadw ei deimladau iddo ei hunan, gan gladdu ei feddyliau yn ei fynwes hyd nes y cyrhaeddodd adref. Gellir casglu beth oedd ei deimlad oddiwrth yr hyn sydd yn canlyn.

29, 30. Efe a gymerth gyllell.—Darllener **y gyllell**; gan gyfeirio at yr unig offeryn o'r fath yn y tŷ, yr hwn a ddefnyddid yn wastad i dori cyrph anifeiliaid a fwyteïd, neu a aberthid, ac nid at gyllell gyffredin—un allan o lawer o rai cyffelyb. Yr unig fanau ereill yn y Beibl lle y ceir y gair ydynt, Gen. xxii. 6, 10; Diar. xxx. 14. Ac a'i darniodd hi yn nghyd a'i hesgyrn.—Darllener *asgwrn am asgwrn,* neu yn ol y LXX., **yn ol yr esgyrn.** Cyfeiria y gair at y dull y torid i fyny gyrph y creaduriaid a offrymid yn ebyrth. Gwêl Exod. xxix. 17; Lef. i. 6; viii. 20; 1 Sam. xi. 7. Yr oedd danfon y darnau hyn, y rhai a ganlynid, bid sicr,

30 A phawb a'r a welodd *hyny*, a ddywedodd, Ni wnaethpwyd ac ni welwyd y fath beth, er y dydd y daeth meibion Israel o wlad yr Aipht, hyd y dydd hwn: ystyriwch ar hyny, ymgynghorwch, a thraethwch *eich meddwl.*

---

gan eglurhad llawn mewn geiriau ar yr holl amgylchiad, yn dwyn y trosedd o lofruddio y wraig o flaen llygaid yr holl genedl, ac yn eu gwysio i gospi y troseddwyr. Mae yn wir fod yma rywbeth ofnadwy yn y wys waedlyd hon; ond dylid cofio nad oedd na brenin na barnwr yn Israel ar y pryd, neb ond Phinees, yr hwn oedd yn sefyll gerbron yr Arglwydd yn y dyddiau hyny, ac yn niffyg llywodraeth ganolog, yr oedd yn angenrheidiol cael rhyw ddull fel hyn i gynhyrfu y genedl drwyddi. Ceir peth tebyg yn nyddiau Saul (1 Sam. xi. 7); ac yn mysg amryw genedloedd cyfarfyddir âg arferion cyffelyb, pan na bydd gweinyddiad rheolaidd o gyfiawnder, ac eto teimladau gwlad i gael eu henyn i ddial troseddau. Yn agos i Damascus, yn ddiweddar, darniwyd corph benyw, a danfonwyd y darnau oddiamgylch i holl lwythau yr anialwch, oherwydd iddi gyhuddo benyw arall o odineb ar gam, a thrwy hyny achlysuro marwolaeth yr un ddiniwed (Stanley's *Jewish Church*, Cyf. I., tudal. 256). A phawb a'r a welodd hyny.—Y mae ein cyfieithiad ni o adn. 30 yn darllen fel pe byddai y geiriau hyn wedi eu llefaru yn weithredol ar y pryd, yr hyn sydd anghyson â diwedd yr adnod, oblegid yno y mae y Lefiad yn eu gwahodd i ddyweyd eu meddyliau. Ond y mae rhediad y geiriau yn yr Hebraeg yn golygu (1) fod y Lefiad wedi danfon y darnau er mwyn cynyrchu y teimlad a'r siarad hwn yn mysg y llwythau; oherwydd fe ellir eu darllen i olygu, *a bydd i bawb a wel hyn ddywedyd, &c.*; (2) a bod y Lefiad mor sicr y cynyrchid y teimlad hwn, fel y mae yn ei ddodi bron yn y ffurf o ffaith wedi cymeryd lle, a dengys pen. xx. na siomwyd ef yn ei ddisgwyliad. Nodir yma y tri pheth sydd yn eisieu wrth roddi barn ar faterion pwysig, yn wladol neu grefyddol; yn gyntaf, "ystyried ar hyny," yna, "ymgynghori" yn bwyllog âg ereill, ac yn ddiweddaf, "traethu eu meddyliau" yn onest a diofn. Dyma y rheolau euraidd i bleidleisio ar bob achos.

---

## PENOD XX.

1 YNA holl feibion Israel a aethant allan; a'r gynulleidfa a ymgasglodd yn nghyd fel un dyn, o Dan hyd Beerseba,

---

(b) *Cospedigaeth y Trosedd* (pen. xx. 1—48).

Pen. xx. *1—7.—Y llwythau yn cydymgynull i Mispah a'r Lefiad yn adrodd ei gam ar gyhoedd. 8—11.—Y bobl yn cyfodi fel un gŵr i gospi Gibeah. 12—14.—Y Benjaminiaid yn cymeryd plaid Gibeah. 15—17.—Rhif y milwyr o bob ochr. 18—25.—Yr Israeliaid yn colli dwy frwydr. 26—28.—Addaw buddugoliaeth iddynt ar ol dydd o ympryd. 29—41.—Eu dyfais a'u llwyddiant. 42—48.—Dinystrio y Benjaminiaid oddieithr chwe' chant o wyr.*

1, 2. A'r gynulleidfa a ymgasglodd yn nghyd.—

a gwlad Gilead, at yr ARGLWYDD, i Mispah. A phenaeth- 2
iaid yr holl bobl, *o* holl lwythau Israel, a safasant yn
nghynulleidfa pobl DDUW; *sef* pedwar càn mil o wŷr

---

Golyga y gair a ddefnyddir yma, nid cynulliad cymysg, eithr cynulliad rheolaidd o gynulleidfa yr Arglwydd, wedi eu galw yn nghyd, fe ddichon, gan Phinees, a chan yr henuriaid fuant fyw ar ol Josua (pen. ii. 7), penaethiaid y bobl, neu yn ol y frawddeg Hebraeg, "conglau y bobl" (1 Sam. xiv. 38; Es. xix. 13; Zech. x. 4). Ceir y gair "ymgasglu" mewn cysylltiad â'r gair "cynulleidfa" yn Num. i. 18; viii. 9; xvi. 42; Lef. viii. 4; Jos. xviii. 1; xxii. 12. Ceir y gair "cynulleidfa," yn yr ystyr yma, tua 67 o weithiau yn Mhum' Llyfr Moses yn unig, a thua 30 o weithiau, gyda'r ychwanegiadau o "gynulleidfa Israel," neu "gynulleidfa meibion Israel," neu "gynulleidfa yr Arglwydd." A cheir yr un ymadrodd, un a'i heb neu gydag un neu arall o'r ychwanegiadau uchod, tua 13 o weithiau yn Llyfr Josua. Ni cheir y gair yn Llyfr y Barnwyr oddigerth yma ac yn pen. xxi. 10, 13, 16. Anfynych y ceir ef ar ol hyn, ac y mae ei ddefnyddiad, yn y fan hon, yn awgrymu fod y digwyddiadau hyn wedi cymeryd lle yn foreu. Digwydd yr un ymadrodd hefyd yn 1 Bren. viii. 5; xii. 20; 2 Cron. v. 6. **O Dan hyd Beerseba.**—(1) Tybia rhai nas gellir penderfynu oddiwrth hyn fod Dan (pen. xviii.) wedi ei sylfaenu y pryd hyn; nad oes yma ond awgrym fod hwn yn fath o ddywediad desgrifiadol o'r wlad yn nyddiau ysgrifenydd yr hanes, megis yn 1 Sam. iii. 20; 2 Sam. xvii. 11; xxiv. 2, 15; 1 Bren. iv. 25. (2) Ond y mae braidd yn sicr fod yma gyfeiriad at ymsefydliad y Daniaid yn Dan, ac at y ffaith fod y lle hwnw wedi dyfod yn bwynt eithaf gogledd y wlad; oblegid pan alwyd y llwythau yn nghyd, ychydig cyn hyny (Jos. xxii. 12), nid oes son am yr ymadrodd "o Dan hyd Beerseba." Ystyr y gair "Beerseba" ydyw *ffynon y llw*, neu *ffynon y saith*, nid saith ffynon, fel y tybia rhai, er fod yn y lle saith o ffynonau. Efallai fod cysylltiad rhwng y ddau ystyr, oherwydd y cadarnheid llwon yn gyffredin drwy aberthu saith aberth, neu drwy gyflwyno saith o anrhegion, neu wystlon, neu drwy bresenoldeb saith o dystion. Yr ydoedd yn un o'r lleoedd mwyaf nodedig yn hanes y wlad. Yma yr oedd pedwerydd gwersyllfan Abraham yn Ngwlad yr Addewid (Gen. xxi. 33), ac oddiyma y cychwynodd Jacob i Padanaram (Gen. xxviii. 10) ar ol cael y fendith, ac yma yr aberthodd pan ar gychwyn i'r Aipht (Gen. xlvi. 1); ac, ar ol concwest Canaan, cawn hi yn un o'r dinasoedd yn eithaf deheu Judah, a rhoddwyd hi i lwyth Simeon (Jos. xv. 28; xix. 2; 1 Cron. iv. 28). Yma y gwnaeth Samuel ei feibion yn farnwyr (1 Sam. viii. 2), ac yma yr eisteddodd Elias dan ferywen, ar ei ffordd i Horeb (1 Bren. xix 3). Gellir casglu oddiwrth Amos v. 5; viii. 14, fod y lle, yn gyffelyb i Bethel a Gilgal, wedi dyfod yn eisteddle eilun-addoliaeth. Gorwedd y lle tua 30 o filldiroedd i'r de-orllewin o Hebron—gwaith rhyw ddeuddeg awr o deithio. Ceir yno ffynonau o ddwfr peraidd, gyda chafnau i'r camelod a'r praidd i yfed ohonynt, ac olion hen adeiladau. Gelwir y lle yn bresenol *Bir-es-Seba*, y dynhesad agosaf sydd yn bosibl at yr hen enw. O'r darganfyddwyr diweddaf, y rhai cyntaf i ymweled â'r lle ydoedd Dr. Robinson, a'i gydymaith Dr. Eli Smith; ac o hyny i lawr hyd Palmer a Conder, y maent yn unfryd am y lleoliad. **A gwlad Gilead.**—Cyfeiria hyn at yr holl lwythau, y tu dwyreiniol i'r Iorddonen, ac awgryma nad ydoedd yr

3 traed yn tynu cleddyf. (A meibion Benjamin a glywsant
fyned o feibion Israel i Mispah.) Yna meibion Israel a
ddywedasant, Dywedwch, pa fodd y bu y drygioni hyn?
4 A'r gwr y Lefiad, gwr y wraig a laddesid, a atebodd ac a
ddywedodd, I Gibeah *eiddo* Benjamin y deuthum i, mi a'm

---

ymadrodd, "O Dan hyd Beerseba," yn cynwys y llwythau hyny. Dengys hefyd fod holl Israel, o bob tu i'r Iorddonen, gyda'r eithriad o Jabes Gilead, yn cydweithredu yn hyn. **Mispah.**—Am y gwahanol leoedd yn dwyn yr enw hwn, gwêl nodiad, pen. x. 17; xi. 11. (1) Mispah yn Benjamin yn ddiamheu y cyfeirir ati yma. Lleolir y lle yr un a *Neby Samwil*, safle uchel yr hwn (2933 o droedfeddi uwchlaw lefel y môr) sydd yn cyfreithloni ystyr ei enw, sef, *Tŵr gwyliadwriaeth.* Saif tua phedair milldir a haner i'r gogledd-orllewin o Jerusalem, a thua phedair milldir i'r gorllewin o Gibeah, os mai *Teleil-el-Ful* ydyw Gibeah. Cysyllta yr enw presenol ef, mewn modd tarawiadol, â'r prophwyd Samuel, ac yr oedd Mispah yn nghyda Bethel a Gilgal, y tair dinas y preswyliai Samuel ynddynt, ac yr ymwelai â hwynt yn ei gylchdaith fel barnwr ar Israel (1 Sam. vii. 6, 16). Yr ydoedd yn lle canolog rhwng llwyth Ephraim a Judah, ac heb fod nepell oddiwrth derfynau Dan. Nid ydyw yr ymadrodd "ymgasglu at yr Arglwydd" yn golygu presenoldeb yr arch a'r tabernacl, o angenrheidrwydd, yn Mispah; eithr eu bod yn ymgynull fel cynulleidfa yr Arglwydd, gan ddisgwyl ei bresenoldeb i gario allan ei ewyllys. (2) Tybia rhai mai at yr un Mispah y cyfeirir yma ag yn pen. x. 17; xi. 11; sef yr un ar y tu dwyreiniol i'r Iorddonen. Golygant y buasai yn anghyson ymgynull o fewn ychydig filldiroedd i Gibeah, ac o fewn terfynau rhandir Benjamin; a bod y gair "a meibion Benjamin a glywsant" (adn. 3), a'r cyfeiriad at "Gilead" (adn. 1), ac at "Jabes Gilead" (pen. xxi. 8), ac at "Siloh yr hon sydd yn ngwlad Canaan" (yn pen. xxi. 12), yn fwy cyson â'r dybiaeth mai tros yr Iorddonen yr oedd y Mispah yn yr adnod hon. Ond byddai hyny yn tynu yr hanes o'i gysylltiadau daearyddol yn hollol, ac nid ydyw y gair "y Benjaminiaid a glywsant," yn golygu dim ond iddynt glywed yn rheolaidd a swyddogol, ac nid yn ddamweiniol. **Pedwar can' mil o wyr.**—Yn nyddiau Moses yr oedd y nifer dros chwe' chan' mil (Num. i. 46; xxvi. 51). Gwir y dylid ychwanegu 26,700 o lwyth Benjamin (adn. 15) at y 400,000 yn y fan hon; er hyny y mae yma leihad. Gall fod y lleihad yn y nifer i'w briodoli i achosion naturiol, ac hefyd i'r ffaith eu bod gyda'u gilydd yn yr un gwersyll yn nyddiau Moses, ond fod yn rhaid iddynt ddyfod, o bob cŵr i'r wlad, yn yr adeg hon. **Yn tynu cleddyf.**—Cynulliad milwraidd ydoedd, ac y mae eu hagwedd barod, a'u nifer, yn dangos fod undod y genedl, y pryd hyny, heb gael ei wanhau gan ddirywiad ac adfeiliad, fel yn amser Gedeon. Yr oedd agosrwydd y lle i Gibeah yn fantais i gynulliad fel hwn, gyda'r amcan oedd ganddynt.

**3–7. A meibion Benjamin a glywsant.**—Tybia rhai na ddanfonasid atynt, a bod y darn o gorph yr ordderch-wraig wedi ei ddanfon i haner llwyth Manasseh, dros yr Iorddonen, ac nid iddynt hwy. Ond mwy naturiol meddwl eu bod wedi eu gwahodd i'r cynulliad fel ereill, eithr eu bod, yn ddiystyr, wedi gwrthod. **Dywedwch pa fodd y bu y drygioni hyn.**—Gwahoddiad i'r ddwyblaid—y Lefiad a'r Benjaminiaid—i ddyweyd yr achos, er nad oedd yn bresenol ond y Lefiad yn unig;

gordderch, i letya. A gwŷr Gibeah a gyfodasant i'm 5
herbyn, ac a amgylchynasant y tŷ yn fy erbyn liw nos, ac
a amcanasant fy lladd i; a threisiasant fy ngordderch, fel
y bu hi farw. A mi a ymaflais yn fy ngordderch, ac a'i 6
derniais hi, ac a'i hanfonais hi trwy holl wlad etifeddiaeth
Israel: canys gwnaethant ffieidd-dra ac ynfydrwydd yn
Israel. Wele, meibion Israel *ydych* chwi oll; moeswch 7
rhyngoch air a chyngor yma.

A'r holl bobl a gyfododd megis un gwr, gan ddy- 8
wedyd, Nac eled neb *ohonom* i'w babell, ac na throed
neb *ohonom* i'w dŷ. Ond yn awr, hyn *yw* y peth 9
a wnawn ni i Gibeah: *Nyni a awn i fyny* i'w herbyn

---

neu wahoddiad i holl lwythau Israel, y rhai oeddynt yn bresenol, i fynegi yr hyn a wyddent hwy am y gyflafan. Dyru y Lefiad adroddiad diaddurn o'r ffeithiau fel y cymerasant le, ac nid oedd eisieu namyn adroddiad noeth o'r amgylchiad i gynhyrfu y llwythau i ddial. Tebyg y cadarnhawyd ei adroddiad gan ei was, a chan yr hynafgwr o fynydd Ephraim. Gwyr Gibeah.—Yn llythyrenol, **arglwyddi Gibeah.** Yr un gair a "gwŷr Sichem" yn pen. ix. 2. Yn yr Hebraeg y mae trefniad adn. 5 ychydig yn wahanol i'r trefniad arferol. Dylai diweddnod fod ar ol y gair "nos" i ddybenu y frawddeg; ac felly gwneyd y cysylltair "ac" ar ei ol yn ddiangenrhaid, oherwydd fod dechreu brawddeg arall yn dilyn fel y canlyn: —**Myfi, hwy a amcanasant fy lladd i, a threisiasant fy ngordderch fel y bu hi farw.** Casglai y Lefiad eu hamcan i'w ladd oddiwrth yr hyn a wnaethant i'w wraig. Ffieidd-dra ac ynfydrwydd.—Yr oedd y rhai hyn yn ymadroddion penodol yn nghyfraith Moses i ddynodi troseddau arbenig y cysylltid marwolaeth â hwynt. Am ystyr y gair "ynfydrwydd," gwêl pen. xix. 23. Defnyddir y gair "ffieidd-dra" yn wastad i osod allan ddrygau yn cyfodi oddiar buteindra, megis llosgach, gwryw-gydiaeth, a thrais. Nid ydyw y gair i'w gael yn y Beibl ond yn Mhum' Llyfr Moses, ac yno cyfieithir ef "ysgelerder" (Lef. xviii. 17; xix. 29; xx. 14). Moeswch . . . air a chyngor.—Ymddengys fod hon yn frawddeg arferol pan y gofynid i gynulleidfa yr Arglwydd i wneyd eu meddyliau i fyny, a phasio barn ar fater pwysig; yn debyg i'r modd y gwahodda llywyddion unrhyw gynadledd y cynulliad i bleidleisio yn ffafr neu yn erbyn unrhyw gynygiad.

8—11. A'r holl bobl.—Ysgogir y gynulleidfa gan un teimlad; ac ymrwymasant i beidio a myned adref hyd oni ddielid yr ysgelerder yn Gibeah. Nac eled neb . . . i'w babell.—Daeth y gair "pabell" ar ol dyfodiad y genedl i Ganaan yn gyfystyr â phreswylfod (Salm cxxxii. 3; Es. xvi. 5). Na throed.—Ystyr gyntaf y gair ydyw *troi o'r neilldu o'r ffordd* (pen. xix. 11, 12); ond yma cyflea y syniad, os byddai iddynt fyned adref heb gospi y trosedd, y byddai yn wyriad oddiwrth ddyledswydd. Nyni a awn i fyny i'w herbyn wrth goelbren.—Y pum' gair cyntaf o'r frawddeg, er eu bod i'w cael yn y LXX., nid ydynt i'w cael yn y testyn Hebraeg. (1) Dealla rhai y frawddeg

10 wrth goelbren; A ni a gymerwn ddengwr o'r cant
trwy holl lwythau Israel, a chant o'r mil, a mil o'r
deng mil, i ddwyn lluniaeth i'r bobl; i wneuthur, pan
ddelont i Gibeah Benjamin, yn ol yr holl ffieidd-dra a
11 wnaethant hwy yn Israel. Felly yr ymgasglodd holl
wŷr Israel yn erbyn y ddinas yn gytun fel un gwr.
12 A llwythau Israel a anfonasant wŷr trwy holl lwythau
Benjamin gan ddywedyd, Beth *yw* y drygioni yma a wnaeth-

---

hebddynt, gan gymeryd y geiriau, "I'w herbyn hi drwy goelbren," yn ymadrodd cyflawn ynddo ei hunan, ac yn fynegiad bywiog o benderfyniad y bobl. (3) Ereill fod y geiriau wedi colli o'r Hebraeg drwy ddiofalwch yr adysgrifwyr, oherwydd tebygolrwydd y llythyrenau a wnant i fyny, yn yr iaith hono, yr ymadrodd "nyni a awn i fyny" *(na' alek)*, a'r ymadrodd "yn ei herbyn hi" *(aleka)*. Dadleua Keil a Bertheau dros y darlleniad Syriaeg, **Nyni a fwriwn goelbren arni hi,** *h.y.*, fel dinas wedi ei diofrydu i ddinystr, yn gyffelyb i un o ddinasoedd y Canaaneaid. Yn adn. 18 ceir hanes y bwriad hwn yn cael ei gario allan: a dengys y geiriau yno mai amcan y coelbren ydoedd dangos pa lwyth oedd i fyned i fyny gyntaf yn erbyn Gibeah. Dichon fod natur y lle o amgylch Gibeah yn gyfryw nas gallasai yr holl fyddin gydweithredu ar unwaith; neu eu bod yn bwrw coelbren i ochel pob dyryswch gyda rhanu yr yspail. Gwêl 1 Sam. xxx. 22—25. A nyni a gymerwn ddeng wr o'r cant.—Er mwyn galluogi yr holl fyddin i gadw y maes yr oedd yn rhaid apwyntio un gŵr o bob deg i ofalu am luniaeth i'r gweddill; yr hyn, ei hunan, a wnelai fyddin o 40,000. Dengys hyn fod Israel yn gyfarwydd â gweithrediadau milwraidd, a'u bod yn disgwyl i'r frwydr hon barhau dros yspaid o amser. Ystyr y gair Hebraeg a ddarllenir "lluniaeth" yn y fan hon ydyw *ymborth wedi ei gael drwy hela*, yr hyn a brawf mai yn y ffordd hono y ceid y rhan fwyaf o ymborth y genedl yn y cyfnodau boreuaf (Gen. xxvii. 3). Gweler yr un gair yn pen. vii. 8; xvii. 10. Yn gytun fel un gwr.—Dylid darllen, fel ar ymyl y ddalen, **Yn gyngreiriad fel un gwr.** Mae y gair "cynghreiriad" yn cryfhau yr ymadrodd "fel un gwr." Tybia rhai, oherwydd nad yw y gair i'w gael yn y LXX., mai ychwanegiad diweddarach ydyw. Ceir golwg ogoneddus yma ar gymeriad cenedlaethol Israel, yn ysgogi fel un gŵr; er heb son am na brenin na barnwr, dim ond eu cydwybod genedlaethol, yn cael ei symbylu gan gyfraith yr Arglwydd, fel ei deonglid gan yr aberthau, ac fel y corphorid hi yn ngwasanaeth achan archoffeiriad Duw, Phinees (adn. 28), ac y'i dysgid gan y tadau i'w plant yn eu pebyll a'u dinasoedd. Amlwg fod hen ddyddiau ardderchog Moses a Josua heb lwyr golli eu dylanwad ar y genedl. Mae adn. 11 yn dangos penderfyniad cynulleidfa yr Arglwydd i ddial y camwri yn Gibeah; ond y mae brawddeg ddiweddaf yr adnod yn hytrach yn rhagflaenu adroddiad naturiol yr hanes, oblegid, mewn gwirionedd, fe gymherth yr holl bethau a nodir, o adn. 12 hyd adn. 21 le, o ran trefn amseryddol, cyn cario allan y penderfyniad.

12—14. A anfonasant wyr.—Mae'n amlwg fod hyn wedi cymeryd lle cyn iddynt ymgasglu "fel un gŵr" yn erbyn y ddinas (adn. 11). Gellir cyfleu ystyr y berfau yn adn. 12 a 13 fel y canlyn:—*Yn awr*

pwyd yn eich mysg chwi? Ac yn awr rhoddwch y gwŷr, 13
meibion Belial, y rhai *sydd* yn Gibeah, fel y lladdom
hwynt, ac y dileom ddrygioni o Israel. Ond ni wrandawai
meibion Benjamin ar lais eu brodyr meibion Israel: Eithr 14
meibion Benjamin a ymgynullasant o'r dinasoedd i Gibeah,
i fyned allan i ryfel yn erbyn meibion Israel. A chyfrif- 15
wyd meibion Benjamin y dydd hwnw, o'r dinasoedd yn
chwe mil ar hugain o wŷr yn tynu cleddyf, heblaw trigol-
ion Gibeah, y rhai a gyfrifwyd yn saith gant o wŷr ethol-
edig. O'r holl bobl hyn *yr oedd* saith gant o wŷr ethol- 16
edig yn chwithig; pob un ohonynt a ergydiai â chareg
at y blewyn, heb fethu. Gwŷr Israel hefyd a gyfrifwyd, 17
heb law Benjamin, yn bedwar càn mil yn tynu cleddyf;
pawb ohonynt yn rhyfelwyr.

---

*yr oedd llwythau Israel wedi danfon gwyr, &c.*, ac y mae y ddwy adnod i'w deall fel rhwng cromfachau, ac yn eglurhad o adn. 14. **Holl lwythau Benjamin.**—Nid oes gan y darlleniad Seisnig ond "llwyth," eithr y mae y gair yn yr Hebraeg yn "llwythau," ac y mae hon yn un engraifft, allan o luaws, o ragoroldeb y cyfieithiad Cymreig o'r Hen Destament. Arferir y gair gan yr hanesydd yn yr un ystyr a "theuluoedd llwyth Benjamin" (1 Sam. ix. 21). **Fel y lladdom . . . ac y dileom.**—Cospedigaeth y gyfraith mewn amgylchiadau o'r fath ydoedd lladd (Deut. xvii. 12). Ystyr y ferf ddiweddaf ydyw dileu fel y dilëir cnawd braenedig drwy ei losgi. Yr oedd danfon fel hyn, cyn myned i ryfel, yn hollol gydfynedol â'r hyn a wnaed o'r blaen, pryd yr oedd Phinees, sydd yn awr yn archoffeiriad, yn un o'r cenhadon (Jos. xxii. 13). **Eithr meibion Benjamin.**—Yn hytrach, darllener, **A meibion Benjamin.** Mae adn. 14 yn cyfateb i adn. 11. Drwy wrthod cais y llwythau ereill yr oedd y Benjaminiaid yn noddi y troseddwyr, ac felly yn gorfodi y llwythau ereill i fyned i ryfel â hwynt.

15—17. **A chyfrifwyd meibion Benjamin.**—Yn y cyfrifiad cyntaf a wnaed yr oedd Benjamin yn 35,400 (Num. i. 36, 37); yn yr ail yr ydoedd yn 45,600 (Num. xxvi. 41); a'r pryd hwn nid oeddynt namyn 26,700. Nid oeddynt hwy, na'r holl genedl (adn. 2) y pryd hwn ond rhyw ddwy ran o dair o'r hyn oeddynt y tro diweddaf y cyfrifasid hwynt. Dengys hyn fod yr amseroedd yn rhai cynhyrfus a pheryglus, ac awgryma yr ymadrodd "o'r dinasoedd," yn yr adnod hon, ac yn adn. 14, 48; pen. xxi. 23, mai yn y dinasoedd yr oedd holl boblogaeth Benjamin yn byw, oherwydd fod y wlad agored, a'r pentrefi diamddiffyn, yn annyogel; a bod y Benjaminiaid yn cadw y Canaaneaid o dan warogaeth, drwy fyw yn y dinasoedd caerog, yn gyffelyb i'r modd y cadwai y Normaniaid y Sacsoniaid dan warogaeth drwy eu cestyll. **Chwe' mil ar hugain o wyr yn tynu cleddyf.**—Yn ol adn. 55, rhoddwyd y nifer a laddwyd yn 25,000; sef, 18,000 yn y lladdfa fawr; 5000 a loffwyd ar hyd y brif-ffordd; 2000 wrth eu herlid; y cyfan yn 25,000 (adn. 44—46), ac ni adawyd ohonynt ond y 600 a ddiangasant i graig Rimmon (adn. 47).

18 A meibion Israel a gyfodasant, ac a aethant i fyny
i dŷ DDUW, ac a ymgynghorasant â DUW, ac a ddy-
wedasant, Pwy ohonom ni a ä i fyny yn gyntaf i'r
gâd yn erbyn meibion Benjamin? A dywedodd yr
19 ARGLWYDD, Judah *a ä* yn gyntaf. A meibion Israel
a gyfodasant y boreu, ac a wersyllasant yn erbyn

---

Gellir rhoi cyfrif am y gwahaniaeth rhwng adn. 35 ac adn. 44—46, drwy ddyweyd fod adn. 35 yn rhoddi y rhifedi yn fanwl, tra na roddir ond y miloedd crynion yn unig yn yr adnodau ereill. Ond pa fodd y cysonir 25,100+600=25,700 (adn. 35, 44—46) gyda 26,700 (adn. 15)? Mae yma fil o wahaniaeth. (1) Darllena y LXX. a'r *Vulgate*, 25,000 yn adn. 15; felly cysonant drwy newid y darlleniad. (2) Ond dull Keil yw y mwyaf naturiol; sef nad ydyw adn. 44—46 yn dangos yr oll a laddwyd o lwyth Benjamin, namyn y rhai a laddwyd ar frwydr y trydydd dydd yn unig. Felly, er i'r Benjaminiaid fod yn fuddugwyr y dydd cyntaf, eto nid heb golli yn ddiamheu lawer o ddynion; a thybia efe y gellid, yn bur hawdd, feddwl eu bod wedi colli tua mil [o ddynion. **Saith gant o wyr etholedig yn chwithig.**—Ni ddylid cymysgu y rhai hyn â "gwŷr Gibeah." Ceir y gair a gyfieithir yma "chwithig" yn nglŷn âg Ehwd yn pen. iii. 15, a gellir ei ddeall, (1) un ai i olygu anallu yn cyfodi oddiar anaf; (2) neu ddeheurwydd mawr gyda'r llaw chwith, fel gyda'r ddeheulaw. Hawdd penderfynu yn ffafr yr ystyr ddiweddaf, yn y lle hwn, gan y buasai yn hollol annaturiol i feddwl fod 700 o rai anafus wedi eu casglu yn nghyd. Ceir crybwylliad hefyd am yr un peth yn nglŷn â'r Benjaminiaid yn 1 Cron. xii. 2. Cymhar. 1 Sam. xvii. 40, 49. **At y blewyn heb fethu.**—Darllen y *Vulgate, fel y gallent daraw blewyn;* ond yr ystyr yn ddiamheu ydyw y gallent anelu o fewn trwch y blewyn, fel y dywedir. Teilwng o sylw mai oddiwrth y gair Hebraeg a gyfieithir "methu," yn y fan hon, y tardd un o'r geiriau penaf a arferir yn y Beibl i ddynodi pechod.

**18, 19. Aethant i fyny i dy Dduw.**—Dylid darllen, **Aethant i fyny i Bethel.** Felly y darllen y LXX., y Syriaeg, y Galdeaeg, a'r Arabaeg. Mae yn amlwg oddiwrth adn. 26, 27, y cyfeiria y gair "yno," yn yr adnodau hyny, at le neillduol, a diau mai at Bethel y cyfeiria yn y lleoedd hyny, yn gystal ag yn adn. 31, a pen. xxi. 19. (1) Rhaid deall fod y gair Bethel yma yn cyfeirio, nid at y lle o'r enw hwnw, eithr at y tabernacl ei hunan; (2) neu fod y tabernacl, ar ol cael ei symud unwaith i Mispah, er mwyn bod yn gyfleus i gynulleidfa yr Arglwydd (adn. 1), wedi ei symud, drachefn, i Bethel, allan o berygl y frwydr. Eto rhaid fod y lle y symudwyd ef yn nghymydogaeth Gibeah a'r frwydr, onide nis gallasent, yn ol adn. 19, 23, 26, fyned ol a blaen yno yr un diwrnod. Yn awr nid ydyw Bethel ond rhyw chwe' milltir o Gibeah, ac ychydig yn fwy na hyny i'r gogledd-ddwyrain o Mispah. Felly, rhaid i ni ddeall fod yr arch a'r tabernacl, y pryd hyn, yn cael eu symud o le i le, yn ol fel y byddai amgylchiadau yn galw, a'u bod yr adeg hon yn Bethel (1 Sam. x. 3). Anhawdd penderfynu paham yr ydoedd yno. Tybia rhai mai (1) er mwyn cael yr arch yn agos i faes y rhyfel (1 Sam. iv. 3; xiv. 18; 2 Sam. xi. 11); (2) ereill er mwyn ceisio cadw i fyny yr undeb cenedlaethol, ac enill

Gibeah. A gwŷr Israel a aethant allan i ryfel yn erbyn 20
Benjamin; a gwŷr Israel a ymosodasant i ymladd i'w
herbyn hwy wrth Gibeah. A meibion Benjamin a ddaeth- 21
ant allan o Gibeah, ac a ddifethasant o Israel y dwthwn
hwnw ddwy fil ar hugain o wŷr hyd lawr. A'r bobl gwŷr 22
Israel a ymgryfhasant, ac a ymosodasant drachefn i ym-
ladd, yn y lle yr ymosodasent ynddo y dydd cyntaf. (A 23
meibion Israel a aethent i fyny, ac a wylasent gerbron yr
ARGLWYDD hyd yr hwyr: ymgynghorasent hefyd â'r
ARGLWYDD, gan ddywedyd, A âf fi drachefn i ryfel yn
erbyn meibion Benjamin fy mrawd? A dywedasai yr
ARGLWYDD, Dos i fyny yn ei erbyn ef). A meibion Israel 24
a nesasant yn erbyn meibion Benjamin yr ail ddydd. A 25
Benjamin a aeth allan o Gibeah i'w herbyn hwythau yr ail

---

Benjamin yn ol; (3) er mwyn bod yn gyfleus ar gyfer y cynulliad mawr cenedlaethol yn Mispah. **Ymgynghorasant a Duw.**—Drwy Urim a Thummim, gan Phinees, o flaen yr arch, dybygid (Num. xxvii. 21; Barn. i. 1; xviii. 5; xx. 18, 23, 27; 1 Sam. x. 22; xiv. 37; xxii. 10; xxiii. 2; 1 Cron. xiv. 10). Golyga rhai mai ar ol penderfynu myned i ryfel y daethant i ymgynghori â'r Arglwydd; ac mai yr unig bwynt a roddasant o flaen Duw ydoedd, pwy o'r llwythau a äi i fyny gyntaf. Tybir, yn ol y golygiad hwn, pe buasent yn ymgynghori â Duw yn gynt, y buasai y canlyniadau yn wahanol. Ond llawer mwy naturiol ydyw y syniad fod yr ymgynghori hwn â Duw yn gyfamserol â rhanau cyntaf y benod. **A dywedodd yr Arglwydd, Judah a a i fyny yn gyntaf.**—I Dduw—*Elohim*—y rhoddwyd y gofyniad, ond yr Arglwydd—*Jehofah*—sydd yn ateb. Rhoddwyd y lle o anrhydedd a'r lle o berygl i lwyth Judah (pen. 1, 2).

**20, 21. Aethant allan i ryfel.**—Ymadrodd milwrol am drefnu ar gyfer brwydr (1 Sam. iv. 2; xvii. 2). **Hyd lawr.**—Golyga yr ymadrodd difetha nes eu rhoddi i orwedd ar y ddaear wedi eu lladd. Yr oedd Gibeah, fel y dengys ystyr ei henw, ar fryn, a holl fyddin Benjamin wedi llechu o fewn ei muriau; felly yr oedd ganddynt fantais ddirfawr ar yr ymosodwyr, gan eu bod yn gallu ymosod arnynt o'r tu ol i furiau, a hefyd ergydio ceryg i'w dinystrio fel y deuent i fyny y glynoedd culion o amgylch y ddinas. Tebyg, hefyd, fod Israel yn fŷr o arfau rhyfel, a'r lle mor anfanteisiol, fel nas gallai ond un llwyth ymladd ar unwaith. Lladdwyd o Israel 22,000.

**22—25.** Fel y ceir yn gyffredin yn nullwedd yr iaith Hebraeg o adrodd hanes, y mae adn. 22 wedi ei chyfleu allan o'i threfn amseryddol; oblegid y peth cyntaf a wnaethant ar ol dinystr y dydd cyntaf, ydoedd ymostwng gerbron yr Arglwydd (adn. 23) ac yna ymgryfhau (adn. 22). Gellid meddwl fod yma brawf o hunan hyder yr Israeliaid, eu bod yn ymosod yr ail ddydd yn y lle yr ymosodasent ynddo y dydd cyntaf. **Hyd yr hwyr.**—Yn ol rhediad yr hanes, ceir lle cryf i gasglu mai hyd hwyr dydd cyntaf y frwydr a olygir. Syrthiodd milwyr Judah i annhrefn yn

ddydd; a hwy a ddifethasant o feibion Israel eilwaith dair
mil ar bymtheg o wŷr hyd lawr: y rhai hyn oll oedd yn
tynu cleddyf.
26 Yna holl feibion Israel a'r holl bobl a aethant i fyny ac
a ddaethant i dŷ DDUW, ac a wylasant, ac a arhosasant
yno gerbron yr ARGLWYDD, ac a ymprydiasant y dwthwn
hwnw hyd yr hwyr, ac a offrymasant boeth-offrymau ac
27 offrymau hedd gerbron yr ARGLWYDD. A meibion Israel
a ymgynghorasant â'r ARGLWYDD (canys yno *yr oedd* arch
28 cyfamod DUW yn y dyddiau hyny; A Phinees mab Eleazar,
mab Aaron, oedd yn sefyll ger ei bron hi yn y dyddiau
hyny); gan ddywedyd, A chwanegaf fi mwyach fyned

---

gynar yn y dydd; daeth y Benjaminiaid o'u llochesau, ac a'u torasant i lawr pan yr oeddynt yn cilio; felly aethant hwythau i dreulio gweddill y dydd mewn ymostyngiad. Mae adn. 23 yn tybied presenoldeb yr arch a'r archoffeiriad. A af fi drachefn i ryfel?—Y mae hwn yn gwestiwn newydd; oblegid y cwestiwn mawr o'r blaen oedd, pwy a elai i fyny yn gyntaf. Efallai eu bod yn dechreu amheu, gan mor siomedig oeddynt yn herwydd y dinystr y dydd cyntaf. Yr ail ddydd.—Nid yr ail ddydd ar ol y dydd cyntaf, fel pe buasai y brwydrau wedi cymeryd lle ar ddau ddiwrnod olynol; eithr yr ail ddydd o frwydro, gan olygu cyfwng i ymbarotoi rhwng y ddwy frwydr. Lladdwyd o Israel yr ail ddydd 18,000; felly, yn y ddau ymosodiad, collasant 40,000—un ran o ddeg o'u holl nifer, a'r rhai hyny, nid yn bentrefwyr diamddiffyn, eithr oll yn "tynu cleddyf." A hyn oll wedi iddynt gael gorchymyn penodol gan Dduw i fyned i fyny!

26—28. A'r holl bobl.—Golyga yr ymadrodd hwn yr holl wŷr anarfog, y rhai ni chynwysid yn y rhai oedd yn tynu cleddyf, gyda'r holl rai analluog, megis yr hynafgwyr a'r gwragedd. Wylasant . . . arhosasant . . . ymprydiasant . . . offrymasant. Mae yn amlwg fod yr amgylchiadau blaenorol wedi dwyn y bobl i'w lle o ran eu hyspryd. Yn adn. 18 "ymgynghorasant â Duw" *(Elohim)*, a hyny yn unig o berthynas i bwy a elai i fyny yn gyntaf. Ar ol y frwydr gyntaf, a chael eu gorchfygu, ymgynghorasant gan wylo (adn. 23) â'r Arglwydd *(Jehofah)*—Duw cyfamod Israel. Eto nid oeddynt yn ddigon isel; canys yn adn. 22, dywedir eu bod yn "ymgryfhau" megis yn eu nerth eu hunain, a dywedodd yr Arglwydd wrthynt, heb addaw dim am y canlyniadau, "Dos i fyny." Ond yn awr y maent yn "ymprydio," yr hyn a ddengys fod calon y genedl yn plygu mewn ymostyngiad gerbron yr Arglwydd. Nid ydym yn darllen am "ymprydio" ac "offrymu" ar yr achlysuron blaenorol. Digwydda hyn yn fynych yn hanes eglwys Dduw; dechreua y farn "o dŷ Dduw," a cheryddir hi yn dost am bethau bychain yn nghyfrif y byd, er mwyn ei gwneyd yn offeryn cymwys yn llaw yr Arglwydd i gyflawni rhyw waith drosto. Perthynai yr ebyrth hyn i'r ddau ddosbarth—poeth-offrymau ac offrymau hedd. Cymharer pen. xxi. 4; Num. vii. 87, 88; 2 Sam. vi. 17. Nis gellid bwyta y poeth-offrymau;

allan i ryfel yn erbyn meibion Benjamin fy mrawd, neu a
beidiaf fi? A dywedodd yr ARGLWYDD, Ewch i fyny;
canys yfory y rhoddaf ef yn dy law di. Ac Israel a osod- 29
odd gynllwynwyr o amgylch Gibeah. A meibion Israel a 30
aethant i fyny yn erbyn meibion Benjamin y trydydd dydd,
ac a ymosodasant wrth Gibeah, fel cynt. A meibion 31
Benjamin a aethant allan yn erbyn y bobl; *a* thynwyd
hwynt oddiwrth y ddinas: a hwy a ddechreuasant daro
*rhai* o'r bobl yn archolledig, fel cynt, yn y prif-ffyrdd, o'r
rhai y mae y naill yn myned i fyny i dŷ DDUW, a'r llall i
Gibeah yn y maes, yn nghylch dengwr ar hugain o Israel.

---

ac er mwyn i'r gynulleidfa gael ymborth, ond yn benaf er mwyn gwneyd heddwch â Duw, neu yn offrymau diolch am drugareddau a dderbyniwyd, yr oedd yn angenrheidiol offrymu aberthau hedd. Am gyfraith y poeth-offrymau, y rhai a aberthid yn wastad wrth ddrws y tabernacl, o flaen yr Arglwydd gwêl Lef. i.; ac am yr hedd-offrymau gwêl Lef. iii.; vii. 11—21, 29—34. Dyma y lle cyntaf yn hanes y genedl y sonir am ymprydio, a dyma yr unig fan yn Llyfr y Barnwyr y ceir mynegiadau pendant am yr arch a'r tabernacl, yr offeiriaid a'r aberthau. **A Phinees mab Eleazar.**—Yr oedd Phinees yn gydoesydd â Josua; a dyru hyny yr amgylchiadau hyn o fewn cylch ugain mlynedd, mwy neu lai, ar ol marw Josua. Yr ydoedd yn ŵyr i Aaron (Exod. vi. 25), a hynododd ei hun pan yn dra ieuanc yn Sittim, yn achos ffieidd-dra Baal-Peor (Num. xxv. 7), ac addawyd y byddai yr offeiriadaeth yn parhau yn ei deulu ef yn dragywydd (Num. xxv. 10—13). Gwêl Num. xxxi. 6; Jos. xxii. 13—32; 1 Cron. ix. 20; Ezrah viii. 2; Salm. cvi. 30, 31. Yr oedd cryn wahaniaeth rhwng Phinees, ŵyr Aaron, a Jonathan, offeiriad Micah, ŵyr Moses. Gwêl nodiad pen. xviii. 30. **Yn y dyddiau hyny.**—Awgryma yr ymadrodd hwn mai am amser penodol yn unig yr oedd yr arch yn aros yn Bethel, nad yno yr oedd ei chartref; a dygir yr holl eiriau am yr arch, sydd rhwng cromfachau, yn adn. 27, 28, i mewn er egluro y cyfeiriad at ymgynghori â'r Arglwydd. **Yfory y rhoddaf ef yn dy law di.**—Nid oedd yr atebion blaenorol ond yn erchi iddynt fyned i fyny; ond yn awr, am y waith gyntaf, y mae yr atebiad yn addewid. Cymharer Jos. viii. 1.

**29—34. A aethant i fyny.**—Y mae yr Israeliaid yn ysgogi yn fwy gochelgar y tro hwn; ac, er dibynu mwy ar gymorth dwyfol, nid ydynt yn esgeuluso eu gwaith eu hunain. Dechreua yr adran hon gyda'r pwynt pwysicaf, sef y cynllwyn a osodwyd gan Israel oddiamgylch Gibeah. Desgrifir y cynllwyn yma yn hollol yr un fath a'r un gyda dinas Ai (Jos. viii. 2—13). Y mae sylwedd yr adroddiad, er braidd yn droellog, ac i raddau yn aneglur, fel y canlyn:—Darfu i fintai o filwyr Israel, wedi ymosod ar y ddinas am yspaid, gymeryd arnynt ffoi a chilio, ac felly ddenu y Benjaminiaid allan o'r ddinas i'w hymlid o'r tu faes i'r caerau. Tra yr oeddynt hwy yn gwneyd hyny, darfu i fintai arall o'r Israeliaid ruthro i mewn i'r ddinas, a lladd pob enaid a gafwyd ynddi; ac yn ol cynllun blaenorol, rhoddasant y ddinas ar dân, a'r mŵg hwnw yn dyrchafu i fyny oedd yn arwydd i'r Israeliaid ereill i "droi drachefn" (adn. 41) ar eu

32 A meibion Benjamin a ddywedasant, Cwympwyd hwynt
o'n blaen ni, fel ar y cyntaf. Ond meibion Israel a ddy-
wedasant, Ffown, fel y tynom hwynt oddiwrth y ddinas i'r
33 prif-ffyrdd. A holl wŷr Israel a gyfodasant o'u lle, ac a
fyddinasant yn Baal-tamar: a'r *sawl* a oedd *o* Israel yn
cynllwyn, a ddaeth allan o'u mangre, *sef* o weirgloddiau
34 Gibeah. A daeth yn erbyn Gibeah ddeng mil o wŷr
etholedig o holl Israel; a'r gâd a fu dost: ond ni wyddent

---

herlidwyr, y rhai, yn awr, a geisient ffoi "tua ffordd yr anialwch" (adn. 42), ond lladdwyd hwynt oll gan yr Israeliaid oddigerth y chwe' chant a ddiangasant i "graig Rimmon." **Fel cynt.**—Yn llythyrenol, **Fel dro ar ol tro.** Yr un darlleniad sydd i fod ar y frawddeg hefyd yn adn. 31. Amcan yr Israeliaid oedd denu y Benjaminiaid, a'u denu, yn ol adn. 31, ar hyd dwy ffordd, un yn arwain i "dŷ Dduw," sef i Bethel, a'r llall i "Gibeah yn y maes." Am safle "Gibeah yn y maes" (adn. 31), golyga rhai mai (1) Gibeah Saul ydyw, sef yr un ddinas ag y cyflawnwyd y gyflafan ynddi, a'r un ddinas ag yr oedd y frwydr bresenol ynddi; a bod y ffordd y cyfeirir ati yn arwain o faes y rhyfel i'r ddinas. (2) Tybia Conder nad oedd Gibeah yn dref o gwbl, namyn rhanbarth o wlad i'r gogledd o Jerusalem; felly ffordd yn arwain i gŵr o'r rhanbarth hwnw, yn ei farn ef, a feddylir yma. (3) Ond y dybiaeth fwyaf naturiol ydyw mai tref Geba (Jos. xxi. 17), ac a elwir yn awr *Jeba*, ydoedd. Ystyr y gair a ddarllenir yma "maes" ydyw *tir diwylliedig, tyfadwy*, mewn cyferbyniad i anialdir ar un llaw, neu dir cauedig mewn gardd, neu dref, ar y llaw arall. Yr hyn sydd yn cadarnhau y lleoliad hwn yn fawr ydyw, fod y ffordd sydd yn arwain i'r gogledd o Jerusalem, yn mhen tua milldir ar ol pasio *Teleil-el-Ful* (Gibeah, gwêl pen. xix. 12), yn fforchi yn ddwy, un gangen o'r ffordd yn rhedeg yn mlaen tua *Beitin* (Bethel), a'r llall yn troi ar y dde i *Jebah* (Gebah). Gan mai yr un ystyr sydd i'r gair "Gibeah" a Geba, dodir y naill yn lle y llall yn fynych. Gwneid yr ymosodiad hwn ar Gibeah o'r gogledd, wrth gwrs, gan mai yn y cyfeiriad hwnw yr oedd Bethel (adn. 18, 19, 26). **Baal-tamar.**—Ystyr y gair ydyw *lle y balmwydden.* Dodir yr ystyr yma yn fynych i'r gair "Baal." Dyma yr unig gyfeiriad at y lle yn y Beibl, ac y mae yn anhysbys. Tybia Stanley, fodd bynag, mai yma yr oedd "Palmwydden Deborah," yr hon oedd rhwng Ramah a Bethel. Gwel nodiad pen. iv. 5. **A ddaeth allan o'u mangre.**—Yn hytrach, **a ruthrasant allan o'u mangre**, sef *o weirgloddiau Gibeah.* Nid ydyw y gair a gyfieithir yma "gweirgloddiau," i'w gael yn unman arall yn y Beibl, a phair gryn betrusder i esbonwyr. Darllena rhai ef i olygu *lle noeth, agored;* ond byddai hwnw yn neillduol o anghyfaddas i osod cynllwyn. Dyru y LXX. ef yn enw ar le neillduol—*Maareh-Geba;* a thrwy gyfnewid llythyren ddiweddaf y gair cyfieitha y *Vulgate* ef i fod *y tu gorllewin i Gibeah.* Ond y cyfnewidiad lleiaf sydd yn bosibl, yn ffurf y gair, a'i gwnelai i olygu *ogofäu*, a thybia llawer mai dyna yr ystyr, ond fod ychydig gyfnewidiad yn nodau y llefariaid *(vowel points)*, yn yr iaith Hebraeg, wedi ei ddwyn i olygu "gweirgloddiau." **Deng mil o wyr.**—Dyma y crybwylliad cyntaf am nifer byddin Israel. Mor ychydig o rifedi a enillodd y frwydr yn y diwedd? Cymharer adn.

*fod* drwg yn agos atynt. A'r ARGLWYDD a darawodd 35
Benjamin o flaen Israel: a difethodd meibion Israel o'r
Benjaminiaid, y dwthwn hwnw, bùm mil ar hugain a
channwr; a'r rhai hyn oll yn tynu cleddyf. Felly meibion 36
Benjamin a welsant mai eu lladd yr oeddid: canys gwŷr
Israel a roddasant le i'r Benjaminiaid; oherwydd hyderu
yr oeddynt ar y cynllwynwyr, y rhai a osodasent yn ymyl
Gibeah. A'r cynllwynwyr a frysiasant, ac a ruthrasant ar 37
Gibeah: a'r cynllwynwyr a udganasant yn hirllaes, ac a
darawsant yr holl ddinas â min y cleddyf. Ac yr oedd 38
amser nodedig rhwng gwŷr Israel a'r cynllwynwyr; *sef*
peri ohonynt i fflam fawr *a* mwg ddyrchafu o'r ddinas.
A phan drodd gwŷr Israel *eu cefnau* yn y rhyfel, Benjamin 39
a ddechreuodd daro yn archolledig o wyr Israel yn nghylch
dengwr ar hugain: canys dywedasant, Diau gan daro eu
taro hwynt o'n blaen ni, fel yn y cyntaf. A phan ddech- 40
reuodd y fflam ddyrchafu o'r ddinas â cholofn o fwg, Ben-
jamin a edrychodd yn ei ol; ac wele fflam y ddinas yn

---

21, 25 â pen. vii. 2—7. Fod drwg yn agos atynt.—Yn hytrach, **yn cyffwrdd a hwynt.** Ceir yr un gair yn adn. 41, a dylai gael ei ddarllen yno fel ar ymyl y ddalen. Mae yn air neillduol o ddesgrifiadol.

35. A'r Arglwydd a darawodd.—Fel mewn lluaws o fanau ereill, ceir yma grynodeb o'r holl amgylchiadau i ddechreu, ac yna y manylion i ddilyn. Cymharer pen. xviii. 17—20; Jos. i. 12; iii. 2, 17; iv. 10, 11. Nid ydyw yr adnod hon ond crynodeb o'r holl frwydr a'i chanlyniadau; yna, o adn. 36 hyd adn. 46, ceir cyfres o frawddegau eglurhaol a desgrifiadol o fanylion y frwydr, y naill yn gysylltiol â'r llall, ac yn adn. 46 dychwela yr hanesydd at effeithiau y frwydr, y rhai a gyffyrddwyd ganddo yn adn. 35.

36-44.—Eu lladd yr oeddid.—Sef y Benjaminiaid yn canfod mai cael eu lladd yr oedd yr Israeliaid. Canys gwyr Israel.—Dylid darllen, **a gwyr Israel.** A ruthrasant ar Gibeah.—Yr un gair ag a geir yn pen. ix. 33. A udganasant yn hirllaes.—Yn llythyrenol, **a ymdaenasant allan.** Ymadrodd milwraidd tra nodedig. Am ei ystyr, gwel pen. iv. 6. A min y cleddyf.—Y mae yr ymadrodd hwn yn dynodi dinystr diarbed, a defnyddir ef, bob amser, yn hanes y rhyfeloedd gyda'r Canaaneaid a'r Amaleciaid, &c. Gwêl Gen. xxxiv. 26; Exod. xvii. 13; Num. xxi. 24; Jos. vi. 21. Ac yr oedd amser nodedig.—Yn ol yr Hebraeg, **A'r arwydd apwyntiedig ydoedd.** Y mae y geiriau o "Benjamin a ddechreuodd," &c., yn adn. 39 hyd ddiwedd adn. 40, i'w darllen fel pe byddent rhwng cromfachau, am mai brawddegau eglurhaol, heb fod yn gorwedd yn deg ar linyn yr hanes ydynt. Felly y mae y geiriau, "A phan drodd gwŷr Israel," yn nechreu adn. 39, yn cael eu cymeryd i fyny eilwaith yn y frawddeg, "Yna gwŷr Israel a droisant," yn nechreu adn. 41. Y fflam ddyrchafu.—Nid yr un

41 dyrchafu i'r nefoedd. Yna gwŷr Israel a droisant drachefn:
a gwŷr Benjamin a frawychasant: oherwydd hwy a gan-
42 fuant fod drwg *wedi* dyfod arnynt. Am hyny hwy a
droisant o flaen gwŷr Israel, tua ffordd yr anialwch: a'r
gâd a'u goddiweddodd hwynt: a'r rhai *a ddaethai* o'r
43 dinasoedd, yr oeddynt yn eu difetha yn eu canol. *Felly*
yr amgylchynasant y Benjaminiaid; erlidiasant hwynt, a
sathrasant hwynt yn hawdd hyd yn nghyfer Gibeah, tua
44 chodiad haul. A lladdwyd o Benjamin dair mil ar bymtheg

---

gair ydyw y gair a gyfieithir "fflam" yn nechreu adn. 40, a'r gair a gyfieithir felly yn ei diwedd, ac y mae yn amheus a ddylid cyfieithu y naill na'r llall ohonynt yn "fflam." Ystyr y gair cyntaf, yr hwn sydd, hefyd, yr un a'r gair a geir yn adn. 38, ydyw *dyrchafu i fyny*, a gellir cyfieithu yr holl frawddeg, **A phan ddechreuodd y cwmwl—colofn o fwg ddyrchafu i fyny o'r ddinas.** Ystyr y gair a gyfieithir "fflam" yn niwedd yr adnod, drachefn, ydyw *ysu i fyny yn llwyr;* felly golyga ddinystr llwyr yr holl ddinas. **Tua ffordd yr anialwch.**—Wrth yr "anialwch" yma y golygir, yn ddiamheu, yr anialwch a gyrhaeddai o Jericho i fryniau Bethel (Jos. viii. 15, 24; xvi. 1). Bwriadent felly, dybygid, groesi yr Iorddonen. Cymharer 1 Sam. xv. 23; xvii. 22; 2 Bren. xxv. 1—5; Jer. xxxix. 5. **A'r rhai a ddaethai o'r dinasoedd yr oeddynt yn eu difetha yn eu canol.**—Mae y geiriau hyn a chryn anhawsder yn perthyn iddynt. Deallir yr ymadrodd "yn eu canol" gan esbonwyr yn yr ystyron canlynol:—(1) Yr oeddynt (yr Israeliaid) yn eu difetha (y Benjaminiaid) yn eu canol, *h.y.*, yr Israeliaid yn difetha y Benjaminiaid yn nghanol y Benjaminiaid. (2) Yr Israeliaid yn difetha y Benjaminiaid "yn eu canol," *h.y.*, yn nghanol dinasoedd Israel—pa le bynag yr elent. (3) Darllena Keil yn lle "eu canol," "ei chanol," yn y rhif unigol, gan gyfeirio at ffordd yr anialwch—fod Israel yn lladd y Benjaminiaid ar ganol y ffordd, pan yn ffoi tua'r anialwch. Y cyntaf ydyw yr eglurhad mwyaf naturiol o lawer. Wrth "y rhai a ddaethai o'r dinasoedd," felly y golygir yr holl Benjaminiaid—y 26,000—"a gyfrifwyd o'r dinasoedd" (adn. 15), y rhai a ddaethant i gynorthwyo gwŷr Gibeah yn yr ymdrech, a'r rhai a laddwyd gan filwyr Israel yn nghanol eu dinasoedd eu hunain, a llosgwyd y dinasoedd â thân (adn. 48). "Y dinasoedd," o bosibl, oeddynt Anathoth, Ramah, Geba, Michmas, Migron, Bethel, Ai, &c., y rhai oll oeddynt yn gorwedd yn rhandir Benjamin, i'r gogledd a'r dwyrain o Gibeah, a'r rhai, oherwydd eu nifer, eu pwysigrwydd, a'u hagosrwydd at eu gilydd, a elwir yn pen. xxi. 23, "y dinasoedd." Dengys iaith, a chyfansoddiad y brawddegau, yn adn. 43, eu bod yn desgrifio, mewn dull barddonol, yr un peth ag a ddesgrifir yn adn. 42, mewn dull rhyddieithol; felly, bernir mai dyfyniad o gân filwrol, a ddefnyddiwyd gan yr hanesydd, ydyw. **A sathrasant hwynt.**—Defnyddir yr un ymadrodd am sathru gwinwryf a dyrnu ŷd (Jer. xlviii. 33; li. 33). **Yn hawdd.**—Ystyr yr ymadrodd Hebraeg ydyw *gorphwysfa* (Num. x. 33; Salm xcv. 11). Cyfieitha y LXX. ef yn enw ar le neillduol—*Menuchuh*. Darllena ereill, *lle bynag y gorphwysent*. Y meddwl, efallai, ydyw y sethrid hwynt lawr yn y dinasoedd lle y disgwylient gael gorphwysdra.

o wŷr: y rhai hyn oll *oedd* wŷr nerthol. A hwy a droisant, 45
ac a ffoisant tua'r anialwch i graig Rimmon. A'r *Israel-*
*iaid* a loffasant *o*honynt ar hyd y prif-ffyrdd, bùm mil o
wŷr: erlidiasant hefyd ar eu hol hwynt hyd Gidom, ac a
laddasant ohonynt ddwy fil o wŷr. A'r rhai oll a gwymp- 46
odd o Benjamin y dwthwn hwnw, oedd bùm mil ar hugain
o wŷr yn tynu cleddyf: hwynt oll *oedd* wŷr nerthol. Eto 47
chwe channwr a droisant, ac a ffoisant i'r anialwch i graig
Rimmon, ac a arhosasant yn nghraig Rimmon bedwar
mis. A gwŷr Israel a ddychwelasant ar feibion Benjamin, 48
ac a'u tarawsant hwy â min y cleddyf, yn ddyn *o bob* dinas,
ac yn anifail, a pheth bynag a gafwyd: yr holl ddinasoedd
hefyd a'r a gafwyd, a losgasant hwy â thân.

---

45, 46. **A hwy a droisant.**—Wedi eu llesteirio i gael noddfa yn eu dinasoedd, troes y Benjaminiaid i'r cyfeiriad y dechreuasant gyntaf ffoi iddo, sef "tua'r anialwch." **I graig Rimmon.**—Cydnabyddir yn gyffredinol mai lle a adnabyddir yn awr dan yr enw *Rummôn*, pentref ar gopa craig uchel, rhyw dair milldir a haner i'r dwyrain o Bethel, a thua dwy filldir i'r gogledd o *Et-Tell*, safle dybiedig hen ddinas Ai, ydyw y lle a ddynodir yma fel "craig Rimmon." Ymgyfyd y graig, ar fin y mynydd-dir, i uwchder mawr, gan fod yn weladwy am bellder mawr oddiamgylch, a bythod bychain y pentref fel yn glynu wrth ei hystlysau, ac wedi eu gwthio megis i'w hagenau, a disgyn, gyda disgyniad serth, i lawr i ddyffryn yr Iorddonen. Dywed Eusebius fod y lle yn adnabyddus, yn ei ddyddiau ef, dan yr enw *Remmon*, pymtheng milldir i'r gogledd o Jerusalem. Dylid gwahaniaethu rhwng y lle â Rimmon yn neheu Judah (Jos. xv. 32), a Rimmon yn Zabulon (Jos. xix. 13). Ystyr y gair Rimmon ydyw *Pomgranad.* **Gidom.**—Ni sonir am y lle yn unman arall yn y Beibl, felly y mae yn gwbl anhysbys, ond bernir ei fod rhwng Gibeah a Rimmon. **A loffasant.**—Ymadrodd ffigyrol, grymus, yn dangos mai yr hyn ydyw lloffa ambell i dywysen, yma ac acw, yn ei berthynas â'r cynhauaf, ydoedd y distryw ar "y prif-ffyrdd" yn ei berthynas â'r lladdfa fawr. "Y prif-ffyrdd" ydynt y rhai a nodir yn adn. 31. **A gwympodd . . . y dwthwn hwnw.**—Cyfyngir y nifer a laddwyd, y rhai a nodir yma, ac yn adn. 35, yn hollol at y rhai a laddwyd "y dwthwn hwnw." Am rifedi yr holl laddedigion, gwêl nodiadau, adn. 15.

47, 48. **Chwe' channwr.**—Cymharer 1 Sam. xiv. 2. **Ac a ffoisant i'r anialwch.**—Wedi iddynt ddistrywio holl fyddin Benjamin, oddieithr y rhai yn nghraig Rimmon, dychwelodd meibion Israel drwy wlad Benjamin, gan roddi i farwolaeth ddynion y dinasoedd, yn wŷr, gwragedd, a phlant, ac anifeiliaid y maes, a phob peth a ddeuai yn eu ffordd. Mewn gair, ymddygasant at Benjamin fel at y Canaaneaid (Deut. ii. 34), ac at Jericho (Jos. vi. 17, 21), a bu agos iddynt lwyr-ddifrodi llwyth cyfan allan o Israel. Triniwyd y llwyth yn hollol fel pe buasai dan farn, a chariwyd allan y ddedfryd i'r llythyren. Golyga rhai esbonwyr fod yma greulondeb eithafol wedi ei arfer, ereill fod y ffieidd-dra, yn ol yr hyn a

osodir allan yn Deut. xiii. 12—18, yn cyfreithloni y gospedigaeth. Ymddengys i hyn wneyd argraff ddofn ar feddwl y genedl, canys ceir y prophwyd Hoseah (Hos. ix. 9; x. 9), yn mhen canrifoedd, yn cyfeirio at yr amgylchiad; a'r pryd hyny, wedi cymaint o amser, gosodir y bai wrth ddrws Benjamin.

---

## PENOD XXI.

1 A GWYR Israel a dyngasant yn Mispah, gan ddywedyd,
Ni ddyry neb ohonom ei ferch i Benjaminiad yn wraig.
2 A daeth y bobl i dŷ Dduw, ac a arhosasant yno hyd yr
hwyr gerbron Duw, ac a ddyrchafasant eu llef, ac a
3 wylasant âg wylofain mawr: Ac a ddywedasant, O
Arglwydd Dduw Israel, paham y bu y peth hyn yn Israel,

---

(c) *Y Cynllun er cadw Llwyth Benjamin rhag cael ei Lwyr-golli o fysg y Llwythau* (pen. xxi. 1—25).

Pen. xxi.—*1—7.—Galar y bobl oherwydd dinystr llwyth Ephraim. 8—15.—Y cynllun o gael gwragedd iddynt o ferched Jabes Gilead. 16—25.—Cael gwragedd i'r gweddill ohonynt o fysg gwyryfon Siloh.*

1—4. Dichon fod cynulleidfa meibion Israel, er cael eu cymell i'r dialedd gan ffieidd-dra digyffelyb; eto, yn ngwyneb eu haflwyddiant, unwaith a dwywaith, wedi eu llywodraethu yn ormodol gan deimladau o ddïal personol, ac wedi cario y gospedigaeth yn rhy bell, nes yn mron diddymu un o lwythau cyfamodol yr Arglwydd. Cymeradwyai yr Arglwydd gospedigaeth Benjamin, ond nid y llwon a'r creulonderau a'i canlynent. Prin hefyd, dybygid, fod y genedl mewn sefyllfa briodol i fod yn offerynau i gario allan geryddon Duw. Tuagat fod yn offerynau cymhwys i weinyddu cospau yr Anfeidrol, dylai cenedl, yn gystal a phersonau unigol, fod mewn cyflwr uchel o sancteiddrwydd a thebygolrwydd i Dduw. Bu y dinystr hwn yn gyfwng pwysig yn hanes llwyth Benjamin, a threigla amser maith heibio cyn y cyfarfyddir â'r llwyth drachefn yn cymeryd unrhyw ran yn hanes y genedl. "Benjamin fychan" ydoedd ar y dechreu; ac yn awr, tra nad oes ond 600 o ddynion sengl o'r llwyth yn aros, a'r rhai hyny yn gorfod llechu mewn ymguddfan, am bedwar mis, y cwestiwn ydyw, Pa fodd i'w gadw rhag myned ar ddifancoll hollol? Yr anhawsder oedd y llw a wnaethid yn Mispah, canys "gwŷr Israel a dyngasant." Amlwg fod yr adnod gyntaf, o'r benod hon, yn cyfeirio at lw a wnaethpwyd yn Mispah yn adeg yr ymgynulliad cyntaf, ond na chofnodir mohono yn pen. xx. 1—9. Ar ol i'r Benjaminiaid wrthod cospi na rhoddi i fyny y Gibeaid, darfu i'r llwythau ereill wneuthur diofryd a melldith, drwy lw, o'r ddinas a'r llwyth. **A daeth y bobl i dy Dduw.**—Darllener, i **Bethel.** Gwêl nodiad, pen. xx. 18. Wedi terfyniad y rhyfel, ymgasglodd y bobl yn nghyd i ymostwng gerbron yr Arglwydd; ac ymddengys iddynt ymprydio hyd yr hwyr, ac wylo âg wylofain mawr. Ymddengys yr ymostyngiad yn ddwysach ac yn angerddolach, hyd yn nod na'r un diweddaf a nodir yn y

fel y byddai heddyw un llwyth yn eisieu yn Israel? A 4
thranoeth y bobl a fore-godasant, ac a adeiladasant yno
allor, ac a offrymasant boeth-offrymau ac offrymau hedd.
A meibion Israel a ddywedasant, Pwy o holl lwythau 5
Israel ni ddaeth i fyny gyda'r gynulleidfa at yr ARGLWYDD?
canys llw mawr oedd yn erbyn yr hwn ni ddelsai i fyny at
yr ARGLWYDD i Mispah, gan ddywedyd, Rhoddir ef i
farwolaeth yn ddiau. A meibion Israel a edifarhasant 6
oherwydd Benjamin eu brawd: a dywedasant, Torwyd
ymaith heddyw un llwyth o Israel: Beth a wnawn ni am 7
wragedd i'r rhai a adawyd, gan dyngu ohonom ni i'r
ARGLWYDD, na roddem iddynt *yr un* o'n merched ni yn
wragedd?

---

benod o'r blaen (pen. xx. 23, 26). Cymharer Ezrah iii. 12, 13. **O Arglwydd Dduw Israel.**—Mae mynychu y gair "Israel," mewn cysylltiad â'r teitl, "Arglwydd Dduw Israel," yn dra tharawiadol, ac yn profi yn amlwg eu bod yn dadleu yn hyderus addewidion a thrugareddau y cyfamod. Yr oedd yr enw "Israel" yn cyfleu ar unwaith y deuddeg llwyth, ac ni byddai yn Israel, os byddai un llwyth yn eisieu. Yr oedd cyfanrwydd teulu Jacob yn bwnc pwysig yn ngolwg ei ddisgynyddion, a thebyg fod y llwythau yn mhoethder eu nwyd, ar y cyntaf, wedi colli eu golwg ar hyny; felly yr oedd bod yn eisieu ar adeg yr ymgynulliad yn beth difrifol. Cymharer 1 Sam. xx. 8, 18, 25; xxv. 7. **Ac a adeiladasant yno allor.**—Paham yr oedd eisieu allor sydd yn fater nas gellir ei benderfynu. (1) Tyb yr esbonwyr hyny sydd yn dal nad oedd y tabernacl, y pryd hyn, wedi ei symud o Siloh, am y tro i Bethel, ydyw mai allor yn lle yr allor bres ydoedd, oherwydd fod hono, yn ol y golygiad hwn, yn y tabernacl yn Siloh. Adeiladodd Samuel (1 Sam. vii. 17) a Dafydd (2 Sam. xxiv. 25), bob un ei allor, heblaw yr allor oedd yn y tabernacl; a gwnaed yr un peth yn amser esgyniad Solomon, pryd yr oedd y tabernacl a'r allor bres yn Gibeon, a'r arch yn Jerusalem. Cymharer hefyd pen. vi. 24. Os mai dyma y gwir olygiad, buasai yn ddigon cydweddol â dull yr haneswyr Hebreig i dybied fod yr allor wedi ei hadeiladu yn pen. xx. 26, er mai yma y crybwyllir am dani. Ond prin, yn mhresenoldeb Phinees, a chyda'r wybodaeth sydd genym am ei eiddigedd mewn pethau o'r fath (Jos. xxi. 13—20), y gallwn dybied i hyn gael ei oddef yma. (2) Y golygiad arall ydyw, mai allor wedi ei hychwanegu at yr allor bres ydoedd, mewn canlyniad i rifedi anghyffredin aberthau yr holl gynulleidfa. Gwnaed peth tebyg yn adeg cysegriad y deml gan Solomon (1 Bren. viii. 64). Am yr offrymau, gwêl pen. xx. 26.

5—12. **A meibion Israel a ddywedasant.**—Mae cynllun yn ymgynyg iddynt, sef gwneyd i lw dilynol roddi ymwared iddynt oddiwrth ganlyniadau llw blaenorol. Dengys ffurf yr ymadrodd fod y syniad wedi eu taraw yn sydyn fel darganfyddiad. Yn adn. 6, 7, y rhai ydynt fel yn cael eu dwyn i mewn yn gyflenwadol, dangosir mai cydymdeimlad y llwythau â'u brawd Benjamin, a'u gofal rhag ei golli, a barodd

8 Dywedasant hefyd, Pa un o lwythau Israel ni ddaeth i
fyny at yr ARGLWYDD i Mispah? Ac wele, ni ddelsai neb
9 o Jabes Gilead i'r gwersyll, at y gynulleidfa. Canys y
bobl a gyfrifwyd; ac wele, nid *oedd* yno neb o drigolion
10 Jabes Gilead. A'r gynulleidfa a anfonasant yno ddeuddeng
mil o wŷr grymus; ac a orchymynasant iddynt, gan
ddywedyd, Ewch a tharêwch breswylwyr Jabes Gilead â
11 min y cleddyf, y gwragedd hefyd a'r plant. Dyma hefyd
y peth a wnewch chwi: Difethwch bob gwryw, a phob
12 gwraig a orweddodd gyda gwr. A hwy a gawsant yn
mhlith trigolion Jabes Gilead, bedwar cant o lancesau yn
wyryfon, y rhai nid adnabuasent wr trwy gyd-orwedd â
gwr: a dygasant hwynt i'r gwersyll i Siloh, yr hon *sydd*

---

iddynt feddwl am y cynllun hwn. Yna ceir y cwestiwn a ofynir yma (adn. 5), yn cael ei ofyn yn adn. 8, ar ol rhoddi y rheswm (adn. 6, 7), paham yr oedd eisieu ei ofyn. **Gyda'r gynulleidfa.**—Yn ein Beiblau, ceir dau air gwahanol yn cael eu cyfieithu "cynulleidfa," un yn cyfeirio yn benaf at *le* yr ymgynulliad, a'r llall at y *rhybudd* i alw y gynulleidfa yn nghyd. Cyfieitha y LXX. yn wastad, yn yr Hen Destament, y gair diweddaf hwn gyda'r un gair ag a ddefnyddir yn y Testament Newydd i ddynodi "eglwys." Y cyntaf sydd yn pen. xx. 1, a'r diweddaf yn y fan hon. **Canys llw mawr.**—Darllener, **y llw mawr.** Cyfeirir yma yn ddiau at ddedfrydu rhywbeth i ddinystr, drwy lw. Cedwid dedfryd marwolaeth at y troseddau mwyaf ysgeler (Ex. xxi. 12; xxxv. 2; Lef. xx. 9, 10; Num. i. 51). **Pa un o lwythau Israel?**—Dylid deall y gair "llwythau" yma fel yn yr ymadrodd "llwythau Benjamin" pen. xx. 12), neu ei ddeall yn gyfystyr â'r gair "tylwyth" neu "ddinas." **Ni ddelsai neb o Jabes Gilead.**—Gellir casglu oddiwrth adn. 9, eu bod wedi ail gyfrif y bobl a chael nad oedd neb o wŷr Jabes wedi d'od. Dyma y crybwylliad cyntaf am enw Jabes Gilead; ond y mae yn enwog yn hanes dilynol yr Hen Destament. Daeth yn hynod fel y lle a waredwyd gan Saul, pan y gwarchaewyd ar y ddinas gan Nahas, brenin yr Amoriaid (1 Sam. xi. 1—10), ac ad-dalwyd am y waredigaeth gan y trigolion, drwy iddynt ddwyn cyrph Saul a'i feibion, oddiar furiau Bethsean, i gael eu claddu yn Jabes Gilead (1 Sam. xxxi. 11—13; 2 Sam. ii. 5—7; xxi. 12—14). Ymddengys mai Jabes ydoedd prif dref y rhandir a berthynai i haner llwyth Manasseh, dros yr Iorddonen; a geilw Josephus hi yn brif-ddinas Gilead (Hynaf. vi. 5). Mae lleoliad y ddinas yn fater o amheuaeth; ond y mae yr hen enw yn aros ar geunant o'r enw *Wady-el-Yabis*, y tu dwyrain i'r Iorddonen, drwy yr hwn y rhed ffrwd barhaus o ddwfr i lawr, gan ymarllwys i'r Iorddonen ychydig i'r deheu o Bethsean. (Am safle Bethsean, gwêl pen. i. 27). Ar ben uwchaf y ceunant hwn, tua gwaith dwy awr o deithio (chwe' milldir) i'r dwyrain-ogledd o Pella, un o hen ddinasoedd Decapolis, a gwaith rhyw bedair awr o Bethsean, y mae hen adfeilion a elwir *Ed-Deir;* ac y mae Robinson yn bur hyderus mai y rhai hyny ydyw y cyfan sydd yn aros o adfeilion Jabes-Gilead. Etyb y lleoliad hwn yn dda i ddesgrifiad Eusebius a Jerome o'i safle. **Ddeuddeg mil o**

yn ngwlad Canaan. A'r holl gynulleidfa a anfonasant i 13
lefaru wrth feibion Benjamin, y rhai *oedd* yn nghraig
Rimmon, ac i gyhoeddi heddwch iddynt. A'r Benjamin- 14
iaid a ddychwelasant yr amser hwnw; a hwy a roddasant
iddynt hwy y gwragedd a gadwasent yn fyw o wragedd
Jabes Gilead: ond ni chawsant hwy ddigon felly. A'r 15
bobl a edifarhaodd dros Benjamin, oherwydd i'r ARGLWYDD
wneuthur rhwygiad yn llwythau Israel.
Yna henuriaid y gynulleidfa a ddywedasant, Beth a 16

---

wyr grymus.—Mil o bob llwyth, yn ol yr esiampl, yn Num. xxxi. 4, &c. Ewch a tharewch.—Gallem feddwl fod sel ac eiddigedd Phinees i'w ganfod yn y ddedfryd hon, yr hwn, er yn gyfiawn, ydoedd yn llymdost. Tybia rhai esbonwyr mai prin yr oedd y gyfraith yn gwarantu y gwaith hwn o eiddo y llwythau. Modd bynag, gallwn weled oddiwrth hyn fod cyfraith Moses, mewn cyfuniad o gyfiawnder a thynerwch, yn mhell o flaen y rhai y rhoddwyd hi iddynt; ond yr ydoedd yn dyst dystaw i'r gwirionedd, ac felly yn athraw parhaus at Grist (Gal. iii. 24). Difethwch bob gwryw.—Y mae ystyr y gair yn golygu neillduo i ddinystr hollol. Cymharer Num. xxxi. 17, 18. A hwy a gawsant . . . bedwar cant o lancesau.—Dealla rhai beirniaid yr ymadrodd i olygu mai pwrcasu eu rhyddhad oddiwrth y ddedfryd drwy ro'i y pedwar cant gwyryfon i fyny i'r Israeliaid a wnaeth gwŷr Jabes. Ond ni chyd-saif y syniad âg ystyr y gair "a gawsant," yn adn. 12, ac â'r gair "a gadwasant yn fyw" yn adn. 14. Yn ol geiriau yr Esgob Hall, ad-daliad tlawd i wyryfon Jabes, ar ol eu hyspeilio o dadau, mamau, brodyr a chyfeillion, ydoedd eu gorfodi i briodi estroniaid. Y fath drybini y mae llwon ac addunedau byrbwyll yn arwain dynion iddynt! Siloh, yr hon sydd yn ngwlad Canaan.—Tra y bu y 12,000 ar eu hynt yn Jabes Gilead, aeth "henuriaid y gynulleidfa" (adn. 16) i Siloh, oblegid mai yno yr oedd cartrefle yr arch a'r tabernacl. Nid oedd Bethel ond arosfan dros amser byr yn unig, gellid meddwl. Cymharer Jos. xviii. 1—10. Am leoliad Siloh, gwêl adn. 19. Y mae yr ymadrodd "yr hon sydd yn ngwlad Canaan," yn dangos cywirdeb mawr, fel cyferbyniad i Jabes, yr hon nid ydoedd yn ngwlad Canaan yn briodol, eithr yn Jabes-*yn-Gilead.* Cymharer Jos. xxi. 2; xxii. 9.

13—15. Ymheddychu a Benjamin.—Derbyniwyd y cenhadon hedd, yn ddiamheu, gyda llawenydd, gan weddill diangol llwyth Benjamin. Yr oedd y cynygiad hwn o wyryfon yn wragedd i ddwy ran o dair ohonynt yn wystl o heddwch a theimladau da. Cyfeiria yr ymadrodd, "ond ni chawsant hwy ddigon," yn amlwg at yr hyn sydd yn dilyn, sef y cynllun i gael ychwaneg. A'r bobl a edifarhaodd dros Benjamin.—Yn fwy cywir, **A'r bobl a dristaodd dros Benjamin.** Daw y nwydau cryfion, a'r teimladau sydyn a berthyn i'r cymeriad Dwyreiniol i'r golwg yn amlwg drwy yr holl hanes. Er eu bod yn credu fod y rhwygiad yn waith yr Arglwydd, fel yn 2 Sam. v. 20; vi. 8; eto yr oedd teimladau y llwythau ereill at Benjamin, erbyn hyn, yn wirioneddol agos.

16—18. Cynllun i gael gwragedd i'r gweddill.—Arweinir i mewn y cynllun a ddyfeisiwyd er cael gwragedd i'r dau can'

wnawn ni am wragedd i'r lleill, gan ddistrywio y gwragedd
17 o Benjamin? Dywedasant hefyd, *Rhaid yw bod* etifedd-
iaeth i'r rhai a ddiangodd o Benjamin, fel na ddilëer llwyth
18 allan o Israel. Ac ni allwn ni roddi iddynt wragedd o'n
merched ni: canys meibion Israel a dyngasant, gan
ddywedyd, Melldigedig *fyddo* yr hwn a roddo wraig i
19 Benjamin. Yna y dywedasant, Wele, *y mae* gwyl i'r
ARGLWYDD bob blwyddyn yn Siloh, o du y gogledd i
Bethel, tua chyfodiad haul i'r brif-ffordd y sydd yn myned

---

gweddill, gyda desgrifiad, cyffelyb i'r hyn sydd wedi ei ddangos o'r blaen, o bryder y llwythau am barhad Benjamin. Nid ydyw adn. 15, 16, 18, namyn ail-adroddiad, llythyrenol braidd, o adn. 6, 7. **Rhaid yw bod etifeddiaeth i'r rhai a ddiangodd o lwyth Benjamin.**—Y meddwl, dybygid, ydyw mai etifeddiaeth gweddill Benjamin ydoedd y rhandir a berthynai i'r llwyth. Dichon fod y cwestiwn wedi cyfodi, pa beth a wneid â thiriogaeth Benjamin, a rhai, o bosibl, yn cynyg ei rhanu yn mysg y llwythau ereill, a'i meddianu. Ond y penderfyniad oedd, mai eiddo y gweddill—y 600 a ddiangasant o lwyth Benjamin—oedd rhandir Benjamin. **Fel na ddileir llwyth allan o Israel.**—Darllener yr holl adnod, **Ac etifeddiaeth y gweddill fydd** (rhandir) **Benjamin**; (canys) **rhaid yw na ddileer llwyth allan o Israel.** Gellid meddwl fod yr ymadrodd diweddaf yn yr adnod yn cyfeirio at y gŵr a fyddai farw yn ddiblant yn Israel, a'r ddarpariaeth ar gyfer hyny (Deut. xxv. 5, 6). Rhag i deulu ddiflanu yr oedd darpariaeth neillduol, yr hon, er nad ydoedd yn unol â deddf gyffredin priodas, eto ydoedd yn derbyn cymeradwyaeth Duw. Os oedd y fath ofal rhag i deulu ddiflanu, pa faint mwy rhag i lwyth? **Canys meibion Israel a dyngasant.**—Yn y cynulliad yn Mispah, pen. xx. 1; xxi. 1. Cymharer y llw byrbwyll a wnaeth Saul (1 Sam. xiv. 24, 28, &c.), â'i waith yn tori y llw a wnaeth â'r Gibeoniaid yn 2 Sam. xxi. 2. Am dori llw, gwêl Ex. xx. 7; Ezec. xvii. 15—20.

19—25. **Wele, y mae gwyl i'r Arglwydd.**—Tardd y gair a ddarllenir "gwyl" yn y fan hon o wreiddyn sydd yn golygu dawnsio (2 Sam. vi. 14; Salm cl. 4. Tybia Josephus mai un o'r tair gwyl fawr genedlaethol a olygir yma; ond pa un ohonynt nid hawdd penderfynu. Y dybiaeth fwyaf naturiol ydyw mai y Pasg ydoedd; ond ceir rhai yn pleidio y syniad mai rhyw wyl leol berthynol i Siloh ydoedd, gyffelyb i'r ŵyl a'r aberth blynyddol o eiddo teulu Dafydd yn Methlehem (1 Sam. xx. 29). Oddiwrth 1 Sam. 1, 3, 21, gwyddom nad elai y bobl, yn yr amseroedd cynhyrfus hyny, ond unwaith yn y flwyddyn i fyny i Siloh; a thra naturiol ydyw meddwl mai y Pasg ydoedd yr adeg hono, pryd yr elai Joseph a Mair i Jerusalem (Luc ii. 4). Cymharer Exod. xxiii. 18, gyda pen. xxxiv. 25. Gwyddom hefyd mai y gwrywiaid yn unig a äent i fyny yr adeg hono; felly ni byddai ond merched Siloh yn unig yn bresenol yn yr wyl, a naturiol iddynt ddefnyddio yr achlysur, a'r wyl, yn adeg eu dawns-wleddoedd. **Bob blwyddyn yn Siloh.**—Darllener, **o flwyddyn i flwyddyn yn Siloh.** Nid oes odid i fan yn hanesiaeth y Beibl ag y mae ei *hanesiaeth* mor

i fyny o Bethel i Sichem, ac o du y deheu i Libanus. Am 20
hyny y gorchymynasant hwy i feibion Benjamin, gan
ddywedyd, Ewch a chynllwynwch yn y gwinllanoedd:
Edrychwch hefyd; ac wele, os merched Siloh a ddaw 21
allan i ddawnsio mewn dawnsiau; yna deuwch chwithau
allan o'r gwinllanoedd, a chipiwch i chwi bob un ei wraig
o ferched Siloh, ac ewch i wlad Benjamin. A phan ddelo 22
eu tadau neu eu brodyr hwynt i achwyn atom ni, yna y
dywedwn wrthynt, Byddwch dda iddynt er ein mwyn ni;
oblegid na chadwasom i bob un ei wraig yn y rhyfel: o
achos na roddasoch chwi *hwynt* iddynt y pryd hwn, *ni*

---

ddyddorol, a'i *leoliad* yn fwy sicr na Siloh. Ychydig i'r dde o'r ffordd sydd yn arwain i'r gogledd o Jerusalem i Sichem, rhyw ddeuddeng milldir i'r gogledd o Bethel, y mae adfeilion a elwir yn awr *Seilûn*, yr Arabaeg am y gair "Siloh," fel y ceir ef yn ei ffurf gyntefig, yn 1 Bren. xi. 29, "Y Siloniad." Nid oes yno bentref na phreswylwyr, dim ond adfeilion ar bob llaw, meini naddedig, a cholofnau drylliedig o henafiaeth mawr, blith draphlith âg olion adeiladau cymharol ddiweddar. Ar lethr bryn bychan, ychydig i'r deheu o'r adfeilion hyn, ceir olion yr hyn a dybir a fu yn synagog Iuddewig, wedi hyny, feallai, yn eglwys Gristionogol, ac yn ddilynol yn deml Fahometanaidd, a'r hon sydd bellach yn gwbl adfeiliedig. Wrth droed deheuol y bryn y mae adfeilion Siloh arno, y ceir teml fechan Fahometanaidd arall yn dwyn yr enw "Teml Gweision Duw," yr hyn, fe ddichon, sydd yn corphori y traddodiad am le y tabernacl. Yn ymyl y deml fechan hon y mae derwen hen—yr unig bren o'r fath yn yr holl gwmpasoedd, ac wedi crebachu gan henaint. O fewn ychydig i'r adfeilion ceir ffynon, gyda lle i ddyfrhau anifeiliaid; a thybir mai yn nghymydogaeth y ffynon yma y lladratäodd y Benjaminiaid y gwyryfon. Mae gwinllanoedd Siloh wedi hen ddiflanu, ond tebyg eu bod o amgylch y ffynon, ac yn agos i'r fan y mae lle yn dwyn yr enw *Merj-el-Aid*—"Gwaen y Wledd," yr hwn sydd, feallai, yn cyfeirio at yr amgylchiad. Y mae golwg adfeiliedig Siloh yn argraffu ei hunan gyda phrudd-der annileadwy ar feddwl y teithiwr. Mae iddi hanes dyddorol a phruddaidd. Yma y bu yr arch o ddyddiau Josua hyd Samuel (Jos. xviii. 10; Barn. xviii. 31; 1 Sam. iv. 3). Yma y rhanodd Josua y gweddill o'r wlad (Jos. xviii. 10; xix. 51), a syrthiodd Siloh i randir Ephraim (Jos. xvi. 5). Adgofir ni yma am Samuel, ei alwad i'w swydd, a'i ddygiad i fyny (1 Sam. ii. 20; iii. 1); marwolaeth Eli, a drygioni ei feibion (1 Sam. iv. 13—18). Yma yr oedd Ahiah y prophwyd yn byw yn amser Jereboam (1 Bren. xi. 29; xii. 15; xiv. 1); ond ar ol anwiredd meibion Eli, a cholli arch Duw, ymddengys fod y lle wedi suddo i adfeiliad hollol. Daeth yn esiampl nodedig o farn ddwyfol (Salm lxxviii. 60, 67; Jer. vii. 12; xxvi. 6), a dywed Jerome, yn y bedwaredd ganrif, ei bod yn berffaith adfeiliedig, a bu ei hadfeilion yn gladdedig o'r golwg hyd nes y darganfu Dr. Robinson y lle, yn y flwyddyn 1838. O du y gogledd i Bethel.—Mae y cyfeiriadau daearyddol at safle Siloh yn dra gwerthfawr tuagat fod yn sicr o'r lleoliad; ond anhawdd penderfynu pa fodd yr oedd eisieu hyny o gwbl y pryd hwnw. (1) Golyga rhai mai

23 byddwch chwi euog. A meibion Benjamin a wnaethant
felly; a chymerasant wragedd yn ol eu rhifedi, o'r rhai a
gipiasent, ac a oeddynt yn dawnsio: a hwy a aethant
ymaith, a dychwelasant i'w hetifeddiaeth, ac a adgyweir-
24 iasant y dinasoedd, ac a drigasant ynddynt. A meibion
Israel a ymadawsant oddiyno y pryd hwnw, bob un at ei
lwyth, ac at ei deulu; ac a aethant oddiyno bob un i'w

---

ychwanegiad yr hanesydd ydyw, pan yr oedd Siloh wedi myned yn anadnabyddus, fel y daeth ar ol hyny, yn gymaint felly fel nad oes ond crybwylliadau achlysurol am dani, rhyw ychydig iawn o weithiau, ar ol hyny (1 Bren. xi. 29; Jer. vii. 12, 14; xxvi. 6; xli. 5). (2) Tybia Keil fod y desgrifiad wedi ei ddodi i mewn er dangos mor gymwys ydoedd safle Siloh er eu galluogi i gario allan y cynllun cynygiedig. Cynhelid y wledd, dybygid, ychydig i'r dwyrain o'r ffordd a arweinia o Bethel i Siloh, ac yr oedd Bethel ar eithaf terfyn gogleddol Benjamin, felly nid ydoedd ond gorchwyl hawdd i'r Benjaminiaid ddianc gyda'r gwyryfon i'w terfynau eu hunain. Ac o du y deheu i Libanus.—Nid y mynydd enwog, o'r enw hwnw a olygir yma, eithr pentref a elwir yn awr *El-Lubban*, yn gorwedd ychydig i'r gorllewin o'r brif-ffordd sydd yn arwain o Jerusalem i *Nablus*, tuag wyth milldir i'r gogledd o Bethel, a thair milldir i'r gorllewin-ogledd o Siloh. Nid enwir y lle o gwbl ond yn y fan hon, ac enwir ef yma yn unig er pwyntio allan safle Siloh. Yn y gwinllanoedd.—Oddiwrth y gair "gwinllanoedd" awgryma rhai mai amser cynhauaf y gwinwydd ydoedd, ac felly mai gwyl y Pebyll oedd yr ŵyl hon. Y mae y desgrifiad o Siloh, yn adn. 19, wedi tori araeth yr henuriaid yn ei chanol. Dechreuodd araeth yr henuriaid yn adn. 19, a pharheir hi yn mlaen yn adn. 20, 21, 22. A chipiwch i chwi bob un ei wraig.—Ystyr y gair "cipio" ydyw dal a dwyn ymaith fel ysglyfaeth. Cymharer Salm x. 9. Gwel y darllenydd, cyfarwydd â hanesiaeth, gyffelybrwydd rhwng yr amgylchiad hwn â thrais y benywod Sabinaidd, yn hanes Rhufain (Dr. Liddell's *Rome* i. 8, 9); a'r chwedl ddyddorol yn nglŷn â Llyn y Morwynion, yn Hanes Cymru (Pennant's *Tours in Wales*, vol. ii. 287, New Edit.). Byddwch dda iddynt er ein mwyn ni.—Mae y testyn braidd yn amheus, a'r darlleniadau yn dra amrywiol yma. Ond yr unig ystyr ddealladwy ydyw yr un a gyfleir gan y darlleniad awdurdodedig. Aralleiria un y geiriau fel y canlyn:—Rhoddwch y gwyryfon hyn, nid yn unig i'r dynion hyn, ond i ni; canys rhaid i ni ddarpar gwraig i bob un ohonynt; ac nid ydym wedi cymeryd y llancesau hyn drwy unrhyw drais gwaeth na'u cipio ymaith o ganol eu dawns-wleddoedd. O achos na roddasoch chwi hwynt.—Mae y pwyslais ar y gair "chwi." Darllener, **Canys nid chwi a roddasoch** (eich merched) **iddynt; yna chwi a fyddech euog.** A meibion Israel a ymadawsant.—Ymadael o Siloh; y gwaith a'u galwasai yn nghyd wedi ei gyflawni, a dengys tôn yr adnod fod pob peth wedi ei gyflawni yn rheolaidd a chyfreithlon. Yn y dyddiau hyny nid oedd brenin yn Israel.—Diweddglöir y llyfr, gan yr hanesydd, gyda'r sylw hwn, yr hwn a fynychir ganddo (pen. xvii. 6; xviii. 1; xix. 1), er dangos pe buasai llywodraeth sefydlog yn y wlad na chymerasai pethau o'r fath hyn le; a

etifeddiaeth. Yn y dyddiau hyny nid *oedd* brenin yn 25
Israel: pob un a wnai yr hyn oedd uniawn yn ei olwg ei
hun.

---

hefyd, nid heb awgrym, yn nhôn y dywediad, o ddiolchgarwch yr ysgrifenydd, ei fod ef ei hun yn byw yn nghyfnod y frenhiniaeth. A dengys yr ysgelerder a'r gospedigaeth fod y cyfnod hwn yn gyfnod ag yr oedd nwydau yn cael eu ffordd, a theimladau yn rhedeg yn uchel. Mae cadwraeth y fath hanes—hanes ag yr oedd gan Israel gymaint i gywilyddio oddiwrtho, yn brawf tarawiadol o arolygiaeth ddwyfol gyda defnyddiau yr Ysgrythyr Lân. Nid ydyw gweithrediad tân a dwfr, oerni a gwres, anrhefn a thryblith, yn ngwaith y greadigaeth, er ei chymhwyso i fod yn gartref i ddyn, yn peri ei bod yn llai o waith Duw oherwydd hyny; felly nid ydyw y Beibl yn llai o Air Duw, oherwydd fod y dynion sanctaidd a'i hysgrifenasant wedi gwneyd defnydd o hen groniclau blaenorol, a'r rhai hyny yn cynwys llawer o hanesion, fel y rhai hyn, sydd yn ddigon i ferwino clustiau, a blino llygaid oesoedd diweddarach.

# MYNEGAI.


Abdon, 10, 109.
Abelmeholah, 68.
Abiezer, Abiezriad, Abiezriaid, 58—62.
Abimelech, 78—88.
Acco, 22.
Achzib, 22.
Achsah, 18.
Adoni-bezec, 15.
Ahiman, 17.
Alab, 22.
Acrabbim, 23.
Ajalon, 23, 109.
Amaleciaid, 36, 51, 109.
Ammoniaid, 36, 96.
Amoriaid, 22, 34, 92, 96.
Anac, 17, 19.
Aphic, 22.
Arad, 19.
Arnon, 97, 98.
Aroer, 100, 102.
Arumah, 86.
Ascalon, 19, 123.
Aser, 22, 52.
Astaroth; 28, 34.
Baal-berrith, 77, 79.
Baal-hermon, 33.
Baalim, 28.
Baal-tamar, 173.
Balac, 100.
Barac, 43—54.
Belial, 166.
Beerseba, 169, 170.
Beer, 82.
Benjaminiaid, 173-188.
Bethanath, 22.
Beth-bara, 69.
Bethel, 20, 42, 174, 182, 187.
Bethlehem (Judah), 146, 160.
Bethlehem (Zabulon), 109.
Beth-rehob, 157.
Bethsean, 20, 64, 68.
Bethsemes, 22, 23.
Beth-sittah, 68.
Bezec, 15.
Bochim, 25.
Cades, 97.
Caer-Arba, 16.
Camon, 90.
Canaaneaid, 15, 31, 33.
Carcor, 72.
Cedes Naphtali, 42, 45.
Cemos, 99.
Ceni, Ceneaid, 18, 44.
Ciriath-jearim, 153.
Ciriath-sepher, 17.
Cison, 43, 53.
Citron, 21, 22.
Cusan-risathaim, 35.
Dagon, 91, 138.
Dalilah, 133—137.
Dan, 22, 52, 148, 153, 158.
Debir, 17.
Deborah, 42—55.
Dodo, 89.
Dor, 21.
Ecron, 19, 32.
Edom, 49, 97, 98.
Eglon, 36.
Ehwd, 37—40.
Elon, 109.
En-haccore, 130.
Ephraim (llwyth), 143, 149, 160.
Ephraim (mynydd), 39, 143, 149, 160.
Estäol, 117, 149, 152.
Etam, 127.
Gaal, 83.
Garizim, 80.
Gaas, 27.
Gaza, 19, 56, 131—2, 138.
Gedeon, 57—77.
Gezer, 21.
Gibeah, 163, 164—173, 178, 179.
Gidom, 181.
Gilead, 65, 90, 92, 101, 169.
Gilgal, 25.
Hamath, 33.
Haroseth, 41, 44.
Hafoth-jair, 90.
Harod, 64.
Hazor, 41.

Heber, 44, 45.
Hebron, 16, 17, 133.
Helbah, 22.
Heres (mynydd), 23.
Hesbon, 98.
Hefiaid, 32, 34.
Hethiaid, 20, 33, 34.
Hormah, 19.
Ibleam, 21.
Ibsan, 109.
Iorddonen, 39, 70, 71, 97.
Ismaeliaid, 75.
Jabin, 41, 47.
Jabboc, 97.
Jabes, Gilead, 184.
Jael, 46, 47, 53.
Jahaz, 99.
Jair, 90.
Jebus, Jebusiaid, 19, 34, 167.
Jephthah, 94—108.
Jericho, 18, 37.
Jerusalem, 16, 20, 162.
Jether, 74.
Jezreel, 44, 62, 64.
Joas, 57, 62.
Jogbehah, 72.
Jonathan, 159.
Josua, 13, 26.
Jotham, 80—82.
Laïs, 151.
Lapidoth, 42.
Lehi, 129, 130.
Lefiad, 147, 160.
Libanus (mynydd), 33.
Libanus *(El-Lubban)*, 188.
Luz, 20.
Machir, 51.
Mahaneh-Dan, 117, 153.
Manasseh, 20, 58, 62, 101.
Manoah, 112—117.
Mäoniaid, 93.
Megiddo, 21, 52.
Meonenim, 86.
Meroz, 53.
Mesopotamia, 35.
Micah, 143—157.
Midian, 56, 64, 93.
Milo, 80, 82.
Minith, 102.
Mispah, 94, 170.
Moabiaid, 36, 97.
Moreh, 64.
Nahalol, 22.
Naphtali, 22, 41, 52.
Nazaread, 113, 136.
Nobah, 72.
Ophrah, 58, 75.
Oreb, 69, 70.
Othniel, 17, 35.
Penuel, 71, 72.
Pirathoniad, 109.
Phereziaid, 15, 34.
Philistiaid, 19, 32, 40, 111—140.
Phinees, 177.
Ramah, 42, 164.
Ramath-lehi, 129, 130.
Rehob, 22.
Reuben, 51, 52.
Rimmon, 181.
Saalbim, 23.
Salmon, 87.
Salmunnah, 71, 73.
Samson, 116—141.
Samgar, 40.
Samir, 89.
Seir, 49.
Seirath, 38, 39.
Sehon, 98, 99.
Sephath, 19.
Sererath, 68.
Sesai, 17.
Sichem, 78.
Sidon, Sidoniaid, 151, 157.
Siloh, 185, 186, 187.
Simeon, 15.
Sinai, 49.
Sisera, 41, 45, 46, 54.
Sorah, 112, 149, 152.
Sorec, 133.
Succoth, 70, 71.
Taanach, 21, 52.
Tabbath, 68.
Tabor, 43.
Talmai, 17.
Thebez, 88.
Timnath-heres, 27.
Timnath, 117.
Tob, 95.
Tola, 89.
Zabulon, 21, 43, 51, 52.
Zaanaim, 44.
Zebah, 71, 73.
Zebul, 85.
Zeeb, 69, 70.

LIBRARY
15
JUL
1976
UNIVERSITY
OF TORONTO

CAERNARFON:
ARGRAPHWYD GAN W. GWENLYN EVANS, 22, STRYD-Y-LLYN.

W. T. Powell.
15 Nantlle Terrace
Nantlle.
Penygroes. R.S.O.

003905314034

625003

DEC 06 1989

PLEASE DO NOT REMOVE
CARDS OR SLIPS FROM THIS POCKET

UNIVERSITY OF TORONTO LIBRARY

BS
1304
W455
1896
c.1
ROBA

UTL AT DOWNSVIEW
D RANGE BAY SHLF POS ITEM C
39 10 10 02 15 008 5